# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 30 Mai 2012**
**Wednesday, 30 May 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

26 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities

49 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Addysg
Welsh Conservatives Debate: Education

82 Dadl Plaid Cymru: Enwau Parth Lefel Uchaf
Plaid Cymru Debate: Top-level Domain Names

107 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Canser
Welsh Liberal Democrats Debate: National Cancer Delivery Plan

133 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

141 Dadl Fer: Blaenoriaeth i Blismona
Short Debate: Policing is a Priority


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
## Questions to the Minister for Education and Skills

### Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain

### Twenty-first Century Schools

***1. Mick Antoniw***: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn Rhondda Cynon Taf. OAQ(4)0143(ESK)*

***1. Mick Antoniw:** Will the Minister provide an update on the progression of the 21st Century Schools programme in Rhondda Cynon Taff. OAQ(4)0143(ESK)*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Officials are meeting with local authorities to discuss the next stage—strategic outline case—of the twenty-first century schools programme with the aim of identifying priority projects that are to be delivered in the first three years of the programme. Officials met with Rhondda Cynon Taf County Borough Council representatives last Wednesday, 23 May.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae swyddogion yn cael cyfarfodydd ag awdurdodau lleol i drafod y cam nesaf—-achos amlinellol strategol—y rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif ar hugain gyda'r nod o nodi prosiectau â blaenoriaeth sydd i'w cyflenwi yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen. Cafodd swyddogion gyfarfod â chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddydd Mercher diwethaf, 23 Mai.

**Mick Antoniw:** First, I congratulate you on the programme and on what it is achieving and on the hard work of your department and staff at Rhondda Cynon Taf. The importance of some of the projects is apparent, particularly Y Pant Comprehensive School and the Welsh school in Tonyrefail in my constituency, but could you assure us that we will be given periodic reports on the programme's progress?

**Mick Antoniw:** Yn gyntaf, hoffwn eich llongyfarch ar y rhaglen a'r hyn y mae'n ei gyflawni, ac am waith caled eich adran a staff yn Rhondda Cynon Taf. Mae pwysigrwydd rhai o'r prosiectau yn amlwg, yn enwedig Ysgol Gyfun Y Pant a'r ysgol Gymraeg yn Nhonyrefail yn fy etholaeth i, ond a allech ein sicrhau y byddwn yn cael adroddiadau cyfnodol ar gynnydd y rhaglen?

**Leighton Andrews:** I can tell my colleague the Member for Pontypridd that RCT's revised strategic outline programme is the largest outline programme of investment submitted to us, at a total cost of £160 million. Its programme covers the reorganisation of secondary provision phase 1 in Aberdare, Welsh-medium provision and, of course, Y Pant Comprehensive School. Primary school and further secondary school modernisation programmes are also included.

**Leighton Andrews:** Gallaf ddweud wrth fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, mai rhaglen amlinellol strategol ddiwygiedig Rhondda Cynon Taf yw'r rhaglen fuddsoddi amlinellol fwyaf a gyflwynwyd inni, gyda chyfanswm y gost yn £160 miliwn. Mae'r rhaglen yn rhoi sylw i gam 1 y broses o ad-drefnu'r ddarpariaeth uwchradd yn Aberdâr, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac, wrth gwrs, Ysgol Gyfun Y Pant. Mae hefyd yn cynnwys rhaglenni i foderneiddio ysgolion cynradd a mwy o ysgolion uwchradd.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** The development of the school

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Mae datblygu'r ystâd ysgolion ar

estate across the whole of South Wales Central is a vital ingredient to improving performance in schools. St Cyres School has had a long-running campaign to seek improvements and I believe that the plans have now been signed off. Can you confirm that all of the strands have been pulled together by the Welsh Government from local authorities and that the St Cyres development will now be able to proceed?

draws Canol De Cymru i gyd yn elfen hanfodol er mwyn gwella perfformiad mewn ysgolion. Mae Ysgol St Cyres wedi bod yn ymgyrchu ers amser maith i geisio sicrhau gwelliannau, ac rwyf yn credu bod y cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo erbyn hyn. A allwch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi dod â holl elfennau'r awdurdodau lleol ynghyd, ac y bydd y datblygiad yn St Cyres yn gallu symud ymlaen yn awr?

**Leighton Andrews:** I would be reluctant at this stage to get into the detail of a particular programme, but I am well aware of the plans for what I think is called the Penarth learning campus; St Cyres is part of that. I visited the school a few years ago to look at some of the challenges that it faced. We have had conversations over some time with the Vale of Glamorgan Council. I assume that that will still be a priority for that council and I would expect developments to move ahead.

**Leighton Andrews:** Byddwn yn gyndyn o sôn am fanylion rhaglen benodol ar hyn o bryd, ond rwyf yn ymwybodol iawn o'r cynlluniau ar gyfer yr hyn rwyf yn credu sy'n cael ei alw'n gampws dysgu Penarth; mae St Cyres yn rhan o hynny. Bûm yn ymweld â'r ysgol ychydig flynyddoedd yn ôl i edrych ar rai o'r heriau roedd yn eu hwynebu. Rydym wedi bod yn trafod hyn â Chyngor Bro Morgannwg ers tro. Rwyf yn cymryd yn ganiataol y bydd hynny'n dal yn flaenoriaeth i'r cyngor hwnnw, a byddwn yn disgwyl i'r datblygiadau symud ymlaen.

On the overall capital programme, it would have been helpful if our capital budgets had not been significantly reduced by the UK Government.

O ran y rhaglen gyfalaf gyffredinol, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe na bai ein cyllidebau cyfalaf wedi cael eu lleihau'n sylweddol gan Lywodraeth y DU.

**Astudio drwy Ddysgu o Bell**

**Distance Learning**

***2. David Melding:*** *Pa fesurau sydd ar waith i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio drwy ddysgu o bell. OAQ(4)0137(ESK)*

***2. David Melding:*** *What measures are in place to support students studying by distance learning. OAQ(4)0137(ESK)*

**Leighton Andrews:** From academic year 2012-13, Welsh full-time distance learning students, like their counterparts who attend the institutions in person, will have access to a non-means-tested tuition fee loan of up to £3,465 and the new fee grant of up to £5,535 to cover any additional amount of fee charged.

**Leighton Andrews:** O flwyddyn academaidd 2012-13 ymlaen bydd myfyrwyr dysgu o bell amser llawn yng Nghymru, yn yr un modd â myfyrwyr sy'n mynychu'r sefydliadau yn bersonol, yn gallu cael hyd at £3,465 o fenthyciad ffioedd dysgu nad yw'n dibynnu ar brawf modd, a hyd at £5,535 o grant ffioedd newydd i dalu unrhyw ffioedd ychwanegol a godir.

**David Melding:** Earlier this month, I had the honour of attending the Open University's graduation ceremony at St David's Hall. Many of the graduates studied for their degrees while holding down full-time jobs. Have you had any discussions with your Cabinet colleagues on how the public sector can support such students and, indeed, how

**David Melding:** Yn gynharach y mis hwn, cefais y fraint o fynd i seremoni raddio'r Brifysgol Agored yn Neuadd Dewi Sant. Roedd llawer o'r graddedigion wedi bod yn astudio ar gyfer eu gradd ac yn gweithio mewn swyddi amser llawn ar yr un pryd. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch sut

gaining these extra skills can be utilised to the benefit of the whole economy?

y gall y sector cyhoeddus gynorthwyo myfyrwyr o'r fath ac, yn wir, sut y gellir defnyddio'r sgiliau ychwanegol hyn er budd yr economi cyfan?

**Leighton Andrews:** You may recall that I made a statement some time ago on equity between part-time and full-time students and the level of support that we were proposing to bring forward for part-time students. We want to see the number of part-time places expand and I am open to any suggestions in that vein to help with that. I pay tribute to the Open University in Wales, which has seen a significant increase in student in-take in recent years.

**Leighton Andrews:** Efallai eich bod yn cofio imi wneud datganiad gryn amser yn ôl ynghylch tegwch rhwng myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr amser llawn, a lefel y gefnogaeth roeddem yn bwriadu ei chyflwyno ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Hoffem weld nifer y lleoedd rhan-amser yn cynyddu, ac rwyf yn agored i unrhyw awgrymiadau i'r perwyl hwnnw i helpu i wneud hynny. Canmolaf y Brifysgol Agored yng Nghymru, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Brifysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Simon Thomas:** Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi arloesi gyda dulliau o ddysgu o bell, yn enwedig drwy ddefnyddio gwefan y Porth ac e-ddysgu. A ydych wedi gwneud asesiad o effeithlonrwydd dysgu o bell ar gyfer addysg ôl-16 yn y modd hwnnw? A ydych yn barod i ddysgu unrhyw wersi pellach o fewn y gyfundrefn addysg o ddulliau arloesol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol?

**Simon Thomas:** The Coleg Cymraeg Cenedlaethol has made innovative use of distance learning, especially the use of the *Porth* website and e-learning. Have you assessed the effectiveness of distance learning in post-16 education in that way? Are you willing to learn further lessons within the education system based on the Coleg Cymraeg Cenedlaethol’s innovative practices?

**Leighton Andrews:** I am very encouraged by the way in which the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has looked at this, but the real pioneer in distance learning in Wales is the Open University. I also welcome also the fact that the University of Glamorgan has made a number of courses available on iTunes U as well. As I said in a speech in Aberystwyth a few weeks ago, I look forward to other higher education institutions in Wales joining them, and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has plans in that area.

**Leighton Andrews:** Mae'r ffordd y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi edrych ar hyn yn galonogol iawn, ond yr arloeswr go iawn o ran dysgu o bell yng Nghymru yw'r Brifysgol Agored. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod Prifysgol Morgannwg wedi sicrhau bod nifer o gyrsiau ar gael ar iTunes U hefyd. Fel y dywedais mewn araith yn Aberystwyth ychydig wythnosau'n ôl, rwyf yn edrych ymlaen at weld sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru yn ymuno â hwy, ac mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gynlluniau yn hynny o beth.

**Simon Thomas:** Ceisiais wylio eich araith yn Aberystwyth o bell dros y we. Yn anffodus, ni weithiodd y dechnoleg yn ddigon da imi wneud hynny—un o fethiannau e-ddysgu. O droi at ddysgu mewn coleg addysg bellach, mae’r adroddiad gan y pwyllgor yr wyf yn aelod ohono, dan gadeiryddiaeth Christine Chapman, wedi nodi bod dysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn dal i dangyflawni yn y system

**Simon Thomas:** I tried to watch your Aberystwyth speech remotely on the internet. Unfortunately, the technology was not good enough to allow me to do that—a failure of e-learning. Turning to learning in further education colleges, the report written by the committee on which I sit, chaired by Christine Chapman, has noted that learning through the medium of Welsh in further education continues to underperform. Is there

addysg bellach. A oes patrwm drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Brifysgol Agored, ar gyfer dulliau o ddysgu drwy'r Gymraeg o bell ar gyfer disgyblion ôl 16?

any method used by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol and the Open University for distance learning through the medium of Welsh that could be utilised for post-16 pupils?

**Leighton Andrews:** My mother watched my lecture online on her iPad, so she clearly did not have a problem with the technology. However, in respect of your general point, the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has a very important role to play in stimulating the development of distance learning and online learning materials for use not only within higher education but also within further education and schools. They understand the opportunity that that holds. We have established a group on the Welsh language and technology, which I am chairing, and which is taking forward a number of these initiatives at the present time.

**Leighton Andrews:** Gwyliodd fy mam fy narlith ar-lein ar yr iPad, felly ni chafodd hi broblem gyda'r dechnoleg yn amlwg. Fodd bynnag, o ran eich pwynt cyffredinol, mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl bwysig iawn i'w chwarae o ran ysgogi datblygiad dysgu o bell a deunyddiau dysgu ar-lein i'w defnyddio mewn addysg uwch, ac mewn addysg bellach ac ysgolion hefyd. Maent yn deall y cyfle sy'n gysylltiedig â hynny. Rydym wedi sefydlu grŵp ar yr iaith Gymraeg a thechnoleg, sydd o dan fy nghadeiryddiaeth i, ac sy'n datblygu nifer o'r mentrau hyn ar hyn o bryd.

**Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig**

**Ethnic Minority Pupils**

***3. Vaughan Gething:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflawniad disgyblion o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. OAQ(4)0142(ESK)*

***3. Vaughan Gething:*** *Will the Minister make a statement on the achievement of ethnic minority pupils in Cardiff and the Vale of Glamorgan. OAQ(4)0142(LGC)*

**Leighton Andrews:** Many ethnic minority learners in Cardiff and the Vale of Glamorgan are high achievers. Others require more support, and local authority ethnic minority achievement services help them fulfil their potential, using funding from the minority ethnic achievement grant, under which the two authorities have been allocated over £4.7 million this year.

**Leighton Andrews:** Mae nifer o ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn gwneud yn dda. Mae angen mwy o gefnogaeth ar ddysgwyr eraill, ac mae gwasanaeth cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig awdurdodau lleol yn eu helpu i gyflawni eu potensial, gan ddefnyddio cyllid o'r grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig, ac mae'r ddau awdurdod wedi cael dros £4.7 miliwn gan y grant hwnnw eleni.

**Vaughan Gething:** Thank you for that response, Minister. I know what you are saying. For example, the Chinese or Chinese-British community has persistent overachievement levels—in fact, it has the best performing educational attainment. However, I maintain a persistent concern at the gap in achievement between Black Caribbean and Black African groups in particular. I am interested in the accuracy of the data from local authorities regarding that achievement and the kind of support and guidance that is given to ensure that that potential, which is equally shared I believe, is realised in educational achievement and

**Vaughan Gething:** Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn deall beth rydych yn ei ddweud. Er enghraifft, mae'r gymuned Tsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd bob amser yn rhagori—yn wir, y gymuned hon sydd â'r cyrhaeddiad addysgol gorau. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu o hyd am y bwlch mewn cyflawniad rhwng grwpiau Du Caribïaidd a grwpiau Du Affricanaidd yn benodol. Mae gennyf ddiddordeb yng nghywirdeb y data gan awdurdodau lleol ynghylch y cyflawniad hwnnw a'r math o gefnogaeth ac arweiniad a roddir i sicrhau bod y potensial hwnnw—sy'n gyfartal rhwng pawb yn fy marn i—yn cael ei wireddu mewn

lifelong achievement thereafter.

cyflawniad addysgol a chyflawniad gydol oes ar ôl hynny.

**Leighton Andrews:** The Member for Cardiff South and Penarth puts that very well. We know that, at key stages 3 and 4, a higher percentage from Chinese or Chinese-British ethnic backgrounds achieve the core subject indicator than from any other ethnic group. The statistics also show that children from certain minority ethnic backgrounds can achieve consistently below the indicator, including pupils from black backgrounds. That is a challenge for all of us. We have discussed this within my department, and we have also sought to keep the minority ethnic achievement grant in place and uprated. I am open to any discussions with any groups, including groups in his constituency, that want to take that issue further.

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth wedi egluro hynny'n dda iawn. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, gwyddom fod canran uwch o gefndiroedd ethnig Tsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd nag unrhyw grŵp ethnig arall. Mae'r ystadegau hefyd yn dangos y gall plant o rai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fod yn cyflawni'n is na'r dangosydd yn gyson, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd du. Mae hynny'n her i bob un ohonom. Rydym wedi trafod hyn yn fy adran, ac rydym hefyd wedi ceisio cynnal y grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig a'i uwchraddio. Rwyf yn agored i unrhyw drafodaethau ag unrhyw grwpiau, gan gynnwys grwpiau yn ei etholaeth ef, sy'n dymuno mynd â'r mater hwnnw ymhellach.

**The Presiding Officer:** I remind Members that this is a question about Cardiff and the Vale of Glamorgan.

**Y Llywydd:** Atgoffaf yr Aelodau mai cwestiwn am Gaerdydd a Bro Morgannwg yw hwn.

**Mohammad Asghar:** The Equality and Human Rights Commission has said that being a victim of bullying has detrimental effects on a child’s educational development. It was reported recently that the number of racist incidents in schools in Cardiff between 2007 and 2010 increased from 186 to 246—a rise of nearly a third. This may be the tip of the iceberg, as cases of racist bullying are usually underreported. Will the Minister review the guidance issued to local authorities to ensure that the scourge of racism in schools is dealt with, so that ethnic minority pupils in Cardiff and elsewhere in south Wales are allowed to achieve their full potential?

**Mohammad Asghar:** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dweud bod cael eich bwlio yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad addysgol plentyn. Dywedwyd yn ddiweddar bod nifer y digwyddiadau hiliol mewn ysgolion yng Nghaerdydd rhwng 2007 a 2010 wedi cynyddu i 246 o 186—bron i draean o gynnydd. Mae'n bosibl nad yw hyn ond yn crafu'r wyneb, gan fod llawer o achosion o fwlio hiliol ddim yn cael eu riportio fel arfer. A wnaiff y Gweinidog adolygu’r canllawiau a roddir i awdurdodau lleol i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r pla o hiliaeth mewn ysgolion, er mwyn i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd, ac mewn mannau eraill yn y de, allu cyflawni eu potensial llawn?

**Leighton Andrews:** I should probably start by declaring my interest in that my wife is the equality and human rights commissioner for Wales. I take very seriously the issue that the Member has raised. We published our anti-bullying guidance in the autumn. I will look again and see whether any of the issues that he raised require further attention.

**Leighton Andrews:** Mae'n siŵr y dylwn ddechrau drwy ddatgan bod gennyf gysylltiad â'r mater hwn, gan mai fy ngwraig yw comisiynydd cydraddoldeb a hawliau dynol Cymru. Rwyf yn cymryd y mater y mae'r Aelod wedi'i godi o ddifrif. Cyhoeddwyd ein canllawiau gwrth-fwlio yn yr hydref. Byddaf yn ailedrych ar y mater i weld a oes angen sylw pellach ar unrhyw un o'r materion a godwyd ganddo.

**Lefelau Sgiliau**

***4. Lynne Neagle:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi hwb i lefelau sgiliau yn Nhor-faen. OAQ(4)0141(ESK)*

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** Thank you for that question. The Welsh Government is committed to improving skills levels through a range of interventions. Our priorities are to support people into work, to raise youth engagement and employment and to release the full potential of skills as a driver for economic growth through partnership between individuals, employers and Government.

**Lynne Neagle:** Thank you for that answer, Deputy Minister. As you know, one of the areas looked at in the Children and Young People Committee's recent inquiry into the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 was whether we are equipping young people with skills relevant to local labour markets. The report cites an example that I raised, where an important local manufacturer seeking to recruit engineers had received applications from as far away as India, but could not recruit locally. Without wishing to pre-empt your formal response to the report, would you agree that we need to do more to ensure that there are better links between employers, colleges and schools, so that employers can recruit the people with the skills that they need from their local communities?

**Jeff Cuthbert:** Thank you for that question. The Minister for Education and Skills will be responding fully to the recommendations of the Children and Young People Committee on 27 June, but the point that you make is a good one and it is a pertinent question. Employers need to be far more involved in helping to decide what qualifications are relevant and what courses should be offered in schools and colleges. Tomorrow, I will be launching the consultation on the 14-19 qualifications review, along with the chair of the review, Huw Evans. One reason why we have this review is to ensure that there is greater relevance between what is taught and

**Skills Levels**

***4. Lynne Neagle:*** *What steps is the Welsh Government taking to boost skills levels in Torfaen. OAQ(4)0141(ESK)*

**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella lefelau sgiliau drwy ystod o ymyriadau. Ein blaenoriaethau yw cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith, gwella ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc, a rhyddhau potensial llawn sgiliau i fod yn sbardun ar gyfer twf economaidd drwy bartneriaeth rhwng unigolion, cyflogwyr a'r Llywodraeth.

**Lynne Neagle:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Fel y gwyddoch, un o'r elfennau y bu ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn edrych arno oedd a ydym yn galluogi pobl ifanc i gael y sgiliau sy'n berthnasol i farchnadoedd llafur lleol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at enghraifft a godwyd gennyf, lle'r oedd gwneuthurwr lleol pwysig sy'n ceisio recriwtio peirianwyr wedi derbyn ceisiadau o leoedd mor bell ag India, ond na allai recriwtio'n lleol. Heb ddymuno rhagfynegi eich ymateb ffurfiol i'r adroddiad, a fyddech yn cytuno bod angen inni wneud mwy i sicrhau y ceir cysylltiadau gwell rhwng cyflogwyr, colegau ac ysgolion, er mwyn i gyflogwyr allu recriwtio'r bobl â'r sgiliau y mae arnynt eu hangen o'u cymunedau lleol?

**Jeff Cuthbert:** Diolch ichi am y cwestiwn hwnnw. Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ymateb yn llawn i argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 27 Mehefin, ond rydych yn gwneud pwynt da ac mae'n gwestiwn perthnasol. Mae angen i gyflogwyr gael eu cynnwys llawer mwy drwy helpu i benderfynu pa gymwysterau sy'n berthnasol a pha gyrsiau y dylid eu cynnig mewn ysgolion a cholegau. Yfory byddaf fi ynghyd â Huw Evans, cadeirydd yr adolygiad, yn lansio'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o gymwysterau 14-19. Un rheswm pam mae gennym yr adolygiad hwn yw er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei addysgu a'i

studied at schools and the needs of employers.

astudio mewn ysgolion yn fwy perthnasol i anghenion cyflogwyr.

**The Presiding Officer:** I call on the Member for Monmouth, Nick Ramsay.

**Y Llywydd:** Galwaf ar yr Aelod dros Fynwy, Nick Ramsay.

**Nick Ramsay:** Part of my constituency includes the Torfaen county area. Deputy Minister, my question is on the skills issue that was raised by the Member for Torfaen. As you know, the skills framework was introduced by the Welsh Government in 2008 on a non-statutory basis to offer guidance for learners. In terms of making skills relevant in schools, on which the previous question was based, I am sure that you will share my concern that an Estyn report released earlier this month said that very few schools track pupils' progress in generic skills based on the skills framework. How are you proposing to make that skills framework more relevant and encourage a greater connection between schools and what is being taught outside?

**Nick Ramsay:** Mae rhan o fy etholaeth i yn cynnwys ardal sir Tor-faen. Ddirprwy Weinidog, mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r mater sgiliau a godwyd gan yr Aelod dros Dor-faen. Fel y gwyddoch, cafodd y fframwaith sgiliau ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2008 ar sail anstatudol, i gynnig arweiniad i ddysgwyr. O ran gwneud sgiliau'n berthnasol mewn ysgolion—sef yr hyn roedd y cwestiwn blaenorol yn seiliedig arno—rwyf yn siŵr y byddwch chi, fel finnau, yn pryderu bod adroddiad gan Estyn, a ryddhawyd yn gynharach yn y mis, yn dweud mai ychydig iawn o ysgolion sy'n tracio cynnydd disgyblion mewn sgiliau generig ar sail y fframwaith sgiliau. Sut ydych yn bwriadu gwneud y fframwaith sgiliau hwnnw'n fwy perthnasol, a hybu mwy o gysylltiad rhwng ysgolion a'r hyn sy'n cael ei addysgu y tu allan i ysgolion?

**Jeff Cuthbert:** My understanding was that the question was more about skills later in life and not necessarily in schools, but you are quite right: there does need to be a better match with what is offered in schools. Together with functional literacy and numeracy, the application of knowledge is an issue that the qualifications review will be considering.

**Jeff Cuthbert:** Fel roeddwn i'n deall, roedd y cwestiwn yn ymwneud mwy â sgiliau yn ddiweddarach mewn bywyd ac nid o reidrwydd mewn ysgolion, ond rydych yn llygad eich lle: mae angen i'r hyn a ddysgir mewn ysgolion fod yn fwy perthnasol. Ynghyd â llythrennedd a rhifedd gweithredol, mae cymhwyso gwybodaeth yn fater y bydd yr adolygiad o gymwysterau yn ei ystyried.

**Jocelyn Davies:** I am sure that we would all agree that improving literacy and numeracy is a priority, but I would like to stress the potential of digital learning and the need to equip the nation with the digital skills that it will definitely need in the future. How is digital learning being delivered in Torfaen?

**Jocelyn Davies:** Rwyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn cytuno bod gwella llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth, ond hoffwn bwysleisio potensial dysgu digidol a'r angen i sicrhau bod gan y genedl y sgiliau digidol y bydd yn bendant eu hangen arni yn y dyfodol. Sut y mae dysgu digidol yn cael ei gyflwyno yn Nhor-faen?

**Jeff Cuthbert:** I will need to write to you specifically on how digital learning is being delivered in Torfaen, but information technology is one area that has been identified as needing a boost in education because of its importance to the world of work. That will also be looked at specifically by the qualifications review.

**Jeff Cuthbert:** Bydd angen imi ysgrifennu atoch yn benodol ynghylch sut y mae dysgu digidol yn cael ei gyflwyno yn Nhor-faen, ond mae technoleg gwybodaeth yn un maes a nodwyd fel maes y mae angen ei hybu mewn addysg oherwydd ei bwysigrwydd i fyd gwaith. Bydd yr adolygiad o gymwysterau yn edrych yn benodol ar hynny hefyd.

**Blaenoriaethau**

***5. Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella safonau addysgol ledled Canol De Cymru. OAQ(4)0136(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru yr un fath â'm blaenoriaethau cenedlaethol: gwella lefelau llythrennedd, gwella lefelau rhifedd a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad isel. Mae'r rhain yn flaenoriaethau cenedlaethol yr wyf yn dal yn ymroddedig iddynt, ac rwyf yn benderfynol o'u cyflawni.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Sylwaf eich bod wedi cyhoeddi datganiad heddiw ynghylch y modd y defnyddir diwrnodau HMS, a'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae o ran datblygu hyfforddiant athrawon a chydweithio ar draws ysgolion clwstwr. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw bod nifer o rieni wedi cysylltu â mi i ddweud bod, ym Mro Morgannwg er enghraifft, dau ddiwrnod HMS ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at ddiwedd tymor yr haf eleni, heb lawer o rybudd i rieni. Pam ydych yn credu y ceir angen ychwanegol i greu diwrnodau HMS newydd? Sut y gall rhieni ymdopi â hynny yn eu hamserlenni prysur, gyda dyletswyddau gofal plant, gan gefnogi cylch gwaith sylfaenol diwrnodau HMS ar gyfer hyfforddiant ar yr un pryd?

1.45 p.m.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn awgrymu i'r Aelod fynd i ddarllen y datganiad a ryddheais heddiw, sydd wedi'i gwneud yn glir na fydd unrhyw ddiwrnodau HMS ychwanegol y flwyddyn nesaf.

Cafodd y ddau ddiwrnod HMS sydd wedi cael eu hychwanegu eu cymeradwyo o dan y rheoliadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Mae fy natganiad heddiw yn ymwneud â'r flwyddyn academaidd nesaf. O ran y ffordd y mae Bro Morgannwg yn eu gweithredu, rwyf yn pryderu am y ffordd y gall rhai awdurdodau lleol roi gwybod yn hwyr i rieni am ddiwrnodau HMS yn gyffredinol.

**Priorities**

***5. Andrew R.T. Davies**: Will the Minister outline his priorities for improving educational standards throughout South Wales Central. OAQ(4)0136(ESK)*

**Leighton Andrews:** My priorities for South Wales Central are the same as my priorities nationally: improving literacy levels, improving numeracy levels and tackling the link between deprivation and low attainment. These are national priorities to which I remain committed and I am focused on delivering them.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer, Minister. I notice that you have put a statement out today on the use of INSET days and the important role that they play in developing teacher training and collaborative working across cluster schools. What concerns me is that several parents have approached me saying that, in the Vale of Glamorgan, for example, two additional INSET days have been added to the end of this year’s summer term, with very little notice to parents. Why do you believe that there is an additional need to create new INSET days? How can parents accommodate that in their busy schedules, with childcare duties, while supporting the basic remit of INSET days for training?

**Leighton Andrews:** I suggest that the Member goes back and reads the statement I released today, which has made it clear that there will be no additional INSET days next year.

The two INSET days that have been added were approved under the regulations made for this academic year. My statement today relates to the next academic year. In respect of the way in which they are implemented by the Vale of Glamorgan, I have concerns about the way in which some local authorities may give late notice to parents of the use of INSET days overall.

I made it clear that the additional INSET days could only be taken in the summer term after the severe winter that we had two years ago when school days were lost. I did not want to see those additional days being taken when there was a need to provide catch-up because of school time being lost due to bad weather. However, we are going to look at the whole issue of how local authorities arrange their INSET days because, apart from anything else, there may be a case for better collaboration between different local authorities as to when those INSET days take place.

Fe'i gwneuthum yn glir mai dim ond yn ystod tymor yr haf y gellid cymryd y ddau ddiwrnod HMS ychwanegol, ar ôl y gaeaf caled a gawsom ddwy flynedd yn ôl pan gollwyd diwrnodau o ysgol. Nid oeddwn am weld y diwrnodau ychwanegol hynny yn cael eu cymryd pan oedd angen mynd ati i ddal i fyny, gan y collwyd amser ysgol yn sgîl tywydd gwael. Fodd bynnag, rydym yn mynd i edrych ar yr holl fater o sut y mae awdurdodau lleol yn trefnu eu diwrnodau HMS oherwydd, ar wahân i unrhyw beth arall, efallai fod achos dros gydweithio gwell rhwng gwahanol awdurdodau lleol o ran pryd y cynhelir y diwrnodau HMS hynny.

**Christine Chapman:** Save the Children recently highlighted the link between poverty and educational attainment, noting that a 15-year-old student from a disadvantaged background is two and a half times less likely to achieve five good GCSEs. The report also talks about the importance of early intervention, the tracking of student progress and community involvement in improving the achievement of those from disadvantaged backgrounds. Could the Minister tell me what he is doing to make progress on that?

**Christine Chapman:** Yn ddiweddar, pwysleisiodd Achub y Plant y cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, gan ddweud bod myfyriwr 15 mlwydd oed o gefndir difreintiedig ddwywaith a hanner yn llai tebygol o gael pum TGAU da. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn am bwysigrwydd ymyrraeth gynnar, tracio cynnydd myfyrwyr a chynnwys y gymuned wrth wella cyflawniad y rheini o gefndiroedd difreintiedig. A allai'r Gweinidog ddweud wrthyf beth y mae'n ei wneud i wneud cynnydd ar hynny?

**Leighton Andrews:** There are some very important elements in that Save the Children report. We know that there is very good practice, for example, in respect of pupil tracking in some schools in Wales, and we have sought to share that good practice through some of the recent conferences that we have held with headteachers and others. There are materials online that are supporting best practice across Wales.

**Leighton Andrews:** Mae’r adroddiad hwnnw gan Achub y Plant yn cynnwys elfennau pwysig iawn. Gwyddom y ceir arferion da iawn mewn perthynas â thracio disgyblion mewn rhai ysgolion yng Nghymru, er enghraifft, ac rydym wedi ceisio rhannu'r arferion da hynny drwy rai o'r cynadleddau rydym wedi'u cynnal yn ddiweddar gyda phenaethiaid a phobl eraill. Ceir deunyddiau ar-lein sy'n cefnogi arferion gorau ar hyd a lled Cymru.

I have some issues with some of the report by Save the Children because I am not clear that it took into account fully the most recent evidence that has been produced in this field, including, for example, recent research by the Joseph Rowntree Foundation and recent research carried out in England, which I think is very important.

Rwyf yn anghytuno ag ambell beth yn adroddiad Achub y Plant, gan nad wyf yn siŵr a wnaeth ystyried yn llawn y dystiolaeth ddiweddaraf a luniwyd yn y maes hwn, gan gynnwys, er enghraifft, ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree ac ymchwil diweddar a gynhaliwyd yn Lloegr, sy’n bwysig iawn yn fy marn i.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** In the South Wales Central region, 20.5% of pupils are eligible for free school meals, compared to the Wales-wide figure of

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Yn rhanbarth Canol De Cymru, mae 20.5 y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'i gymharu â ffigur o 18.2 y

18.2%. According to Estyn, fewer than 40% of pupils who receive free school meals achieve five GCSEs at grades A to C, compared to around 70% of pupils who are not eligible for free school meals. Can you tell us what impact you think the pupil deprivation grant will have on this statistic? What steps are you taking to ensure that the money that is going in is used effectively by schools and local authorities to get outcomes that raise the educational attainment of pupils from disadvantaged backgrounds?

cant ar gyfer Cymru gyfan. Yn ôl Estyn, llai na 40 y cant o'r disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim sy’n llwyddo i gael pum TGAU ar raddau A i C, o'i gymharu â thua 70 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. A allwch ddweud wrthym sut ydych yn credu y bydd y grant amddifadedd disgyblion yn effeithio ar yr ystadegyn hwn? Pa gamau ydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr arian a roddir yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol gan ysgolion ac awdurdodau lleol i gael deilliannau sy'n gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion o gefndiroedd difreintiedig?

**Leighton Andrews:** It will have a very significant impact; it is additional money that can be used directly by schools. The money will go directly to schools and we have published guidance as to how schools should use that money.

**Leighton Andrews:** Bydd yn cael effaith sylweddol iawn; mae'n arian ychwanegol y gall ysgolion ei ddefnyddio'n uniongyrchol. Bydd yr arian yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylai ysgolion ddefnyddio'r arian hwnnw.

We have very good examples of schools that are above the free-school-meal levels that she raised that are exhibiting best practice, and other schools need to learn from them. A good example is Treorchy Comprehensive School in my constituency, which received 15 ‘excellent’ grades from Estyn in the report that was published just in the last week.

Mae gennym enghreifftiau da iawn o ysgolion sy'n uwch na'r lefelau prydau ysgol am ddim y cyfeiriodd atynt sy'n arddangos arferion gorau, ac mae angen i ysgolion eraill ddysgu ganddynt. Mae Ysgol Gyfun Treorci yn fy etholaeth i yn enghraifft dda, a gafodd 15 gradd ‘ardderchog’ gan Estyn yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnos diwethaf.

**Eluned Parrott:** Notwithstanding Treorchy’s fantastic record of achievement over the years, Rhondda Cynon Taf’s poor performance in this year’s Estyn report must give us all cause for concern. Given the precedent set by your appointment of a ministerial team to run educational services in Blaenau Gwent, what improvements do you expect to see RCT make before its next Estyn report? Would you consider appointing a ministerial board to run education services in RCT should standards not improve?

**Eluned Parrott:** Er gwaethaf llwyddiant gwych Treorci dros y blynyddoedd, mae'n rhaid bod perfformiad gwael Rhondda Cynon Taf yn adroddiad Estyn eleni yn achos pryder i bob un ohonom. O ystyried y cynsail a osodwyd wrth ichi benodi tîm gweinidogol i redeg gwasanaethau addysgol ym Mlaenau Gwent, pa welliannau rydych yn disgwyl gweld Rhondda Cynon Taf yn eu gwneud cyn yr adroddiad Estyn nesaf? Pe na bai'r safonau'n gwella, a fyddech yn ystyried penodi bwrdd gweinidogol i redeg gwasanaethau addysg yn Rhondda Cynon Taf?

**Leighton Andrews:** I do not quite understand the point the Member is making in respect of educational performance in RCT. Perhaps she would like to write to me to outline her concerns, because they do not really equate with the issues that we are seeing on the ground.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn deall yn iawn y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud mewn perthynas â pherfformiad addysgol yn Rhondda Cynon Taf. Efallai y byddai'n hoffi ysgrifennu ataf i amlinellu ei phryderon, gan nad ydynt wir yn cyd-fynd â'r problemau rydym yn eu gweld ar lawr gwlad.

I have taken decisive action where local authorities have received poor Estyn reports—you named Blaenau Gwent, which is one example. We have also taken action for slightly different reasons in respect of Pembrokeshire. We know that, overall, the performance of local authorities in Wales is not as good as it needs to be. We have no local authorities graded 'excellent' and only four out of the 11 that have been inspected so far have been graded 'good'.

Rwyf wedi cymryd camau pendant pan mae awdurdodau lleol wedi cael adroddiadau gwael gan Estyn—gwnaethoch enwi Blaenau Gwent, sy'n un enghraifft. Rydym hefyd wedi cymryd camau am resymau ychydig yn wahanol yng nghyswllt sir Benfro. Gwyddom nad yw perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru, yn gyffredinol, gystal ag y mae angen iddo fod. Nid oes dim un o'n hawdurdodau lleol wedi cael gradd 'ardderchog', a dim ond pedwar o'r 11 sydd wedi cael eu harolygu hyd yma sydd wedi cael gradd 'dda'.

**Fframwaith Sgiliau**

**Skills Framework**

***6. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi'r fframwaith sgiliau ar waith. OAQ(4)0139(ESK)*

***6. William Graham:*** *Will the Minister make a statement on the implementation of the skills framework. OAQ(4)0139(ESK)*

**Leighton Andrews:** I have welcomed Estyn's report on the non-statutory skills framework. The new national literacy and numeracy framework builds on the skills framework and addresses the issues identified by Estyn. It will have statutory force and identifies clear annual expected outcomes in literacy and numeracy for learners aged five to 14.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi croesawu adroddiad Estyn ar y fframwaith sgiliau anstatudol. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd yn adeiladu ar y fframwaith sgiliau, ac yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan Estyn. Bydd ganddo rym statudol, a bydd yn nodi deilliannau disgwyliedig blynyddol clir mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr rhwng pump a 14 oed.

**William Graham:** I thank the Minister very much for his reply. He will know that that report highlights a series of recurring issues, reinforcing the notion that basic skill levels in Wales are not as high as they might be and that pupils' literacy and numeracy is worryingly underdeveloped. You have raised expectations for the 2015 Programme for International Student Assessment report; do you agree that we require a demonstration of improvement before that report? What criteria will you define for measuring any such improvement?

**William Graham:** Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod bod yr adroddiad hwnnw'n tynnu sylw at gyfres o faterion sy'n codi dro ar ôl tro, gan atgyfnerthu'r syniad nad yw lefelau sgiliau sylfaenol yng Nghymru mor uchel ag y gallent fod, ac nad yw sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi datblygu'n ddigonol, sy'n destun pryder. Rydych wedi codi'r disgwyliadau ar gyfer adroddiad Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr 2015; a ydych yn cytuno bod arnom angen gweld gwelliant cyn yr adroddiad hwnnw? Pa feini prawf fyddwch yn eu pennu i fesur unrhyw welliant o'r fath?

**Leighton Andrews:** I certainly hope that we will see progress being made. There has been great support for the seminars run by my department and the materials that it has provided for schools to understand better how the PISA assessments work. We have deliberately focused our programme of

**Leighton Andrews:** Rwyf yn sicr yn gobeithio y byddwn yn gweld cynnydd. Cafwyd cefnogaeth wych i'r seminarau a gynhaliwyd gan fy adran, ac i'r deunyddiau y mae wedi'u darparu ar gyfer ysgolion er mwyn deall yn well sut mae asesiadau PISA yn gweithio. Mae ein rhaglen gwella ysgolion

school improvement at the PISA assessments that will be undertaken in 2015. I think that everyone understands that school improvement programmes take time to deliver.

yn canolbwyntio—a hynny'n fwriadol—ar yr asesiadau PISA a gaiff eu cynnal yn 2015. Rwyf yn meddwl bod pawb yn deall bod rhaglenni gwella ysgolion yn cymryd amser i gyflawni.

**Kenneth Skates:** Minister, during its inquiry on apprenticeships, the Enterprise and Business Committee recently took evidence from Kronospan, a manufacturer in my constituency that won the large employer of the year award at the Apprenticeship Awards Cymru last year. It made the point that, recently, there has been a shift towards guiding budding engineering students towards continuing education rather than channelling them into skilled apprenticeships, which are sometimes portrayed as being second best. Will you look at ways of informing talented engineering students of the value and benefits of skilled apprenticeship schemes prior to their considering their post-16 and post-18 study options?

**Kenneth Skates:** Weinidog, yn ystod ei ymchwiliad i brentisiaethau, cafodd y Pwyllgor Menter a Busnes dystiolaeth gan Kronospan yn ddiweddar, gwneuthurwr yn fy etholaeth a enillodd y wobr cyflogwr mawr y flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru y llynedd. Gwnaeth y pwynt y bu newid yn ddiweddar tuag at arwain myfyrwyr peirianneg newydd tuag at addysg barhaus yn hytrach na'u sianelu i brentisiaethau crefftus, sydd weithiau'n cael eu portreadu'n eilradd. A wnewch edrych ar ffyrdd o wneud myfyrwyr peirianneg dawnus yn ymwybodol o werth a manteision cynlluniau prentisiaethau crefftus cyn iddynt ystyried eu hopsiynau astudio ôl-16 ac ôl-18?

**Leighton Andrews:** Yes, it is obviously essential that we keep young people informed of the benefits and value of apprenticeships when they choose those options. We have established the apprenticeship matching scheme as part of Careers Wales online and we are working to promote opportunities in engineering through a number of initiatives, such as the National Science Academy, our science for Wales agenda and, of course, the study of engineering is supported by the 14-19 learning pathways policy, which has helped to increase the number of schools offering levels 2 and 3 BTEC engineering.

**Leighton Andrews:** Gwnaf, mae'n amlwg yn hanfodol ein bod yn gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn ymwybodol o fanteision a gwerth prentisiaethau pan fyddant yn dewis yr opsiynau hynny. Rydym wedi sefydlu'r cynllun paru prentisiaethau fel rhan o Gyrfa Cymru ar-lein, ac rydym yn gweithio i hyrwyddo cyfleoedd mewn peirianneg drwy amryw o fentrau, fel yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, ein hagenda Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru ac, wrth gwrs, mae'r polisi llwybrau dysgu 14–19 yn cefnogi astudiaethau peirianneg a, thrwy hynny, wedi helpu i gynyddu nifer yr ysgolion sy'n cynnig lefelau 2 a 3 BTEC peirianneg.

**Ieuan Wyn Jones:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod adroddiad y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer llynedd yn tynnu sylw at safonau da ym maes dysgu ôl-16, ond mae hefyd yn tynnu sylw at nifer o feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r rhain yn cynnwys llythrennedd, ymateb i anghenion cyflogwyr a mesur effaith y cymorth i ddysgwyr. Gan fod y rhain yn hen broblemau—bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod cwestiynau wedi cael eu gofyn ers blynyddoedd yn y meysydd hyn—pam mae'n cymryd mor hir inni weld gwelliannau yn y meysydd hyn?

**Ieuan Wyn Jones:** The Minister will be aware that last year's report by the Chief Inspector of Education and Training in Wales highlighted good standards in post-16 learning, but it also highlights a number of areas that need improvement. These include literacy, responding to the needs of employers and measuring the impact of support for learners. As these are old problems—the Minister will be aware that questions have been asked about these areas for many years—why is it taking so long for us to see improvements in these areas?

**Leighton Andrews:** I think that we started a series of very important initiatives during the lifetime of the One Wales Government, which I was happy to enjoy the support of the Member in developing. One of those was the initial national literacy plan that we introduced, which we have now built on with the national literacy programme, and will soon be strengthened by the national literacy and numeracy frameworks and the statutory reading and number tests that we will be introducing in the next 12 months.

**Leighton Andrews:** Credaf inni ddechrau cyfres o fentrau pwysig iawn yn ystod oes Llywodraeth Cymru'n Un, ac roeddwn yn falch o gael cefnogaeth yr Aelod i'w datblygu. Un o'r rheini oedd y cynllun llythrennedd cenedlaethol cychwynnol a gyflwynwyd gennym. Rydym wedi datblygu'r cynllun hwnnw yn awr gyda'r rhaglen llythrennedd genedlaethol, a bydd yn cael ei gryfhau yn fuan drwy'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd cenedlaetol a'r profion darllen a rhifau statudol y byddwn yn eu cyflwyno yn ystod y 12 mis nesaf.

**Cyrhaeddiad Addysgol (Dyffryn Clwyd)**

**Educational Attainment (Vale of Clwyd)**

***7. Ann Jones:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cyrhaeddiad addysgol yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0138(ESK)*

***7. Ann Jones:*** *What action is the Welsh Government taking to improve educational attainment in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0138(ESK)*

**Leighton Andrews:** I am taking action in relation to my priorities for schools: to improve literacy levels and numeracy levels, and to tackle the link between deprivation and low levels of attainment. These are national priorities.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn cymryd camau mewn perthynas â'm blaenoriaethau ar gyfer ysgolion: gwella lefelau llythrennedd a lefelau rhifedd, a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a lefelau isel o gyrhaeddiad. Mae'r rhain yn flaenoriaethau cenedlaethol.

**Ann Jones:** Thank you very much for that. I would like to pay tribute to all those pupils who are undertaking their exams at this time. I can just about remember the fear and panic that I experienced at this time when I was taking my GCSEs. I would also like to pay tribute to the staff who get those pupils ready for their GCSEs; in particular, I would like to single out the staff of Rhyl High School, who have turned around their attainment levels so that, in two years, a failing school now has a high level of attainment. They have done that by ensuring that every pupil sits an examination, and it does not matter whether they obtain a grade A or D, because they will get recognition for the grade D. Do you not agree that attainment at lower levels should be recognised as well as attainment at grades A to C?

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn ichi am hynny. Hoffwn ganmol yr holl ddisgyblion hynny sy'n sefyll eu harholiadau ar hyn o bryd. Rwyf yn cofio'r ofn a phanig roeddwn yn ei deimlo pan oeddwn i'n sefyll fy arholiadau TGAU. Hoffwn hefyd ganmol y staff sy'n gwneud yn siŵr bod y disgyblion hynny'n barod ar gyfer eu harholiadau TGAU; hoffwn sôn am staff Ysgol Uwchradd y Rhyl yn arbennig, sydd wedi gweddnewid eu lefelau cyrhaeddiad fel eu bod, mewn dwy flynedd, wedi newid ysgol ddiffygiol i fod yn ysgol â lefel uchel o gyrhaeddiad. Maent wedi gwneud hynny drwy sicrhau bod pob disgybl yn sefyll arholiad, ac nid oes gwahaniaeth a ydynt yn cael gradd A ynteu radd D, oherwydd byddant yn cael cydnabyddiaeth am y radd D. Onid ydych yn cytuno y dylid cydnabod lefelau is o gyrhaeddiad yn ogystal â chyrhaeddiad ar raddau A i C?

**Leighton Andrews:** I agree with my colleague the Member for the Vale of Clwyd. I was pleased to visit Rhyl High School with

**Leighton Andrews:** Rwyf yn cytuno â'm cyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd. Roeddwn yn falch o fynd gyda hi i ymweld

her relatively recently. I was very impressed with the culture there and the approach of the headteacher, whom I recollect, when she was talking about some of the young people who had faced challenges in learning, said, 'These young people gave us a second chance', which I thought was a very healthy way of looking at the challenges the school faced.

ag Ysgol Uwchradd y Rhyl yn gymharol ddiweddar. Roeddwn yn falch iawn o'r diwylliant yno ac o ymagwedd y pennaeth. Pan oedd yn sôn am rai o'r bobl ifanc a oedd wedi wynebu heriau wrth ddysgu, rwyf yn cofio iddi ddweud, 'Mae'r bobl ifanc hyn wedi rhoi ail gyfle inni'. Roedd hynny'n ffordd iach iawn o edrych ar yr heriau roedd yr ysgol yn eu hwynebu yn fy marn i.

**Antoinette Sandbach:** Minister, I am sure that you appreciate the concerns of parents in the Vale of Clwyd and across north Wales that, on a whole range of measures—literacy, numeracy, PISA assessment and GCSE results—Welsh students are lagging behind students in England. On the subject of educational attainment of the poorest students who qualify for free school meals and who achieve on average 33% fewer top grades in core GCSE subjects, what factors have you identified as being responsible for the gap in achievement and what explanation do you have for why there has been no reduction in this gap in any year from 2006 to 2010?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, rwyf yn siŵr eich bod yn gwerthfawrogi pryderon rhieni yn Nyffryn Clwyd ac ar draws y gogledd bod myfyrwyr yng Nghymru ar ei hôl hi o'u cymharu â myfyrwyr yn Lloegr ar ystod eang o fesurau—llythrennedd, rhifedd, asesiadau PISA a chanlyniadau TGAU. O ran y pwnc ynghylch cyrhaeddiad addysgol y myfyrwyr tlotaf sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sydd, ar gyfartaledd, yn cael 33 y cant yn llai o raddau uchaf yn y pynciau TGAU craidd, pa ffactorau rydych wedi'u nodi sy'n gyfrifol am y bwlch mewn cyflawniad, a pha eglurhad sydd gennych ar gyfer pam nad yw'r bwlch hwn wedi lleihau o gwbl mewn unrhyw flwyddyn rhwng 2006 a 2010?

**Leighton Andrews:** We have published significant evidence on the challenges facing schools in areas of deprivation and pupils in receipt of free school meals. I have implemented a range of policies to turn the situation around, including the literacy and numeracy frameworks. We have also now implemented the pupil deprivation grant, which will support the education of young people who get free school meals. A number of strategies are being put in place across the piece. I would not want to pre-empt the debate later this afternoon of course.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cyhoeddi llawer o dystiolaeth ynghylch yr heriau sy'n wynebu ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd, a disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Rwyf wedi rhoi ystod o bolisïau ar waith er mwyn gweddnewid y sefyllfa, gan gynnwys y fframweithiau llythrennedd a rhifedd. Rydym hefyd wedi gweithredu'r grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn cefnogi addysg pobl ifanc sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae nifer o strategaethau yn cael eu rhoi ar waith yn gyffredinol. Ni fyddwn yn dymuno achub y blaen ar y ddadl yn ddiweddarach y prynhawn yma wrth gwrs.

**Llyr Huws Gruffydd:** Ffactor bwysig o safbwynt cyrhaeddiad addysgol myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig yw eu bod yn gallu derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn eu mamiaith. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y gefnogaeth honno ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nyffryn Clwyd a thu hwnt?

**Llyr Huws Gruffydd:** An important factor in terms of the educational attainment of students with special educational needs is that they can receive the support they require in their mother tongue. What is the Welsh Government doing to ensure that that support is available through the medium of Welsh in the Vale of Clwyd and beyond?

**Leighton Andrews:** I think the Member is aware that I share his view that there are

**Leighton Andrews:** Rwyf yn meddwl bod yr Aelod yn gwybod fy mod o'r un farn ag ef o

some challenges in respect of provision through the medium of Welsh. This has been identified in work that we have done in the department. If the Member has any specific examples that he would like me to look at, I would encourage him to write to me.

ran y ceir rhai heriau mewn perthynas â darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi cael ei nodi yn y gwaith rydym wedi ei wneud yn yr adran. Os oes gan yr Aelod unrhyw enghreifftiau penodol y byddai'n dymuno imi edrych arnynt, byddwn yn ei annog i ysgrifennu ataf.

**Strategaeth Addysg Gymraeg**

**Welsh-medium Education Strategy**

***8. Alun Ffred Jones***: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Strategaeth Addysg Gymraeg. OAQ(4)0135(ESK)*

8***. Alun Ffred Jones:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh-medium Education Strategy. OAQ(4)0135(ESK)*

**Leighton Andrews:** Rydym newydd orffen yr ail flwyddyn o weithredu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Byddaf yn cyflwyno tystiolaeth o'r cynnydd sylweddol a wnaed yn erbyn nodau ac amcanion y strategaeth yn yr ail adroddiad blynyddol, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

**Leighton Andrews:** The second year of implementing the Welsh-medium education strategy has now concluded. I will present evidence of progress made against the aims and objectives outlined in the strategy in the second annual report, which will be published shortly.

**Alun Ffred Jones:** Diolch yn fawr am hynny. Rwy'n siŵr ein bod yn edrych ymlaen yn fawr iawn at yr adroddiad hwnnw. Faint o gynghorau Cymru sydd wedi cyflawni arolwg o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a faint ohonynt sydd wedi cyflwyno cynlluniau i fedru ateb y galw hwnnw?

**Alun Ffred Jones:** Thank you very much for that. I am sure that we look forward to that report. How many of Wales's councils have undertaken a survey of the demand for Welsh-medium education and how many have presented plans to meet that demand?

**Leighton Andrews:** We have received the first Welsh in education strategic plans from all 22 local authorities. The question of whether they have all carried out surveys is one that we will be looking at carefully. Obviously, the Member will be aware that, in the School Standards and Organisation (Wales) Bill we are proposing legislation to put Welsh education strategic plans on a statutory basis and to address the issue of the measurement of the demand for Welsh-medium places.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi cael y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg cyntaf gan bob un o'r 22 awdurdod lleol. O ran a yw pob un ohonynt wedi cynnal arolygon, byddwn yn edrych ar hyn yn ofalus. Yn amlwg, bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod, yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), yn cynnig deddfwriaeth i roi cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar sail statudol ac i fynd i'r afael â'r mater o fesur y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.

**Suzy Davies:** Weinidog, yn fy rhanbarth mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn gostwng, ac nid, bob tro, o ffigur cryf i ddechrau. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 18% yn 2001 i ychydig dros 15% yn awr. Mae gwaith Twf sydd wedi cael ei enwi yn y strategaeth yn canolbwyntio yn bennaf ar ardaloedd Cymraeg er mwyn sicrhau trosglwyddiad yr iaith o un genhedlaeth i'r llall. Ond, mae ardal Pen-y-bont ar Ogwr newydd golli ei swyddog Twf. Gan ystyried

**Suzy Davies:** Minister, in my region, the number of Welsh speakers is declining, and not always from a very strong base to begin with. In Bridgend, for example, the number of Welsh speakers has declined from 18% in 2001 to slightly over 15% now. The work of Twf, which is named in the strategy, concentrates primarily on the Welsh-speaking areas in order to secure the transfer of the language from one generation to the next. However, the Bridgend area has just lost its Twf officer. Bearing in mind the economic

manteision economaidd dwyieithrwydd, a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i hyrwyddo rôl Twf mewn ardaloedd di-Gymraeg, yn enwedig ardaloedd Dechrau'n Deg?

benefits of bilingualism, have you given any further consideration to promoting the role of Twf in non-Welsh-speaking areas, and particularly Flying Start areas?

2.00 p.m.

**Leighton Andrews:** I do not want prejudge the results of the census in respect of the numbers of Welsh speakers in any part of Wales. In the programme that we have outlined in the Welsh-language strategy, we have identified a number of issues that we have to address, one of which is the transmission of language within the family and within the community and how we encourage take-up among children and young people more generally. We are working through how that strategy is implemented. My department has now taken on responsibility for the promotion of the language, and we have just, in the last two months, taken on board additional staff who were previously working for the Welsh Language Board. We will want to review all of those schemes as we move forward, and we have also made it clear that we also want better evaluation of some of these schemes.

**Leighton Andrews:** Nid wyf am ragfarnu canlyniadau'r cyfrifiad o ran nifer y siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw ran o Gymru. Yn y rhaglen rydym wedi'i hamlinellu yn y strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, rydym wedi nodi nifer o faterion y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hwy, ac un ohonynt yw trosglwyddo iaith o fewn y teulu ac o fewn y gymuned, a sut rydym yn annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith yn fwy cyffredinol. Rydym yn edrych ar sut mae gweithredu'r strategaeth honno. Fy adran i sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r iaith erbyn hyn, ac yn ystod y ddau fis diwethaf, rydym newydd benodi staff ychwanegol a oedd yn arfer gweithio i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn am adolygu'r holl gynlluniau hynny wrth inni symud ymlaen, ac rydym hefyd wedi'i gwneud yn glir ein bod hefyd eisiau i rai o'r cynlluniau hyn gael eu gwerthuso'n well.

**Suzy Davies:** Mae prif arolygydd Estyn wedi egluro'n ddiweddar wrth aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ei phryderon am dueddiadau o ran manteisio ar gyrsiau llawn a byr TGAU Cymraeg fel ail iaith. Sut ydych yn bwriadu gwella statws yr iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg? Os ydych yn ystyried newid yn y cwricwlwm i gynorthwyo hyn, a wnewch chi ystyried lle gorfodol ar y cwricwlwm ar gyfer sgiliau achub bywyd brys—yn y ddwy iaith, wrth gwrs?

**Suzy Davies:** Estyn's chief inspector recently explained to members of the Children and Young People Committee her concerns about the trends with regard to taking advantage of short and full GCSE Welsh as a second language courses. How do you intend to improve the status of the Welsh language in English-medium schools? If you are considering a change in the curriculum to assist this, will you consider a mandatory place in the curriculum for emergency life-saving skills—in both languages, of course?

**Leighton Andrews:** The whole area of teaching Welsh as a second language is one that causes us concerns as well as Estyn. It is an issue that we are currently looking at in my department.

**Leighton Andrews:** Mae'r holl faes o addysgu Cymraeg fel ail iaith yn faes sy'n achosi pryder i ni yn ogystal ag Estyn. Mae'n fater rydym yn edrych arno ar hyn o bryd yn fy adran.

**Aled Roberts:** Weinidog, mae'n rhaid imi ddatgan buddiant fel cadeirydd llywodraethwyr Ysgol I.D. Hooson yn y Rhos. Eleni, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi gwrthod lle i 12 o blant yn y dosbarth meithrin. Mae hynny wedi digwydd

**Aled Roberts:** Minister, I must declare an interest as the chair of governors of Ysgol I.D. Hooson in Rhos. This year, Wrexham County Borough Council refused a place in the nursery class to 12 children. That has happened in a county that has carried out a

mewn sir sydd wedi cynnal arolwg o’r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Beth all y Llywodraeth ei wneud pan fo cynnydd yn y galw yn fwy na’r hyn a nodwyd yn yr arolwg gan y cyngor a lle, oherwydd problemau gydag arian cyfalaf, ni fydd yn bosibl i’r cyngor ehangu ar y ddarpariaeth yn yr ardaloedd lleol hynny?

survey of the demand for Welsh-medium provision. What can the Government do when the increase in the demand exceeds what is noted in the council survey and where, because of problems with capital expenditure, it will not be possible for the council to expand on the provision in those local areas?

**Leighton Andrews:** It is disappointing that the local authority that you mentioned did not, under its previous leadership, address the issue of forthcoming demand for Welsh-medium places. It is equally disappointing that the UK Government has cut back our capital grant so severely.

**Leighton Andrews:** Mae'n siomedig na wnaeth yr awdurdod lleol y sonioch amdano, o dan yr arweinyddiaeth flaenorol, fynd i'r afael â'r mater o alw am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Mae'r un mor siomedig bod Llywodraeth y DU wedi cwtogi ein grant cyfalaf mor ddifrifol.

**Aled Roberts:** Gwyddoch y bydd ysgol cyfrwng Cymraeg, gobeithio, yn agor ymhen blwyddyn yn Wrecsam-yr ysgol gyntaf er 1996. Er hynny, gwnaethoch ddweud mewn ymateb i gwestiwn Alun Ffred Jones eich bod yn credu y bydd y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn mynd i’r afael â rhai o’r problemau. Hoffwn dynnu eich sylw at adran 85, sy’n sôn bod yn rhaid i’r cynghorau wella’r broses o gynllunio’r modd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei darparu a gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu’r Gymraeg fel ail iaith. A ddylai’r adran gyfeirio at wella’r darpariaethau eu hunain yn hytrach na’r broses gynllunio, wrth ystyried methiant rhai awdurdodau i ymateb i’r galw gan rieni?

**Aled Roberts:** You will know that a new Welsh-medium school will, hopefully, open within a year in Wrexham—the first school since 1996. Despite that, you said in response to Alun Ffred Jones’s question that you think that the School Standards and Organisation (Wales) Bill will get to grips with some of the problems. I would like to draw your attention to section 85, which mentions that councils must improve the process of planning the way in which Welsh-medium education is provided and improve the standards of Welsh-medium education and the teaching of Welsh as a second language. Should the section refer to improving the provision itself rather than the planning process, bearing in mind the failure of some authorities to respond to parental demand?

**Leighton Andrews:** I am very happy with the legislative proposals that we have brought to the Assembly.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn fodlon iawn â'r cynigion deddfwriaethol rydym wedi'u cyflwyno i'r Cynulliad.

### Diwygio Lles

### Welfare Reform

***9. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cymru i ddiwygio lles. OAQ(4)0134(ESK)*

***9. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on the Welsh Government’s response to welfare reform. OAQ(4)0134(ESK)*

**Leighton Andrews:** The Welsh Government, led by a ministerial task and finish group, is undertaking an analysis of the impact of welfare reform on Wales. This will help us to mitigate, wherever possible, the negative implications of the UK Government’s changes. However, we cannot pick up the bill for decisions taken in Westminster.

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cymru, o dan arweiniad grŵp gorchwyl a gorffen, yn cynnal dadansoddiad o effaith diwygio lles ar Gymru. Bydd hyn yn ein helpu i liniaru, lle bynnag y bo'n bosibl, goblygiadau negyddol newidiadau Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, ni allwn dalu am benderfyniadau a wneir yn San

Steffan.

**Jocelyn Davies:** At least 70,000 households in my region will be affected by the abolition of the council tax benefit scheme, some of which, of course, the most vulnerable among us. How will your Government protect those households?

**Jocelyn Davies:** Bydd o leiaf 70,000 o aelwydydd yn fy rhanbarth i yn dioddef yn sgîl dileu'r cynllun budd-dal y dreth gyngor, ac mae rhai ohonynt, wrth gwrs, yn rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein plith. Sut y bydd eich Llywodraeth yn amddiffyn yr aelwydydd hynny?

**Leighton Andrews:** I think that you are aware that the Minister for Local Government and Communities has been consulting on a successor scheme. We will publish our proposals when we are satisfied that we have established the way that we want to take this forward.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn meddwl eich bod yn ymwybodol bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi bod yn ymgynghori ar gynllun olynol. Byddwn yn cyhoeddi ein cynigion pan fyddwn yn fodlon ein bod wedi penderfynu sut rydym am symud ymlaen.

**Rebecca Evans:** Minister, the impact of the abolition of the health in pregnancy grant and the restrictions on the maternity grant have received less attention than some other benefit reforms, but the financial impact on some pregnant women in Wales, particularly those on low incomes, will be quite substantial. How will you measure the impact of these cuts?

**Rebecca Evans:** Weinidog, mae effaith dileu'r grant iechyd yn ystod beichiogrwydd a'r cyfyngiadau ar y grant mamolaeth wedi cael llai o sylw na rhai diwygiadau lles eraill, ond bydd hyn yn cael effaith ariannol sylweddol ar rai menywod beichiog yng Nghymru, yn enwedig y rheini ar incwm isel. Sut y byddwch yn mesur effaith y toriadau hyn?

**Leighton Andrews:** I am glad that the Member has raised that, because she is absolutely right to say that it has received less attention overall. I propose to take that issue to my officials as part of their assessment of the overall impact of the welfare reform proposals on Wales.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn falch bod yr Aelod wedi codi hynny, oherwydd mae'n gwbl gywir wrth ddweud ei fod wedi cael llai o sylw yn gyffredinol. Rwyf yn bwriadu codi'r mater hwnnw gyda'm swyddogion fel rhan o'u hasesiad o effaith gyffredinol y cynlluniau diwygio lles ar Gymru.

**Mark Isherwood:** UK welfare reform includes proposals to replace disability living allowance with the new personal independence payment, to move away from blanket exemptions and treat an individual as an individual, providing support tailored to personal circumstances. The UK Minister for Disabled People has told me that she is keen to hear from disabled people, carers and family members and from representative organisations in the consultation on the DLA reform and personal independence payment design, which closes on 30 June. Will you join me in encouraging those groups to take part in that consultation and how can the Welsh Government help to make people aware of that opportunity?

**Mark Isherwood:** Mae proses diwygio lles y DU yn cynnwys cynlluniau i ddisodli'r lwfans byw i'r anabl gyda'r taliad annibyniaeth bersonol newydd, er mwyn symud oddi wrth eithriadau cyffredinol a mynd ati i drin unigolyn fel unigolyn, gan ddarparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer amgylchiadau personol. Mae Gweinidog dros Bobl Anabl y DU wedi dweud wrthyf ei bod yn awyddus i glywed gan bobl anabl, gofalwyr ac aelodau o'r teulu a chan sefydliadau cynrychioliadol yn yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r lwfans byw i'r anabl ac ar gynllun y taliad annibyniaeth bersonol, a ddaw i ben ar 30 Mehefin. A wnewch ymuno â mi i annog y grwpiau hynny i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw, a sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i wneud pobl yn ymwybodol o'r cyfle

hwnnw?

**Leighton Andrews:** My understanding is that Department for Work and Pensions officials met a small group of disabled people and organisations in Cardiff on 29 March. The Deputy Minister for Children and Social Services has written to Maria Miller, the UK Government Minister for Disabled People, with comments on the PIP consultation. Our understanding is that there is likely to be more than a 20% reduction in the number of disabled people receiving the new benefit by 2015-16. A further consultation has now been launched and will run until 30 June. We discussed this in the ministerial task and finish group briefly earlier this week.

**Leighton Andrews:** Yn ôl yr hyn a ddeallaf fi, cafodd swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau gyfarfod â grŵp bach o bobl anabl a sefydliadau yng Nghaerdydd ar 29 Mawrth. Mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at Maria Miller, Gweinidog dros Bobl Anabl Llywodraeth y DU, gyda sylwadau ar yr ymgynghoriad PIP. Cawn ar ddeall ei bod yn debygol y bydd mwy nag 20 y cant yn llai o bobl anabl yn derbyn y budd-dal newydd erbyn 2015-16. Mae ymgynghoriad pellach wedi cael ei lansio yn awr, a bydd yn rhedeg tan 30 Mehefin. Buom yn trafod hyn yn y grŵp a gorchwyl gweinidogol yn gynharach yr wythnos hon.

### Darpariaeth Addysg Ôl-16

### Post-16 Education

***10. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Nhor-faen. OAQ(4)0140(ESK)*

***10. Lynne Neagle:*** *Will the Minister make a statement on post-16 education provision in Torfaen. OAQ(4)0140(ESK)*

**Jeff Cuthbert:** Officials are working with the local authority in Torfaen to assist in the development of transformation plans to make improvements to post-16 education, so that we can have high-quality provision that meets the needs of the community.

**Jeff Cuthbert:** Mae swyddogion yn gweithio gyda'r awdurdod lleol yn Nhor-faen i gynorthwyo i ddatblygu cynlluniau trawsnewid i wneud gwelliannau i addysg ôl-16, er mwyn inni allu cael darpariaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y gymuned.

**Lynne Neagle:** Thank you for that answer, Deputy Minister. As you highlight, discussions are ongoing between the council, Coleg Gwent and Welsh Government officials over the future shape of post-16 provision in Torfaen. I cannot emphasise enough the importance of these talks to Torfaen. You will be aware that, for the last few years, young people in the north of the borough have not had access to A-level provision locally in Torfaen, which has produced a huge inequity. While I understand that this is a complex situation, involving a number of strategic partners, there is now growing frustration over the length of time that it is taking to get this resolved. Deputy Minister, will you commit to looking personally at this issue, with a view to ensuring that all sides sit down and hammer out a final agreement that delivers the kind of twenty-first century further education provision that Torfaen so badly needs?

**Lynne Neagle:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Ddirpwy Weinidog. Fel y dywedwch mae'r cyngor, Coleg Gwent a swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod ffurf y ddarpariaeth ôl-16 yn Nhor-faen yn y dyfodol. Ni allaf bwysleisio digon pa mor bwysig yw'r trafodaethau hyn i Dor-faen. Byddwch yn ymwybodol nad yw pobl ifanc yng ngogledd y fwrdeistref, yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, wedi cael mynediad at ddarpariaeth Safon Uwch yn lleol yn Nhor-faen, sydd wedi creu annhegwch mawr. Er fy mod yn deall bod hon yn sefyllfa gymhleth, sy'n cynnwys nifer o bartneriaid strategol, ceir rhwystredigaeth gynyddol yn awr ei bod yn cymryd cymaint o amser i ddatrys hyn. Ddirprwy Weinidog, a wnewch ymrwymo i edrych ar y mater hwn yn bersonol, gyda'r bwriad o sicrhau bod pob ochr yn eistedd i lawr ac yn penderfynu ar gytundeb terfynol sy'n darparu'r math o ddarpariaeth addysg bellach ar gyfer yr unfed

ganrif ar hugain y mae gwir ei hangen ar Dor-faen?

**Jeff Cuthbert:** I thank the Member for that. There is little that I can add. I understand the frustration and I will certainly make it my business to meet with officials, who I know are meeting Torfaen County Borough Council and Coleg Gwent. I am aware that the initial outline business case was not pursued, but there must be a resolution soon, and I shall certainly make it my business to help that process.

**Jeff Cuthbert:** Diolch i'r Aelod am hynny. Nid oes llawer y gallaf ei ychwanegu. Rwyf yn deall y rhwystredigaeth a byddaf yn sicr yn gofalu fy mod yn cael cyfarfodydd â swyddogion sydd, rwyf yn gwybod, yn cael cyfarfodydd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen a Choleg Gwent. Rwyf yn ymwybodol na ddilynwyd yr achos busnes amlinellol cychwynnol, ond rhaid cael penderfyniad cyn bo hir, a byddaf yn sicr yn mynd ati i helpu'r broses honno.

**Mohammad Asghar:** Further to Lynne Neagle's question, Torfaen council's plan for changing the way that post-16 education is delivered has caused concern among headteachers, who have complained about the lack of consultation on proposals. They have called for a full and open discussion on the best way to deliver post-16 education to ensure that educational need is the driving factor. Will the Deputy Minister confirm that the widest possible consultation with headteachers, staff and parents will be undertaken before any plans to change the delivery of post-16 education in Torfaen are implemented?

**Mohammad Asghar:** Yn dilyn cwestiwn Lynne Neagle, mae cynllun cyngor Tor-faen ar gyfer newid y ffordd y mae addysg ôl-16 yn cael ei darparu wedi achosi pryder ymhlith penaethiaid, sydd wedi cwyno am y diffyg ymgynghori ar y cynigion. Maent wedi galw am drafodaeth lawn ac agored ar y ffordd orau o ddarparu addysg ôl-16 er mwyn sicrhau mai anghenion addysgol yw'r prif ffactor. A wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau y cynhelir yr ymgynghoriad ehangaf posibl â phenaethiaid, staff a rhieni cyn i unrhyw gynlluniau i newid y modd y darperir addysg ôl-16 yn Nhorfaen gael eu gweithredu?

**Jeff Cuthbert:** Effective communication and consultation must take place before final decisions are reached. I know that the discussions between Torfaen local education authority and Coleg Gwent have been prolonged, with no resolution as yet, but it is important that the views of key players, such as headteachers, are taken into account, and I will examine the matter further.

**Jeff Cuthbert:** Rhaid cyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Gwn y bu trafodaethau maith rhwng awdurdod addysg lleol Tor-faen a Choleg Gwent, heb unrhyw benderfyniad hyd yma, ond mae'n bwysig bod barn cyfranwyr allweddol, fel penaethiaid, yn cael ei ystyried, a byddaf yn ystyried y mater ymhellach.

**Lindsay Whittle:** A wide availability of campuses is seen as essential for access to higher education and, in particular, for excluded groups. You will be aware that the University of Wales, Newport runs the Community University of the Valleys at Pontypool, for example. Can you give a guarantee that in any proposed merger of HE institutions in south-east Wales the present number of campuses will be retained?

**Lindsay Whittle:** Ystyrir bod campysau sydd ar gael i bawb yn hanfodol ar gyfer mynediad at addysg uwch ac, yn benodol, ar gyfer grwpiau sydd wedi'u heithrio. Byddwch yn ymwybodol mai Prifysgol Cymru, Casnewydd, sy'n rhedeg Prifysgol Gymunedol y Cymoedd ym Mhont-y-pŵl, er enghraifft. A allwch roi sicrwydd y bydd y nifer presennol o gampysau yn cael eu cynnal mewn unrhyw gynllun arfaethedig i uno sefydliadau addysg uwch yn y de-ddwyrain?

**Jeff Cuthbert:** I am loath to give a direct assurance to that end. I will look into the

**Jeff Cuthbert:** Rwyf yn gyndyn o roi sicrwydd uniongyrchol i'r perwyl hwnnw.

matter, but I would certainly hope to work to a position in which no student is disadvantaged unnecessarily, and that could mean that the number of campuses remains the same. However, I will examine the matter further as part of my work.

Byddaf yn ymchwilio i'r mater, ond byddwn yn sicr yn gobeithio gweithio tuag at sefyllfa lle nad oes dim un myfyriwr o dan anfantais yn ddiangen, a gallai hynny olygu bod nifer y campysau yn aros yr un fath. Fodd bynnag, byddaf yn archwilio'r mater ymhellach fel rhan o fy ngwaith.

**Profion Llythrennedd a Rhifedd**

**Literacy and Numeracy Tests**

***11. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. OAQ(4)0144(ESK)*

***11. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the Minister make a statement on national literacy and numeracy tests. OAQ(4)0144(ESK)*

**Leighton Andrews:** O fis Mai 2013, bydd yn ofynnol i asesu pob dysgwr o flwyddyn 2 i flwyddyn 9, gan ddefnyddio profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Mae'r profion, sydd ar gyfer Cymru'n bwrpasol, yn cael eu datblygu gan gontractwyr arbenigol ar hyn o bryd, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Leighton Andrews:** From May 2013, all learners in year 2 through to year 9 will be required to be assessed using national reading and numeracy tests. Tests that are bespoke to Wales are currently being developed by specialist contractors in both Welsh and English.

**Rhodri Glyn Thomas:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod consýrn wedi cael ei godi ynglŷn ag effaith hyn ar bwysau gwaith athrawon. Bydd hefyd yn ymwybodol bod cynlluniau megis proffiliau asesu datblygiad plant eisoes yn gosod baich biwrocrataidd ar athrawon. Rydych chi, Weinidog, wedi sôn am gynnig cynhaliaeth ychwanegol os oes pwysau gwaith ar athrawon. Beth yn union yw'r gynhaliaeth ychwanegol hon yr ydych yn ei chynnig?

**Rhodri Glyn Thomas:** The Minister will be aware that concern has been raised about the impact of this on the workload of teachers. He will also be aware that schemes such as child development assessment profiles already place a bureaucratic burden on teachers. You, Minister, have talked about offering additional support if there are work pressures on teachers. What exactly is this additional support that you are offering?

**Leighton Andrews:** First of all, the Member needs to reflect on the fact that I have suspended child development assessment profiles. So, that pressure should not be there.

**Leighton Andrews:** Yn gyntaf oll, mae angen i'r Aelod ystyried y ffaith fy mod wedi dileu'r proffiliau asesu datblygiad plentyn. Felly, ni ddylai hynny achosi pwysau.

In respect of the literacy and numeracy tests, there is, in my view, almost nothing as important as getting those tests right, and we will, of course, bring forward whatever support is required.

O ran y profion llythrennedd a rhifedd, yn fy marn i, mae cael y profion hynny'n iawn yn bwysicach na dim bron a byddwn, wrth gwrs, yn cyflwyno pa gefnogaeth bynnag y mae ei hangen.

**Angela Burns:** Thank you very much for your answer to Rhodri Glyn Thomas, Minister, because I agree with you that nothing is more important than getting these tests right. I therefore find it curious that you have ruled out external marking of the proposed national literacy and numeracy tests, yet, at the same time, you have said that the issue of children's results is to do with

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn ichi am eich ateb i Rhodri Glyn Thomas, Weinidog, oherwydd rwyf yn cytuno â chi nad oes unrhyw beth yn bwysicach na chael y profion hyn yn iawn. Felly, mae'n rhyfedd eich bod wedi diystyru system farcio allanol ar gyfer y profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol arfaethedig, ac eto, ar yr un pryd, rydych wedi dweud bod a wnelo canlyniadau plant

teachers perhaps not having a consistent approach to how they evaluate children. Is that not a paradox? How do you propose to resolve it?

â'r ffaith nad oes gan athrawon ddull cyson o werthuso plant o bosibl. Onid yw hynny'n baradocs? Sut rydych yn bwriadu datrys hynny?

**Leighton Andrews:** I do not think that it is a paradox. What we are talking about is having standardised tests. That is the key here. One of the things that the research carried out by Professor Rhona Stainthorp of the University of Reading found was that a large number of tests were undertaken across the whole of Wales, but they were not necessarily consistent. I am confident that, now, with the work that we have under way, we will have consistent tests across the whole of Wales.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn credu bod hynny'n baradocs. Profion safonol yw'r hyn rydym yn sôn amdano. Dyna yw’r allwedd yn hyn o beth. Un o'r pethau a ganfuwyd gan yr ymchwil, a gynhaliwyd gan yr Athro Rhona Stainthorp o Brifysgol Reading, oedd bod nifer helaeth o brofion yn cael eu cynnal ar draws Cymru gyfan ond nad oeddent, o reidrwydd, yn gyson. Gyda'r gwaith sydd ar y gweill gennym, rwyf yn hyderus y bydd gennym brofion cyson ar draws Cymru gyfan yn awr.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Of course, Minister, the tests are just the start of the process. It is appropriate action after the tests have been administered and marked that will truly drive improvement in literacy standards in Wales. Could you tell us how many outstanding teachers of literacy you intend to recruit and when they will be recruited by?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Wrth gwrs, Weinidog, dim ond dechrau'r broses yw'r profion. Camau priodol ar ôl i'r profion gael eu cynnal a'u marcio fydd wir yn sbarduno gwelliant mewn safonau llythrennedd yng Nghymru. A allech ddweud wrthym faint o athrawon llythrennedd rhagorol rydych yn bwriadu eu recriwtio, ac erbyn pryd y byddant yn cael eu recriwtio?

**Leighton Andrews:** I do not think that it is a question of recruiting new outstanding teachers of literacy and numeracy. It is about ensuring that all teachers are trained in the teaching of literacy, in particular. That will be a priority for the new initial teacher training courses and for the Master’s degree, and we will, of course, support that through professional development, including through the use of in-service training days.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn credu ei fod yn fater o recriwtio athrawon llythrennedd a rhifedd rhagorol newydd. Yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod yr holl athrawon yn cael eu hyfforddi i addysgu llythrennedd, yn benodol. Bydd hynny'n flaenoriaeth i'r cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon newydd ac i'r radd Meistr, ac wrth gwrs byddwn yn cefnogi hynny drwy ddatblygiad proffesiynol, gan gynnwys drwy ddefnyddio diwrnodau hyfforddiant mewn swydd.

**Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain**

**Twenty-first Century Schools**

***12. Elin Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. OAQ(4)0146(ESK)*

***12. Elin Jones:*** *Will the Minister give an update on the 21st century schools Programme. OAQ(4)0146(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae swyddogion yn cyfarfod ag awdurdodau lleol i drafod cam nesaf, achos amlinellol strategol rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, gyda’r bwriad o nodi prosiectau sy’n flaenoriaeth, sydd i gael eu cyflenwi yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen.

**Leighton Andrews:** Officials are meeting with local authorities to discuss the next stage, the strategic outline case of the twenty-first century schools programme, with the aim of identifying priority projects that are to be delivered in the first three years of the programme.

**Elin Jones:** Yn sgîl y cyfarfodydd rhwng eich swyddogion a'r awdurdodau lleol, a ydych yn ymwybodol o unrhyw gynghorau o dan arweiniad gwleidyddol newydd ers yr etholiad sydd am newid eu blaenoriaethau o dan y rhaglen gyfalaf honno?

**Elin Jones:** Following the meetings between your officials and the local authorities, are you aware of any councils under new political leadership since the election that want to change their priorities under that capital programme?

**Leighton Andrews:** Not so far, but the Member is quite right to raise that point. It was an issue that I touched on when speaking with the leaders of local authorities in Llandrindod Wells on Friday. I would hope that there would not be significant changes to the programme, because, clearly, that would require us to undertake an element of re-profiling.

**Leighton Andrews:** Ddim hyd yn hyn, ond mae'r Aelod yn iawn i godi'r pwynt hwnnw. Roedd yn fater y soniais amdano wrth siarad ag arweinwyr awdurdodau lleol yn Llandrindod ddydd Gwener. Byddwn yn gobeithio na fyddai newidiadau sylweddol i'r rhaglen, oherwydd byddai hynny'n amlwg yn golygu y byddai'n rhaid inni wneud rhywfaint o waith ail-broffilio.

2.15 p.m.

**Mark Isherwood:** When the previous Flintshire County Council launched its series of consultations on the twenty-first century schools programme, concerns were raised about Argoed High School being merged with the secondary school in Buckley. That did not go ahead, but the issue was particularly sensitive because, although Argoed has a mainstream campus, it delivers a range of special educational need provision, particularly for pupils who have an autism spectrum disorder. I am aware that there is some talk of people wanting to revisit the decision taken in that respect. Do you, as Minister, agree that, in the twenty-first century schools programme, schools that are providing such special educational need provision, mainstream or otherwise, often require smaller pupil numbers and should be considered separately from normal high school provision?

**Mark Isherwood:** Pan lansiodd cyngor blaenorol sir y Fflint ei gyfres o ymgynghoriadau ar y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, mynegwyd pryderon am uno Ysgol Uwchradd Argoed â'r ysgol uwchradd ym Mwcle. Ni ddigwyddodd hynny, ond roedd y mater yn hynod sensitif oherwydd er bod gan Argoed gampws prif ffrwd, mae'n darparu ystod o ddarpariaethau anghenion addysgol arbennig, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistaidd. Rwyf yn ymwybodol y ceir rhywfaint o sôn bod pobl yn dymuno ailedrych ar y penderfyniad a wnaed yn hynny o beth. A ydych chi, fel Gweinidog, yn cytuno bod ysgolion yn y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain—sy'n cynnig darpariaeth anghenion addysgol arbennig o'r fath, boed yn brif ffrwd neu fel arall—yn aml yn gofyn am nifer llai o ddisgyblion, ac y dylid eu hystyried ar wahân i ddarpariaeth ysgolion uwchradd arferol?

**Leighton Andrews:** Llywydd, I never comment on school reorganisation proposals in particular local authorities.

**Leighton Andrews:** Lywydd, ni fyddaf byth yn gwneud sylwadau ar gynigion i ad-drefnu ysgolion mewn awdurdodau lleol penodol.

**Peter Black:** Minister, you have said already that your officials have been meeting local education authorities about the twenty-first century schools programme. Do you have any indication of how many local authorities would be in a position to match-fund the significant sums of money that you have committed over the seven years from 2013?

**Peter Black:** Weinidog, rydych eisoes wedi dweud bod eich swyddogion wedi bod yn cael cyfarfodydd ag awdurdodau addysg lleol ynghylch y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. A oes gennych unrhyw syniad o faint o awdurdodau lleol fyddai mewn sefyllfa i gynnig cyllid cyfatebol ar gyfer y symiau sylweddol o arian

rydych wedi'u hymrwymo dros y saith mlynedd o 2013 ymlaen?

**Leighton Andrews:** My understanding is that they will all be able to provide that money over the relevant period.

**Leighton Andrews:** Yn ôl yr hyn a ddeallaf fi, bydd pob un ohonynt yn gallu darparu'r arian hwnnw yn ystod y cyfnod perthnasol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
## Questions to the Minister for Local Government and Communities

### Blaenoriaethau

### Priorities

*1. **Suzy Davies**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0152(LGC)*

*1. **Suzy Davies:** Will the Minister outline his priorities for the next 12 months. OAQ(4)0152(LGC)*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** My priorities for the next 12 months were published yesterday in the programme for government annual report. They include reducing poverty, making our communities safer, and supporting the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of people in Wales.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cyhoeddwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf ddoe yn adroddiad blynyddol y rhaglen lywodraethu. Maent yn cynnwys lleihau tlodi, gwneud ein cymunedau'n fwy diogel, a chefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**Suzy Davies:** Thank you for that answer. Minister, you have told the Chamber recently that you do not support placing a statutory obligation on local authorities themselves to film their council meetings. Given the low turnout in last month's elections, do you not agree that more needs to be done to engage people in the local decision-making process? Enabling citizen journalists may be an answer to that, so what further consideration have you given to allowing members of the public in to film proceedings in council chambers?

**Suzy Davies:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Weinidog, rydych wedi dweud wrth y Siambr yn ddiweddar nad ydych yn cefnogi gosod dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol eu hunain i ffilmio eu cyfarfodydd cyngor. O ystyried nifer isel y pleidleiswyr yn etholiadau'r mis diwethaf, onid ydych yn cytuno bod angen gwneud rhagor i gynnwys pobl yn y broses leol o wneud penderfyniadau? Gallai caniatáu newyddiadurwyr sy'n ddinasyddion ateb y broblem honno, felly a ydych wedi ystyried ymhellach caniatáu i aelodau o'r cyhoedd fynd i ffilmio'r trafodion yn siambrau'r cynghorau?

**Carl Sargeant:** I cannot see any correlation between filming in a council chamber and increasing turnout or voter numbers. I have no idea what the Member is on about. I have made my views clear on filming in council chambers, and the Member is aware of them.

**Carl Sargeant:** Ni allaf weld unrhyw gydberthynas rhwng ffilmio yn siambr y cyngor a chynyddu nifer y pleidleiswyr. Nid wyf yn gwybod am beth y mae'r Aelod yn sôn. Rwyf wedi mynegi fy marn yn glir ynghylch ffilmio yn siambrau'r cynghorau, ac mae'r Aelod yn gwybod beth yw fy marn.

**Kenneth Skates:** Minister, I welcome the proposed changes to the north-south express train service between Holyhead and Cardiff. I am very glad to see that providing an effective and sustainable transport network

**Kenneth Skates:** Weinidog, rwyf yn croesawu'r newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth trên cyflym o'r gogledd i'r de, rhwng Caergybi a Chaerdydd. Rwyf yn falch o weld bod darparu rhwydwaith trafnidiaeth

that meets the needs of people in north-east Wales is a key priority for this Government, and I believe the new route will be a huge success. Will you examine further how such rail infrastructure improvements could support expansion in the north-east Wales economy, and in particular would you consider examining both the feasibility and economic impact of the service stopping at either Ruabon or Chirk in my constituency?

effeithiol a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion pobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Llywodraeth hon, ac rwyf yn credu y bydd y llwybr newydd yn llwyddiant ysgubol. A wnewch ystyried ymhellach sut y gallai gwelliannau o'r fath i'r seilwaith rheilffordd gefnogi economi gogledd-ddwyrain Cymru i ehangu, ac yn benodol, a fyddech yn ystyried edrych ar ddichonoldeb ac effaith economaidd y ffaith na fydd gwasanaeth bellach naill ai yn Rhiwabon neu yn y Waun yn fy etholaeth i?

**Carl Sargeant:** I am grateful to the Member for Clwyd South for his question. The very nature of the service as an express train, Ken, means that it will not call at all stations. At the stations that you mentioned, there are some operational issues with the configuration of the platform. I will ask my officials to work with Network Rail to look at that, and I will write to you.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod dros Dde Clwyd am ei gwestiwn. Mae natur y gwasanaeth fel trên cyflym, Ken, yn golygu na fydd yn galw ym mhob gorsaf. Ceir rhai materion gweithredu'n ymwneud â chyfluniad y platform yn y gorsafoedd rydych wedi eu crybwyll. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion weithio gyda *Network Rail* i edrych ar hynny, a byddaf yn ysgrifennu atoch.

**Peter Black:** Minister, you will have noted that a number of seats in the recent local elections went uncontested, and turnout was very low. In your White Paper that was published recently, it seems that the main proposal that you have in relation to elections is to change the name of the boundary commission. Have you considered more fundamental changes to how local councils are elected, such as a fair voting system?

**Peter Black:** Weinidog, byddwch wedi nodi yr etholwyd nifer o ymgeiswyr yn ddiwrthwynebiad yn yr etholiadau lleol yn ddiweddar, ac roedd nifer y pleidleiswyr yn isel. Yn eich Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'n debyg mai'r prif gynnig sydd gennych mewn perthynas ag etholiadau yw newid enw'r comisiwn ffiniau. A ydych wedi ystyried newidiadau mwy sylfaenol i'r ffordd y caiff cynghorau lleol eu hethol, fel system bleidleisio deg?

**Carl Sargeant:** The Member is quite within his rights to make representation to me through the White Paper. I will take seriously all correspondence from all parties with an interest, and I will respond at the appropriate time.

**Carl Sargeant:** Mae gan yr Aelod berffaith hawl i gyflwyno sylwadau i mi drwy'r Papur Gwyn. Byddaf yn ystyried o ddifrif yr holl ohebiaeth gan bawb sydd â diddordeb, a byddaf yn ymateb ar yr adeg briodol.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. Could I ask you to note, therefore, by way of a response, that, in Scotland, which does have a fair voting system, there were no uncontested seats and voter turnout was much higher? Should you be learning from that?

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A allaf ofyn i chi nodi, felly, fel ymateb, nad etholwyd dim un ymgeisydd yn ddiwrthwynebiad yn yr Alban, sydd â system bleidleisio deg, ac roedd nifer uwch o lawer o bleidleiswyr yno? A ddylech fod yn dysgu o hynny?

**Carl Sargeant:** It is important that we encourage as many people to stand for election as possible, but I am yet to be

**Carl Sargeant:** Mae'n bwysig ein bod yn annog cynifer o bobl â phosibl i sefyll mewn etholiad, ond nid wyf eto wedi fy argyhoeddi

convinced that the electoral system that the Member may be suggesting is the answer to the problem.

mai'r system etholiadol y mae'r Aelod yn ei hawgrymu, o bosibl, yw'r ateb i'r broblem.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae’n rhyfedd clywed Aelod etholedig o ogledd Cymru yn croesawu’r ffaith eich bod wedi penderfynu cymryd £0.5 miliwn o fuddsoddiad o’r gwasanaethau trenau o’r gogledd i’r de, ac y bydd y trên yn stopio mewn llai o orsafoedd trên. A wnewch chi gydnabod, Weinidog, fod pwysau refeniw enfawr ar eich portffolio, ac mai’r pwysau refeniw hynny sydd wedi arwain at y penderfyniad hwn?

**Rhodri Glyn Thomas:** It is strange to hear an elected Member from north Wales welcoming the fact that you have decided to take £0.5 million of investment out of the north-south rail service, and that the train will now stop at fewer train stations en route. Will you acknowledge, Minister, that your portfolio is under immense pressure in revenue terms and that that is what has led to this decision?

**Carl Sargeant:** The Member is clearly ill informed. The only thing the Member has done is put fear into the hearts of many employees who work on the Arriva services that serve the north-south route. Let me put the facts of the matter on record: we have saved £0.5 million on the north-south service, which is a saving for the taxpayer; it will be a better, more comfortable service for travellers; it will take less time to travel from Holyhead to Cardiff; and it will stop at more stations. Therefore, the service will be quicker while stopping at more stations. More importantly, the new service paid for by the Welsh Government now stops at more Welsh stations than the old service, including Wrexham, which the Member responsible for transport previously promised but never delivered.

**Carl Sargeant:** Yn amlwg, nid oes gan yr Aelod yr wybodaeth gywir. Yr unig beth y mae'r Aelod wedi ei wneud yw dychryn llawer o gyflogeion sy'n gweithio ar y gwasanaethau Arriva sy'n gwasanaethu'r llwybr o'r gogledd i'r de. Gadewch imi roi'r ffeithiau cywir ar gofnod: rydym wedi gwneud arbedion o £0.5 miliwn ar y gwasanaeth o'r gogledd i'r de, sef arbedion ar gyfer y trethdalwr; bydd yn wasanaeth gwell, mwy cyfforddus i'r teithwyr; bydd yn cymryd llai o amser i deithio o Gaergybi i Gaerdydd, a bydd yn galw mewn mwy o orsafoedd. Felly bydd y gwasanaeth yn gyflymach gan alw mewn mwy o orsafoedd. Yn bwysicach byth, mae'r gwasanaeth newydd y talwyd amdano gan Lywodraeth Cymru yn awr yn galw mewn mwy o orsafoedd yng Nghymru na'r hen wasanaeth, gan gynnwys Wrecsam, yr oedd yr Aelod sy'n gyfrifol am drafnidiaeth wedi ei addo yn y gorffennol, ond erioed wedi ei sicrhau.

Mae Gerallt yn fwy o Gymro rwan. [*Chwerthin*.]

Gerald is more of a Welshman now. [*Laughter*.]

**Rhodri Glyn Thomas:** Diddorol iawn, Weinidog. Wrth sôn am bobl nad ydynt yn gwybod eu ffeithiau, yn gyfleus iawn nid ydych yn nodi mai problemau technegol oedd wrth wraidd y ffaith nad oedd y trên yn gallu stopio yn Wrecsam ar y pryd, ac mai’r bwriad ar hyd yr amser oedd i hynny ddigwydd unwaith y byddai’r problemau wedi’u datrys. Rydych yn cydnabod erbyn hyn fod £0.5 miliwn wedi ei gymryd allan o’r gwasanaeth hwn, ond rydych yn parhau i ddadlau eich bod yn gwella’r gwasanaeth. Nid yw Gerallt yn fwy o Gymro oherwydd bod un trên yn llai yn mynd o’r gogledd i’r

**Rhodri Glyn Thomas:** Very interesting, Minister. Talking about people who do not get their facts right, you rather conveniently omitted to mention that it was a technical issue that was to blame for the train not stopping at Wrexham at the time, and that it was always the intention for that to happen once those problems had been fixed. You have now acknowledged that £0.5 million has been taken out of this service, and yet you continue to assert that you are improving the service. Gerald is not more of a Welshman because one less train is going from north to south Wales. By any measure, he is less of a

de. Ar unrhyw fesur, mae'n llai o Gymro o un daith bellach.

Welshman by one journey at least.

**Carl Sargeant:** Again, the Member is ill informed. Let me put the facts on record. The Member is quite right to say that we have saved £0.5 million for the taxpayer. [*Interruption.*] The Member, from a sedentary position, keeps shouting that there is one less service. Let me inform the Member that there is now a new evening service: the 6.15 p.m. service between Cardiff and Chester. There is not a reduction in services, but there is a £0.5 million saving. We are on the right side of the argument here. All you are doing is scaremongering the staff of Arriva Trains.

**Carl Sargeant:** Unwaith eto, nid oes gan yr Aelod yr wybodaeth gywir. Gadewch imi roi'r ffeithiau ar gofnod. Mae'r Aelod yn llygad ei le yn dweud ein bod wedi arbed £0.5 miliwn ar gyfer y trethdalwr. [*Torri ar draws.*] Mae'r Aelod, ag yntau'n eistedd, yn dal ati i weiddi y ceir un gwasanaeth yn llai. Gadewch imi roi gwybod i'r Aelod y ceir bellach wasanaeth newydd gyda'r nos: y gwasanaeth 6.15 p.m. rhwng Caerdydd a Chaer. Nid oes llai o wasanaethau, ond ceir arbedion o £0.5 miliwn. Rydym ar ochr gywir y ddadl yma. Yr oll rydych chi'n ei wneud yw codi bwganod ar staff Trenau Arriva.

### Awdurdodau Lleol Cymru

### Welsh Local Authorities

***2. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sawl arweinydd a phrif weithredwr awdurdodau lleol Cymru y mae'n bwriadu cwrdd â hwy dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0146(LGC)*

***2. Janet Finch-Saunders***: *Will the Minister outline how many Welsh local authority leaders and chief executives he intends to meet during the next six months. OAQ(4)0146(LGC)*

**Carl Sargeant:** I met with local authority leaders last week and will be holding four events across Wales in June and July, at which I hope to meet as many councillors as possible.

**Carl Sargeant:** Bûm yn cyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol yr wythnos diwethaf, a byddaf yn cynnal pedwar digwyddiad ar draws Cymru ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Rwyf yn gobeithio cwrdd â chynifer o gynghorwyr â phosibl yn y digwyddiadau hyn.

**Janet Finch-Saunders:** It is fair to say that, during 2011, you met with only 10 local authority leaders, which is less than half the number in Wales. This Government has a habit of taking decisions on behalf of local authorities, with council tax support and the council tax freeze consequential being two quite recent examples. Will the Minister promise the Chamber that he will engage with all our local authorities before making decisions on their behalf?

**Janet Finch-Saunders:** Mae'n deg dweud mai dim ond 10 o arweinwyr awdurdodau lleol y bu ichi gyfarfod â hwy yn 2011, sef llai na hanner y nifer yng Nghymru. Mae gan y Llywodraeth hon arfer o wneud penderfyniadau ar ran awdurdodau lleol. Dwy enghraifft ddiweddar yw cymorth gyda'r dreth gyngor ac arian canlyniadol rhewi'r dreth gyngor. A wnaiff y Gweinidog addo i'r Siambr y bydd yn ymgysylltu â'n holl awdurdodau lleol cyn gwneud penderfyniadau ar eu rhan?

**Carl Sargeant:** I will meet local authority leaders, political and professional members when it is appropriate to do so. I will not waste taxpayers' money on meeting them for the sake of it.

**Carl Sargeant:** Byddaf yn cyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol, aelodau gwleidyddol a phroffesiynol, pan fo'n briodol gwneud hynny. Ni fyddaf yn gwastraffu arian y trethdalwr ar gyfarfod â hwy am ddim rheswm.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Ar ran arweinydd Cyngor Gwynedd, Dyfed Edwards, ac arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Dilwyn Roberts, mae'n bleser gennyf estyn gwahoddiad i'r Gweinidog ymweld â dwy sir lle mae Plaid Cymru a'r Blaid Lafur mewn clymblaid yn y cabinet.

**Lord Elis-Thomas:** On behalf of the leader of Gwynedd Council, Dyfed Edwards, and the leader of Conwy County Borough Council, Dilwyn Roberts, it is my pleasure to extend an invitation to the Minister to visit two counties where Plaid Cymru and the Labour Party are in coalition in the cabinet.

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's contribution. I met Dilwyn and Dyfed on Friday, Dyfed being an ex-teacher of mine—in physical education. [*Laughter.*] I think that he is much better suited to his job in politics. I would be delighted to meet those authority leaders and the Member at an appropriate time, should he wish to write to me with an invitation.

**Carl Sargeant:** Diolch am gyfraniad yr Aelod. Bûm yn cyfarfod â Dilwyn a Dyfed ddydd Gwener. Roedd Dyfed yn gyn-athro addysg gorfforol imi. [Chwerthin.] Rwyf yn meddwl fod ei swydd mewn gwleidyddiaeth yn gweddu'n llawer gwell iddo. Byddwn wrth fy modd yn cwrdd ag arweinwyr yr awdurdodau hynny a'r Aelod ar adeg briodol, pe bai'n dymuno ysgrifennu ataf yn fy ngwahodd.

**Lindsay Whittle:** Dyfed, God bless him, does have his failures. [*Laughter.*] Following the announcements on 4 May—and I am not tempted to make any jokes such as 'May the fourth be with you'—what impressions are you getting about the attitudes of local authorities towards regional collaboration now that you are meeting these leaders?

**Lindsay Whittle:** Bendith Duw arno, mae gan Dyfed ei fethiannau. [*Chwerthin.*] Yn dilyn y cyhoeddiadau ar 4 Mai—ac ni chaf fy nhemtio i ddweud dim jôcs fel '*May the fourth be with you*'—pa argraff a gewch ynglŷn ag agweddau awdurdodau lleol tuag at gydweithio rhanbarthol, a chithau bellach yn cyfarfod â'r arweinwyr hyn?

**Carl Sargeant:** I met with the majority of the new leaders on Friday at the WLGA forum in Llandrindod Wells. I had an excellent response. This is a matter that, operationally, will work as long as we are prepared to work together. It is a two-way street, and I am encouraged by the discussions that I have already had with the new leaders of authorities.

**Carl Sargeant:** Bûm yn cyfarfod â'r rhan fwyaf o'r arweinwyr newydd ddydd Gwener yn fforwm CLlLC yn Llandrindod. Cefais ymateb ardderchog. Mae hwn yn fater a fydd yn gweithio, yn weithredol, ar yr amod ein bod yn barod i weithio gyda'n gilydd. Mae'n broses ddwy ffordd, ac rwyf wedi fy nghalonogi gan y trafodaethau yr wyf eisoes wedi'u cael gydag arweinwyr newydd yr awdurdodau.

### Pwyllgorau Cynllunio Ardal

### Area Planning Committees

***3. Mick Antoniw:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am allu Awdurdodau Lleol i sefydlu pwyllgorau cynllunio ardal. OAQ(4)0156(LGC)*

***3. Mick Antoniw:** Will the Minister provide an update on the ability of Local Authorities to establish area planning committees. OAQ(4)0156(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Pontypridd for his question. The Local Government (Wales) Measure 2011 includes provision for area committees responsible for executive functions. The 'Promoting Local Democracy' White Paper published recently suggests amending these arrangements so that they apply to non-executive functions such as planning. All councillors for that area

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei gwestiwn. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pwyllgorau ardal sy'n gyfrifol am swyddogaethau gweithredol. Mae'r Papur Gwyn 'Hybu Democratiaeth Leol' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn awgrymu diwygio'r trefniadau hyn fel eu bod yn berthnasol i swyddogaethau nad ydynt yn

would be eligible for membership.

weithredol, fel cynllunio. Byddai pob cynghorwr ar gyfer y maes hwnnw yn gymwys i fod yn aelod.

**Mick Antoniw:** Thank you for that answer, Minister. As you know, there has been a bit of a history to this, a problem and perhaps a legal loophole. From your answer, I am satisfied now that there will be some provision to address that with future legislation.

**Mick Antoniw:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae tipyn o hanes y tu cefn i hyn, yn broblem ac efallai'n fwlch yn y gyfraith. O'ch ateb, rwyf yn fodlon nawr y bydd rhywfaint o ddarpariaeth i roi sylw i hynny mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's question. I am aware of the concerns that he has raised with me in the past, and I am also hopeful that this new legislation will address the issues that he has raised with me in correspondence.

**Carl Sargeant:** Diolch am gwestiwn yr Aelod. Rwyf yn ymwybodol o'r pryderon y mae wedi eu codi gyda mi yn y gorffennol, ac rwyf hefyd yn obeithiol y bydd y ddeddfwriaeth newydd hon yn rhoi sylw i'r materion y mae wedi'u codi gyda mi mewn gohebiaeth.

**Antoinette Sandbach:** Minister, given that half of Welsh local planning authorities failed to respond to your Government's rural enterprise dwelling monitoring exercise for 2010-11, can you outline what steps you will be taking to encourage local authorities to fulfil their duties to the Welsh Government under technical advice note 6, so that members of the public can hold these authorities to account for their failure to implement a policy that is designed to support the viability of rural communities?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, o ystyried bod hanner yr awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wedi methu ag ymateb i ymarfer monitro anheddau mentrau gwledig eich Llywodraeth ar gyfer 2010-11, a allwch amlinellu pa gamau y byddwch yn eu cymryd i annog awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau i Lywodraeth Cymru o dan nodyn cyngor technegol 6, fel y gall aelodau o'r cyhoedd ddal yr awdurdodau hyn i gyfrif am fethu â gweithredu polisi sydd wedi'i gynllunio i gefnogi hyfywedd cymunedau gwledig?

**Carl Sargeant:** I know that my ministerial colleagues will be listening carefully to your question. All that I can offer is to tell you that the engagement of local authorities in consultations and processes is important to me, as it should be to them, and I actively encourage local authorities to ensure that, where there is consultation or a request for information, they should submit their response, whether it is positive or negative, so that the decisions that we make in this place can be better informed.

**Carl Sargeant:** Gwn y bydd fy nghyd-Weinidogion yn gwrando'n astud ar eich cwestiwn. Yr oll y gallaf ei gynnig yw dweud wrthych bod cynnwys awdurdodau lleol mewn ymgynghoriadau a phrosesau yn bwysig imi, fel y dylai fod iddynt hwy, ac rwyf yn annog awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cyflwyno eu hymateb, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, lle ceir ymgynghoriad neu gais am wybodaeth, fel y gall y penderfyniadau a wnawn yn y lle hwn fod yn fwy gwybodus.

### Y Gyllideb Drafnidiaeth

### The Transport Budget

***4. Llyr Huws Gruffydd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y gyllideb drafnidiaeth. OAQ(4)0153(LGC)*

***4. Llyr Huws Gruffydd:** Will the Minister make a statement on the Government's priorities for the transport budget. OAQ(4)0153(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd

North Wales for his question. The prioritised national transport plan sets out my priorities for my transport budget.

Cymru am ei gwestiwn. Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, sydd wedi'i flaenoriaethu, yn nodi fy mlaenoriaethau ar gyfer fy nghyllideb trafnidiaeth.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rydym oll yn ymwybodol eich bod yn cael eich rhwystro gan y Trysorlys rhag cael hyblygrwydd o fewn eich cyllideb i symud arian rhwng cyfalaf a refeniw. O ystyried y pwysau hirdymor ar elfen refeniw eich cyllideb trafnidiaeth, sef sefyllfa a fydd yn mynd yn fwy a mwy heriol wrth i amser fynd yn ei flaen, a ydych wedi gofyn i'r Trysorlys am bwerau dros y rhaniad rhwng refeniw a chyfalaf?

**Llyr Huws Gruffydd:** We are all aware that you are prevented by the Treasury from having flexibility within your budget to move funds between capital and revenue. Given the long-term pressure on the revenue element of your transport budget, which is a situation that will become more and more challenging as time progresses, have you asked the Treasury to give you powers over the split between revenue and capital?

**Carl Sargeant:** The Minister for finance is often in discussion with the Treasury about the processes within which the Assembly and the Welsh Government operate. Despite the issues that the Member raises, we are looking at innovative ways of funding schemes, one of which was recently announced with local authorities, where they are able to borrow for the highway infrastructure improvement programme. We are investing many millions of pounds in our roads that are in a poor condition, to ensure that we get them up to a standard that is fit for Wales.

**Carl Sargeant:** Mae'r Gweinidog Cyllid yn aml mewn trafodaethau gyda'r Trysorlys ynglŷn â'r prosesau y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gweithredu oddi mewn iddynt. Er gwaethaf y materion y mae'r Aelod yn eu codi, rydym yn ystyried ffyrdd arloesol o ariannu cynlluniau. Cyhoeddwyd un o'r ffyrdd hyn yn ddiweddar gydag awdurdodau lleol, lle gallant gael benthyciad ar gyfer rhaglen gwella seilwaith priffyrdd. Rydym yn buddsoddi miliynau lawer o bunnoedd yn ein ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael, er mwyn sicrhau ein bod yn eu gwella i safon sy'n addas ar gyfer Cymru.

**Byron Davies:** Minister, we have finally had a constructive statement from the Government on Cardiff Airport and the details of the taskforce set up to support a competitive position for our only international airport in Wales. What does that mean in real terms, and do you envisage any financial support? Will the airport be a priority in your Government's budget?

**Byron Davies:** Weinidog, o'r diwedd, rydym wedi cael datganiad adeiladol gan y Llywodraeth ynghylch Maes Awyr Caerdydd, a manylion y tasglu a sefydlwyd i gefnogi sefyllfa gystadleuol ar gyfer ein hunig faes awyr rhyngwladol yng Nghymru. Beth y mae hynny'n ei olygu mewn termau real, ac a ydych yn rhagweld unrhyw gymorth ariannol? A fydd y maes awyr yn flaenoriaeth yng nghyllideb eich Llywodraeth?

**Carl Sargeant:** There is a cross-cutting theme of support for all infrastructure programmes, including how we as a Welsh Government work to support the statement that the First Minister issued yesterday. It is early days yet, but we want to see a viable airport. The First Minister has been robust in his response about the need to turn the situation at Cardiff Airport around, but it is the responsibility of the private company and its owners.

**Carl Sargeant:** Ceir thema drawsbynciol o gefnogaeth ar gyfer pob rhaglen seilwaith, gan gynnwys sut yr ydym ni, fel Llywodraeth Cymru, yn gweithio i gefnogi'r datganiad a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ddoe. Dyddiau cynnar yw hi o hyd, ond rydym am weld maes awyr hyfyw. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn gadarn yn ei ymateb am yr angen i wyrdroi'r sefyllfa ym Maes Awyr Caerdydd, ond cyfrifoldeb y cwmni preifat a'i berchnogion yw hynny.

**Byron Davies:** Turning to another area, can you please give some indication of the progress made on dualling the line between Swansea and Llanelli, particularly given the historic issues that have arisen with the completion of the Loughor viaduct. Is it within budget and can you clarify whether the refurbishment of Gowerton station is also included in this and whether that is within budget?

**Byron Davies:** Gan droi at faes arall, a allwch roi rhyw awgrym ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar ddeuoli'r rheilffordd rhwng Abertawe a Llanelli, yn enwedig o ystyried y materion hanesyddol sydd wedi codi wrth gwblhau traphont y Llwchwr. A yw o fewn y gyllideb ac a allwch egluro a yw adnewyddu gorsaf Tre-gŵyr wedi'i gynnwys yn hyn hefyd, ac a yw hynny o fewn y gyllideb?

2.30 p.m.

**Carl Sargeant:** The Welsh Government is funding the redoubling of the single-line section of the track between Loughor and Gowerton and that will be completed by 2013.

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ailddyblu darn un rheilffordd y trac rhwng Casllwchwr a Thre-gŵyr, a bydd hynny'n cael ei gwblhau erbyn 2013.

**Yr Agenda Gydweithio**

**The Collaboration Agenda**

***5. Julie James:*** *Sut y mae'r Gweinidog yn cyflwyno'r agenda gydweithio ar bob lefel o lywodraeth yng Nghymru. OAQ(4)0150(LGC)*

***5. Julie James:*** *How is the Minister bringing forward the collaboration agenda at all levels of government in Wales. OAQ(4)0150(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank you for that important question. I am working with executive and political leadership across Wales to give clear leadership and authorisation for the necessary reform, including through collaboration, to maximise the benefits for public services.

**Carl Sargeant:** Diolch ichi am y cwestiwn pwysig hwnnw. Rwyf yn gweithio gydag arweinwyr gwleidyddol a gweithredol ledled Cymru i roi arweiniad clir ac awdurdodiad ar gyfer y diwygio angenrheidiol, gan gynnwys trwy gydweithio, er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

**Julie James:** Thank you for that helpful answer. You obviously agree that closer collaboration between public bodies is essential for the delivery of excellent services in Wales, particularly in view of the UK Government's programme of austerity without growth, which we are currently suffering. Could you outline what work you are doing, across the Cabinet portfolios, to assist with investment in IT infrastructure to support and enable collaborative working between public bodies and between local authorities in Wales?

**Julie James:** Diolch ichi am yr ateb defnyddiol hwnnw. Rydych yn amlwg yn cytuno bod cydweithio agosach rhwng cyrff cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau rhagorol yng Nghymru, yn enwedig o ystyried rhaglen cynilo heb dwf Llywodraeth y DU, yr ydym yn ei dioddef ar hyn o bryd. A allech amlinellu pa waith rydych yn ei wneud, ar draws portffolios y Cabinet, i gynorthwyo gyda buddsoddiad mewn seilwaith TG i gefnogi a galluogi cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, the Minister for Finance and I work closely to take projects forward and maximise benefits in terms of the broader public sector. We look at how small investments from our

**Carl Sargeant:** Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, y Gweinidog Cyllid a minnau'n cydweithio'n agos er mwyn bwrw ymlaen â phrosiectau ac i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl o ran y sector cyhoeddus ehangach. Rydym yn

departments can make a significant difference in infrastructure. You will be aware of the Minister for Finance's Wales infrastructure investment plan that was recently announced in terms of detail, but issues around public sector broadband and how we share that across all public services, health and local government in order to utilise the collaboration agenda is important and that is where the Welsh Government believes that it can make a difference in investing to support the collaboration message.

edrych ar sut y gall buddsoddiadau bach gan ein hadrannau ni wneud gwahaniaeth sylweddol yn y seilwaith. Byddwch yn ymwybodol o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru y Gweinidog Cyllid, y cyhoeddwyd ei fanylion yn ddiweddar, ond mae materion yn ymwneud â band eang sector cyhoeddus a sut rydym yn rhannu hynny ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus, iechyd a llywodraeth leol er mwyn defnyddio'r agenda gydweithio yn bwysig, a dyna lle mae Llywodraeth Cymru yn credu y gall wneud gwahaniaeth wrth fuddsoddi i gefnogi'r neges cydweithio.

**Janet Finch-Saunders:** My own local authority is currently involved in many collaborative projects, including shared back-office support. It is now in the scoping phase, with Deloitte engaged to advise the Welsh Government board. How much has been spent on external consultants involved in collaborative projects across Wales?

**Janet Finch-Saunders:** Ar hyn o bryd, mae fy awdurdod lleol innau yn cymryd rhan mewn llawer o brosiectau cydweithredol, gan gynnwys rhannu cymorth swyddfa gefn. Mae bellach yn y cyfnod cwmpasu, a sicrhawyd gwasanaethau Deloitte i gynghori bwrdd Llywodraeth Cymru. Faint sydd wedi cael ei wario ar ymgynghorwyr allanol sy'n rhan o brosiectau cydweithredol ledled Cymru?

**Carl Sargeant:** Perhaps you should ask that question of your own local authority given that you are telling me that it is collaborating. Ask it how much it costs to do so. The fact is that we should test the system in terms of whether it delivers a better service and whether we can get better value for our money. If it does and if we can get better value for money, then that is encouraging and local authorities would be part of that process in completing a good business case—the test would be whether it is good value for money. The Member would be wise to support the collaboration message so that services are not lost to the people of Wales. We cannot continue to do business in 22 ways, as we have been doing historically; we have to work beyond the boundaries of local authorities and the broader public sector.

**Carl Sargeant:** Efallai y dylech ofyn y cwestiwn hwnnw i'ch awdurdod lleol eich hun gan eich bod yn dweud wrthyf ei fod yn cydweithio. Gofynnwch iddo faint mae'n ei gostio i wneud hynny. Y ffaith yw y dylem brofi'r system o ran p'un ai yw'n darparu gwasanaeth gwell ai peidio ac a allwn sicrhau gwell gwerth am ein harian. Os ydyw, ac os gallwn sicrhau gwell gwerth am arian, yna mae hynny'n galonogol, a byddai awdurdodau lleol yn rhan o'r broses honno wrth gwblhau achos busnes da—y prawf fyddai a yw'n werth da am arian ai peidio. Byddai'r Aelod yn ddoeth i gefnogi'r neges cydweithio fel nad yw gwasanaethau'n cael eu colli i bobl Cymru. Ni allwn barhau i wneud busnes mewn 22 o ffyrdd fel yr ydym wedi bod yn ei wneud yn y gorffennol; rhaid inni weithio y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach.

**Simon Thomas:** What are your priorities for the work between social services and health boards in Wales and can you set out how you intend to approach the financial way in which social services and health boards work over the period of this Senedd?

**Simon Thomas:** Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer y gwaith rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd yng Nghymru ac a allwch nodi sut rydych yn bwriadu rhoi sylw i'r ffordd ariannol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd yn gweithio dros gyfnod y Senedd hon?

**Carl Sargeant:** As I said, we work closely across all ministerial portfolios. The public service leadership group includes members of local government, health boards, the police and other emergency services and representatives from the broader public sector. This is about how they can come up with the opportunities to save money, which, historically, have been based on a silo mentality in terms of, 'This is ours and this is how we will deliver it'. However, I am encouraged by the public service leadership group and you may wish to look at the minutes of its meetings to see how well it is doing. I met with the Minister for Health and Social Services recently to see how we could better align our budgets and even consider sharing budgets to encourage a better relationship between social services, local health boards and local authorities.

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais, rydym yn cydweithio'n agos ar draws yr holl bortffolios gweinidogol. Mae grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys aelodau o lywodraeth leol, byrddau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau brys eraill a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus ehangach. Mae hyn yn ymwneud â sut y gallant ddod o hyd i'r cyfleoedd i arbed arian sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn seiliedig ar feddylfryd seilo o ran, 'Ni sy'n berchen ar hyn a dyma sut y byddwn yn ei gyflawni'. Fodd bynnag, rwyf wedi fy nghalonogi gan grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n bosibl y byddwch yn dymuno edrych ar gofnodion ei gyfarfodydd i weld hwyl pa mor dda y mae'n ei gael. Bûm yn cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar i weld sut y gallem gyfateb ein cyllidebau'n well, a hyd yn oed ystyried rhannu cyllidebau er mwyn hybu gwell perthynas rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol.

**Aled Roberts:** It is for the regional projects themselves to determine methods of governance, quite rightly. Will the Welsh Government undertake any assessment of the success of one or more models given that the models themselves can be different? I am thinking about the education consortia currently being set up.

**Aled Roberts:** Mater i'r prosiectau rhanbarthol eu hunain yw pennu dulliau o lywodraethu, a hynny'n gwbl briodol. A wnaiff Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o lwyddiant un neu ragor o fodelau, o gofio y gall y modelau eu hunain fod yn wahanol? Yr hyn sydd ar fy meddwl yw'r consortia addysg sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd.

**Carl Sargeant:** We have given advice to the 22 local authorities through the public service leadership group on governance models. Again, it is not about reinventing the wheel; we see some very good models, which, through the process of collaboration, can be quite complex in terms of not just providing the service, but the people who provide it and aligning the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 arrangements and contractual arrangements between the two separate organisations. What we are trying to do is provide guidance so that there is a smoother passage. The endgame is about public service delivery as opposed to jumping over the hurdles to get to that position in the first place. It is something that we are continually assessing to ensure that we can roll out best practice across Wales.

**Carl Sargeant:** Rydym wedi rhoi cyngor ar fodelau llywodraethu i'r 22 awdurdod lleol drwy grŵp arwain y gwasanaeth cyhoeddus. Eto, nid yw'n ymwneud ag ailddyfeisio'r olwyn; gwelwn rai modelau da iawn a all, drwy'r broses o gydweithio, fod yn eithaf cymhleth, nid yn unig o ran darparu'r gwasanaeth, ond o ran y bobl sy'n ei ddarparu a chyfateb trefniadau contract a threfniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 rhwng y ddau sefydliad gwahanol. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw darparu arweiniad fel bod y daith yn haws. Mae pen draw'r daith yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na neidio dros y clwydi er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno yn y lle cyntaf. Mae'n rhywbeth yr ydym yn ei asesu'n barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflwyno'r arferion gorau ar hyd a lled

Cymru.

### Y Rhwydwaith Drafnidiaeth

***6. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella'r rhwydwaith drafnidiaeth yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0147(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for South Wales East for that question. My plans for enhancing the transport network is South Wales East are set out in the prioritised national transport plan, which was published last December.

**William Graham:** I thank the Minister for his answer. He will know that there have been numerous questions across the Chamber concerning the implementation of the Ebbw Vale and Newport rail link. The Minister will also probably be aware that earlier this month when engineering works diverted trains to the city station, a direct train service ran between Newport and Ebbw Vale. This temporary link was welcomed, which indicated that it was quite possible to run lines between Ebbw Vale to both Newport and Cardiff. Will the Minister confirm the time when a permanent Ebbw Vale and Newport service will be established?

**Carl Sargeant:** As you will be aware, a bus service is already in place which transports people on the final leg of the journey into Newport. That is a pilot scheme and I will look at the outcome of that when I have the relevant data. I will not invest in a service unless it is evidenced that it will be used, or which can be demonstrated to me to be effective. A significant amount of money will be required to do that, but providing the data supports it, I will reconsider our position.

**Ieuan Wyn Jones:** You will know that the north-south services stop in the south-east at Newport station. Since the Minister is anxious to put things on the record this afternoon, I will assist him in ensuring that the record is absolutely right. Will he now

### The Transport Network

***6. William Graham:*** *Will the Minister make a statement on enhancing the transport network in South Wales East. OAQ(4)0147(LGC)*

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am y cwestiwn hwnnw. Mae fy nghynlluniau ar gyfer gwella'r rhwydwaith drafnidiaeth yn Nwyrain De Cymru wedi eu hamlinellu yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol sydd wedi'i flaenoriaethu, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf.

**William Graham:** Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod y bu nifer o gwestiynau ar draws y Siambr ynghylch gweithredu cyswllt rheilffordd Glynebwy a Chasnewydd. Mae'n debyg y bydd y Gweinidog hefyd yn ymwybodol y bu gwasanaeth trên uniongyrchol yn rhedeg rhwng Casnewydd a Glynebwy yn gynharach y mis hwn, wrth i waith peirianyddol ddargyfeirio trenau i orsaf y ddinas. Croesawyd y cyswllt dros dro hwn, a oedd yn awgrymu ei bod yn ddigon posibl rhedeg trenau o Glynebwy i Gasnewydd a Chaerdydd. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd gwasanaeth parhaol yn cael ei sefydlu rhwng Glynebwy a Chasnewydd?

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch, mae gwasanaeth bws eisoes yn ei le sy'n cludo pobl ar ran olaf y daith i Gasnewydd. Cynllun peilot yw hwnnw a byddaf yn edrych ar ganlyniad hynny pan fydd y data perthnasol gennyf. Ni fyddaf yn buddsoddi mewn gwasanaeth oni bai fod tystiolaeth y bydd yn cael ei ddefnyddio, neu oni bai y gellir dangos imi ei fod yn effeithiol. Bydd swm sylweddol o arian yn ofynnol er mwyn gwneud hynny, ond ar yr amod bod y data'n ei gefnogi, byddaf yn ailystyried ein safbwynt.

**Ieuan Wyn Jones:** Byddwch yn gwybod bod y gwasanaethau o'r gogledd i'r de yn dod i ben yn y de-ddwyrain yng ngorsaf Casnewydd. Gan fod y Gweinidog yn awyddus i roi pethau ar gofnod y prynhawn yma, gwnaf ei gynorthwyo i sicrhau bod y

confirm that when I was a Minister, and he was also a Minister in the same Government, I arranged to fund two services between north and south, both of which were express, and one of which went through Wrexham? Will he now confirm, as a result of his announcement, that those two services have been reduced to one?

cofnod yn gwbl gywir. A wnaiff gadarnhau yn awr fo mod, pan oeddwn yn Weinidog, ac yntau hefyd yn Weinidog yn yr un Llywodraeth, wedi trefnu i ariannu dau wasanaeth rhwng y gogledd a'r de, y ddau ohonynt yn wasanaethau cyflym, ac un ohonynt yn mynd drwy Wrecsam? A wnaiff gadarnhau yn awr mai un gwasanaeth sydd bellach, nid dau, o ganlyniad i'w gyhoeddiad?

**Carl Sargeant:** I recognise the Member’s position on introducing two services in Wales. I have said quite clearly that I will be reducing the cost of the service by £0.5 million and I will be altering—[ASSEMBLY MEMBERS: ‘Answer the question.’]. If you give me a moment to answer the question, rather than heckle from the sidelines, I will.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod safbwynt yr Aelod ar gyflwyno dau wasanaeth yng Nghymru. Rwyf wedi dweud yn ddigon clir y byddaf yn lleihau £0.5 miliwn ar gost y gwasanaeth a byddaf yn addasu—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'Atebwch y cwestiwn.']. Pe baech cystal â rhoi amser imi ateb y cwestiwn, yn hytrach na gweiddi ar fy nhraws, fe wnaf hynny.

**The Presiding Officer:** Order. Minister, will you ignore anyone who is speaking when they are sitting down please? Do carry on.

**Y Llywydd:** Trefn. Weinidog, a wnewch chi anwybyddu unrhyw un sy'n siarad pan y mae'n eistedd i lawr os gwelwch yn dda? Ewch ymlaen.

**Carl Sargeant:** With great pleasure, Presiding Officer. I refer the Member to my comments in response to an earlier question. There will be a service running from north to south, as the Member originally intended. There will be a return service at a later time, and there will be an additional service at 6.15 p.m. which replaces the service that the Member suggested we have cut. There will still be another service; there has been no reduction in service, but there has been a reduction of £0.5 million in cost. That should be celebrated.

**Carl Sargeant:** Gyda phleser, Lywydd. Cyfeiriaf yr Aelod at fy sylwadau mewn ymateb i gwestiwn cynharach. Bydd gwasanaeth yn rhedeg o'r gogledd i'r de, yn ôl bwriad gwreiddiol yr Aelod. Bydd gwasanaeth dychwelyd yn rhedeg yn hwyrach, a bydd gwasanaeth ychwanegol am 6.15 p.m. a fydd yn disodli'r gwasanaeth y mae'r Aelod yn awgrymu ein bod wedi ei dorri. Bydd gwasanaeth arall yn dal i fod; ni fu unrhyw ostyngiad o ran gwasanaethau, ond bu gostyngiad o £0.5 miliwn yn y gost. Dylid dathlu hynny.

**Eluned Parrott:** I have been watching your consultation on the M4 corridor options with great interest. Given the fact that a high proportion of traffic between junction 23 and junction 29 is local commuter traffic, and given your long-term commitment to sustainable transport, what specific public transport interventions are you exploring to remove traffic from this stretch of road?

**Eluned Parrott:** Rwyf wedi bod yn gwylio eich ymgynghoriad ar opsiynau coridor yr M4 gyda diddordeb mawr. O ystyried y ffaith bod cyfran uchel o draffig rhwng cyffordd 23 a chyffordd 29 yn draffig cymudo lleol, ac o ystyried eich ymrwymiad hirdymor i drafnidiaeth gynaliadwy, pa ymyriadau trafnidiaeth gyhoeddus penodol rydych yn eu hystyried er mwyn cael gwared ar draffig o'r ffordd hon?

**Carl Sargeant:** As you will be aware—and the Member is very supportive of the concept of electrification of the main line—it is about shifting people from their cars and hard road traffic to alternative methods. One solution

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch—ac mae'r Aelod yn gefnogol iawn o'r cysyniad o drydaneiddio'r prif reilffordd—mae'n ymwneud â symud pobl o'u ceir a thraffig ffordd trwm i ddefnyddio dulliau eraill.

could be rail infrastructure, and we are also looking at the metro concept for the city regions, which also has huge benefits and opportunities for people and which would see a modal shift. A lot of this is dependent on the electrification of the main line through to Swansea and the wider Valleys network, of which I know the Member is very supportive.

Gallai seilwaith rheilffordd fod yn un ateb, ac rydym hefyd yn edrych ar y cysyniad o system metro ar gyfer y rhanbarthau dinasol, sydd hefyd â manteision enfawr ac sy’n cynnig cyfleoedd i bobl a fyddai'n arwain at newid moddol. Mae llawer o hyn yn dibynnu ar drydaneiddio'r brif reilffordd hyd at Abertawe a rhwydwaith ehangach y Cymoedd, a gwn fod yr Aelod yn gefnogol iawn ynghylch hyn.

**Budd-dal y Dreth Gyngor**

**Council Tax Benefit**

***7. Mark Drakeford:*** *Pa amcangyfrif y mae’r Gweinidog wedi’i gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o’r costau ar gyfer gweithredu ei pholisi i drosglwyddo cyfrifoldeb am Fudd-dal y Dreth Gyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. OAQ(4)0151(LGC)*

***7. Mark Drakeford:*** *What estimate has the Minister received from the Department of Work and Pensions of the costs of implementing their policy of transferring responsibility for Council Tax Benefit to the National Assembly for Wales. OAQ(4)0151(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for Cardiff West for his question and interest in this subject. While a 10% reduction in funding was announced in the comprehensive spending review, the most recent figures for funding transfer represent a cut of at least 13%. I will shortly be meeting Iain Duncan Smith and Lord Freud to raise my profound concerns about these financial implications.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am ei gwestiwn a'i ddiddordeb yn y pwnc hwn. Er y cyhoeddwyd gostyngiad o 10 y cant mewn cyllid yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer trosglwyddo arian yn cynrychioli toriad o 13 y cant, o leiaf. Cyn hir, byddaf yn cyfarfod â Iain Duncan Smith a'r Arglwydd Freud i godi fy mhryderon dwys ynglŷn â'r goblygiadau ariannol hyn.

**Mark Drakeford:** Thank you for that. Is it not astonishing that a Government at Westminster is able to tell you that the result of its policies will be that the most needy families in Wales will be £1,100 a year worse off by the time its cuts have been implemented, but cannot provide the most basic information that you can rely on of what it intends to do with regard to council tax benefit?

**Mark Drakeford:** Diolch ichi am hynny. Onid yw'n syndod bod Llywodraeth yn San Steffan yn gallu dweud wrthych y bydd y teuluoedd mwyaf anghenus yng Nghymru £1,100 y flwyddyn yn waeth eu byd erbyn i'w thoriadau gael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'w pholisïau, ond ni all ddarparu'r wybodaeth fwyaf sylfaenol y gallwch ddibynnu arni am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud yng nghyswllt budd-dal y dreth gyngor?

In January of this year, Capita wrote to the 150 councils in England for which it provides IT services to say that it would be, in its words, ‘impossible’ to put in place the infrastructure that would be needed to bring about these changes by April of next year. Here we are, and we do not even know how much the cost of the cut will be. I wonder if you would be willing to convey to the coalition Government in England just how much disquiet there is in Wales about its

Ym mis Ionawr eleni, ysgrifennodd Capita at y 150 o gynghorau yn Lloegr y mae'n darparu gwasanaethau TG ar eu cyfer i ddweud y byddai, yn ei eiriau ei hun, yn 'amhosibl' sefydlu'r seilwaith y byddai ei angen i sicrhau'r newidiadau hyn erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Dyma ni, ac nid ydym hyd yn oed yn gwybod faint fydd y toriad yn ei gostio. Tybed a fyddech yn barod i gyfleu i Lywodraeth y glymblaid yn Lloegr yn union faint o anesmwytho sydd yng Nghymru

plans.

ynglŷn â'i chynlluniau.

**Carl Sargeant:** I recognise the Member's concern with regard to this issue, and I know that the Minister for education raised this at the joint ministerial committee last week. As I said, I will be meeting Iain Duncan Smith shortly to outline my concerns about the uncertainty of a scheme that will undoubtedly place more hardship on individuals across Wales. The uncertainty of the figures does not help the process of administrating this new scheme.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod pryder yr Aelod ynglŷn â'r mater hwn, a gwn fod y Gweinidog Addysg wedi codi hyn yn y cyd-bwyllgor gweinidogol yr wythnos diwethaf. Fel y dywedais, byddaf yn cyfarfod ag Iain Duncan Smith cyn hir i amlinellu fy mhryderon ynglŷn ag ansicrwydd cynllun a fydd, heb os, yn peri mwy o galedi i unigolion dros Gymru gyfan. Nid yw ansicrwydd y ffigurau yn helpu'r broses o weinyddu'r cynllun newydd hwn.

**Paul Davies:** I understand from your comments last week that you are critical of the UK Government's localised approach and that you are in favour of a nationally defined scheme that avoids a postcode lottery and provides a consistent level of support across Wales. However, the Welsh Government's refusal to pass the consequential to freeze council tax in Wales means that people in some authorities will be hit with bigger rises than others. Can the Minister therefore explain why he is in favour of a universal approach when he is also happy to leave residents at the mercy of a postcode lottery?

**Paul Davies:** Rwyf ar ddeall o'ch sylwadau yr wythnos diwethaf eich bod yn feirniadol o ddull lleol Llywodraeth y DU a'ch bod o blaid cynllun a gaiff ei ddiffinio'n genedlaethol sy'n osgoi loteri cod post ac sy'n darparu lefel gyson o gymorth ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod pasio arian canlyniadol rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru yn golygu y bydd pobl mewn rhai awdurdodau yn dioddef codiadau uwch nag eraill. A all y Gweinidog esbonio, felly, pam ei fod o blaid dull cyffredinol pan y mae hefyd yn hapus i adael trigolion ar drugaredd loteri cod post?

**Carl Sargeant:** The Member does not have that right at all. We have consulted on this matter, and we will be bringing the scheme to the floor of this Chamber for a formal discussion.

**Carl Sargeant:** Nid yw'r Aelod wedi deall hynny'n iawn o gwbl. Rydym wedi ymgynghori ar y mater hwn, a byddwn yn dod â'r cynllun gerbron y Siambr hon ar gyfer trafodaeth ffurfiol.

The issue for me is to not deflect from the fact that the UK Government is reducing the scheme by at least 10%, which will have a massive impact on communities in your constituency and in regions across Wales. I will not hide the fact that it is due to a UK Government decision that we have to passport through at least 10% less. In terms of the funding that was not passported through local authorities, as you say, we invested heavily in the jobs growth programme and opportunities, because we have to give people hope in Wales, where the Conservative Government, backed up by the Liberal Democrats, is failing the communities that we all represent in Wales.

Yr hyn sy'n bwysig i mi yw peidio â thynnu oddi ar y ffaith bod Llywodraeth y DU yn gostwng y cynllun o leiaf 10 y cant, a fydd yn cael effaith enfawr ar gymunedau yn eich etholaeth chi ac mewn rhanbarthau ar hyd a lled Cymru. Nid wyf am guddio'r ffaith bod yn rhaid inni drosglwyddo o leiaf 10 y cant yn llai o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU. O ran yr arian nad oedd wedi ei drosglwyddo drwy awdurdodau lleol, fel y dywedwch, roeddem wedi buddsoddi'n drwm yn y rhaglen twf swyddi a chyfleoedd, oherwydd rhaid inni roi gobaith i bobl yng Nghymru, lle mae'r Llywodraeth Geidwadol, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, yn gwneud tro gwael â'r cymunedau y mae pob un ohonom yn eu cynrychioli yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy’n hapus iawn i gytuno â’r hyn a ddywedodd Mark Drakeford am effaith toriadau Llywodraeth glymblaid San Steffan ar y bobl fwyaf bregus a’r tlotaf yn ein cymdeithas. Fodd bynnag, y ffaith yw, mae diffyg o 10% ym mudd-dal y dreth gyngor. Rydych chi, y Llywodraeth yng Nghymru, yn gwrthod gwneud yn iawn am y diffyg hwnnw. Mae Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau na fydd pobl yr Alban yn dioddef. Y bobl fregus a thlawd fydd yn dioddef o ganlyniad i hyn a thoriadau eraill. Mae Llywodraeth yr Alban wedi llwyddo i ddygymod â hyn, felly pam nad ydych chi’n gallu amddiffyn buddiannau’r bobl dlawd hyn? Y cyfan y gallwch ei wneud yw bwrw bai ar Lywodraeth glymblaid San Steffan.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am very happy to agree with what Mark Drakeford said about the impact of the cuts imposed by the Westminster coalition Government on the most vulnerable and poorest people in our society. However, the fact of the matter is that there is a deficit of 10% as regards the council tax benefit. You, the Welsh Government, are refusing to make up that deficit. The Scottish Government has ensured that the people of Scotland will not suffer. It is vulnerable and poor people who will suffer as a result of this and other cuts. The Scottish Government has succeeded in coping with it, so why can you not defend the interests of poor people? All you can do is blame the Westminster coalition Government.

**Carl Sargeant:** The Member’s comments are like a broken record; he keeps repeating them every week. I remind the Member what I told him last week: we will not be filling in the gaps of a UK Government reduction in our funding. We cannot afford to do that. I am making sure that we protect our communities by investing in our 500 community support officers and by making sure that we protect teachers and nurses in communities across Wales. My priority is to make sure that people are still in work. This is an intervention of the UK Government and is nothing to do with Wales in terms of the distribution of funding that has been allocated to us.

**Carl Sargeant:** Mae sylwadau'r Aelod fel record wedi sticio; mae'n dal ati i'w hailadrodd bob wythnos. Rwyf am atgoffa'r Aelod o'r hyn y bu imi ei ddweud wrtho'r wythnos diwethaf: ni fyddwn yn llenwi'r bylchau sy'n cael eu creu wrth i Lywodraeth y DU leihau ein harian. Ni allwn fforddio gwneud hynny. Rwyf yn gwneud yn siŵr ein bod yn diogelu ein cymunedau drwy fuddsoddi yn ein 500 o swyddogion cymorth cymunedol a thrwy wneud yn siŵr ein bod yn amddiffyn athrawon a nyrsys mewn cymunedau ledled Cymru. Fy mlaenoriaeth yw gwneud yn siŵr bod pobl yn dal i fod mewn gwaith. Ymyriad Llywodraeth y DU yw hyn ac nid oes a wnelo unrhyw beth â Chymru o ran dosbarthu'r arian sydd wedi'i ddyrannu inni.

### Etholiadau Llywodraeth Leol

### Local Government Elections

***8. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Gweinidog ystyried ffyrdd o wella cyfranogiad mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. OAQ(4)0155(LGC)*

***8. Mark Drakeford:*** *Will the Minister consider ways in which participation in local government elections in Wales could be enhanced. OAQ(4)0155(LGC)*

2.45 p.m.

**Carl Sargeant:** The Welsh Government will continue to work with stakeholders to encourage participation in local government elections. However, we all have a responsibility to try to increase participation, whether by encouraging turnout at the ballot box or more candidates.

**Carl Sargeant:** Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i annog cyfranogiad mewn etholiadau llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i geisio cynyddu cyfranogiad, p'un ai drwy annog pobl i fwrw eu pleidlais yn y blwch pleidleisio neu drwy hybu mwy o ymgeiswyr.

**Mark Drakeford:** The way that we run elections in this country has not made it to the twentieth century, let alone the twenty-first. We choose inconvenient locations that are far from people's homes, we expect them to turn out, we direct them to these places, they arrive and they have to vote using a stubby piece of pencil tied to a wall—circumstances that would be absolutely unimaginable in other aspects of people's lives. When you look at participation, will you consider ways to move things so that, at least, people could vote at weekends, they could do so in shopping centres, where we could have mobile booths taking voting to people rather than the other way around? I am not suggesting that administration is everything in improving participation, but could we look forward to the day when the way in which we run elections is a help rather than a hindrance to democratic participation?

**Mark Drakeford:** Nid yw'r ffordd rydym yn cynnal etholiadau yn y wlad hon wedi cyrraedd yr ugeinfed ganrif, heb sôn am yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn dewis lleoliadau anghyfleus sydd ymhell o gartrefi pobl, rydym yn disgwyl iddynt ddod i bleidleisio, rydym yn eu cyfeirio at y lleoedd hyn, maent yn cyrraedd ac mae'n rhaid iddynt bleidleisio gan ddefnyddio pensel fach wedi'i chlymu wrth wal—amgylchiadau na fyddai modd eu dirnad mewn agweddau eraill ar fywydau pobl. Pan edrychwch ar gyfranogiad, a wnewch chi ystyried ffyrdd o symud pethau fel bod pobl yn gallu pleidleisio ar y penwythnos, o leiaf. Gallent bleidleisio mewn canolfannau siopa, a gallem ddefnyddio bwth symudol er mwyn mynd â'r broses pleidleisio at y bobl yn hytrach nag i'r gwrthwyneb? Nid wyf yn awgrymu mai gweinyddiaeth yw popeth wrth wella cyfranogiad, ond a oes modd inni edrych ymlaen at y dydd pan fydd y ffordd rydym yn cynnal etholiadau yn help yn hytrach nag yn rhwystr i gyfranogiad democrataidd?

**Carl Sargeant:** I recognise the points that the Member raises. Of course, the stubby pencil did the Member's party extremely well in May, and I was extremely encouraged by the stubby pencil response. However, this is a serious matter. Encouraging more participation and the voting franchise rests with the UK Government. I believe that this should be a duty of the Assembly so that we could look at the franchise and the way in which elections should take place. Should that power be received following the findings of the Silk commission, it is something that we could consider at the appropriate time.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod y pwyntiau y mae'r Aelod yn eu codi. Wrth gwrs, gwnaeth y bensel fach wasanaethu plaid yr Aelod yn hynod o dda ym mis Mai, ac fe'm calonogwyd yn fawr gan yr ymateb gyda'r bensel fach. Fodd bynnag, mae hwn yn fater difrifol. Dyletswydd Llywodraeth y DU yw annog mwy o gyfranogiad a'r etholfraint pleidleisio. Credaf mai dyletswydd y Cynulliad ddylai hyn fod er mwyn inni allu edrych ar yr etholfraint a'r ffordd y dylai etholiadau gael eu cynnal. Pe bai'r pŵer hwnnw'n cael ei dderbyn yn dilyn canfyddiadau'r comisiwn Silk, mae'n rhywbeth y gallem ei ystyried ar yr adeg briodol.

**Russell George:** Minister, one way to increase participation in local elections is to allow members of the public and journalists to film council meetings, so that the public feels more involved in the democratic process. A former Labour Prime Minister has said that another way to improve engagement in local government is to have directly elected mayors to develop strong and clear local leadership. Why do you think that that concept has not been taken forward in Wales?

**Russell George:** Weinidog, un ffordd o gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau lleol yw caniatáu i aelodau o'r cyhoedd a newyddiadurwyr ffilmio cyfarfodydd cyngor, er mwyn i'r cyhoedd deimlo eu bod wedi eu cynnwys mwy yn y broses ddemocrataidd. Mae cyn-Brif Weinidog Llafur wedi dweud mai ffordd arall o wella ymgysylltiad mewn llywodraeth leol yw cael meiri sydd wedi eu hethol yn uniongyrchol i ddatblygu arweinyddiaeth leol gadarn a chlir. Pam rydych chi'n meddwl nad yw'r cysyniad hwn wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** I think that the writing is on the wall for directly elected mayors. We saw in the last election how successful that policy was. I have made it quite clear that, if the people of Wales want directly elected mayors, there is a procedure that can be followed. That process begins with representations being made by a number of constituents—the number varies between constituencies, but the numbers are not that big should there be enough public support for a mayor in a local authority area. Of course, we have already been down this route in Wales and the response was a resounding 'no' in terms of electing a mayor in one authority. However, that does not remove the provision from Wales.

**Carl Sargeant:** Credaf fod yr ysgrifen ar y mur i feiri sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol. Gwelsom yn yr etholiad diwethaf pa mor llwyddiannus oedd y polisi hwnnw. Rwyf wedi ei gwneud yn gwbl glir bod gweithdrefn y gellir ei dilyn pe bai ar bobl Cymru eisiau meiri sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol. Mae'r broses honno'n dechrau gyda sylwadau'n cael eu gwneud gan nifer o etholwyr—mae'r nifer yn amrywio rhwng etholaethau, ond nid yw'r niferoedd mor fawr â hynny pe bai digon o gefnogaeth gyhoeddus am faer mewn ardal awdurdod lleol. Wrth gwrs, rydym eisoes wedi teithio'r llwybr hwn yng Nghymru a'r ymateb pendant oedd 'na' o ran ethol maer mewn un awdurdod. Fodd bynnag, nid yw hynny'n cael gwared ar y ddarpariaeth o Gymru.

**Ieuan Wyn Jones:** Yn y broses o adnewyddu democratiaeth, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig annog gymaint o bobl ag y bo modd i bleidleisio yn etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn y flwyddyn nesaf. Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Comisiwn Etholiadol i godi ymwybyddiaeth pobl o'r etholiadau hynny a'u hannog i gymryd rhan yn y broses?

**Ieuan Wyn Jones:** In the process of democratic renewal, I am sure that the Minister will agree that it is important to encourage as many people as possible to vote in the Isle of Anglesey County Council elections next year. What discussions has the Minister had with the Electoral Commission to raise people's awareness of those elections and to encourage them to participate in the process?

**Carl Sargeant:** This is a matter for the Electoral Commission. I will not comment on the elections in Anglesey just yet, as there is a six-week window of opportunity for me to receive from the Boundary Commission changes and amendments to its recommendations.

**Carl Sargeant:** Mae hwn yn fater ar gyfer y Comisiwn Etholiadol. Nid wyf am wneud sylw am yr etholiadau ym Môn eto, gan fod ffenestr chwe wythnos o gyfle imi gael y newidiadau a'r diwygiadau i argymhellion y Comisiwn Ffiniau ganddynt.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

### Anti-social Behaviour

***9. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0141(LGC)*

***9. Mohammad Asghar:*** *Will the Minister make a statement on tackling anti-social behavior in South Wales East. OAQ(4)0141(LGC)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Government works closely with the police, police authorities and community safety partnerships across Wales to encourage and ensure a joined up, multi-agency approach to tackling crime and anti-social behaviour.

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau'r heddlu, a phartneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru i hybu a sicrhau dull cydgysylltiedig, aml-asiantaeth o fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that

**Mohammad Asghar:** Diolch am yr ateb

answer, Minister. Binge drinking leads to crime, violence and anti-social behaviour, it causes havoc on our streets, it is a drain on the resources of our hospitals, and spreads fear among our law-abiding citizens, especially senior citizens. The UK Government has announced a number of measures to tackle binge drinking, including a new minimum unit price for alcohol to stop supermarkets from selling alcohol cheaply and to address the problem of people getting drunk before they go out. Will the Minister join me in welcoming this action to make our streets safer for the law-abiding majority in Wales?

hwnnw, Weinidog. Mae goryfed mewn pyliau'n arwain at droseddu, trais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n achosi llanast ar ein strydoedd, mae'n faich ar adnoddau ein hysbytai, ac mae'n lledaenu ofn ymysg ein dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith, yn enwedig ymysg yr henoed. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer o fesurau i fynd i'r afael â goryfed mewn pyliau, gan gynnwys isafswm pris uned newydd ar gyfer alcohol i rwystro archfarchnadoedd rhag gwerthu alcohol yn rhad ac i fynd i'r afael â'r broblem o bobl yn meddwi cyn iddynt fynd allan. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i groesawu'r cam hwn i wneud ein strydoedd yn fwy diogel ar gyfer y mwyafrif sy'n parchu'r gyfraith yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** I welcome the Member’s comments and I also ask and encourage the Member to join us in writing to Theresa May to seek the powers for a minimum pricing policy in Wales. When I had responsibility for that, I wrote to the Home Secretary twice requesting these powers, but those requests were declined. The Member might have more influence than me with the Home Secretary.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn croesawu sylwadau'r Aelod ac rwyf hefyd yn gofyn ac yn annog yr Aelod i ymuno â ni wrth inni ysgrifennu at Theresa May i geisio'r pwerau ar gyfer polisi isafswm prisiau yng Nghymru. Pan roeddwn innau’n gyfrifol am hynny, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Cartref ddwywaith yn gofyn am y pwerau hyn, ond gwrthodwyd y ceisiadau hynny. Efallai bod gan yr Aelod mwy o ddylanwad na minnau gyda'r Ysgrifennydd Cartref.

**Lindsay Whittle:** Minister, reoffending rates in south-east Wales are averaging 28% and figures for certain parts of south-east Wales are hitting 33%. In light of the UK Government’s recent proposals to reform the ASBO system, what assessment has the Welsh Government made of the possible implications of that reform for these figures and the effectiveness of restorative justice in Wales?

**Lindsay Whittle:** Weinidog, mae cyfraddau aildroseddu yn ne-ddwyrain Cymru yn 28 y cant ar gyfartaledd ac mae’r ffigurau ar gyfer rhai rhannau o dde-ddwyrain Cymru yn codi i hyd at 33 y cant. Yng ngolau cynigion diweddar Llywodraeth y DU i ddiwygio'r system ASBO, pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o oblygiadau posibl y diwygio ar gyfer y ffigurau hyn ac effeithiolrwydd cyfiawnder adferol yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** The Member raises important issues. I know that the Member appreciates that there are devolved and non-devolved issues. We are looking at opportunities with the prevention of youth offending Bill, which will come to the statute books in the coming years. We are investing in our communities with 500 additional police community support officers and, of course, we need to make an assessment with regard to the ASBO situation, as the Member rightly says. There are ways we can engage

**Carl Sargeant:** Mae’r Aelod yn codi materion pwysig. Rwyf yn gwybod bod yr Aelod yn gwerthfawrogi y ceir materion datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli. Rydym yn ystyried cyfleoedd gyda'r Bil atal troseddau ieuenctid, a fydd yn cyrraedd y llyfrau statud yn y blynyddoedd nesaf. Rydym yn buddsoddi yn ein cymunedau gyda 500 yn ychwanegol o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ac, wrth gwrs, mae angen inni wneud asesiad o ran y sefyllfa ASBO, fel y mae'r Aelod yn ei

with offenders, who are not always young people, although the Member raises the issue in the context of young people. We need to engage with them before they enter the judicial system. We can work with the Minister for Education and Skills to look at opportunities to encourage a different course of action and a different road to go down for young people who sometimes get caught in systems that they should not be in.

ddweud, a hynny'n gwbl briodol. Mae ffyrdd y gallwn ymgysylltu â throseddwyr, nad ydynt bob amser yn bobl ifanc, er bod yr Aelod yn codi'r mater yng nghyd-destun pobl ifanc. Mae angen inni ymgysylltu â hwy cyn iddynt fynd i'r system farnwrol. Gallwn weithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i edrych ar gyfleoedd i annog dull gwahanol o weithredu a llwybr gwahanol i'w deithio i bobl ifanc sydd weithiau'n cael eu dal mewn systemau na ddylent fod ynddynt.

**Arwyddion Ffordd**

**Road Signs**

***10. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arwyddion ar y rhwydwaith cefnffyrdd. OAQ(4)0139(LGC)*

***10. Darren Millar:*** *Will the Minister make a statement on signage on the trunk road network. OAQ(4)0139(LGC)*

**Carl Sargeant:** Trunk road signs must conform to the requirements of the traffic signs regulations and general directions. Signs are important assets that provide information to motorists regarding destinations and road conditions. When signage requires updating, it is done as part of routine maintenance or improvement schemes.

**Carl Sargeant:** Rhaid i arwyddion cefnffordd gydymffurfio â gofynion rheoliadau a chyfarwyddiadau cyffredinol arwyddion traffig. Mae arwyddion yn asedau pwysig sy'n darparu gwybodaeth i fodurwyr ynglŷn â chyrchfannau a chyflwr y ffyrdd. Pan fydd angen diweddaru arwyddion, caiff hyn ei wneud fel rhan o waith cynnal a chadw arferol neu gynlluniau gwella.

**Darren Millar:** Thank you for that answer, Minister. One of the problems that has been identified on the A55 trunk road in north Wales is that many service stations that were once operating have now closed. Obviously, it can be quite inconvenient for tourists or other motorists coming into north Wales who might pull off the road expecting a service station to be there and fully functioning to find it has closed down. What action are you taking to ensure that signage for service stations is accurate in north Wales? Where new service stations have been established that do not have signage because there may be signage for one nearby that has closed, what are you doing to ensure that new signs are erected?

**Darren Millar:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Un o'r problemau sydd wedi eu nodi ar gefnffordd yr A55 yng ngogledd Cymru yw bod llawer o orsafoedd gwasanaethau a oedd unwaith yn gweithredu bellach wedi cau. Yn amlwg, gall fod yn eithaf anghyfleus i dwristiaid neu fodurwyr eraill sy'n dod i ogledd Cymru a allai dynnu oddi ar y ffordd yn disgwyl i orsaf wasanaethau fod yno, yn gwbl weithredol, a chanfod ei bod wedi cau. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod yr arwyddion ar gyfer y gorsafoedd gwasanaethau yn gywir yng ngogledd Cymru? Lle mae gorsafoedd petrol newydd wedi cael eu sefydlu, heb arwyddion oherwydd bod arwydd ar gyfer un cyfagos sydd wedi cau, efallai, beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod arwyddion newydd yn cael eu codi?

**Carl Sargeant:** I would be grateful if the Member would write to me with the specific details. I would ask my team across the network for which I am responsible to ensure that all signage is up to date. If the Member has a specific issue on which he would like to write to me, I will certainly ask my team to

**Carl Sargeant:** Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelod ysgrifennu ataf gyda'r manylion penodol. Byddwn yn gofyn i fy nhîm ar draws y rhwydwaith yr wyf yn gyfrifol amdano i sicrhau bod yr holl arwyddion yn gyfredol. Os oes gan yr Aelod fater penodol y mae'n dymuno ysgrifennu

look at it.

ataf yn ei gylch, byddaf yn sicr yn gofyn i fy nhîm edrych arno.

**William Powell:** Minister, I would like to thank you for breaking your journey to Llandrindod Wells last week to call in to meet volunteers at Talgarth Mill and the town’s tourist information and resource centre. During your visit, the problem of securing permission for brown signage was raised on a couple of occasions. As you know, this can be a particular problem for new visitor attractions where there is not a proven track record of tourist footfall. Although accepting the need for regulation to avoid the excessive proliferation of such signs, will you please give urgent consideration to adopting a more enabling and flexible approach, particularly in the case of new visitor attractions?

**William Powell:** Weinidog, hoffwn ddiolch ichi am darfu ar eich taith i Landrindod yr wythnos diwethaf i alw heibio i gwrdd â gwirfoddolwyr ym Melin Talgarth a chanolfan wybodaeth ac adnoddau'r dref. Yn ystod eich ymweliad, codwyd y broblem o sicrhau caniatâd ar gyfer arwyddion brown ar sawl achlysur. Fel y gwyddoch, gall hyn fod yn broblem arbennig i atyniadau ymwelwyr newydd lle nad oes nifer fawr iawn o dwristiaid wedi arfer mynd y ffordd honno. Er eich bod yn derbyn bod angen rheoleiddio er mwyn osgoi gormodedd o arwyddion o'r fath, a wnewch ystyried mabwysiadu dull mwy hyblyg sy'n galluogi, a hynny ar fyrder, yn enwedig yn achos atyniadau newydd i ymwelwyr?

**Carl Sargeant:** Yes, it is really important that, where we have jewels in terms of our communities—and we all have areas that we support—we build on that for tourism and economic benefit. If the signage is needed, we should consider that appropriately. I am now in receipt from my officials of the review of brown tourism signs, and I will make a statement on that at the appropriate time.

**Carl Sargeant:** Gwnaf. Lle mae gennym gymunedau gwerth chweil—ac mae gan bob un ohonom ardaloedd rydym yn eu cefnogi—mae'n bwysig iawn ein bod yn adeiladu ar hynny er budd i dwristiaeth a'r economi. Os yw’r arwyddion yn angenrheidiol, dylem ystyried hynny'n briodol. Mae fy swyddogion bellach wedi rhoi imi yr adolygiad o arwyddion twristiaeth brown, a byddaf yn gwneud datganiad ar hynny ar yr adeg briodol.

### Adnoddau Cynghorau Lleol

### Local Council Resources

***11. Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr adnoddau sydd ar gael i gynghorau lleol yn y cyfnod 2012-2016. OAQ(4)0138(LGC)*

***11. Peter Black:** Will the Minister make a statement on the resources available to local councils in the period 2012-2016. OAQ(4)0138(LGC)*

**Carl Sargeant:** The 2012-13 final local government settlement published on 7 December 2011 sets out the revenue and capital settlement for 2012-13 and indicative settlements for 2013-14 and 2014-15. It provides local authorities with the information that they need to set their own budgets. No figures are available beyond 2014-15.

**Carl Sargeant:** Mae'r setliad llywodraeth leol terfynol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2011 yn nodi'r setliad cyfalaf a refeniw ar gyfer 2012-13 a setliadau dangosol ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Mae'n rhoi i awdurdodau lleol yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen er mwyn pennu eu cyllidebau eu hunain. Nid oes ffigurau ar gael y tu hwnt i 2014-15.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. You will know that, like the Welsh Government, councils are struggling to find capital moneys. In Scotland, they are piloting tax increment financing. Those pilot schemes

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod cynghorau, fel Llywodraeth Cymru, yn ei chael yn anodd dod o hyd i arian cyfalaf. Yn yr Alban, maent yn treialu ariannu drwy

are under way and being evaluated. Are you considering similar pilot schemes in Wales? If so, when?

gynyddrannau treth. Mae'r cynlluniau peilot hynny wedi dechrau ac yn cael eu gwerthuso. A ydych yn ystyried cynlluniau peilot tebyg yng Nghymru? Os felly, pryd?

**Carl Sargeant:** We are certainly considering the scheme. I would encourage local authorities to look at their overall budgets, including the budgets that they have in reserves as well.

**Carl Sargeant:** Rydym yn sicr yn ystyried y cynllun. Byddwn yn annog awdurdodau lleol i edrych ar eu cyllidebau cyffredinol, gan gynnwys y cyllidebau sydd ganddynt mewn cronfeydd wrth gefn hefyd.

**Paul Davies:** The Minister will be aware that, sadly, more than half of Welsh councils are owed some £2.3 million from private developers under section 106 agreements, which will put pressure on future financial resources. Can the Minister tell us what support the Welsh Government has been giving to councils to support them in circumstances such as these? What steps can the Welsh Government take to help councils to avoid situations such as this in the future?

**Paul Davies:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod oddeutu £2.3 miliwn, yn anffodus, yn ddyledus i fwy na hanner y cynghorau yng Nghymru gan ddatblygwyr preifat, o dan gytundebau adran 106. Bydd hyn yn rhoi pwysau ar adnoddau ariannol y dyfodol. A all y Gweinidog ddweud wrthym pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei roi i gynghorau er mwyn eu cefnogi mewn amgylchiadau fel y rhain? Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i helpu cynghorau i osgoi sefyllfaoedd fel hyn yn y dyfodol?

**Carl Sargeant:** With respect to the Member, the planning function lies with the local authorities. Although I do not have responsibility, I would not want to be the one engaging in micromanagement of local authorities, of which I am often accused. The issue for me is ensuring that the financial environment in which local authorities operate is legal and appropriate.

**Carl Sargeant:** Gyda phob parch i'r Aelod, mae'r swyddogaeth cynllunio yn nwylo'r awdurdodau lleol. Er nad oes gennyf gyfrifoldeb, ni fyddwn am fod yr un sy'n ymgymryd â microreoli awdurdodau lleol, er fy mod yn cael fy nghyhuddo’n aml o wneud hynny. Yr hyn sy’n bwysig i mi yw sicrhau bod yr amgylchedd ariannol y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ynddo yn gyfreithlon ac yn briodol.

**Ieuan Wyn Jones:** The Minister will recall that one of the excellent initiatives of the One Wales Government was to provide a floor in relation to the rate support grant system, so that no local authority fell below a certain level. Will he recognise that the removal of that floor means that councils such as Ynys Môn and others have had an extremely poor settlement for the next financial year? Why did he remove that floor?

**Ieuan Wyn Jones:** Bydd y Gweinidog yn cofio mai un o fentrau ardderchog Llywodraeth Cymru'n Un oedd darparu terfyn isaf yng nghyswllt y system grant cynnal ardrethi, fel nad oedd unrhyw awdurdod lleol yn cwympo o dan lefel benodol. A wnaiff gydnabod bod cael gwared ar y terfyn isaf hwnnw yn golygu bod cynghorau fel Ynys Môn ac eraill wedi cael setliad gwael iawn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf? Pam y bu iddo gael gwared ar y terfyn isaf hwnnw?

**Carl Sargeant:** It is astonishing; the Member is rather prickly today. Obviously, the Member did not like my response to the north-south train line. The issue that he raises in terms of removing the floor is important. It was agreed with the local government family

**Carl Sargeant:** Mae'n rhyfeddol; mae'r Aelod braidd yn bigog heddiw. Yn amlwg, nid oedd yr Aelod yn hoff o fy ymateb ynglŷn â’r trên o'r gogledd i'r de. Mae'r mater y mae'n ei godi o ran cael gwared ar y terfyn isaf yn bwysig. Cytunwyd gyda'r teulu

of 22 authorities, and, of course, there are consequences to putting in a floor in the first place; there are winners and losers. However, it seems pretty pointless, once you establish a formula, to put a floor in consistently for the years ahead.

llywodraeth leol o 22 awdurdod, ac wrth gwrs, ceir canlyniadau o osod terfyn isaf yn y lle cyntaf; ceir enillwyr a chollwyr. Fodd bynnag, ar ôl sefydlu fformiwla, mae'n debyg ei bod yn ddigon dibwys gosod terfyn isaf yn gyson ar gyfer y blynyddoedd sydd o’n blaenau.

**Trafnidiaeth Gynaliadwy**

**Sustainable Transport**

***12. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i drafnidiaeth gynaliadwy. OAQ(4)0144(LGC)*

***12. Rebecca Evans:*** *Will the Minister make a statement on Welsh Government’s support for sustainable transport. OAQ(4)0144(LGC)*

**Carl Sargeant:** I am committed to a sustainable and integrated transport policy and to deliver my priorities in the national transport plan.

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi ymrwymo i bolisi trafnidiaeth cynaliadwy ac integredig ac i gyflawni fy mlaenoriaethau yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**Rebecca Evans:** I very much welcome your commitment to active travel and to making cycling a real option for people. How will you support training, so that adults who may have not cycled for years have the confidence and skills that they need to cycle on modern roads?

**Rebecca Evans:** Rwyf wir yn croesawu eich ymrwymiad i deithio byw ac i wneud seiclo yn opsiwn go iawn i bobl. Sut y byddwch yn cefnogi hyfforddiant, er mwyn i oedolion nad ydynt wedi seiclo ers blynyddoedd, efallai, feithrin yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i seiclo ar ffyrdd modern?

**Carl Sargeant:** I recognise the Member’s concern regarding getting back on a bike and the safety implications that that may involve. We are committed to providing more safer routes for cycling, meaning that there will be more places and opportunities for people to cycle, including cycle paths in parks and traffic-free routes, which I would encourage people to use before they make the big step of dodging traffic on the roads.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod pryder yr Aelod ynghylch mynd yn ôl ar gefn beic a'r goblygiadau diogelwch y gallai hynny olygu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o lwybrau mwy diogel ar gyfer seiclo, sy'n golygu y bydd mwy o leoedd a chyfleoedd i bobl seiclo, gan gynnwys llwybrau seiclo mewn parciau a llwybrau heb draffig. Byddwn yn annog pobl i ddefnyddio’r llwybrau hyn cyn iddynt gymryd y cam mawr o osgoi'r traffig ar y ffyrdd.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, large sums of money have been spent developing the cycle track from Penrhyn Bay to Llandudno through Deganwy and now into Glan Conwy. However, completion of the final phase has remained at a standstill for some years. Given your earlier contributions in the Chamber supporting active and sustainable travel, will you please look into this matter, to identify some reasons why this scheme seems to have come to a standstill?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, mae llawer o arian wedi cael ei wario wrth ddatblygu'r llwybr seiclo o Fae Penrhyn i Landudno drwy Ddeganwy a nawr i Glan Conwy. Fodd bynnag, nid oes rhagor o waith wedi ei wneud ar gwblhau'r cam terfynol ers rhai blynyddoedd. O ystyried eich cyfraniadau yn gynharach yn y Siambr yn cefnogi teithio byw a chynaliadwy, a wnewch ymchwilio i'r mater hwn, os gwelwch yn dda, er mwyn canfod rhai rhesymau pam y mae'r gwaith ar y cynllun hwn wedi dod i stop, i bob golwg?

**Carl Sargeant:** I am happy to do that.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddigon bodlon

gwneud hynny.

**Mentrau Cynhwysiant Ariannol**

***13. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0143(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for South Wales East for her question. We support credit unions and post offices to provide affordable and accessible financial services. We also fund Citizens Advice Cymru to increase the take-up of benefits and work with money advice services through the Welsh financial education unit to improve levels of financial capability.

**Jocelyn Davies:** Thank you for that answer, Minister. Your consultation on the options to replace the social fund community care grants and crisis loans ended on 30 March, and the devolution of the fund’s administration was last month. What are the main themes emerging from that consultation? When can we expect an announcement on your intentions?

**Carl Sargeant:** My team is working through the responses on that consultation and on council tax benefits. We are trying to look at how we can best mitigate the implications of a reducing budget. There is a debate about how much money will be available, and that is still unclear at the moment, but as soon as I have more details about that, I will gladly come to the Chamber to let Members know about the complete package.

**Financial Inclusion Initiatives**

***13. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on Welsh Government financial inclusion initiatives. OAQ(4)0143(LGC)*

**Carl Sargeant:** Diolch i’r Aelod dros Ddwyrain De Cymru am ei chwestiwn. Rydym yn cefnogi undebau credyd a swyddfeydd post i ddarparu gwasanaethau ariannol fforddiadwy a hygyrch. Rydym hefyd yn ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, ac rydym yn gweithio gyda gwasanaethau cynghori ariannol drwy uned addysg ariannol Cymru i wella lefelau gallu ariannol.

**Jocelyn Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Daeth eich ymgynghoriad ar yr opsiynau i ddisodli grantiau gofal cymunedol a benthyciadau argyfwng y gronfa gymdeithasol i ben ar 30 Mawrth, a datganolwyd gweinyddiaeth y gronfa y mis diwethaf. Beth yw'r prif themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad hwnnw? Pryd y gallwn ddisgwyl cyhoeddiad am yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud?

**Carl Sargeant:** Mae fy nhîm yn gweithio drwy'r ymatebion ynglŷn â’r ymgynghoriad hwnnw ac ynglŷn â budd-daliadau'r dreth gyngor. Rydym yn ceisio ystyried y ffordd orau inni liniaru goblygiadau cyllideb sy'n lleihau. Ceir dadl ynghylch faint o arian fydd ar gael, ac mae hynny'n dal i fod yn aneglur ar hyn o bryd, ond cyn gynted ag y bydd gennyf fwy o fanylion am hynny byddaf yn falch o ddod i'r Siambr i roi gwybod i Aelodau ynglŷn â'r pecyn cyflawn.

3.00 p.m.

**Darren Millar:** Many third sector organisations provide financial advice to individuals across Wales on a free-of-charge basis and they receive no support from the Government. Will you join me in commending the work of Care for the Family with its Quidz In programme? Care for the Family is a Wales-based charity, based in Taff’s Well, just north of Cardiff, and it offers this support to families in need across

**Darren Millar:** Mae llawer o sefydliadau trydydd sector yn darparu cyngor ariannol i unigolion ar draws Cymru yn rhad ac am ddim ac nid ydynt yn cael dim cefnogaeth gan y Llywodraeth. A wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo gwaith Gofal i'r Teulu gyda'i rhaglen *Quidz In*? Mae Gofal i'r Teulu yn elusen yng Nghymru, sydd wedi ei lleoli yn Ffynnon Taf, ychydig i'r gogledd o Gaerdydd, ac mae'n cynnig y cymorth hwn i

Wales and the rest of the United Kingdom. Will you commend its work and see what you can do to support it and expand it in the future?

deuluoedd mewn angen ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig. A wnewch gymeradwyo ei gwaith a gweld beth y gallwch ei wneud i'w chefnogi a'i ehangu yn y dyfodol?

**Carl Sargeant:** I am not familiar with the organisation, but of course I welcome the contribution of any organisation that is involved in supporting vulnerable people. The Member will be aware that I will be announcing an advice service review in Wales because the important issue for me is that the advice services are providing good-quality advice. I am sure that when the consultation on that comes out, the Member will wish to add his contribution at the appropriate time.

**Carl Sargeant:** Nid wyf yn gyfarwydd â'r mudiad, ond wrth gwrs rwyf yn croesawu cyfraniad unrhyw gorff sy'n ymwneud â chefnogi pobl agored i niwed. Bydd yr Aelod yn gwybod y byddaf yn cyhoeddi adolygiad o wasanaethau cynghori yng Nghymru, oherwydd yr hyn sy’n bwysig i mi yw bod y gwasanaethau cynghori yn rhoi cyngor o safon. Pan fydd yr ymgynghoriad hwnnw'n dod i law, rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn dymuno ychwanegu ei gyfraniad ar yr adeg briodol.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Addysg
### Education

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2, 3 and 4 yn enw Aled Roberts.

**The Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

*Cynnig NDM4998 William Graham*

*Motion NDM4998 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi bod:*

*1. Notes that:*

*a) 40% o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol uwchradd ag oed darllen sydd o leiaf chwe mis yn is na’u hoed cronolegol, yn ôl Adroddiad Blynyddol Estyn 2010/2011;*

*a) forty per cent of pupils start secondary school with a reading age at least six months below their chronological age, according to Estyn’s Annual Report 2010/2011;*

*b) perfformiad Cymru yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2009 yn is o lawer na gwledydd eraill y DU;*

*b) Welsh performance in the 2009 Programme for International Student Assessments (PISA) was significantly below that of other UK nations;*

*c) dirywiad wedi bod yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy’n cyflawni’r graddau uchaf mewn arholiadau Safon Uwch;*

*c) there has been a decline in the number of pupils in Wales achieving top grades at A Level;*

*d) perfformiad mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru yn waeth nag yn*

*d) performance in GCSE and A Level examinations in Wales is worse than in*

*Lloegr; ac*

*e) ar hyn o bryd nad oes dim Prifysgolion o Gymru yn rhestr y Times o'r 200 o'r sefydliadau addysg uwch gorau yn y byd er bod 27 o Loegr a 5 o'r Alban.*

*2. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei chyllidebau addysg yn effeithiol i godi safonau yn system addysg Cymru.*

*3. Yn annog Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y caiff gwariant addysg ei fonitro i sicrhau bod adnoddau, pan fo'n bosibl, yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr.*

*4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail flaenoriaethu gwariant addysg yn effeithiol er mwyn darparu gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn y ffordd orau.*

*England; and*

*e) there are presently no Welsh Universities in the World Top 200 Times Higher Education Rankings 2011/12, whereas there are 27 from England and 5 from Scotland.*

*2. Regrets that the Welsh Government has not effectively utilised its education budgets to drive up standards in the Welsh educational system.*

*3. Urges the Welsh Government to outline how education expenditure is monitored to ensure resources, where possible, are focussed on activities which deliver services directly to learners.*

*4. Calls on the Welsh Government to re-prioritise education spending effectively in order to best deliver improvements in educational attainment in Wales.*

**Angela Burns:** I move the motion.

It is, I admit, a lengthy motion. However, the problems that beset education in Wales are also lengthy and have been apparent for a lengthy time—for the past 15 years, in fact, ever since a succession of Labour Ministers took the helm and laid waste to education. There has been a tremendous waste of leadership—

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** Will you take an intervention?

**Angela Burns:** No, he will have a lot of opportunities to speak, no doubt. There has been a tremendous waste of leadership, process and thought. There has been a waste of moneys, whether revenue or capital, and there has been a wasteful misspent grants culture. There has been a waste of time by poor management, a lack of monitoring and a suffocation of red tape, ideology and diktat. Above all, there has been a waste of opportunity for teachers, students and the country. We have had a decade of wasted souls, of children who have not fulfilled their potential, of teachers who are disenchanted and demoralised and of local education authorities always seeming to fail, always

**Angela Burns:** Cynigiaf y cynnig.

Rwyf yn cyfaddef ei fod yn gynnig hir. Serch hynny, mae rhestr hirfaith o broblemau'n wynebu addysg yng Nghymru hefyd a'r rheini wedi bod yn amlwg ers cyfnod hir—ers 15 mlynedd, a dweud y gwir, byth ers i olyniaeth o Weinidogion Llafur fod wrth y llyw ac anrheithio addysg. Mae gwastraff aruthrol wedi bod o ran arweiniad—

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** A wnewch ganiatáu imi ymyrryd?

**Angela Burns:** Na wnaf, caiff ddigon o gyfleoedd i siarad, siawns. Mae gwastraff aruthrol wedi bod o ran arweiniad, proses a meddwl. Mae arian wedi'i wastraffu, boed yn refeniw ynteu'n gyfalaf, ac mae diwylliant gwastraffus o gamwario grantiau wedi bod ar waith. Gwastraffwyd amser yn sgil rheoli gwael, diffyg monitro a biwrocratiaeth, ideoleg a dogma'n mygu pethau. Yn anad dim, gwastraffwyd cyfle i athrawon, i fyfyrwyr ac i'r wlad. Rydym wedi cael degawd o wastraffu eneidiau, o blant sydd heb gyflawni eu potensial, o athrawon sydd wedi'u dadrithio a'u hysbryd wedi'i lethu ac awdurdodau addysg lleol sydd, i bob golwg, yn methu byth a beunydd, ac yn cael eu

being castigated.

cystwyo o hyd.

Before the apologists start leaping up to say, ‘We are stopping this waste. Things are changing. We are trying’—

Cyn i'r apolegwyr ddechrau neidio ar eu traed i ddweud 'Rydym yn atal y gwastraff hwn. Mae pethau'n newid. Rydym yn ceisio'—

**Leighton Andrews** *rose*—

**Leighton Andrews** *a gododd*—

**The Presiding Officer:** Order. Are you taking an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn caniatáu ymyriad?

**Angela Burns:** Before the apologists say, ‘Look at our new programmes’ and ‘This Minister is different’, I wish to say ‘perhaps’ and ‘maybe’. I do not deny, Minister, that there is an intellectual effort going into reviewing the situation that has been missing in education for years. However, it has been two and a half years of this Minister and 15 years of Labour, with a bit of tinkering around the edges by the Liberal Democrats and, more recently, Plaid Cymru, and we must remind ourselves that not a lot has changed and that this Government has effectively washed its hands of the current cohort of teenagers, while it works out how to get into the top 20 PISA results by 2015. It is a terrible time to be a teenager. That is a waste, a shame and a national disgrace.

**Angela Burns:** Cyn i'r apolegwyr ddweud, 'Edrychwch ar ein rhaglenni newydd' ac 'Mae'r Gweinidog hwn yn wahanol', yr wyf fi am ddweud 'efallai' ac 'o bosibl'. Nid wyf yn gwadu, Weinidog, nad oes ymdrech ddeallusol ar waith i adolygu'r sefyllfa, ymdrech nas gwelwyd ym maes addysg ers blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog hwn yn ei swydd ers dwy flynedd a hanner ac mae Llafur wedi bod wrthi ers 15 mlynedd, gydag ychydig o botsian o gwmpas yr ymylon gan y Democratiaid Rhyddfrydol ac, yn fwy diweddar, gan Blaid Cymru, a rhaid inni ein hatgoffa ein hunain nad oes llawer wedi newid a bod y Llywodraeth hon, i bob pwrpas, wedi golchi'i dwylo o'r genhedlaeth hon sydd yn ei harddegau ar hyn o bryd, wrth iddi geisio gweld sut mae cyrraedd 20 uchaf canlyniadau PISA erbyn 2015. Mae'n adeg ofnadwy i fod yn eich arddegau. Mae hynny'n wastraff, yn gywilydd ac yn warth cenedlaethol.

Therefore, our motion today carefully challenges the Assembly to accept the hard, cold facts: that 40% of pupils cannot read as well as they should by the time that they enter secondary school; that the 2009 PISA results were worse than our 2006 results and are very poor compared to other, similar countries; that the number of A-level students getting top grades is worsening; that we are worse than England, the country that we seem to hate being compared to, in terms of GCSE and A-level exam performances; and that there are no—none, zip, zero—Welsh universities in the world top 200 *Times Higher Education* rankings. That matters, because Scotland is just over twice our size and while we have zero, it has five.

Felly, mae ein cynnig heddiw yn herio'r Cynulliad yn ofalus i dderbyn y ffeithiau caled, oer: na all 40% o ddisgyblion ddarllen gystal ag y dylent erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol uwchradd, bod canlyniadau PISA yn 2009 yn waeth nag yr oedd ein canlyniadau yn 2006 a'u bod yn wael iawn o'u cymharu â gwledydd eraill, tebyg; bod nifer y myfyrwyr sy'n cael y graddau uchaf mewn arholiadau Safon Uwch yn gwaethygu, ein bod yn waeth na Lloegr, y wlad y mae'n gas gennym gael ein cymharu â hi i bob golwg, o ran perfformiad mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch; ac nad oes dim—dim un o gwbl—o brifysgolion Cymru ymhlith rhestr 200 uchaf y *Times Higher Education.* Mae hynny'n bwysig oherwydd mae gan yr Alban, sydd ychydig yn fwy na dwywaith ein maint ni bump, a ninnau heb yr un.

We ask the Assembly to regret that the Welsh

Gofynnwn i'r Cynulliad resynu nad yw

Government has not effectively utilised the education budgets to drive up standards. We are all aware of the PricewaterhouseCoopers report into the cost of administrating education in Wales, published in May 2010. The report highlights how significant potential exists to release support costs. A delivery plan was developed to push resources to the front line. PWC found that a cost shift in the range of £104 million to £192 million from support services to front-line delivery might be achievable. Given the economic climate and the changing world, PWC found that it is not possible to continue on the current basis and secure front-line education. It was of the opinion that the pain of inaction is real and worse than the pain of action. That comment would chime with any half-decent business manager. If you are in a fire, it might hurt to move, but you sure as heck need to get out. The PwC review surely demonstrates the importance of the Welsh Government utilising education spending far more effectively to ensure that, where possible, resources are delivering services to learners directly. Yet, delivery is painfully slow. For example, the Minister is seeking to rationalise education grants, and he does have a grants management project, yet officials are still working to streamline and standardise grant processes.

Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyllidebau addysg yn effeithiol i godi safonau. Rydym i gyd yn gwybod am adroddiad PricewaterhouseCoopers ynglŷn â chost gweinyddu addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010. Mae'r adroddiad yn dangos bod potensial sylweddol i ryddhau costau cymorth. Datblygwyd cynllun cyflawni er mwyn gwthio'r adnoddau i'r rheng flaen. Canfu PWC y gellid o bosibl symud rhwng £104 ac £192 miliwn o'r gwasanaethau cymorth i ddarpariaeth y rheng flaen. Ac ystyried yr hinsawdd economaidd a'r newid sydd ar droed yn y byd, canfu PWC nad oes modd parhau ar y sail bresennol a sicrhau addysg y rheng flaen. Credai fod poen peidio â gweithredu yn boen go iawn ac yn boen sy'n waeth na phoen gweithredu. Byddai'r sylw hwnnw'n canu cloch gydag unrhyw reolwr busnes gwerth ei halen. Os ydych mewn tân, mae'n bosibl y bydd symud yn eich brifo, ond yn sicr ddigon, mae angen ichi ddianc. Siawns nad yw adolygiad PwC yn dangos pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gwariant ar addysg yn fwy effeithiol o lawer er mwyn sicrhau, lle bo modd, bod adnoddau'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr. Eto i gyd, mae'r broses honno'n boenus o araf. Er enghraifft, mae'r Gweinidog yn ceisio rhesymoli grantiau addysg, ac mae ganddo brosiect rheoli grantiau. Eto i gyd, mae swyddogion yn dal i weithio i symleiddio a safoni prosesau'r grantiau.

The 2009 Finance Committee report into the grants process in education was crystal clear about what should be done, and it put forward a concise set of recommendations. I will never forget the testimony of the principal of ân FE college who said that he was given millions to run the organisation and yet had to jump through hoops just to get £3,000 for a one-off project. What a waste of his time, and what a waste of money having all those civil servants administering a complex web of grants that should just be swept away. How can this be so difficult to do, and why does it take three years? Is the reality that it is more tinkering at the edges, and that the bold move and the original thought are just a leap too far?

Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn 2009 ynglŷn â'r broses grantiau mewn addysg yn gwbl glir am yr hyn y dylid ei wneud, a chyflwynwyd set gryno o argymhellion ganddo. Nid anghofiaf fyth dystiolaeth pennaeth coleg Addysg Bellach a ddywedodd iddo gael miliynau i gynnal y sefydliad ac eto iddo orfod mynd drwy ddŵr a thân i gael cyn lleied â £3,000 ar gyfer prosiect untro. Sôn am wastraff ar ei amser ef, a sôn am wastraff arian wrth i'r holl weision sifil hynny weinyddu gwe gymhleth o grantiau y dylid cael gwared arnynt. Sut y gall hyn fod mor anodd ei wneud, a pham mae angen tair blynedd i wneud hynny? Ai'r gwir yw mai rhagor o botsian ar yr ymylon yw hyn a bod y cam dewr a'r bwriad gwreiddiol yn llam rhy bell?

Ineffective spending at the front line must

Rhaid sathru hefyd ar wario aneffeithiol yn y

also be stamped out. There is an old saying: look after the pennies. Well, it applies to the thousands and to the hundred thousands. Assembly Members, the Welsh Government spent £40,000 on producing the skills framework and significant resources on seeking to implement the document. However, in February last year, the Minister said that implementing this document on a non-statutory basis was a weakness in his department, and large parts of it are to be replaced.

rheng flaen. Yn ôl yr hen ddywediad, o geiniog i geiniog. Wel, mae hynny'n wir am y miloedd a'r cannoedd o filoedd. Aelodau'r Cynulliad, gwariodd Llywodraeth Cymru £40,000 ar gynhyrchu'r fframwaith sgiliau ac adnoddau sylweddol ar geisio rhoi'r ddogfen ar waith. Serch hynny, ym mis Chwefror y llynedd, dywedodd y Gweinidog fod rhoi'r ddogfen hon ar waith ar sail anstatudol yn wendid yn ei adran, a'r bwriad yw ailwampio rhannau helaeth ohoni.

The sum of £662,364 went on a free laptop scheme for schools, with 943 laptops purchased. The scheme was scrapped. I thought it was a daft scheme, I have to say, but what really gets me is that when you do the sums, each laptop cost over £700. Has no-one been down to PC World recently?

Gwariwyd £662,364 ar gynllun gliniaduron am ddim i ysgolion, gan brynu 943 ohonynt. Taflwyd y cynllun ar y domen. Roedd hwn yn gynllun gwirion yn fy marn i, rhaid dweud, ond yr hyn sy'n fy ngwylltio i yw, os gwnewch chi'r symiau, bod pob gliniadur wedi costio mwy na £700. Onid oes neb wedi ymweld â PC World yn ddiweddar?

**Leighton Andrews:** I suggest that the Member visit some of the schools that have benefited from the laptop project, such as the school in Rhosymedre near Wrexham where they have done superb work with families as well as with the pupils. Would she not accept that that money has been put to good use and that we have excellent examples throughout Wales of the money being put to good use?

**Leighton Andrews:** Hoffwn awgrymu i'r Aelod ei bod yn ymweld â rhai o'r ysgolion sydd wedi elwa o'r prosiect gliniaduron, megis yr ysgol yn Rhosymedre ger Wrecsam, lle maent wedi gwneud gwaith rhagorol gyda theuluoedd yn ogystal â chyda'r disgyblion. Oni fyddai'n derbyn bod yr arian wedi'i ddefnyddio'n dda a bod gennym enghreifftiau ardderchog ledled Cymru o'r arian yn cael ei ddefnyddio er lles?

**Angela Burns:** The point of this is the shocking misspending of funds. Let us be absolutely clear about that. [*Interruption.*] No, thank you. Let me get to the real kicker—[*Interruption.*] Let me get to the real kicker in the PricewaterhouseCoopers report. It is that 32% of the £4 billion-worth of expenditure goes on support costs representing back-office and other administrative functions. The report broadly defines administration costs as a set of support activities that do not deliver services to learners directly. Recommendations were made to the Welsh Government that suggested shifting the balance of costs around the two themes of simplifying governance and standardising and sharing provision.

**Angela Burns:** Pwynt hyn yw'r camwario cywilyddus. Gadewch inni fod yn berffaith glir ynglŷn â hynny. [*Torri ar draws.*] Dim diolch. Gadewch imi ddod at yr ergyd go iawn—[*Torri ar draws.*] Gadewch imi ddod at yr ergyd go iawn yn adroddiad PricewaterhouseCoopers, sef, bod 32% o'r gwariant gwerth £4 biliwn yn cael ei wario ar gostau cymorth, hynny yw ar swyddogaethau'r swyddfa gefn a mathau eraill o weinyddu. Yn ôl diffiniad bras yr adroddiad, costau gweinyddol yw set o weithgareddau cymorth nad ydynt yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr. Roedd yr argymhellion i Lywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid ailfantoli'r costau ar sail dwy thema, sef symleiddio'r drefn lywodraethu a safoni a rhannu'r ddarpariaeth.

I know that the Minister signed up to this Government's collaborative agenda, but let us be clear: a world-renowned external

Gwn fod y Gweinidog yn cefnogi agenda gydweithredol y Llywodraeth hon, ond gadewch inni fod yn glir, mae sefydliad

organisation has said that one third of the entire education budget is spent on administration and back-office functions. That is tough on the schools that would love an extra teacher or a trip to the museum, which they have to sacrifice so they can pay the exorbitant costs of re-sits. It is tough on the heads who are deeply unhappy about the banding system and feel, as the NASUWT feels, that the plans for school improvement are in crisis.

allanol ag enw da drwy'r byd wedi dweud bod traean o'r holl gyllideb addysg yn cael ei wario ar weinyddu ac ar swyddogaethau'r swyddfa gefn. Mae hynny'n galed ar yr ysgolion a fyddai wrth eu bodd yn cael athro ychwanegol neu daith i'r amgueddfa, pethau y mae'n rhaid iddynt eu haberthu er mwyn talu costau afresymol ailsefyll arholiadau. Mae'n galed ar y penaethiaid sy'n anhapus ofnadwy ynglŷn â'r system fandio ac yn teimlo, fel y mae'r NASUWT yn teimlo, ei bod hi'n argyfwng ar y cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion.

I welcome some of the work done by the Minister in the front-line resources review. I do welcome the Government estimate that, by 2013-14, some £120 million to £198 million of net expenditure will have been shifted, but that is years on from the report, and more could still be done. I also wonder how much of the costs of the new regional consortia have been factored in.

Rwyf yn croesawu rhywfaint o'r gwaith y mae'r Gweinidog wedi'i wneud yn yr adolygiad o adnoddau'r rheng flaen. Rwyf yn croesawu amcangyfrif y Llywodraeth y bydd rhwng £120 miliwn ac £198 miliwn wedi'u symud erbyn 2013-14, ond erbyn hynny, bydd blynyddoedd wedi mynd heibio ers yr adroddiad, a byddai'n dal yn bosibl gwneud rhagor o hyd. Tybed hefyd faint o gostau'r consortia rhanbarthol newydd sydd wedi'u cynnwys yn hyn.

Talking of the regional consortia, I know that the Minister is as keen on governance as I am, but the functions of the system’s governance have been pushing up costs in education. Again, PwC found that there is a strong perception that they are unnecessary and very costly. It found that £117 million was spent on strategic support, and at least 60 institutions outside schools are involved in the delivery of education in Wales. That was £117 million and 60 non-schools. Minister, can you assure us that that is not waste? I do not think that PwC was convinced, and I am most certainly not. Can you assure us that the regional consortia will not add to this waste and be yet another level of red tape between schools and funding?

A sôn am y consortia rhanbarthol, gwn fod y Gweinidog gymaint o blaid llywodraethiant ag yr wyf fi, ond mae swyddogaethau llywodraethu'r system wedi bod yn chwyddo'r costau ym maes addysg. Unwaith eto, gwelodd PwC fod pobl yn teimlo'n gryf eu bod yn ddiangen ac yn gostus iawn. Gwelodd fod £117 miliwn wedi'i wario ar gymorth strategol, a bod o leiaf 60 o sefydliadau y tu allan i'r ysgolion yn ymwneud â darparu addysg yng Nghymru. Ie, £117 miliwn a 60 y tu allan i'r ysgol. Weinidog, a allwch ein sicrhau ni nad gwastraff yw hynny? Ni chredaf fod PwC wedi'i argyhoeddi, ac yn sicr nid wyf fi. A allwch ein sicrhau na wnaiff y consortia rhanbarthol ychwanegu at y gwastraff hwn a chreu lefel arall eto fyth o fiwrocratiaeth rhwng ysgolion a'r drefn ariannu?

This is even more important in the context of the Welsh Government’s Managing with Less programme. For those who are not clear on this, let me recap: the Welsh Government says that it is facing huge financial challenges, and, no doubt, somebody will leap up at some point during this debate and bemoan the cuts from England. The Welsh Government says that it needs to deliver a

Mae hyn yn bwysicach byth yng nghyd-destun rhaglen Llwyddo â Llai Llywodraeth Cymru. I'r rheini nad ydynt yn glir ynglŷn â hyn, gadewch imi eich atgoffa: dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn wynebu anawsterau ariannol enfawr, ac, mae'n siŵr, bydd rhywun yn neidio ar ei draed rywbryd yn ystod y ddadl hon i gwyno am y toriadau o Loegr. Dywed Llywodraeth Cymru fod

reduction of £42 million over three years and yet, with a third of the education budget poorly targeted, a funding gap that keeps growing, school buildings leaking, paint peeling, and children thinking that demountables are the norm, I ask this Government what on earth has it been spending all the money on for the last 15 years. All that we see is waste, and there is simply no point trying to blame the failings of the last 15 years on the reduction in the Welsh block grant given the inheritance left to the UK coalition Government—a decade of poor financial management by the UK Labour administration and a spine-chilling global meltdown.

angen iddi sicrhau gostyngiad o £42 miliwn dros dair blynedd ac eto i gyd, a thraean o'r gyllideb addysg wedi'i dargedu'n wael, bwlch ariannu sy'n tyfu o hyd, adeiladau ysgolion yn gollwng dŵr, paent yn plicio, a phlant yn meddwl mai adeiladau dros dro yw'r norm, gofynnaf i'r Llywodraeth hon beth ar y ddaear y mae wedi bod yn gwario'r holl arian arno yn y pymtheng mlynedd diwethaf. Y cyfan a welwn yw gwastraff, ac ni thâl iddi feio methiannau'r 15 mlynedd diwethaf ar y gostyngiad yng ngrant bloc Cymru a chofio'r gwaddol a adawyd i Lywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig—degawd o reoli ariannol gwael gan weinyddiaeth Lafur y Deyrnas Unedig a chwalfa fyd-eang sy'n gyrru ias i lawr asgwrn cefn rhywun.

We would like the Welsh Government to outline exactly how it intends to monitor the outcomes against the resources. That is why I cannot support the Liberal Democrat’s amendment—partly on principle, because the price that they paid for propping up a poor budget was far too great, but also because I do not see how that pupil deprivation grant is going to be sustainable in the long term. It will be yet more money wasted. Again, PricewaterhouseCoopers has been very clear that we need fewer grants and more strategy, with more money going to the front line.

Hoffem i Lywodraeth Cymru ddweud yn union sut mae'n bwriadu monitro'r canlyniadau o'u cymharu â'r adnoddau. Dyna pam na allaf gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol—yn rhannol ar sail egwyddor, oherwydd bod y pris a dalwyd ganddynt am gefnogi cyllideb wael yn rhy fawr o lawer, ond hefyd oherwydd nad oeddwn yn gweld sut y gall grant amddifadedd disgyblion fod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Bydd yn golygu gwastraffu mwy o arian eto fyth. Unwaith eto, mae PricewaterhouseCoopers wedi bod yn glir iawn mai angen llai o grantiau sydd arnom a rhagor o strategaeth, a rhagor o arian yn mynd i'r rheng flaen.

Finally, we call on the Government to reprioritise education spending effectively, and that is why I am so surprised and disappointed in the amendment proposed by Plaid Cymru. Do they really think that Labour is spending money in the best way possible? You may not like our ideas, but at least we have some, and we are more than happy to debate them, whereas the Government is mired in waste and exhausted with trying to find a way out that will make sure that everyone is blamed but them, and especially teachers.

Yn olaf, galwn ar y Llywodraeth i ailflaenoriaethu’n effeithiol y gwariant ar addysg, a dyna pam rwyf yn synnu gymaint ac yn siomedig o weld y gwelliant a gynigir gan Blaid Cymru. A ydynt yn wir yn meddwl bod Llafur yn gwario'r arian yn y ffordd orau posibl? Efallai nad ydych yn hoffi ein syniadau ni, ond o leiaf mae gennym rai, ac rydym yn fwy na bodlon eu trafod, tra bo'r Llywodraeth yn ymbalfalu mewn gwastraff ac wedi ymlâdd yn ceisio canfod ffordd o ddianc a fydd yn sicrhau bod pawb heblaw hwy'n cael y bai, athrawon yn enwedig.

After 15 years of Labour fiddling with Welsh education, we still have slipping standards, disenfranchised stakeholders and layers of bureaucracy, and we have to brace ourselves for the majority of Estyn reports. You call it a systemic failure; I call it a waste. It is poor

Ar ôl 15 mlynedd o Lafur yn potsian ag addysg yng Nghymru, mae ein safonau'n llithro o hyd, ac mae gennym randdeiliaid sydd wedi'u difreinio a haenau o fiwrocratiaeth, a rhaid inni ymwroli ar gyfer yr ysgytwad a ddaw yn sgil y rhan fwyaf o

management, a lack of inspirational leadership, a culture of blaming the profession, and civil servants being woefully slow in implementation. Local education authorities seem more and more pointless as central government and consortia swallow up their responsibilities and a lost generation of kids. The Government is in a quagmire over this. You have been in post for 902 days and yet still feel that it would be unrealistic to set targets for this November. Have your 902 days been a waste?

adroddiadau Estyn. Eich enw chi ar hyn yw methiant systemig. Fy enw i arno yw gwastraff. Rheoli gwael, diffyg arweiniad ysbrydoledig, diwylliant o feio'r proffesiwn a gweision sifil sy'n drybeilig o araf yn rhoi pethau ar waith, dyna yw hyn. Mae llai a llai o bwynt i awdurdodau addysg lleol i bob golwg wrth i lywodraeth ganol a chonsortia lyncu eu cyfrifoldebau a chenhedlaeth goll o blant. Mae'r Llywodraeth mewn cors yn hyn o beth. Rydych wedi bod yn eich swydd am 902 o ddiwrnodau ac eto i gyd, rydych yn dal i deimlo y byddai'n afrealistig gosod targedau ar gyfer y Tachwedd hwn. Ai gwastraff fu eich 902 diwrnod?

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Dileu pwynt 4.*

*Delete point 4.*

**Simon Thomas:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

**Simon Thomas:** I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

Mae’n dda gennyf gyfrannu at ddadl heddiw. Rwy’n cytuno’n llwyr fod y rhan fwyaf o gynnig y Blaid Geidwadol yn ffeithiol gywir, ac felly rydym yn cefnogi’r rhan fwyaf ohono. Rydym yn cynnig y gwelliant hwn am nad ydym yn cytuno â pholisi’r Blaid Lafur o ran ailgyfeirio arian at ysgolion, sef ariannu pob ysgol yn uniongyrchol. Mae’n bwysig ein bod yn gwahaniaethu ac yn ei gwneud yn glir pam nad ydym yn gallu cefnogi’r cynnig hwn yn llawn.

I am pleased to contribute to today’s debate. I agree completely that most of the Conservative Party’s motion is factually correct, and so we are supporting most of it. We are proposing this amendment because we do not agree with the Labour Party’s policy in terms of redirecting spending at schools by funding all schools directly. It is important that we differentiate and make it clear as to why we are unable to support the motion in full.

Fodd bynnag, mae’n wir i ddweud nad yw datganoli neu lywodraeth datganoledig wedi gwella ansawdd addysg yng Nghymru. Mae’n wir i ddweud hynny, ac rwyf wedi dweud hynny yn y gorffennol. Rwyf hefyd wedi dweud, ac rwy’n hapus i’w ailddatgan, os nad ydym yn defnyddio’r ddegawd nesaf i ddangos bod yr holl rymoedd deddfu, cyllidol a rheoleiddio sydd gennym, a’r syniadau, a phob dim arall sydd gennym, yn gwella addysg yng Nghymru, bydd yn iawn i’n dinasyddion feddwl bod datganoli ym maes addysg o leiaf wedi bod yn fethiant. Nid wyf am weld hynny a dyna pam rwyf am weld y Llywodraeth hon yn gweithio mor galed ag sy’n bosibl i wella sgiliau a chyrhaeddiad ein plant.

However, it is true to say that devolution and devolved government have not improved education standards in Wales. That is true to say, and I have said that in the past. I have also said, and I am willing to reiterate it, that if we do not use the next decade to demonstrate that all the legislative, financial and regulatory powers that we have, as well as all the ideas and everything else that we have, are improving educational standards in Wales, our citizens will have every right to think that devolution in the field education at least has been a failure. I do not want to see that and that is why I want to see this Government working as hard as possible to improve skills and the educational attainment of our children.

Rwyf am ffocysu fy sylwadau heddiw ar sut y gallwn wneud hynny yng nghyd-destun

I want to focus my comments today on how we can do that in the context of poverty and

amddifadedd a thlodi, ac rwy'n gwneud hynny achos rwy'n gweld yn glir mai un o'r rhesymau yr ydym yn y twll arbennig hwn o ran cyrhaeddiad addysgol yw'r berthynas rhwng amddifadedd a sgiliau. Mae hynny wedi ei adrodd mewn sawl ffordd gan Estyn a Chomisiynydd Plant Cymru ac, yn fwy diweddar, yr wythnos diwethaf, yn yr adroddiad gan David Egan a gafodd ei gomisiynu a'i gyhoeddi gan Gronfa Achub y Plant. Heddiw, cydnabu'r Joseph Rowntree Foundation ei fod yn disgwyl i un o bob pedwar plentyn yng Nghymru fod yn byw mewn tlodi erbyn 2020.

deprivation, and I do so because I see clearly that one of the reasons why we are in this specific hole in terms of educational attainment is the relationship between deprivation and skills. That has been reported in a number of ways by Estyn and the Children's Commissioner for Wales and, more recently, just last week, in the report by David Egan that was commissioned and published by Save the Children. Just today, the Joseph Rowntree Foundation acknowledged that it expects one in every four children in Wales to be living in poverty by 2020.

3.15 p.m.

Mae'n darged gan y Llywodraeth bresennol, wrth gwrs, i ddileu tlodi ymysg plant erbyn 2020. Fodd bynnag, mae'r comisiynydd plant yn dweud ei fod yn annhebygol iawn y bydd y targed hwnnw yn cael ei gyflawni a bod un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd. Mae'r Joseph Rowntree Foundation yn gweld y sefyllfa'n gwaethygu, nid gwella, o ran amddifadedd a thlodi, ac, yn y cyd-destun hwnnw, ac o ystyried ein record, a amlinellwyd gan Angela Burns, mae'n anodd gweld sut allwn wella cyrhaeddiad ein plant.

Of course, it is a target of the current Government, to eradicate child poverty by 2020. However, the children's commissioner says that that target is unlikely to be achieved and that one in three children in Wales lives in poverty at the moment. The Joseph Rowntree Foundation sees the situation getting worse, not improving, in relation to deprivation and poverty, and, in that context, and given our record, as outlined by Angela Burns, it is difficult to see how we could improve the attainment of our children.

Gellir gweld yn glir bod bron hanner plant Cymru yn byw mewn cartrefi sydd wedi'u hamddifadu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd—efallai bod aelodau o'r teulu'n ddi-waith neu'n derbyn credyd treth o ryw fath. Gellir hefyd weld yn glir bod y bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r plant nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yn lledaenu. Yng nghyfnod allweddol 1, mae o gwmpas 20% yw'r bwlch rhwng plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn, ond, erbyn cyfnod allweddol 4, mae'r blwch wedi'i dyfu i draean o'r holl blant—34%. Felly, nid yn unig y mae tlodi yn esgor ar fethiant ymysg ein plant, mae'r bwlch yn tyfu wrth i'r plentyn fynd trwy'r system addysgol.

We can clearly see that almost half of Wales's children live in homes that are deprived in one way or another—family members may be unemployed or receiving tax credits of some sort. We also clearly see that the gap in attainment between children who are in receipt of free school meals and those who are not is widening. In key stage 1, the gap between children who are in receipt of free school meals and those who are not is around 20%, but, by key stage 4, the gap has grown to a third of all the children—34%. Therefore, not only does poverty lead to failure among our children, the gap grows as the child progresses through the educational system.

Serch hynny, mae pethau y gellid eu gwneud, a dyna pam roeddwn yn siomedig bod Angela wedi dewis cliniaduron fel enghraifft o wastraffu arian gan y Llywodraeth. Credaf fod hynny'n enghraifft o lwyddiant gan y

Despite that, there are things that can be done, and that is why I was disappointed that Angela chose laptops as an example of a waste of money by the Government. I think that that is an example of success by the

Llywodraeth. Bydd Angela yn gwybod, ar ôl imi holi'r Gweinidog yn y pwyllgor rydym ein dau yn gwasanaethu arno, inni dderbyn adroddiad llawn o'r diwedd a oedd yn gwerthuso'r cynllun rhoi cliniaduron i blant anghenus ac sydd wedi canfod bod y cynllun hwnnw wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r cynllun hefyd wedi gosod cynsail i gynlluniau tebyg trwy Gymru gyfan, er enghraifft yn y Rhyl, lle rhoddir cliniaduron am ddim i blant trwy'r ysgol er mwyn sicrhau nad oes camwahaniaethu o ran plant nad ydynt yn gallu cael mynediad at gyfrifiaduron a'r plant sy'n gallu oherwydd eu cefndir.

Government. Angela will know, after I questioned the Minister in the committee on which we both serve, that we had at last a full report evaluating the scheme giving laptops to needy children, which found that the scheme had been a success. The scheme has also set a precedent for similar schemes throughout Wales, for example in Rhyl, where laptops are provided to children throughout the school to ensure that there is no discrimination with regard to children who cannot access computers and those who can because of their background.

Gellir gwneud sawl peth, a hoffwn ganolbwyntio ar ddau neu dri i gloi. Yn gyntaf, o ran y grant amddifadedd disgyblion, mae'r Gweinidog wedi sôn bod canllawiau yn eu lle, ond, os yw'r grant hwn i barhau, rhaid cael mwy na chanllawiau. Rhaid cael fframwaith i ddefnyddio'r arian hwn, a rhaid i'r fframwaith hwnnw sicrhau sut y bydd yr arian yn cyflawni ei amcanion. Mae gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn fwy defnyddiol ar gyfer negodi yn y dyfodol na dim arall, a byddwn yn pleidleisio ar sail hynny. Mae hefyd yn bwysig cael cynlluniau sy'n ymwneud â sgiliau rhieni, oherwydd un o'r pethau sy'n creu'r cylch dieflig hwn yw'r ffaith bod sgiliau'r rhieni yn ddiffygiol i gefnogi eu plant.

A number of things can be done, and I will concentrate on two or three to conclude. First, in terms of the pupil deprivation grant, the Minister has mentioned that there are guidelines in place, but, if this grant is to continue, we need more than guidelines. We need a framework for the use of this money, and that framework must ensure how the money will achieve its objectives. The Liberal Democrats' amendments have more use as a future negotiating tool than anything else, and we will vote on that basis. It is also important to have schemes to deal with parental skills, because one of the things that creates this vicious circle is that fact that parents lack the skills to support their children.

*Gwelliant 2 Aled Roberts*

*Amendment 2 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r grant amddifadedd disgyblion sydd wedi'i anelu at wella cyrhaeddiad addysgol disgyblion difreintiedig.*

*Welcomes the pupil deprivation grant which is aimed at improving the educational attainment of disadvantaged pupils.*

*Gwelliant 3 Aled Roberts*

*Amendment 3 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwario'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn iddo gyflawni gwelliannau mewn cyrhaeddiad.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that spending of the pupil deprivation grant is effectively monitored so that it delivers improvement in attainment.*

*Gwelliant 4 Aled Roberts*

*Amendment 4 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y*

*Add as new point at end of motion:*

*cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau i gynyddu'r grant amddifadedd disgyblion mewn blynyddoedd i ddod i helpu i ddatblygu gwelliannau pellach mewn cyrhaeddiad.*

*Calls on the Welsh Government to develop plans to increase the pupil deprivation grant in future years to help develop further improvement in attainment.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 2, 3 a 4 yn fy enw i.

**Aled Roberts:** I move amendments 2, 3 and 4 in my name.

Croesawaf y cyfle unwaith eto heddiw i drafod cyflwr y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Mae'n bleser gennyf gynnig gwelliannau 2, 3 a 4 yn fy enw i ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol.

I welcome the opportunity once again today to discuss the state of the education system in Wales. It is a pleasure to move amendments 2, 3 and 4 in my name on behalf of the Liberal Democrats.

Rwy'n ddiolchgar i Simon Thomas, yn y lle cyntaf, am esbonio pam fod Plaid Cymru yn cynnig dileu pwynt 4 o'r cynnig yn ei gwelliant. Rydym ni, fodd bynnag, yn cefnogi rhoi blaenoriaeth i wariant ar addysg, ac felly ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Blaid y prynhawn yma.

I am grateful to Simon Thomas, in the first place, for explaining why Plaid Cymru proposes deleting point 4 of the motion in its amendment. We, however, support giving priority to expenditure on education, and therefore we will not support Plaid's amendment this afternoon.

I do not think that there can be any argument that the overall standards of education in Wales need to be improved and, as Simon Thomas indicated, much of the factual information provided in the Welsh Conservatives' motion is correct. I do not therefore propose to reiterate anything from the long list of points included in the motion. What we need to do is to concentrate on what is going to be done to address all of these issues, and not just what is going to be done, but how and where it is going to be done and who is responsible for doing it.

Ni chredaf y gellir dadlau o gwbl nad oes angen gwella safonau cyffredinol addysg yng Nghymru, ac, fel yr awgrymodd Simon Thomas, mae llawer o'r wybodaeth ffeithiol sydd yng nghynnig Ceidwadwyr Cymru yn gywir. Nid wyf felly'n bwriadu ailadrodd dim byd ar y rhestr hir o bwyntiau sydd yn y cynnig. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw canolbwyntio ar yr hyn a wneir i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn, ac nid dim ond ar yr hyn a wneir, ond ar sut ac ymhle y gwneir hyn a phwy a fydd yn gyfrifol amdano.

This is not the first time that I have said here that my belief is that the existence of a plan, framework or strategy—call it what you will—is not necessarily a guarantee for success. Detailed action plans are, however, essential, and perhaps now is a good time to establish whether or not all of the schools in bands 4 and 5 have submitted their detailed plans to the Minister.

Nid dyma'r tro cyntaf imi ddweud yma fy mod yn credu nad yw bodolaeth cynllun, fframwaith neu strategaeth—galwch ef beth fynnwch—o reidrwydd yn gwarantu llwyddiant. Serch hynny, mae cynlluniau gweithredu manwl yn hollbwysig, ac efallai fod nawr yn amser da i gael gwybod a yw holl ysgolion bandiau 4 a 5 wedi cyflwyno'u cynlluniau manwl i'r Gweinidog neu beidio.

Our purpose in amendment 2 is to state that, in our opinion, the pupil deprivation grant, which came about as a result of budget negotiations between us and the Welsh Government, will improve attainment. As a result of the grant, schools will receive £450

Ein pwrpas yng ngwelliant 2 yw datgan y bydd y grant amddifadedd i ddisgyblion, a ddaeth yn sgil trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb rhyngom ni a Llywodraeth Cymru, yn gwella cyrhaeddiad yn ein barn ni. Yn sgil y grant, caiff ysgolion £450 ar gyfer pob

for every pupil who is eligible to receive free school meals. As a Liberal Democrat, I am proud to be associated with securing that support, despite what Angela Burns will tell us. Our purpose in putting forward amendments 3 and 4 is to see whether there is an appetite for that grant to continue in future years. I would be interested to hear the Minister’s views on that, considering that he himself has said that he does not foresee seeing any evidence of improved standards until at least 2015.

disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. A minnau'n Ddemocrat Rhyddfrydol, rwyf yn falch o fod yn gysylltiedig â sicrhau'r cymorth hwnnw, beth bynnag a ddywed Angela Burns wrthym. Ein pwrpas wrth gyflwyno gwelliannau 3 a 4 yw gweld a oes archwaeth am barhau â'r grant hwnnw ym mlynyddoedd y dyfodol. Byddai'n dda gennyf glywed barn y Gweinidog am hynny, a chofio iddo ef ei hun ddweud nad yw'n rhagweld y gwelir unrhyw dystiolaeth o well safonau tan 2015 fan gynharaf.

Moving to amendments 3 and 4, I am perhaps more willing to listen to educationists, the Joseph Rowntree Foundation and the Sutton Trust, than PricewaterhouseCoopers as far as whether or not a grant has any likelihood of being a success. It is also my belief that the way that the grant is currently structured will mean that the money will get through to the front line. We all know that stability is important when we are dealing with the funding of particular projects, as Angela Burns has said, and the pupil deprivation grant is no exception. The pupil premium in England is set to increase over the next few years. I am sure that it would assist schools and their plans to be certain of future funding, so I ask again that the Minister seriously consider the long-term future of the pupil deprivation grant and the pupils who will benefit.

A symud at welliannau 3 a 4, efallai fy mod yn fwy parod i wrando ar addysgwyr, Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Sutton, nag ar PricewaterhouseCoopers o ran a yw grant yn debygol o lwyddo neu beidio. Rwyf yn credu hefyd y bydd y ffordd y mae'r grant wedi'i strwythuro ar hyn o bryd yn golygu y bydd yr arian yn cyrraedd y rheng flaen. Rydym i gyd yn gwybod bod sefydlogrwydd yn bwysig pan fyddwn yn ymdrin ag ariannu prosiectau penodol, fel y mae Angela Burns wedi dweud, ac nid yw'r grant amddifadedd disgyblion yn eithriad. Mae’n fwriad cynyddu'r premiwm disgyblion yn Lloegr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rwyf yn siŵr y byddai'n gymorth i ysgolion ac i'w cynlluniau petai ganddynt sicrwydd ynglŷn ag ariannu yn y dyfodol, felly gofynnaf unwaith eto i'r Gweinidog ystyried dyfodol tymor hir y grant amddifadedd disgyblion a'r disgyblion a fydd yn elwa.

I am firmly of the opinion, given my experiences in Wrexham, that individual pupil assessment and monitoring are preferable to the application of any type of collective categorisation—be it banding, receipt of free school meals, or so-called geographical areas of deprivation. Mention has already been made of Save the Children’s report last week, which recommended the use of data to track students and, where necessary, prompt early intervention. It is significant that the study concludes that differences in the cognitive ability of relatively advantaged and disadvantaged children are apparent as early as at nine months old. These differences accelerate, so that, by the age of three, children from disadvantaged backgrounds are often a year behind their nursery school classmates. The

Rwyf yn credu'n gryf, a chofio fy mhrofiadau yn Wrecsam, ei bod yn well asesu a monitro disgyblion unigol na’u cydgategoreiddio mewn unrhyw ffordd—boed hynny'n fandio, yn brydau ysgol am ddim, ynteu'n ardaloedd amddifadedd daearyddol fel y'u gelwir. Mae adroddiad Achub y Plant yr wythnos diwethaf wedi'i grybwyll eisoes, a oedd yn argymell defnyddio data i olrhain myfyrwyr, a lle bo angen, i sbarduno ymyrryd yn gynnar. Mae'n arwyddocaol bod yr astudiaeth yn casglu bod gwahaniaethau rhwng gallu gwybyddol plant sy'n gymharol freintiedig â’r rheini sy’n gymharol ddi-fraint i'w gweld mor gynnar â phan fyddant yn naw mis oed. Bydd y gwahaniaethau hyn yn cyflymu, ac felly, erbyn iddynt gyrraedd tair oed, bydd plant o gefndiroedd di-fraint yn aml flwyddyn ar ei hôl hi o'u cymharu â'u cyd-

Joseph Rowntree Foundation has highlighted the fact that disadvantaged students who have not achieved the expected outcomes by the age of 16 are unlikely to improve their performance by the age of 19. The Sutton Trust, which has produced a toolkit for the implementation of the pupil premium in England, along with a timed delivery plan, has also been involved in assessing the attainment success of students who are in receipt of free school meals compared with those who are not. Both the foundation and the trust include an assessment of the measures used in England under the pupil premium and their relative success.

ddisgyblion yn yr ysgol feithrin. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi tynnu sylw at y ffaith bod myfyrwyr di-fraint sydd heb gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig erbyn iddynt gyrraedd 16 oed yn annhebygol o wella'u perfformiad erbyn iddynt gyrraedd 19 oed. Mae Ymddiriedolaeth Sutton, sydd wedi cyhoeddi pecyn ar gyfer rhoi'r premiwm disgyblion ar waith yn Lloegr, ynghyd â chynllun cyflawni wedi'i amserlennu, wedi bod yn ymwneud hefyd ag asesu llwyddiant cyrhaeddiad myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'r rheini nad ydynt yn cael y prydau hynny. Mae'r sefydliad a'r ymddiriedolaeth ill dau’n cynnwys asesiad o'r mesurau a ddefnyddir yn Lloegr o dan y premiwm disgyblion a'u llwyddiant cymharol.

While we can look forward to a number of initiatives contained in the School Standards and Organisation (Wales) Bill, we must not fall into the trap of thinking that the Bill is a panacea. It will require a great deal of application and diligence to bring about the major changes that are needed in the education system, and these changes will need to be implemented and monitored at all levels. That is why the assessment of different methodologies used by schools will be important. It is clear that the current situation cannot be allowed to continue.

Er ein bod yn gallu edrych ymlaen at nifer o gynlluniau yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), rhaid inni beidio â disgyn i'r fagl o feddwl bod y Bil yn mynd i fod yn ateb i bopeth. Bydd gofyn ymroi o ddifrif yn ddiwyd iawn i sicrhau'r newidiadau mawr y mae eu hangen yn y system addysg, a bydd angen rhoi'r newidiadau hyn ar waith a'u monitro ar bob lefel. Dyna pam y bydd yn bwysig asesu gwahanol fethodolegau a ddefnyddir gan ysgolion. Mae'n amlwg nad oes modd gadael i'r sefyllfa bresennol barhau.

**Suzy Davies:** Rwy’n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon.

**Suzy Davies:** I am grateful for the opportunity to take part in this debate.

Minister, I know that you will be disappointed to be confronted yet again with the evidence of ‘systemic failure’, to use your words, or ‘waste’, to use Angela Burns’s words, in education in Wales. None of us wishes to undermine the achievements of staff and governors who have worked hard to bring out the best in their pupils and their schools. None of us wishes to undermine the achievements of those children and young people who have worked hard to fulfil their potential. Nevertheless, a pall of nervousness, uncertainty and lack of confidence has been allowed to settle over our education system in the last decade. My son is in the middle of taking his GCSE exams. I know, Minister, that you will wish him well, as it is one of those significant moments that will affect his life irrevocably. As his mother, I find it hard

Weinidog, gwn y byddwch yn siomedig o ddod wyneb yn wyneb unwaith eto â thystiolaeth o 'fethiant systemig' a defnyddio'ch geiriau chi neu 'wastraff', a defnyddio geiriau Angela Burns. Nid oes neb ohonom am danseilio llwyddiannau staff a llywodraethwyr sydd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod eu disgyblion a'u hysgolion yn gwneud cystal ag y gallant. Nid oes neb ohonom am danseilio llwyddiannau'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi gweithio’n galed i gyflawni eu potensial. Serch hynny, gadawyd i gwmwl o nerfusrwydd, ansicrwydd a diffyg hyder ddisgyn ar ein system addysg yn y degawd diwethaf. Mae fy mab yng nghanol sefyll ei arholiadau TGAU. Gwn, Weinidog, y byddwch yn dymuno'n dda iddo, oherwydd dyna un o'r adegau pwysig hynny a fydd yn effeithio am byth ar

to suppress a persistent anxiety that the education that he has received has not equipped him to compete with his peers in other parts of the UK, let alone in the rest of the world, and that it has not inspired him to embrace the love of learning that would make his life rich and rewarding. I look at those stark facts in the first point of the motion. If I lived nearer the border, what is there in those statistics that would persuade me not to send my son to try for his A-levels in England? What is there in those statistics that would persuade him not to head off to university anywhere but in Wales, taking his fees subsidy with him? What is there in those statistics that would persuade him to come back and educate his own children here? Minister, I know that you recognise that there is a problem and that you are sincere in wanting to raise standards. The scale of the challenge is enormous and needs to be tackled on a number of fronts, but you must also accept that much of the challenge is of successive Labour Governments' own making.

ei fywyd. A minnau'n fam iddo, rwyf yn ei chael yn anodd mygu'r pryder parhaus nad yw'r addysg y mae wedi'i chael wedi'i arfogi i gystadlu â'i gyfoedion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, heb sôn am yng ngweddill y byd, ac nad yw wedi'i ysbrydoli i goleddu cariad at ddysgu a fyddai'n cyfoethogi ei fywyd ac yn rhoi boddhad iddo. Edrychaf ar y ffeithiau moel hynny ym mhwynt cyntaf y cynnig. Petawn yn byw'n nes at y ffin, beth sydd yn yr ystadegau hynny a fyddai'n fy narbwyllo i beidio ag anfon fy mab i sefyll ei Safon Uwch yn Lloegr? Beth sydd yn yr ystadegau hynny a fyddai'n ei ddarbwyllo i beidio â mynd i'r brifysgol yn rhywle heblaw yng Nghymru, gan fynd â'i gymhorthdal ffioedd gydag ef? Beth sydd yn yr ystadegau hynny a fyddai'n ei ddarbwyllo i ddod yn ôl ac addysgu ei blant ei hun yma? Weinidog, gwn eich bod yn sylweddoli bod problem a'ch bod yn ddiffuant yn eich awydd i godi safonau. Mae'r her yn anferth ac mae angen mynd i'r afael â hi ar sawl tu, ond rhaid ichi hefyd dderbyn mai Llywodraethau Llafur olynol sydd wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r anhawster hwnnw.

To begin with, you have to deal with the legacy of the raid on the education budget, and other budgets, to direct funds to the NHS, a system that is still wasting money through guaranteed salaries for managers that we do not need. Then we have your stubborn determination to stick to your tuition fees policy. No-one is fond of tuition fees, and I hope that everyone supports wider access to higher education. However, there is little point in widening access to universities if they are not seen as excellent. If they are not excellent, English fee-paying students will not take on debt to come here. More ambitious Welsh students will feel the same and walk across the border with taxpayers' money that could be used in our front-line higher education or maybe even in primary schools to ensure that key stage 2 results are accurate and meaningful.

I ddechrau, rhaid ichi ymdrin â gwaddol yr ymosodiad ar y gyllideb addysg, ac ar gyllidebau eraill, er mwyn cyfeirio arian i'r GIG, system sy'n dal i wastraffu arian drwy warantu cyflogau i reolwyr nad oes mo'u hangen arnom. Yna, mae gennych eich penderfyniad ystyfnig i lynu wrth eich polisi ffioedd dysgu. Nid oes neb yn hoff o ffioedd dysgu, ac rwyf yn gobeithio bod pawb yn cefnogi mynediad ehangach at addysg uwch. Serch hynny, nid oes fawr o bwynt inni ehangu mynediad i brifysgolion oni ystyrir bod y prifysgolion hynny'n rhai rhagorol. Onid ydynt yn rhagorol, ni wnaiff myfyrwyr o Loegr sy'n talu ffioedd ysgwyddo'r ddyled i ddod yma. Bydd myfyrwyr mwy uchelgeisiol o Gymru yn teimlo yr un fath ac yn croesi'r ffin gydag arian trethdalwyr y gellid ei ddefnyddio yn rheng flaen ein haddysg uwch neu hyd yn oed mewn ysgolion cynradd i sicrhau bod canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn gywir ac yn ystyrlon.

As you will know, Estyn has expressed its concerns about the reliability of key stage 2 awards, and it is not surprising, therefore, that year 7 pupils will complain that they spend

Fel y gwyddoch, mae Estyn wedi mynegi ei bryderon ynglŷn â pha mor ddibynadwy yw dyfarniadau cyfnod allweddol 2, ac nid yw'n syndod, felly, y bydd disgyblion blwyddyn 7

time doing stuff they have already covered in primary school. If secondary school teachers are having to reassess their intake, that screams a waste of resources.

yn cwyno'u bod yn treulio amser yn gwneud gwaith y maent wedi'i wneud eisoes yn yr ysgol gynradd. Os oes yn rhaid i athrawon ysgolion uwchradd ailasesu'r disgyblion sy'n cyrraedd, mae hynny'n amlwg yn wastraff ar adnoddau.

In evidence to the Children and Young People Committee, Estyn's chief inspector confirmed that low-level literacy needs immediate attention and that schools need leadership: a leadership informed and driven by practitioners. Teachers do not so much need training, training, training, but to speak directly to other teachers about improvement. The national leaders programme in England is showing very good results, and I hope that the introduction of system leaders here will be equally fruitful and an effective use of public funds.

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, cadarnhaodd prif arolygydd Estyn fod angen rhoi sylw ar unwaith i lythrennedd gwael a bod angen arweiniad ar ysgolion, arweiniad y bydd ymarferwyr yn cyfrannu ato ac yn ei sbarduno. Nid hyfforddiant, hyfforddiant, hyfforddiant yw'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd ar athrawon ond cael siarad yn uniongyrchol ag athrawon eraill am wella. Mae'r rhaglen arweinwyr cenedlaethol yn Lloegr yn dangos canlyniadau da iawn, ac rwyf yn gobeithio y bydd cyflwyno arweinwyr systemau yma yr un mor ffrwythlon ac yn ffordd effeithiol o ddefnyddio arian cyhoeddus.

As well as reviewing schools, Estyn's report also shows that five out of seven local education authorities inspected this year require follow-up work. If five out of seven LEAs are not providing value for money, why is the finance being made available under banding going to local authority consortia? Local authorities already have direct and indirect access to a myriad of valuable resources for school improvement and do not seem to know how to use them. Might that money not be better spent by being sent directly to schools?

Yn ogystal ag adolygu ysgolion, mae adroddiad Estyn yn dangos hefyd bod angen gwaith dilynol ar bump o blith saith awdurdod addysg lleol a arolygwyd eleni. Os nad yw pump AALl o blith saith yn cynnig gwerth am arian, pam mae'r arian sy'n cael ei ddarparu o dan y bandio'n mynd i gonsortia awdurdodau lleol? Mae awdurdodau lleol eisoes yn gallu manteisio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar lu o adnoddau gwerthfawr ar gyfer gwella ysgolion ac, i bob golwg, nid ydynt yn gwybod sut mae eu defnyddio. Oni fyddai'n well gwario'r arian hwnnw drwy ei anfon yn syth i'r ysgolion?

Banding tells local authorities nothing they did not already know and on which they should already be acting. If they have not been doing so, perhaps the Minister might want to look more closely at the inherent failings of local education authorities, rather than inviting inferences of failure in particular schools.

Nid yw bandio'n dweud dim wrth awdurdodau lleol nad oeddent yn ei wybod eisoes ac y dylent eisoes fod yn gweithredu yn ei gylch. Os nad ydynt wedi bod yn gwneud hynny, efallai yr hoffai'r Gweinidog edrych yn fwy gofalus ar fethiannau cynhenid awdurdodau addysg lleol, yn hytrach na gwahodd ensyniadau bod ysgolion penodol yn methu.

Estyn has suggested that relevant cabinet members may not be sufficiently knowledgeable to understand the demands of their role, for example, but it is not clear how the School Standards and Organisation (Wales) Bill would address such a fundamental requirement. In fact, the jury is

Mae Estyn wedi awgrymu nad yw aelodau perthnasol y cabinet o bosibl yn ddigon gwybodus i ddeall gofynion eu rôl, er enghraifft, ond nid yw'n glir sut y byddai'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn mynd i'r afael â gofyniad mor sylfaenol. A dweud y gwir, nid yw'n glir eto ai grymuso

still out as to whether the Bill is about empowering LEAs or giving them enough rope to hang themselves with. Either way, it is one of many areas of concern in this particular layer of the education system that may require Government intervention at great cost, eating up yet more funds that could go directly to schools.

AALlau yw pwrpas y Bil, ai rhoi digon raff iddynt grogi'u hunain. Naill ffordd neu'r llall, dyma un o'r prif feysydd sy'n destun pryder yn yr haen arbennig hon o'r system addysg y gall fod gofyn i'r Llywodraeth ymyrryd â hi. Byddai hynny'n gostus iawn, gan lyncu mwy o arian eto a allai fynd yn syth i'r ysgolion.

If, as I believe, the hub of strong leadership is in schools themselves, some of the functions of LEAs will become redundant, not least some of those functions that are causing Estyn concern. LEAs always say that they do not have the money to fulfil Welsh Government policy, so why not ask them to do less, but to do it well? Let us face it: if my son does well in his GCSEs it is because the teacher has got it out of him, not because someone in county hall was banging on about quartiles, cohorts and clusters.

Os, yn yr ysgolion eu hunain y mae craidd arweiniad cryf, a dyna fy marn i, ni fydd rhai o swyddogaethau'r AALlau yn berthnasol bellach, yn anad dim rhai o'r swyddogaethau hynny sy'n peri pryder i Estyn. Bydd AALlau bob tro'n dweud nad oes ganddynt yr arian i wireddu polisïau Llywodraeth Cymru, felly pam na ddylid gofyn iddynt wneud llai, ond ei wneud yn dda? Gadewch inni wynebu'r gwir, os bydd fy mab yn gwneud yn dda yn ei arholiadau TGAU, y rheswm am hynny fydd bod yr athro wedi llwyddo i'w sbarduno, nid oherwydd bod rhywun yn neuadd y sir yn hefrian am chwarteli, cohortau a chlystyrau.

**David Rees:** I am pleased to speak in this debate this afternoon and to present a more positive picture of education in Wales than the motion portrays and the party opposite talks about, particularly at a time when young people are sitting examinations, including GCSEs, AS-levels, A-levels and undergraduate examinations. As Suzy Davies pointed out, those exams affect their future lives. I fully support the work of the Welsh Government in tackling the educational issues that have arisen in Estyn's reports and the PISA results and the actions that the Minister is taking as a consequence. He has not shied away from those challenges. The people and the professions that I talk to have nothing but praise for the Minister and have confidence that he will deliver what is needed.

**David Rees:** Rwyf yn falch o siarad yn y ddadl hon y prynhawn yma a chyflwyno darlun mwy cadarnhaol o addysg yng Nghymru nag y mae'r cynnig yn ei bortreadu ac y mae'r blaid gyferbyn yn sôn amdano, yn enwedig ar adeg pan fydd pobl ifanc yn sefyll arholiadau gan gynnwys TGAU, Safon Uwch-Gyfrannol, Safon Uwch ac arholiadau gradd. Fel y dywedodd Suzy Davies, mae'r arholiadau hynny'n effeithio ar eu bywyd yn y dyfodol. Rwyf yn llwyr gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd i'r afael â'r materion addysgiadol sydd wedi codi yn adroddiadau Estyn ac yng nghanlyniadau PISA a'r camau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd yn sgil hynny. Nid yw wedi ceisio osgoi'r heriau hynny. Nid oes gan y bobl a'r proffesiynau y byddaf fi'n siarad â hwy ond gair da i'r Gweinidog ac maent yn ffyddiog y bydd yn cyflawni'r hyn sydd ei angen.

Today, I wish to focus on higher education in Wales and the role that that plays in developing young people with higher level skills, transferrable skills and subject skills and knowledge. That is something that Suzy Davies might look forward to. It might encourage her son to go to a Welsh university.

Heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar addysg uwch yng Nghymru a'i rôl yn datblygu pobl ifanc drwy roi sgiliau lefel uwch iddynt, sgiliau trosglwyddadwy a sgiliau a gwybodaeth mewn pwnc. Mae hynny'n rhywbeth y gall Suzy Davies edrych ymlaen ato efallai. Fe allai annog ei mab i fynd i'r brifysgol yng Nghymru.

The motion identifies that no Welsh

Mae'r cynnig yn dweud nad oes yr un o

university currently exists in the top 200 in *The Times* higher education ranking for 2011-12. You cannot argue with that; those are the tables. However, look deeper and further and you will identify that Cardiff University is just outside that top 200, in the next 25. Also, the margins are fine and the criteria and interpretation used are very fine. If you compare the figures, you will see that Cardiff University just misses out. Is that disastrous? No. Does that show a failure to drive up standards? I think not. Angela Burns mentioned that Scotland has five universities in the top 200, but she did not mention that Italy has none, and is anyone suggesting that its HE system is failing? It is a similar story for Northern Ireland, Greece, Portugal, Estonia and several other EU countries. Spain has one in the top 200 and France has five. I could keep going, but it only goes to show that, in many countries, many good universities are not identified in the top 200. However, the fact is that they are all delivering and that is not being questioned.

brifysgolion Cymru ymhlith 200 uchaf tabl addysg uwch *The Times* ar gyfer 2011-12. Ni allwch ddadlau â hynny: dyna'r tablau. Serch hynny, edrychwch yn ddyfnach ac ymhellach ac fe welwch fod Prifysgol Caerdydd fymryn y tu allan i'r 200 uchaf hynny, ymhlith y 25 nesaf. Hefyd, mae'r ffiniau'n denau ac mae'r meini prawf a'r dulliau dehongli a ddefnyddir yn fain iawn. Wrth gymharu'r ffigurau, gwelwch nad yw Prifysgol Caerdydd ond yn methu o flewyn. A yw hynny'n drychineb? Nac ydyw. A yw hynny'n dangos methiant i godi safonau? Nac ydyw, yn fy marn i. Crybwyllodd Angela Burns fod gan yr Alban bum prifysgol yn y 200 uchaf, ond ni ddywedodd nad oes gan yr Eidal yr un, ac a yw unrhyw un yn awgrymu bod ei system Addysg Uwch hi'n methu? Stori debyg sydd yng Ngogledd Iwerddon, Gwlad Groeg, Portiwgal, Estonia a sawl un arall o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae gan Sbaen un yn y 200 uchaf ac mae gan Ffrainc bump. Gallwn fynd yn fy mlaen, ond mae hynny'n dangos bod llawer o brifysgolion da, mewn llawer o wledydd, sydd heb eu rhestru ymhlith y 200 uchaf. Serch hynny, y gwir yw eu bod i gyd yn cyflawni ac `nad oes neb yn amau hynny.

3.30 p.m.

A large proportion of the criteria used for those rankings is based on research, but I will address that later. First, let us look at what is important in the quality of the higher education that is delivered to the students who attend our universities. How are those students being taught and what experiences are they having? The Quality Assurance Agency for Higher Education monitors quality assurance at HEIs and external examiners indicate the standards achieved at institutions. They have not indicated a problem with what is being delivered.

Seilir cyfran fawr o'r meini prawf a ddefnyddir i sgorio'r prifysgolion ar waith ymchwil, ond soniaf am hynny wedyn. Yn gyntaf, gadewch inni ystyried yr hyn sy'n bwysig yn ansawdd yr addysg uwch a ddarperir ar gyfer y myfyrwyr sy'n mynd i'n prifysgolion. Sut mae'r myfyrwyr hynny'n cael eu haddysgu a pha brofiadau maent yn eu cael? Bydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn monitro sicrwydd ansawdd Sefydliadau Addysg Uwch a bydd arholwyr allanol yn dangos y safonau a gyflawnir yn y sefydliadau. Nid ydynt wedi dweud bod problem o ran yr hyn a ddarperir.

Additionally, over recent years, we have seen an increase in the number of students who are attending Welsh universities. Recent figures show an 11% increase in full-time students between 2007-08 and between 2009-10. There was a 16% increase in the same period for part-time students, and let us not forget overseas students, for whom there was a 27%

At hynny, dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer y myfyrwyr sy'n mynychu prifysgolion Cymru'n cynyddu. Dengys ffigurau diweddar gynnydd o 11% yn nifer y myfyrwyr amser llawn rhwng 2007-08 a rhwng 2009-10. Gwelwyd cynnydd o 15% yn yr un cyfnod yn nifer y myfyrwyr rhan-amser, a gadewch inni beidio ag anghofio

increase. Students vote with their feet, and these figures clearly show the confidence of students in our Welsh universities.

myfyrwyr tramor, lle y gwelwyd cynnydd o 27%. Bydd myfyrwyr yn pleidleisio â'u traed, ac mae'r ffigurau hyn yn amlwg yn dangos bod myfyrwyr yn ymddiried yn ein prifysgolion yng Nghymru.

Let us turn to research. All HE institutions strive for research excellence, and the last two RAEs—or research assessment exercises, for those of you who do not know—highlighted many areas of research throughout all institutions in Wales that were considered world-leading. Consider the quality of the research delivered in Wales: in the last RAE in 2008, 14% of submissions were considered to be 4*. That is world-leading in its originality, significance and rigour. In England, it was 18%; Scotland, 15%; and Northern Ireland, 14%—very comparable. In Wales, 35% were rated 3*, which is internationally excellent. Figures also reflect a 15% increase in submissions from staff in that RAE compared with the previous one in 2001. That is another sign of greater research activity in Welsh institutions. Progress is definitely being made.

Gadewch inni droi at ymchwil. Bydd pob sefydliad Addysg Uwch yn ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn gwaith ymchwil, ac yn y ddau RAE diwethaf —neu’r ymarfer asesu ymchwil, i'r rheini ohonoch nad ydych yn gwybod—tynnwyd sylw at lawer o feysydd ymchwil ym mhob un o'r sefydliadau yng Nghymru a oedd yn cael eu hystyried gyda'r gorau yn y byd. Ystyriwch ansawdd yr ymchwil a wneir yng Nghymru: yn yr RAE diwethaf yn 2008, ystyriwyd bod 14% o'r cyflwyniadau'n 4*. Mae hyn gyda'r gorau yn y byd o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd. Yn Lloegr 18% oedd y ganran, yn yr Alban, 15%, ac yng Ngogledd Iwerddon, 14%—canrannau tebyg iawn. Yng Nghymru, graddiwyd 35% yn 3* sy'n rhagorol ar lefel ryngwladol. Mae'r ffigurau hefyd yn adlewyrchu cynnydd o 15% yn y cyflwyniadau gan staff yn yr RAE hwnnw o'i gymharu â'r un blaenorol yn 2001. Mae hynny'n arwydd arall o fwy o weithgarwch ymchwil mewn sefydliadau yng Nghymru. Yn sicr, mae pethau'n gwella.

It is definitely disappointing that Welsh HEIs do not receive research council funding equivalent to their proportional size in the UK sector. The Government’s stated ambition in the science strategy to improve that figure to 5% must be applauded. However, we need greater collaboration between institutions within Wales and with international partners, given that international collaboration is reflected in the criteria for deciding on the top 200.

Wrth gwrs, mae'n siomedig nad yw Sefydliadau Addysg Uwch Cymru'n cael arian gan y cyngor ymchwil sy'n cyfateb i'w maint cyfrannol yn sector y Deyrnas Unedig. Rhaid canmol datganiad y llywodraeth yn y strategaeth gwyddoniaeth sy'n dweud mai ei huchelgais yw gwella'r ffigur hwnnw i 5%. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gydweithredu rhwng sefydliadau yng Nghymru a chyda phartneriaid rhyngwladol a chofio bod cydweithredu rhyngwladol, yn cael ei adlewyrchu yn y meini prawf ar gyfer penderfynu ynglŷn â'r 200 uchaf.

I have a clear example from last night, namely the High Performance Computing Wales project, which is being run in Wales, with funding and support from the Welsh Government. That is allowing Welsh universities to provide cutting-edge technology and research through the greater use of computational capability. That is a collaborative project between HEIs and the private sector across Wales that is unique in

Mae gennyf enghraifft glir ers neithiwr, sef y prosiect Cyfrifiadura Perfformiad Uchel i Gymru, sy'n cael ei gynnal yng Nghymru, gyda nawdd a chymorth Llywodraeth Cymru. Drwy'r prosiect hwnnw, gall prifysgolion Cymru ddarparu technoleg ac ymchwil arloesol drwy fanteisio rhagor ar allu cyfrifiaduro. Prosiect cydweithredol rhwng y Sefydliadau Addysg Uwch a'r sector preifat drwy Gymru yw hwnnw. Mae'n unigryw yn y

the UK and possibly across Europe.

Deyrnas Unedig ac o bosibl ledled Ewrop.

In addition, framework programme 7 projects undertaken by Welsh universities brought in €84 million up to February 2012. We need to look at the sector to see how we can provide extra support for the rest of FP7 and for Horizon 2020.

At hynny, daeth prosiectau rhaglen 7 y fframwaith gan brifysgolion Cymru ag $84 miliwn i'n heconomi hyd at Chwefror 2012. Mae angen inni edrych ar y sector i weld sut y gallwn ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer gweddill FP7 a Horizon 2020.

There is no doubt that good progress is being made towards securing a Welsh higher education sector that is financially sustainable, internationally competitive, and responsive to twenty-first century social and economic challenges, while also providing innovation and growth in Wales.

Nid oes amheuaeth nad ydym yn gwneud cynnydd da tuag at sicrhau sector addysg uwch yng Nghymru sy'n ariannol gynaliadwy, yn rhyngwladol gystadleuol, sector sy'n ymateb i heriau cymdeithasol ac economaidd yr unfed ganrif ar hugain ac sydd ar yr un pryd yn arloesi ac yn sicrhau twf yng Nghymru.

**Mohammad Asghar:** It is 15 years since the Labour Prime Minister, newly elected at the time, declared that his Government's priority would be, 'Education, education, education'. Those words ring hollow in Wales today. The fact is that Welsh Labour has presided, in the Minister's own words, over a systematic failure in education in Wales. The facts speak for themselves: the performance of Welsh pupils at GCSE and A-level examinations is worse than that of pupils in England. We are also underperforming when compared with Northern Ireland. The number of pupils in Wales achieving top grades at A-level has declined. Wales's performance in the PISA figures was worse in 2009 than in the previous assessment in 2006, with Wales ranked the lowest of any UK nation and below the Organisation for Economic Co-operation and Development's average for reading, mathematics and science. What a shame.

**Mohammad Asghar:** Mae'n 15 mlynedd ers i'r Prif Weinidog Llafur a oedd newydd ei ethol ar y pryd, ddatgan mai blaenoriaeth ei Lywodraeth fyddai addysg, addysg, addysg. Geiriau gwag yw'r geiriau hynny yng Nghymru heddiw. Y ffaith yw bod Llafur Cymru wedi llywyddu, yng ngeiriau'r Gweinidog ei hun, dros fethiant systematig mewn addysg yng Nghymru. Mae'r ffeithiau'n siarad drostynt eu hunain: mae perfformiad disgyblion Cymru mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch yn waeth na pherfformiad disgyblion yn Lloegr. Rydym hefyd yn tanberfformio o'n cymharu â Gogledd Iwerddon. Mae nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n sicrhau'r graddau uchaf yn Safon Uwch wedi gostwng. Roedd perfformiad Cymru yn ffigurau PISA yn waeth yn 2009 nac yr oeddent yn yr asesiad blaenorol yn 2006, a Chymru oedd yr isaf o blith cenhedloedd y Deyrnas Unedig, yn is na chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar gyfer darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Am gywilydd.

**David Rees** *rose*—

**David Rees** *a gododd*—

**Mohammad Asghar:** In 2009, Cardiff University was ranked 135 globally in the *Times Higher Education* rankings. The latest report does not include a single Welsh higher education institution in the top 200—

**Mohammad Asghar:** Yn 2009, roedd Prifysgol Caerdydd yn rhif 135 drwy'r byd yn nhablau'r *Times Higher Education*. Nid yw'r adroddiad diweddaraf yn cynnwys yr un sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn y 200 uchaf—

**The Presiding Officer:** Order. Will you take an intervention?

**Y Llywydd:** Trefn. A wnewch ganiatáu ymyriad?

**Mohammad Asghar:** No, sorry. A fifth of pupils starting secondary school in Wales are not considered to be functionally literate. The Welsh Government has introduced a new national literacy programme, which will include the introduction of national reading tests. I support that, but the fact is that it is the system itself that is at fault. It is not fit for purpose. Professor David Reynolds, one of the Welsh Government's own advisers, described the Minister's admission of systematic failures as the most damning assessment of an education system that has ever been uttered in the United Kingdom.

**Mohammad Asghar:** Na wnaf, mae'n ddrwg gennyf. Mae un o bob pum disgybl sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd yng Nghymru'n cael ei ystyried yn ffwythiannol anllythrennog. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglen llythrennedd genedlaethol, a fydd yn cynnwys cyflwyno profion darllen cenedlaethol. Rwyf yn cefnogi hynny, ond y ffaith yw mai'r system ei hun sydd ar fai. Nid yw'n addas at y diben. Yn ôl yr Athro David Reynolds, un o gynghorwyr Llywodraeth Cymru ei hun, cyfaddefiad y Gweinidog ynglŷn â'r methiannau systematig oedd yr asesiad mwyaf damniol ar system addysg a lefarwyd erioed yn y Deyrnas Unedig.

One problem is that not enough money spent on education reaches the front line. Too much is spent on administration and office support, which Angela Burns has already mentioned. According to PricewaterhouseCoopers, one of the biggest and a leading accountancy and financial advisory firms in the world, 32% of £4 billion of expenditure is analysed to have been spent on support cost. In 2009-10, £102 million was eaten up by local education authorities in Wales. We need to implement direct funding for schools in Wales. Direct funding would cut away administration and bureaucracy costs and deliver more money to front-line education. It would put headteachers, teachers, governors and parents in charge of school budgets. It would empower schools by putting those who know the school best in charge, freeing them to decide their funding priorities in response to needs.

Un broblem yw nad oes digon o'r arian a werir ar addysg yn cyrraedd y rheng flaen. Gwerir gormod ar weinyddu a chymorth swyddfa. Mae Angela Burns wedi crybwyll hyn eisoes. Yn ôl dadansoddiad PricewaterhouseCoopers, un o'r prif gwmnïau cyfrifyddu a chyngor ariannol yn y byd, ac un o'r mwyaf, gwariwyd 32% o'r £4 biliwn o wariant ar gostau cymorth. Yn 2009-10, llyncwyd £102 miliwn gan awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Mae angen inni ariannu ysgolion yn uniongyrchol yng Nghymru. Byddai ariannu uniongyrchol yn lleihau costau gweinyddu a biwrocratiaeth ac yn sicrhau mwy o arian i addysg y rheng flaen. Byddai'n golygu bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr a rhieni yn gyfrifol am gyllidebau ysgolion. Byddai'n grymuso ysgolion drwy wneud y rheini sy'n adnabod yr ysgol orau'n gyfrifol, gan eu rhyddhau i benderfynu beth yw eu blaenoriaethau ariannu er mwyn ymateb i anghenion.

The Minister for Education and Skills was quoted by the BBC in May 2010 as saying that he wished to ensure that

Dyfynnwyd y Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y BBC ym mis Mai 2010 yn dweud ei fod am sicrhau bod

'more funding reaches the education front line—our schools…and universities'.

mwy o arian yn cyrraedd rheng flaen addysg—ein hysgolion...a'n prifysgolion.

Minister, here is your opportunity to deliver: introduce direct funding to schools. Empower teaching staff, governors and parents. Increase accountability by making yourself, not faceless bureaucrats, responsible for school funding. Set our schools free to drive up the standard of education and attainment

Weinidog, dyma'ch cyfle i wireddu hynny: cyflwynwch ariannu uniongyrchol i ysgolion. Grymuswch staff addysgu, llywodraethwyr a rhieni. Cryfhewch atebolrwydd drwy eich gwneud eich hun, nid biwrocratiaid anhysbys, yn gyfrifol am ariannu ysgolion. Gollyngwch ein hysgolion yn rhydd i godi

and to tackle the inconsistency in teaching standards identified by Estyn. Minister, Labour has run education in Wales from the creation of the National Assembly and it has been run into the ground. You have let the people of Wales down and your record speaks for itself. Urgent action needs to be taken to ensure the best use of resources and reverse the decline in educational achievement in Wales. It is about time you went back to basics. Skills can be taught cheaper than mainstream education. Take action as soon as possible. A full GCSE course takes two years to complete, while a key skills course takes only 10 hours.

safon addysg a chyrhaeddiad a mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn safonau addysgu a welwyd gan Estyn. Weinidog, Llafur sydd wedi bod yn gyfrifol am addysg yng Nghymru ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae wedi'i gyrru ar y creigiau. Rydych wedi gwneud cam â phobl Cymru ac mae'ch hanes yn siarad drosto'i hun. Mae angen camau ar frys i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau posibl gan wrthdroi'r dirywiad mewn cyflawni addysgol yng Nghymru. Mae'n hen bryd ichi fynd yn ôl at yr hanfodion. Mae'n rhatach dysgu sgiliau nag addysg y brif ffrwd. Gwnewch rywbeth cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae angen dwy flynedd i gwblhau cwrs TGAU llawn ond dim ond 10 awr i gwblhau cwrs sgiliau allweddol.

**Keith Davies:** Rwy'n sefyll fan hyn fel un o '*faceless bureaucrats*' y blynyddoedd a fu, ac felly efallai fod gennyf yr hawl i siarad. Mae fy mab yn gwneud ei TGAU eleni, felly cydymdeimlaf â Suzy, sydd yn yr un sefyllfa. Yn dilyn cyfraniad David Rees, waeth imi ddweud y gwnaeth fy mab arall ei lefel A y llynedd, ac ar ôl cael cynnig lle ym Mhrifysgol Manceinion, Coleg Imperial Llundain—sydd yn yr wythfed safle yn y byd—a Phrifysgol Abertawe, penderfynodd fynd i Abertawe. Roedd wedi edrych ar y cwrs ac ar yr ymchwil a wneir yn adran beirianneg Abertawe, a gweld eu bod llawn cystal â chyrsiau a gwaith ymchwil y prifysgolion eraill, os nad gwell. Rhaid inni edrych ar bethau fel ag y maent yn awr.

**Keith Davies:** I stand here before you as one of the 'faceless bureaucrats' of years gone by, so I am perhaps qualified to speak on this. My son is doing his GCSEs this year, so I sympathise with Suzy, who is in the same boat. Following David Rees's contribution, I may as well say that my other son did his A-levels last year, and after being offered a place at the University of Manchester, Imperial College London—which is ranked eighth in the world—and Swansea University, he decided to go to Swansea. He looked into the course and the research at Swansea's engineering department, and felt that they were just as good as, if not better than, the courses and research in the other universities. We must look at the situation as it stands.

Mae naws pwyntiau 2 a 3 y cynnig yn negyddol tu hwnt. Gadewch i ni edrych ar y ffeithiau, ac edrych nid ar yr hyn sydd wedi digwydd, ond ar ar yr hyn a fydd yn digwydd a chynlluniau'r Llywodraeth am y dyfodol. Dyna sy'n bwysig. Yn gyntaf, bydd gweithredoedd y Llywodraeth yn barod yn gwella perfformiad ein disgyblion a'n myfyrwyr yn ein hysgolion a'n colegau. Yn ail, mae cynllun 20 pwynt y Gweinidog yn barod yn symud yn ei flaen yn eithaf cyflym. Yn drydydd, mae'r cyfnod sylfaen yn barod, ynghyd â'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, wedi cynyddu cyllid ysgolion. Yn bedwerydd, bydd y Bil yn gwneud gwahaniaeth mawr i safon cyrhaeddiad ein plant a'n pobl ifanc.

Points 2 and 3 of the motion are extremely negative. Let us look at the facts, and look not at what has happened in the past, but at what will happen in the future, and the Government's plans for the future. That is what is important. First, the actions already taken by the Government will improve the performance of our pupils and our students, in our schools and colleges. Secondly, the Minister's 20-point plan is already progressing quite quickly. Thirdly, the foundation phase has already, together with the school effectiveness framework, increased the funding going to schools. Fourthly, the Bill itself will make a huge difference to our children and young people's standards of attainment.

Nid yw pethau wedi bod yn sefyll yn eu hunfan. Dros y 10 mlynedd diwethaf, ers 1999, mae mwy o blant wedi derbyn graddau A yn eu harholiadau TGAU a lefel A ac mae llai o blant yn gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Things have not been at a standstill. Over the past 10 years, since 1999, more children have been awarded A grades in their GCSE and A-level examinations and fewer children leave school without any qualifications.

**Antoinette Sandbach:** I am very grateful to you for taking an intervention. You have just said that things have not been at a standstill, and, unfortunately, you are right to say that for the most deprived pupils, because the figures have been getting worse and the gap in educational attainment has been widening. It concerned me earlier that the Minister could not identify the factors that were responsible for it. He outlined the strategies, but not the factors.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am ganiatáu imi ymyrryd. Rydych newydd ddweud nad yw pethau wedi sefyll yn eu hunfan, ac, yn anffodus, rydych yn llygad eich lle'n dweud hynny yng nghyswllt y disgyblion mwyaf di-fraint, oherwydd mae'r ffigurau wedi bod yn gwaethygu a'r bwlch o ran cyrhaeddiad addysgol wedi bod yn lledu. Roeddwn yn poeni gynnau na allai'r Gweinidog nodi'r ffactorau a oedd yn gyfrifol am hyn. Cyfeiriodd at y strategaethau ond nid at y ffactorau.

**Keith Davies:** Atebaf wrth fynd ymlaen.

**Keith Davies:** I will respond as I proceed.

Wrth gwrs, rydym oll yn derbyn bod angen gwella. Nid da lle gellir gwell. Soniwyd yn barod ac felly mae pawb yn y Siambr wedi clywed am adroddiad gwych Estyn ar Ysgol Gyfun Treorci yr wythnos hon. Os nad ydych wedi clywed amdano, ewch ar y we a darllenwch ef. Dyma’r unig adroddiad yr wyf wedi ei ddarllen sydd â dim ond un argymhelliad. Rwyf wedi darllen cannoedd o adroddiadau Estyn, ond hwn yw’r cyntaf sydd â dim ond un argymhelliad.

Of course, we all accept that there is a need for improvement. There is always room for improvement. It has already been mentioned and so everyone in the Chamber will have heard about Estyn’s excellent report on Treorchy Comprehensive School this week. If you have not heard about it, get online and read it. It is the only report I have read that makes only one recommendation. I have read hundreds of Estyn reports, but this is the first to make only one recommendation.

Er gwybodaeth, mae 1,580 o blant yn yr ysgol ac mae 24% yn cael prydau bwyd am ddim. Mae’r ysgol wedi gwneud yn eithriadol o dda. Faint ohonoch sydd wedi darllen yr hyn sy’n cael ei argymell ar ddiwedd yr adroddiad? Darllenaf yr argymhelliad i chi. Yr argymhelliad yw y dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Treorci barhau i wella ar y safon ardderchog bresennol o gyrhaeddiad a lles disgyblion. Dyna’r unig argymhelliad. Mae hwnnw’n argymhelliad arbennig o dda, yn enwedig o ystyried y geiriau dirodres sy’n cael eu defnyddio wrth gyfleu’r argymhelliad.

Just so that you know, the school has 1,580 pupils and 24% of them are eligible for free school meals. The school has done exceptionally well. How many of you have read what is recommended at the end of the report? I will read it to you. The recommendation is that the staff and governors of Treorchy Comprehensive School need to continue to improve the current excellence in standards of pupil achievement and wellbeing. That is it. That is an exceptional recommendation, particularly given the straightforward wording used to convey it.

Mae Estyn, yn gyffredinol, yn dweud bod pedair o bob pum ysgol gynradd a dwy o bob tair ysgol uwchradd yn dda. Y gyfrinach yw sut mae rhannu’r arbenigedd sydd ar gael yn barod i godi safonau pob ysgol. Mae’r

Generally, Estyn reports that four of every five primary schools and two of every three secondary schools are good. The secret lies in sharing the existing expertise to raise standards in all schools. The Minister has

Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd panel o arbenigwyr yn cynghori ysgolion ar sut i wella safonau. Credwch hi neu beidio ond ar y panel mae Bethan Guilfoyle, cyn-bennaeth Ysgol Gyfun Treorci, a Rhys Angell Jones, y pennaeth presennol. Dyna enghraifft o sut i rannu arbenigedd.

announced that there will be a panel of experts to advise schools on how to improve standards. Believe it or not, but on that panel are Bethan Guilfoyle, the former head of Treorchy Comprehensive School, and Rhys Angell Jones, the current headteacher. That is an example of how to share expertise.

Mae’r Gweinidog yn bwriadu ailstrwythuro consortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion yn gyffredinol. Bydd hyn yn sicrhau bod arbenigedd ar gael. Fel y mae pawb yn cytuno, mae’r awdurdodau presennol yn rhy fach. Roeddwn yn gweithio pan oedd wyth awdurdod a phan oedd 22, ac felly rwy’n gwybod beth sy’n cynnig y gefnogaeth orau i ysgolion. Dyma’r ffordd ddelfrydol o rannu arbenigedd. Mae esiampl Treorci yn dangos bod safon athrawon yn hollbwysig. Dyna gam tuag at wneud arbenigedd ardderchog yn safon gyffredin.

The Minister intends to reconfigure the regional consortia to support schools more generally. That will ensure that expertise is available. As everyone agrees, the authorities as currently formulated are too small. I have worked in a structure of eight authorities and of 22 authorities, and so I know which can offer the best support to schools. This is the ideal way in which to share expertise. The example of Treorchy demonstrates that the quality of the teachers is vital. That is one step towards making excellence a common standard.

Yn gyntaf, mae cynllun cenedlaethol ar rifedd a llythrennedd gennym. Yn ail, mae cwrs gradd Meistr i athrawon. Yn drydedd, mae gweithio gydag ysgolion i rannu’r arbenigedd sydd ar gael mewn pocedi fel ei fod yn cael ei weithredu yn genedlaethol. Rhaid canolbwyntio ar y mannau sy’n peri pryder o hyd, sef, yn gyntaf, sgiliau darllen ac ysgrifennu plant ac, yn ail, ansawdd y dysgu ac arweinyddiaeth. Dyna bwyslais y Gweinidog.

First, we have a national numeracy and literacy plan. Secondly, there is a Master’s degree course for teachers. Thirdly, there is working with schools to share the expertise that exists in pockets so that it can be rolled out nationally. We must focus on those areas that consistently cause the most concern, namely, first, children’s reading and writing skills, and, secondly, the quality of the teaching and of the leadership. That is the emphasis of the Minister.

**Paul Davies:** I am pleased to be able to take part in this debate this afternoon. I know that Members across the Chamber share concerns about educational performance in recent years. Despite the dedication and professionalism of our teachers, it is extremely disappointing that Wales remains the worst-performing nation in the UK. As the Minister has quite rightly said before, and as has been said here today, the Welsh Government has presided over systemic failure in education. The Minister has also accepted that his department had been one that was

**Paul Davies:** Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl y prynhawn yma. Gwn fod Aelodau ar draws y Siambr fel minnau'n poeni am berfformiad addysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf ymroddiad a phroffesiynoldeb ein hathrawon, mae'n eithriadol o siomedig mai Cymru yw'r genedl sy'n gwneud waethaf yn y Deyrnas Unedig o hyd. Fel y mae'r Gweinidog wedi dweud o'r blaen, ac roedd yn llygad ei le, ac fel y dywedwyd yma heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi llywyddu dros fethiant systemig mewn addysg. Mae'r Gweinidog wedi derbyn hefyd i'w adran fod yn un a oedd

‘culturally and geographically fragmented without a clear focus.’

yn ddiwylliannol ac yn ddaearyddol ddarniog heb ffocws clir.

3.45 p.m.

I am sure that the Minister will agree with me that he must take full responsibility for Welsh educational outcomes, which, unfortunately, include falling further behind England in GCSE and A-level attainment. Of course, we on this side of the Chamber have supported the Welsh Government's drive to eradicate wasteful spending in education through the front-line resources review to shift resources from administrative and support functions to front-line teaching and learning.

Rwyf yn siŵr y gwnaiff y Gweinidog gytuno â mi ei bod yn rhaid iddo ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am ganlyniadau addysg Cymru, sydd, yn anffodus, yn cynnwys llusgo ymhellach ar ôl Lloegr o ran cyrhaeddiad mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch. Wrth gwrs, ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym wedi cefnogi ymgyrch Llywodraeth Cymru i gael gwared ar wariant gwastraffus ar addysg drwy adolygu adnoddau'r rheng flaen a symud adnoddau oddi wrth swyddogaethau gweinyddol a chymorth i'w defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu'r rheng flaen.

The fourth point of our motion this afternoon calls on the Welsh Government to reprioritise education spending effectively in order to best deliver improvements in educational attainment in Wales. As the Minister is aware, I have been saying for some time that the Welsh Government should directly fund schools in Wales to ensure that funding for schools reaches front-line services and that the children of Wales have access to a first-class, viable and structured education system. Figures obtained by us back in 2010 show that 4% of school funding, or £102 million, is eaten up by local education authorities. That is a staggering 38.8% increase on the previous year. These are figures that simply cannot be ignored.

Mae pedwerydd pwynt ein cynnig y prynhawn yma'n galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu gwariant ar addysg yn effeithiol er mwyn sicrhau'r gwelliannau o ran cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn y ffordd orau. Fel y gŵyr y Gweinidog, rwyf wedi bod yn dweud ers tro y dylai Llywodraeth Cymru ariannu ysgolion yn uniongyrchol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod yr arian ar gyfer ysgolion yn cyrraedd gwasanaethau'r rheng flaen a bod plant Cymru yn gallu manteisio ar system addysg o'r radd flaenaf sy'n hyfyw ac yn strwythuredig. Dengys ffigurau a gawsom yn ôl yn 2010 fod 4% o'r arian ar gyfer ysgolion, neu £102 miliwn, yn cael ei lyncu gan awdurdodau addysg lleol. Mae hynny'n gynnydd syfrdanol o 38.8% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhain yn ffigurau nad oes fiw eu hanwybyddu.

As my colleague Mohammad Asghar said, a direct funding policy is a fine example of how waste can be eliminated in public services without impinging on the delivery of front-line services. It would enhance accountability in the Welsh school system, making Ministers ultimately responsible for school funding and empowering school leaders, teachers and governors. Teachers and headteachers who work in schools have an intricate knowledge of their pupils' needs and the needs of the surrounding community. Therefore, it is essential that they have greater autonomy with regard to how their schools are run. Clearly, there is major scope for a shift in resources, as set out in the 2010 PricewaterhouseCoopers review into the cost of administering education. I know that, in the last Assembly, the Minister said that he is

Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, Mohammad Asghar, mae polisi ariannu uniongyrchol yn enghraifft dda o sut y gellir cael gwared ar wastraff mewn gwasanaethau cyhoeddus heb amharu ar ddarparu gwasanaethau'r rheng flaen. Byddai'n cryfhau atebolrwydd yn system ysgolion Cymru gan wneud Gweinidogion yn gyfrifol yn y pen draw am ariannu ysgolion ac am rymuso arweinwyr, athrawon a llywodraethwyr ysgolion. Mae gan yr athrawon a'r penaethiaid sy'n gweithio mewn ysgolion wybodaeth fanwl am anghenion eu disgyblion ac am anghenion y gymuned o'u cwmpas. Felly, mae'n hanfodol iddynt gael rhagor o annibyniaeth o ran sut y rhedir eu hysgolion. Mae'n amlwg bod cryn le i ailgyfeirio adnoddau, fel y dywedodd PricewaterhouseCooper yn 2010 wrth adolygu cost gweinyddu addysg. Gwn, yn y

not opposed to directly funding schools in principle and that direct funding was something that a new Government would consider at length. Given that this Government has been in post for more than 12 months, perhaps the Minister could update us in his response on the work that the Welsh Government has done during the fourth Assembly on its assessment of direct funding.

Cynulliad diwethaf, i'r Gweinidog ddweud nad oes ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor i ariannu ysgolion yn uniongyrchol a bod ariannu uniongyrchol yn rhywbeth y byddai Llywodraeth newydd yn ei ystyried yn fanwl. A chofio bod y Llywodraeth hon wedi bod ar waith ers dros 12 mis, efallai y gallai'r Gweinidog wrth iddo ymateb, ddweud wrthym beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn ystod y pedwerydd Cynulliad i asesu ariannu uniongyrchol.

It is very important that the Welsh Government outlines how education expenditure is monitored to ensure that, wherever possible, resources are focused on activities that deliver services directly to learners. Although the PricewaterhouseCoopers report has highlighted savings, it is crucial that outcomes are actually achieved by effective monitoring procedures. It is imperative that there is a focus on raising literacy and numeracy skills, and educational attainment outcomes should be central in this process. I welcome the fact that the Minister has recently launched the Welsh Government's new national literacy programme, which will include the introduction of national reading tests. I share the Welsh Government's ambitions in this programme and I am pleased that it will be reviewed regularly in order to amend the programme according to the best advice possible.

Mae'n bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn dweud sut y caiff y gwariant ar addysg ei fonitro i sicrhau bod adnoddau, lle bynnag y bo modd, yn cael eu canolbwyntio ar weithgareddau sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol ar gyfer dysgwyr. Er bod adroddiad PricewaterhouseCoopers wedi rhestru arbedion, mae'n hollbwysig bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn gwirionedd drwy weithdrefnau monitro effeithiol. Mae'n hollbwysig canolbwyntio ar wella sgiliau llythrennedd a rhifedd a dylai canlyniadau cyrhaeddiad addysgol fod yn ganolog yn y broses hon. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi lansio rhaglen llythrennedd genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, a fydd yn cynnwys cyflwyno profion darllen cenedlaethol. Rwyf yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yn y rhaglen hon, ac yn falch y caiff ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn newid y rhaglen ar sail y cyngor gorau posibl.

However, there are also issues such as school autonomy and teacher quality as well as leadership and management issues that need to be examined in greater detail. Under the Minister's watch, Wales's performance in A-levels has dipped and fallen behind that of England, and the attainment gap at GCSE level between Wales and England has also increased. Surely this tells us that the Welsh Government must reprioritise to deliver much needed improvements. One way of doing this would be through direct funding. Directly funding schools would give teachers and headteachers greater autonomy. In my opinion, this would automatically drive up standards in our education system. Therefore, I urge Members to support our motion.

Fodd bynnag, mae materion eraill megis annibyniaeth ysgolion ac ansawdd athrawon yn ogystal â materion sy'n ymwneud ag arweiniad a rheolaeth y mae angen eu harchwilio'n fanylach. O dan oruchwyliaeth y Gweinidog, mae perfformiad Cymru mewn Safon Uwch wedi gwaethygu ac yn llusgo ar ôl Lloegr, ac mae'r bwlch cyrhaeddiad ar lefel TGAU rhwng Cymru a Lloegr wedi lledu hefyd. Siawns nad yw hyn yn dweud wrthym ei bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ailflaenoriaethu er mwyn sicrhau gwelliannau mawr eu hangen. Un ffordd o wneud hyn fyddai drwy ariannu uniongyrchol. Byddai ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn rhoi mwy o annibyniaeth i athrawon a phenaethiaid. Yn fy marn i, byddai hyn yn codi safonau ein system addysg yn

awtomatig. Felly, rwyf yn annog Aelodau i gefnogi ein cynnig.

**Mark Isherwood:** I have children who are currently taking GCSEs, AS levels and A-levels. That does not mean that we should not highlight widening gaps in educational outcomes with neighbouring nations and at international level. Our esteemed Minister fails to tell us how he plans to meet the need for increasing pupil and student places in future. The birth rate trend across England and Wales has been upward for over a decade. Fifteen Welsh counties have fertility rates above the England and Wales average, and counties from Anglesey to Wrexham to Newport have birth rates above the England and Wales average.

**Mark Isherwood:** Mae gennyf blant sy'n sefyll TGAU, Safon UG a Safon Uwch ar hyn o bryd. Nid yw hynny'n golygu na ddylem dynnu sylw at y bylchau sy'n lledu rhwng ein canlyniadau addysgol ni a chanlyniadau ein cymdogion ac ar lefel ryngwladol. Nid yw ein Gweinidog o fri wedi dweud wrthym sut mae'n bwriadu diwallu'r angen a fydd am fwy o leoedd i ddisgyblion a myfyrwyr yn y dyfodol. Mae'r gyfradd enedigaethau ar draws Cymru a Lloegr wedi bod yn cynyddu ers dros ddegawd. Mae'r gyfradd ffrwythlondeb ym mhymtheg o siroedd Cymru'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a Lloegr ac mae cyfraddau geni siroedd o Ynys Môn i Wrecsam i Gasnewydd yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

He should also tell us why mergers and bigger institutions will automatically deliver quick savings that could then go to the front line, when research tells us otherwise. The ‘Staying on track: Securing the performance of schools after merger and amalgamation’ report by the Hay Group found that 55% of school mergers achieve lower attainment rates; 50% of primary schools saw a sustained decline in performance, compared with a 68% drop in performance in secondary schools. We heard reference to the new Save the Children report, ‘Communities, Families and Schools Together: A route to reducing the impact of poverty on educational achievement in schools across Wales’. Save the Children says that

Dylai ddweud wrthym hefyd pam y bydd uno â sefydliadau mwy o reidrwydd yn sicrhau arbedion sydyn a allai wedyn fynd i'r rheng flaen, er bod ymchwil yn dweud wrthym yn wahanol. Canfu'r adroddiad gan yr Hay Group, 'Staying on track; Securing the performance of schools after merger and amalgamation' fod cyfraddau cyrhaeddiad 55% o ysgolion sy'n cael eu huno'n is; fod dirywiad parhaus ym mherfformiad 50% o ysgolion cynradd, o'i gymharu â gostyngiad o 68% ym mherfformiad ysgolion uwchradd. Clywsom gyfeiriad at adroddiad newydd Achub y Plant, 'Cymunedau, Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd: Llwybr i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol yn ysgolion Cymru '. Dywed Achub y Plant

‘Every child has the potential to shine—they just need the chance’.

Mae'r potensial gan bob plentyn i ddisgleirio—y cyfan sydd ei angen arnynt yw cyfle.

However, the report concludes that

Serch hynny, casgliad yr adroddiad yw

‘poverty has a significant impact on education and although there are instances which show this is not an inevitable outcome, in general the poverty gap in education is not being narrowed and is a major cause of low performance by the education system in Wales’.

mae tlodi yn cael effaith sylweddol ar addysg ac er bod enghreifftiau sy'n dangos nad yw hyn yn ganlyniad anochel, yn gyffredinol, nid yw'r bwlch tlodi mewn addysg yn culhau ac mae'n un o achosion mwyaf perfformiad gwael gan y system addysg yng Nghymru.

That report was published last week.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw yr wythnos diwethaf.

A study by the Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods suggests that the Welsh baccalaureate qualification may be detrimental to Welsh pupils' performance at university. The research, which was commissioned by Cardiff University, found that

Awgryma astudiaeth gan Sefydliad Ymchwil, Data a Dulliau Cymdeithasol ac Economaidd Cymru, y gall cymhwyster bagloriaeth Cymru fod yn amharu ar berfformiad disgyblion Cymru yn y brifysgol. Comisiynwyd yr ymchwil gan Brifysgol Caerdydd, a chanfu

'if you compare the progression of students through their university career, comparing those students who have the Welsh Bacc with those who don't have the Welsh Bacc, then it's the students who don't have the Welsh Bacc who tend, on average, to perform better'

os cymharwch chi hynt myfyrwyr drwy eu gyrfa yn y brifysgol, gan gymharu'r myfyrwyr hynny sydd wedi gwneud Bagloriaeth Cymru o'u cymharu â'r rheini sydd heb, yna, y myfyrwyr sydd heb wneud y Fagloriaeth, ar gyfartaledd, sy'n tueddu i wneud orau

and it concluded that

a chasglodd

'The results that we have, at a minimum, raise a question mark over how effective the Welsh Bacc core is in preparing students for studies in higher education'.

Mae'r canlyniadau sydd gennym o leiaf, yn codi cwestiwn ynglŷn â pha mor effeithiol yw craidd Bagloriaeth Cymru o ran paratoi myfyrwyr ar gyfer astudiaethau addysg uwch.

This debate, therefore, brings attention to the catalogue of failures that the Welsh Labour Government has been responsible for since devolution in Welsh education and calls on the Welsh Government, quite properly and rightly, to reprioritise education spending effectively in order to best deliver improvements in education attainment in Wales.

Mae'r ddadl hon felly, yn tynnu sylw at y catalog o fethiannau y mae Llafur Cymru wedi bod yn gyfrifol amdano ers datganoli mewn addysg yng Nghymru ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru, a hynny'n gwbl iawn a chywir, i ailflaenoriaethu'r gwariant ar addysg yn effeithiol er mwyn sicrhau'r gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn y ffordd orau.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I find it hard to credit this motion. It is not as though I am not taking determined action on the issues raised. I have set out my ambition to see literacy levels and reading performance improve dramatically. The introduction of national reading tests will give us a robust, precise picture of the nature and scale of the problem and how to address the problem.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Rwyf yn ei chael yn anodd gweld dim i'w ganmol yn y cynnig hwn. Nid yw fel pe na bawn yn cymryd camau penderfynol yng nghyswllt y materion a godwyd. Rwyf wedi egluro fy uchelgais i weld perfformiad o ran lefelau llythrennedd a darllen yn gwella'n ddramatig. Bydd cyflwyno profion darllen cenedlaethol yn rhoi darlun cadarn, manwl inni o natur a maint y broblem a sut mae mynd i'r afael â hi.

I have been more than clear that the 2009 Programme for International Student Assessment results, alongside other evidence, painted a disappointing picture of our performance and progress. I said it was evidence of systemic failure, a complacent system, and that there would be no alibis and no excuses. Action was needed to raise standards and performance in education

Rwyf wedi bod yn fwy na chlir bod canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, ochr yn ochr â thystiolaeth arall, yn paentio darlun siomedig o'n perfformiad a'n cynnydd. Dywedais fod hynny'n dystiolaeth o fethiant systemig, system hunanfodlon, ac na fyddai dim esgusodion na lle i guddio. Roedd angen camau i godi safonau a pherfformiad mewn addysg

across the board for the benefit of our learners. I have taken that action, setting out a 20-point action plan to turn around performance.

drwyddi draw er budd ein dysgwyr. Rwyf wedi cymryd y camau hynny, gan lunio cynllun gweithredu 20 pwynt i sicrhau tro ar fyd o ran perfformiad.

However, what I do not like is hearing people talk down what our education system is actually delivering. The motion says glibly that there has been a decline in the number of pupils in Wales achieving top grades at A-level. In fact, since devolution, more students are achieving A grades in GCSEs and A-levels, and fewer young people are leaving school with no qualifications. A-level pass rates in August 2011 were similar across the UK. There is a small, but admittedly growing, gap between Wales and England when we look at A-level achievement at A* to C, but let us put it in perspective—it is 1.9 percentage points, which is hardly a huge gap.

Serch hynny, yr hyn nad wyf yn hoffi ei glywed yw pobl yn difrïo yr hyn y mae ein system addysg yn ei ddarparu mewn gwirionedd. Mae'r cynnig yn cyfeirio'n slic at y dirywiad yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n sicrhau'r graddau uchaf yn safon Uwch. A dweud y gwir, ers datganoli, mae mwy o fyfyrwyr yn sicrhau graddau A yn eu TGAU ac yn Safon Uwch, ac mae llai o bobl ifanc yn ymadael â'r ysgol heb ddim cymwysterau. Roedd cyfraddau pasio Safon Uwch ym mis Awst 2011 yn debyg drwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Mae bwlch bychan, ond cynyddol, rhaid cyfaddef, rhwng Cymru a Lloegr wrth inni edrych ar gyflawni A* i C yn safon Uwch, ond gadewch inni roi hynny mewn persbectif—1.9 pwynt canran yw'r bwlch, a go brin bod hwnnw'n fwlch anferth.

The disparity between the proportion of A-level entries awarded the top grades of A* and A is slightly bigger, and I am concerned that we have not made progress at these grades and that more needs to be done. I said that in February 2011 and took action. We know that we need to do more to close the gap between us and the other home nations, especially at the higher grades. It is disappointing that there is a growing gap between the proportion of our 15-year-olds who achieve the level 2 threshold, which is equivalent to five good GCSEs, and those who do so including a good pass in English or Welsh and mathematics. This shows that we are right to focus our attention on improving literacy and numeracy.

Mae'r bwlch rhwng cyfran y rhai sy'n sefyll Safon Uwch ac sy'n cael y graddau uchaf un, sef A* ac A fymryn yn fwy, ac rwyf yn poeni nad ydym wedi gwneud cynnydd o ran y graddau hyn ac yn awyddus inni wneud rhagor. Dywedais hynny ym mis Chwefror 2011 a chymerais gamau. Gwyddom fod angen inni wneud rhagor i gau'r bwlch rhyngom a'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran y graddau uwch. Mae'n siomedig bod y bwlch yn lledu rhwng cyfran ein pobl ifanc 15 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2, sy'n cyfateb i bum TGAU da, a'r rheini sy'n gwneud hynny gan gynnwys gradd dda mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Mae hyn yn dangos ein bod yn iawn i ganolbwyntio ein sylw ar wella llythrennedd a rhifedd.

My colleague the Member for Llanelli was quite right to point out that where schools achieve well—and he took the example of Treorchy in my constituency—we have evidence of some of the most outstanding practice not just in the UK, but globally. That is why I brought together 15 leading headteachers across Wales to meet through the practitioners’ panel to discuss how we spread the best practice that exists in Wales and ensure that it is implemented across the piece.

Roedd fy nghyd-Aelod dros Lanelli yn llygad ei le'n dweud, lle bydd ysgolion yn gwneud yn dda—a soniodd am enghraifft Treorci yn fy etholaeth i—fod gennym dystiolaeth o rywfaint o'r arferion mwyaf eithriadol nid dim ond yn y Deyrnas Unedig ond yn y byd. Dyna pam y deuthum â 15 o'r penaethiaid gorau drwy Gymru at ei gilydd i gyfarfod drwy'r panel ymarferwyr i drafod sut mae lledaenu'r arferion gorau yng Nghymru a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith drwyddi draw.

When it comes to higher education, of course, we are disappointed that no Welsh universities have made the list of the top 200. Global rankings can be a useful means of gauging the relative performance of countries or individual higher education institutions, but they should not be viewed in isolation or used as the basis for drawing correlations between cause and effect. Drawing conclusions about economic performance based on research assessment, for example, can lead to ân overconcentration on research to the detriment of teaching or to favouring particular disciplines, especially the sciences. My colleague the Member for Aberavon was absolutely right to point out how disappointing it is that the Conservatives continue to talk down our higher education institutions and do not recognise any of the excellence that goes on in those higher education institutions. I commend him on an excellent speech.

O ran addysg uwch, wrth gwrs, rydym yn siomedig nad oes yr un o brifysgolion Cymru wedi cyrraedd rhestr y 200 uchaf. Gall tablau rhyngwladol fod yn ffordd ddefnyddiol o fesur perfformiad cymharol gwledydd neu sefydliadau addysg uwch unigol ond ni ddylid edrych arnynt ar eu pen eu hunain na'u defnyddio'n sail ar gyfer gweld y berthynas rhwng achos ac effaith. Gall casgliadau ynglŷn â pherfformiad economaidd ar sail asesu ymchwil, er enghraifft, arwain at organolbwyntio ar ymchwil ar draul addysgu neu at ffafrio disgyblaethau penodol, yn enwedig y gwyddorau. Roedd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, yn llygad ei le'n dweud pa mor siomedig yw hi bod y Ceidwadwyr yn difrïo ein sefydliadau addysg uwch o hyd heb gydnabod dim o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd yn y sefydliadau addysg uwch hynny. Rwy'n ei gymeradwyo am araith ragorol.

I notice that the Conservative motion is absolutely silent on one of its policies, which would be to make all Welsh students pay higher fees wherever they studied. That is not our policy. We will support our universities and our students. Our fees policy will mean that all HEIs in Wales will see increasing income.

Sylwaf fod cynnig y Ceidwadwyr yn gwbl dawel ynglŷn ag un o'u polisïau, sef gwneud i bob myfyriwr yng Nghymru dalu ffioedd uwch ym mha le bynnag y byddent yn astudio. Nid dyna'n polisi ni. Byddwn yn cefnogi ein prifysgolion a'n myfyrwyr. Bydd ein polisi ffioedd yn golygu y bydd incwm pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn cynyddu.

It is when the motion turns to funding that I think that the Conservative spokesperson wins this month’s brass neck award. Under their budget proposals, health would be ring-fenced, but education would not. That means cuts in budgets, cuts in the numbers of teachers, cuts in the numbers of schools and no more free school breakfast programmes.

Credaf mai wrth droi at ariannu yn y cynnig y mae llefarydd y Ceidwadwyr yn ennill gwobr haerllugrwydd y mis. O dan gynigion eu cyllideb hwy, byddai iechyd yn cael ei neilltuo ond ni fyddai addysg. Mae hynny'n golygu torri'r cyllidebau, torri nifer yr athrawon, torri nifer yr ysgolion a dim rhagor o raglenni brecwast am ddim yn yr ysgol.

**Darren Millar:** I am grateful to the Minister for taking an intervention. I am delighted that he is reminding everyone in the Chamber and the Welsh public about our commitment to the NHS, because it is the pillar upon which we rested our manifesto. However, may I make the point to him that Paul Davies rightly pointed out our policy of reducing bureaucracy in the education system in Wales and that, by funding schools directly, those efficiencies would deliver more to schools on the front line, not less, even though we would

**Darren Millar:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ganiatáu imi ymyrryd. Rwyf wrth fy modd ei fod yn atgoffa pawb yn y Siambr a'r cyhoedd yng Nghymru am ein hymrwymiad i'r GIG oherwydd ar y golofn hon y seiliwyd ein maniffesto. Serch hynny, a gaf dynnu ei sylw at y ffaith fod Paul Davies wedi cyfeirio at ein polisi i leihau biwrocratiaeth yn y system addysg yng Nghymru ac y byddai'r arbedion effeithlonrwydd hynny, drwy ariannu ysgolion yn uniongyrchol, yn sicrhau mwy o

cut the education budget—we are happy to acknowledge that—by 12%? Therefore—

arian i ysgolion ar y rheng flaen, nid llai, er inni dorri'r gyllideb addysg 12%—rydym yn fodlon cydnabod hynny. Felly—

**The Presiding Officer:** Order. This is an intervention, not a speech.

**Llywydd:** Trefn. Ymyriad nid araith yw hwn.

**Leighton Andrews:** I am delighted that the Member has confirmed that they would cut the education budget. I understand that there is an agricultural method widely used in some countries called slash and burn. When it comes to education, the Conservatives offer us slash and Burns. She would slash education budgets, slash support for students and slash the number of teachers and the number of schools. Do you remember the slogan from the 1970s: Margaret Thatcher, milk snatcher? I give you the modern equivalent: cut-price Thatcher, budget slasher; slasher Burns. Under her, education in Wales would be on life support. We would have to call it the Burns unit.

**Leighton Andrews:** Rwyf wrth fy modd bod yr Aelod wedi cadarnhau y byddent yn torri'r gyllideb addysg. Caf ar ddeall fod dull amaethyddol sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn ambell wlad a elwir yn Saesneg yn 'slash and burn'. O ran addysg, mae'r Ceidwadwyr yn cynnig 'slash a Burns' inni. Byddai hi'n torri cyllidebau addysg, yn torri cymorth i fyfyrwyr ac yn torri nifer yr athrawon a nifer yr ysgolion. A ydych chi'n cofio'r slogan o'r 1970au: Margaret thatcher, milk snatcher? Dyma'r gyfatebiaeth gyfoes ichi: 'cut-price thatcher, budget slasher, slasher Burns.' O dani hi, byddai addysg yng Nghymru ar beiriant cynnal bywyd. Byddai'n rhaid inni ei galw'n 'Burns unit'.

Unlike them, this Welsh Government made a manifesto commitment to provide more funding for our schools as one of the five pledges for a fairer future. We have honoured our commitment to local government by protecting funding for education in the budget to increase spend on front-line education services by 1% in comparison with the amount received in the Welsh block grant. That reflects our commitment to protect education in order to ensure the delivery of the best outcome. There has been continued significant investment into education across Wales. For example, we have given additional support to the regional consortia: we have given them help to streamline the school improvement services from 22 to four in order to help them support their lower performing schools, both last year and next year. I am delighted to have a pledge from local authorities to increase levels of delegation to schools to 80% by September 2012 and to 85% by 2014, moving funding directly to schools from behind the scenes.

Yn wahanol iddynt hwy, gwnaeth y Llywodraeth hon yng Nghymru ymrwymiad yn ei maniffesto i ddarparu rhagor o arian i'n hysgolion a hynny'n un o'i phum addewid ar gyfer dyfodol tecach. Rydym wedi cadw at ein hymrwymiad i lywodraeth leol drwy warchod ariannu ar gyfer addysg yn y gyllideb er mwyn cynyddu'r gwariant ar wasanaethau addysg y rheng flaen 1% o'i gymharu â'r swm a gafwyd yng ngrant bloc Cymru. Mae hynny'n adlewyrchu ein hymrwymiad i warchod addysg er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau. Gwelwyd buddsoddi sylweddol parhaus yn addysg ledled Cymru. Er enghraifft, rydym wedi rhoi cymorth ychwanegol i'r consortia rhanbarthol: rydym wedi'u helpu i fireinio'r gwasanaethau gwella ysgolion o 22 i bedwar er mwyn eu helpu i gefnogi'r ysgolion sy'n perfformio waethaf ganddynt, a hynny y llynedd a'r flwyddyn nesaf. Rwyf wrth fy modd o gael addewid gan awdurdodau lleol y byddant yn cynyddu lefelau dirprwyo i ysgolion i 80% erbyn mis Medi 2012 ac i 85% erbyn 2014, gan symud yr ariannu'n uniongyrchol i'r ysgolion o'r tu ôl i'r llenni.

They have talked about the PricewaterhouseCoopers report. Who commissioned it? I did, because I wanted to drive more money to the front line, and then I

Maent wedi sôn am adroddiad PricewaterhouseCoopers. Pwy a'i comisiynodd? Fi, oherwydd roeddwn am gyfeirio rhagor o arian i'r rheng flaen ac

implemented the front-line resources review. What pushed up the costs of education in Wales? What increased the bureaucracy in education in Wales? It was the move from eight local education authorities to 22. Forgive me, but which party made the move from eight local education authorities to 22? It was the Conservatives. They did that. They increased the bureaucracy and caused the fragmentation of the education system in Wales.

wedyn rhoddais adolygiad o adnoddau'r rheng flaen ar waith. Beth a gynyddodd gostau addysg yng Nghymru? Beth a gynyddodd y fiwrocratiaeth mewn addysg yng Nghymru? Symud oddi wrth wyth o awdurdodau addysg lleol i 22. Maddeuwch imi, ond pa blaid a drefnodd y newid hwnnw o wyth awdurdod addysg lleol i 22? Y Ceidwadwyr. Hwy a wnaeth hynny. Hwy a fu’n gyfrifol am gynyddu’r fiwrocratiaeth a darnio'r system addysg yng Nghymru

4.00 p.m.

Let us not forget either the additional money that we have put into the school effectiveness grant, which focuses on improving literacy and numeracy among our young people. The budget for 2012-13 is £24 million. There will be additional match funding from local authorities, bringing it to over £32 million. On top of that, we have the pupil deprivation grant, which will go in its entirety to schools to support the priority of narrowing the gap. Confirmed funding for 2012-13 is £32 million—£20 million of which is new money—in support of our national priorities for schools.

Gadewch inni beidio ag anghofio ychwaith yr arian ychwanegol yr ydym wedi'i fwydo i'r grant effeithiolrwydd ysgolion, sy'n canolbwyntio ar wella llythrennedd a rhifedd ymhlith ein pobl ifanc. Y gyllideb ar gyfer 2012-13 yw £24 miliwn. Bydd awdurdodau lleol yn darparu arian cyfatebol ychwanegol, sy'n golygu y bydd dros £32 miliwn ar gael. Ar ben hynny, mae gennym y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn mynd yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion, yn gefn i’r flaenoriaeth, sef cau’r bwlch. Cadarnhawyd y bydd £32 miliwn ar gael yn 2012-13—£20 miliwn o hynny'n arian newydd—i gefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer ysgolion.

We will support the Liberal Democrat amendments 2 and 3, but we will not support amendment 4, as it prejudges the budget negotiations that we should be having. Overall, however, we ask the Chamber to reject the motion. We are investing in schools, and we are investing in teachers and pupils. The opposition would cut education spending, as has been confirmed today.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 2 a 3 y Democratiaid Rhyddfrydol, ond ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 4, gan ei fod yn rhagfarnu’r trafodaethau y dylem fod yn eu cynnal am y gyllideb. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gofynnwn i'r Siambr wrthod y cynnig. Rydym yn buddsoddi mewn ysgolion, ac rydym yn buddsoddi mewn athrawon a disgyblion. Byddai'r wrthblaid yn torri'r gwariant ar addysg, fel y cadarnhawyd heddiw.

**William Graham:** We have heard this afternoon the usual robust defence of his policies from the Minister, as we have come to expect. This does not disguise the fact that he came under fierce criticism from the nation’s biggest unions for his key education policies, suggesting that he has lost the confidence of key stakeholders in the field of education. NUT Cymru claims that school banding is stigmatising schools, while the NASUWT has claimed that plans for school improvements were in crisis. The Minister

**William Graham:** Clywsom y Gweinidog y prynhawn yma'n amddiffyn ei bolisïau’n gadarn yn ôl ei arfer ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ddisgwyl erbyn hyn. Nid yw hyn yn cuddio'r ffaith i undebau mwyaf y wlad ei feirniadu'n hallt am ei brif bolisïau addysg, gan awgrymu ei fod wedi colli ymddiriedaeth y prif randdeiliaid ym maes addysg. Mae NUT Cymru yn honni bod bandio ysgolion yn eu stigmateiddio, ac mae'r NASUWT wedi honni ei bod yn argyfwng ar y cynlluniau ar gyfer gwelliannau i ysgolion.

fails to answer those questions, but he is very keen on other people's admissions.

Nid yw'r Gweinidog wedi ateb y cwestiynau hynny, ond mae'n hoff iawn o sôn am gyfaddefiadau pobl eraill.

He also fails to answer the point that historic expenditure on free school meals to the end of 2011 was £50 million. That would give a figure for the expenditure of each primary school of £7,200. If he is genuinely of the belief that he should drive up standards, just think how that extra money in every one of those primary schools would carry out his real intentions.

Nid yw wedi ateb y pwynt ychwaith fod y gwariant hanesyddol ar brydau am ddim mewn ysgolion hyd at ddiwedd 2011 yn £50 miliwn. Byddai hynny'n golygu gwariant o £7,200 ar bob ysgol gynradd. Os yw o ddifrif yn credu y dylai godi safonau, meddyliwch sut y gallai'r arian ychwanegol hwnnw ym mhob un o'r ysgolion cynradd hynn gyflawni ei wir fwriadau.

We all know that one of the few things that can unite this Chamber is education. Sadly, the Minister's application of his policies has failed in that endeavour. The acid test for one aspect of education is where and when people get a job. Sadly, not only is Wales towards the bottom of that list, we are among the very bottom five, with 80% of graduates of the University of Wales, Lampeter failing to get employment, compared with the University of Surrey, 96% of whose graduates receive employment. This is not a good news story for Welsh universities.

Rydym i gyd yn gwybod mai un o'r ychydig bethau a all uno'r Siambr hon yw addysg. Yn anffodus, mae'r Gweinidog wedi methu yn yr ymdrech honno wrth roi ei bolisïau ar waith. Y prawf asid ar gyfer un agwedd ar addysg yw ymhle a pha bryd y caiff pobl swydd. Yn anffodus, mae Cymru nid yn unig tua gwaelod y rhestr honno, rydym ymhlith y pump isaf un, gydag 80% o raddedigion Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn methu cael swydd, o'u cymharu â Phrifysgol Surrey, lle bydd 96% o'i graddedigion hithau'n yn cael swydd. Nid yw hon yn stori newyddion da i brifysgolion Cymru.

Everybody acknowledges that you only get one chance in the education system. Speakers today have dwelt on what is perhaps the most serious matter affecting Wales generally: deprivation, particularly where it concerns children. It makes one consider why the policy for computers, which cost an enormous amount of money—twice what one would expect to pay for something of the same standard—has been abandoned. There was no answer on that.

Mae pawb yn cydnabod mai un cyfle yn unig a gewch chi yn y system addysg. Mae siaradwyr heddiw wedi canolbwyntio ar y mater mwyaf difrifol o bosibl sy'n effeithio ar Gymru yn gyffredinol: amddifadedd, yn enwedig lle bydd plant o dan sylw. Mae'n gwneud i rywun feddwl pam mae'r polisi cyfrifiaduron, a gostiodd swm enfawr—ddwywaith gymaint ag y byddai rhywun yn disgwyl ei dalu am rywbeth o'r un safon—wedi'i daflu o'r neilltu. Ni chafwyd ateb am hynny.

Tell us, Minister—when you get the chance—why, on Wales's 22 local authorities, during the 13 years for which you have been in Government, you have not undone what you perceive to be misdirection by my party in the organisation of local government. Again, there is no answer.

Dywedwch wrthym, Weinidog—pan gewch gyfle—pam, gyda golwg ar 22 awdurdod lleol Cymru, yn ystod y 13 blynedd yr ydych wedi bod yn Llywodraethu, nad ydych wedi dad-wneud yr hyn a oedd yn eich barn chi'n gam gwag gan fy mhlaid i wrth drefnu llywodraeth leol. Unwaith eto, nid oes ateb.

Aled Roberts reminded us of the responsibilities that we have and the detailed action plans, asking in particular whether they had been submitted yet for bands 4 and 5. He reminded us that the pupil premium has

Cawsom ein hatgoffa gan Aled Roberts am y cyfrifoldebau sydd gennym a'r cynlluniau gweithredu manwl, gan ofyn yn benodol a oeddent wedi'u cyflwyno eto ar gyfer bandiau 4 a 5. Fe'n hatgoffodd fod y premiwm

been increased in England.

disgyblion wedi'i gynyddu yn Lloegr.

Suzy Davies gave us an account of quite a moving personal experience—many of us who had children in school at that time will remember those trying times. We can only hope for better, because the Minister fails to deliver a real increase in true achievement for all pupils.

Cawsom hanes profiad personol eithaf teimladwy gan Suzy Davies—bydd llawer ohonom sydd wedi bod â phlant yn yr ysgol yn cofio'r cyfnodau anodd hynny Ni allwn ond gobeithio am well, oherwydd mae'r Gweinidog yn methu sicrhau cynnydd gwirioneddol o ran cyflawniad go iawn i bob disgybl.

We have had some significant contributions today of one kind and another. I rather regret David Rees's lack of aspiration for Welsh universities. We feel that there should be at least one Welsh university among the top 200.

Rydym wedi cael nifer o gyfraniadau sylweddol heddiw o wahanol fathau. Rwyf yn gresynu braidd at ddiffyg dyhead David Rees ar gyfer prifysgolion Cymru. Teimlwn y dylai fod o leiaf un brifysgol o Gymru ymhlith y 200 uchaf.

**David Rees:** I do not think that I lack aspiration for our universities. I was trying to point out that the research aspect of universities is not recognised by the party opposite and that, in fact, we should be praising the work that is being done and looking forward to it. However, you have to look at the criteria being used for allocating universities a place in the top 200. Once you start looking at that in a bit more detail, you will see exactly what is going on.

**David Rees:** Ni chredaf nad oes gennyf ddyhead ar gyfer ein prifysgolion. Roeddwn yn ceisio dangos nad yw'r blaid gyferbyn yn cydnabod agwedd ymchwil prifysgolion ac y dylem, mewn gwirionedd, fod yn canmol y gwaith sy'n cael ei wneud ac yn edrych ymlaen ato. Serch hynny, rhaid ichi edrych ar y meini prawf sy'n cael eu defnyddio i ddyrannu lle yn y 200 uchaf i brifysgolion. Wrth ichi ddechrau edrych ychydig yn fanylach ar hynny, mi welwch beth yn union sy'n digwydd.

**William Graham:** We prefer to be measured against the best in the world, and not the worst.

**William Graham:** Mae'n well gennym gael ein mesur drwy ein cymharu â'r gorau yn y byd, ac nid â'r gwaethaf.

My colleague Oscar reminded us of Tony Blair's empty promises. Keith Davies gave us some of his experience, which was no doubt valuable, but Paul Davies reminded us, importantly, that we are the worst-performing nation in education in the United Kingdom. This cannot continue. We will continue to monitor and scrutinise the Minister's every effort to improve education in Wales.

Atgoffodd fy nghyd-Aelod Oscar ni am addewidion gwag Tony Blair. Clywsom am rywfaint o'i brofiad gan Keith Davies, a oedd, mae'n siŵr yn werthfawr, ond fe'n hatgoffwyd gan Paul Davies, ac roedd hynny'n bwysig, mai ni yw'r wlad sy'n gwneud waethaf o ran addysg yn y Deyrnas Unedig. Ni all hyn barhau. Byddwn yn dal i fonitro pob ymdrech gan y Gweinidog i wella addysg yng Nghymru ac yn craffu arno.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer all voting under this item until voting time.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig heb welliant. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.05 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.05 p.m.*

## Dadl Plaid Cymru
## Plaid Cymru Debate

### Enwau Parth Lefel Uchaf
### Top-level Domain Names

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts a gwelliant 3 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts and amendment 3 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5000 Jocelyn Davies*

*Motion NDM5000 Jocelyn Davies*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn cefnogi'r cais gan Nominet i Gorfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir (ICANN) am ddau Barth Lefel Uchaf i Gymru, sef .cymru a .wales*

*1. Supports the application by Nominet to the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers (ICANN), for two Top Level Domains, .cymru and .wales for our nation;*

*2. Yn credu y bydd presenoldeb o'r fath ar y rhyngrwyd yn helpu i hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ac mewn twf e-fasnach; a*

*2. Believes that such an internet presence will assist in the promotion of Wales internationally and in the growth of e-commerce; and*

*3. Yn galw ar Gomisiwn y Cynulliad i fabwysiadu'r ddau Barth Lefel Uchaf hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.*

*3. Calls on the Assembly Commission to adopt these two Top Level Domain names as soon as practicable.*

**Simon Thomas:** Cynigiaf y cynnig.

**Simon Thomas:** I move the motion.

Mae'n dda gennyf gyflwyno'r cynnig heddiw, sy'n ymwneud â'r ymgyrch i sicrhau parth lefel uchaf ar y rhyngrwyd i Gymru. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn, ar ddiwedd y ddadl heddiw, yn gallu cytuno fel Cynulliad cyfan i gefnogi'r ymgyrch hon. Rwy'n gwybod bod gan y Llywodraeth ddiddordeb ond, fel Cynulliad, gobeithiaf y gallwn gefnogi'r ymgyrch hon a dangos yn glir y byddwn yn arddel .wales a .cymru pan ddaw hynny, gobeithio, i Gymru. Rwy'n meddwl bod hynny'n arwydd o ffydd ym mhresenoldeb Cymru ar y rhyngrwyd, ac yn arwydd o ffydd yn yr ymgyrch i sicrhau hynny.

I am pleased to move the motion today, which deals with the campaign to secure a top-level domain name for Wales on the internet. I hope that, at the end of today's debate, we will be able to agree unanimously as an Assembly to support this campaign. I know that the Government is interested in this but, as an Assembly, I hope that we can support this campaign and show clearly that we will adopt .wales and .cymru when they hopefully become available to us. That would be a sign of confidence in Wales's presence on the internet and confidence in the campaign to secure that presence.

Efallai y byddai'n werthfawr imi roi ychydig o gefndir i'r ddadl, dweud pam yr ydym wedi dod â'r ddadl hon heddiw yn arbennig, a rhoi

Perhaps it would be helpful if I gave some background to the debate, say why we have tabled this today in particular, and give some

ychydig o gefndir i'r effaith a gaiff sicrhau enw parth lefel uchaf ar Gymru fel cenedl, yn economaidd ac yn ddiwylliannol ac o ran twristiaeth. Yn gyntaf, mae angen atgoffa'r Cynulliad bod sawl dull gwahanol o ddisgrifio lleoedd ar y we—mae sawl parth gwahanol. Heb fod yn rhy *geeky*, mae .com—bydd pobl yn gyfarwydd â hwnnw—a .org, .net ac ati wedi bodoli i bob pwrpas ers dechrau'r rhyngrwyd; dyna'r rhai hanesyddol, eang sydd wedi bodoli ers rhai blynddoedd. Yna mae enghreifftiau mwy arbenigol—fel .biz, .info neu rai gydag enw rhywun os ydynt wedi'u creu yn benodol ar gyfer cwmni. Mae'r rhain yn cael eu rheoli gan yr Internet Corporation for Assigned Names and Numbers, sef y corff rhyngwladol sy'n rheoli enwau parthau.

background to the impact that a top-level domain name would have for Wales as a nation, economically and culturally and in terms of tourism. First, we need to remind the Assembly that there are a number of different ways of describing places online—there are many different domains. Without being too geeky, there is .com—people will be familiar with that—and .org, .net and so on, which have existed since the establishment of the internet, to all intents and purposes; those are the very broad categories that have existed for some years. Then there are more niche examples, such as .biz and .info, or some with people's names if created specifically for a company. These are managed by the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers, which is the international body for domain names.

Ond dyma, am y tro cyntaf, gyfle i gyflwyno enwau ar gyfer y rhyngrwyd sy'n cydnabod cymuned neu ardal. Mae nifer o ddinasoedd mwyaf Ewrop, fel Paris, Berlin, Rhufain a Madrid, wedi mynegi diddordeb i gael presenoldeb ar y rhyngrwyd. Yn yr un ffordd, gwelwyd cyfle i greu lle i Gymru ar y rhyngrwyd wrth i ICANN agor y broses o wneud cais am enwau newydd. Dyna sut y dechreuodd ymgyrch .cym yn y lle cyntaf. Ymgyrch wirfoddol yw hon, a thalaf deyrnged i'r bobl a feddyliodd gyntaf, fwy na phum mlynedd yn ôl, y byddai'n beth braf bod Cymru yn gweld ei hun yn rhyngwladol yn y ffordd hon. Bryd hynny, teimlwyd bod .cym yn crisialu Cymreictod a'r iaith Gymraeg ar y rhyngrwyd. Mabwysiadwyd y polisi gan Blaid Cymru yn 2007, yn ein maniffesto ar gyfer etholiad y Cynulliad, a daeth yn ymrwymiad i Lywodraeth Cymru'n Un. Fy nghyfaill Ieuan Wyn Jones oedd y Gweinidog a ariannodd yr ymgyrch i wneud y gwaith paratoi. Ar y pryd, roeddem yn disgwyl y byddai ICANN yn datgan yn fuan bod y system wneud cais ar agor.

However, for the first time, this was an opportunity to introduce names that recognised a community or a geographic area. A number of Europe's largest cities, such as Paris, Berlin, Rome and Madrid, have expressed an interest in having their own domain names. Likewise, there was an opportunity to create a presence for Wales as ICANN opened the bidding process for these top-level domains. That is how the campaign started in the first place. The .cym campaign is voluntary, and I pay tribute to the people who first decided, over five years ago, that it would be a good thing for Wales to see itself on the international stage in this way. At that time, it was thought that .cym would encapsulate Welsh identity and the Welsh language on the internet. The policy was adopted by Plaid Cymru back in 2007 in our manifesto for the Assembly elections, and then became a commitment for the One Wales Government. My colleague Ieuan Wyn Jones was the Minister who funded the campaign to do the preparatory work. At that time, we had expected that ICANN would make an early announcement that the bidding process was open.

Ond yn anffodus, ni ddaeth hynny yn ystod cyfnod Llywodraeth Cymru'n Un, felly nid oedd .cym yn gallu gwireddu'r freuddwyd. Hefyd yn ystod y cyfnod hwnnw daeth yn glir nad oedd .cym ar gael fel enw ar gyfer Cymru, a hynny, yn syml iawn, oherwydd ei fod yn fwy priodol i Ynysoedd Cayman.

Unfortunately, that confirmation did not come during the period of the One Wales Government, so .cym could not achieve its dreams. It also became clear that .cym was not really available as a domain name for Wales, for the simple reason that it was more appropriate for the Cayman Islands. There

Roedd problemau diplomyddol o'r herwydd, felly roedd rhaid ysgrifennu at Lywodraeth San Steffan ynglŷn â hynny. Ond daeth yn glir hefyd nad oedd hyn yn rhwystr yn y pen draw oherwydd bod drws arall yn agor. Os nad oedd modd cael .cym i gynrychioli diddordeb Cymreig ar y we, beth am .cymru a .wales, a fyddai'n adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru? Yn y cyd-destun hwnnw, wrth i'r broses fynd yn ei blaen, daeth Nominet, y corff sy'n rheoli .co.uk, er enghraifft, i ddangos mwy o ddiddordeb yn yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Bellach, mae Nominet, gan ddefnyddio'i arian ei hun, ond gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, yn gwneud cais drwy broses ICANN i sefydlu .cymru a .wales fel enwau parth lefel uchaf y gall cwmnïau, unigolion a chyrff cyhoeddus, megis y Cynulliad, eu defnyddio ar y we. Byddai hynny'n rhoi presenoldeb rhyngwladol i'r iaith Gymraeg ac i Gymru ar y we, a hefyd yn adlewyrchu'r defnydd o'r Saesneg yng Nghymru o dan .wales. Rwyf i a Phlaid Cymru yn croesawu hynny'n fawr iawn. Os ydym yn llwyddiannus—a gobeithio y byddwn yn llwyddo—gallai hynny ddod â nifer o ganlyniadau cadarnhaol i Gymru. Gallwn ddefnyddio'r awr nesaf i amlinellu rhai o'r canlyniadau hynny, ond hoffwn sôn yn fras iawn am y prif rai.

were diplomatic problems as a result, and we had to write to the Westminster Government to deal with some of them. However, it became clear that this was not ultimately a barrier, because another door opened. If it was not possible to get .cym to represent Welsh interests on the internet, what about .cymru and .wales, which would reflect the bilingual nature of Wales? In this context, as the process proceeded, Nominet—the body that manages .co.uk, for example—showed more interest in what was happening in Wales. Nominet is now, using its own money but with the support of the Welsh Government, making a bid through the ICANN process to establish .cymru and .wales as top level domain names that companies, individuals and public bodies, such as the Assembly, can use on the internet. That would give the Welsh language and Wales an international presence on the internet, and would also reflect the use of the English language in Wales under .wales. That is something that I and Plaid Cymru very much welcome. If we achieve that—and I hope that we do achieve it—it could have a number of positive consequences for Wales. We can spend the next hour outlining some of those aspects, but I would like to speak briefly about the main ones.

Yn gyntaf, gallem frandio Cymru yn ehangach. Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi cydnabod bod angen brandio Cymru yn well, a dyma un o'r cyfleoedd i wneud hynny. Mae'n wir bod cefnogaeth eang ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i hyn. Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid Cymru yn ffafrio .cymru—os ydynt yn siarad Cymraeg neu beidio. Maent yn hoffi'r syniad o gael .cymru yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol. Mae bron i 60% ohonynt yn cefnogi .cymru, tra bod busnesau yn tueddu i ffafrio .wales, oherwydd eu bod efallai'n teimlo y gallai fod yn well o ran marchnata drwy gyfrwng y Saesneg. Eto i gyd, mae busnesau yn gryf o blaid defnyddio .wales a .cymru ar y rhyngrwyd, a chofiaf i'r CBI fod yn gefnogol iawn i ymdrechion Ieuan Wyn Jones i wneud hyn hefyd.

First, we could brand Wales more widely. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science has acknowledged that we need to brand Wales more effectively, and this is an opportunity to do so. It is true that there is broad support among the Welsh public for this. Most customers in Wales favour .cymru—be they Welsh speakers or not. They like the idea of .cymru representing Wales internationally. Almost 60% of them support .cymru, while businesses tend to favour .wales, because they feel perhaps that that would be better in terms of marketing in English. However, even businesses are strongly in favour of using .wales and .cymru on the internet, and I recall that the CBI was very supportive of Ieuan Wyn Jones's efforts in this regard.

Mae gwerth sylweddol i'r rhyngrwyd bellach, a chaiff llawer o farchnata ei wneud arni. Mae pob un ohonom yn gyfarwydd ag

There is a significant value to the internet now, and a great deal of marketing is done online. We are all familiar with booking

archebu gwyliau, bwyd, cerddoriaeth, llyfrau ac yn y blaen ar y we. Amcangyfrifir bod cwsmeriaid yng Nghymru yn gwario bron i £2 biliwn y flwyddyn ar y rhyngrwyd. Crynhoi peth o'r arian hwnnw ar gyfer cwmnïau Cymru fydd un o dasgau parthau .cymru a .wales, os cânt eu sefydlu. Mae digon o dystiolaeth i ddangos bod defnyddwyr yn hoffi prynu pethau'n lleol, felly mae defnyddwyr yn dueddol o ddewis enwau parthau y credant sy'n lleol iddynt. Hynny yw, rydych yn fwy tebygol, os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, i ddefnyddio .co.uk na .com i archebu nwyddau—rydych chwe gwaith yn fwy tebygol, yn ôl yr ymchwil, i wneud hynny. Gan eich bod yn credu bod y cwmnïau'n fwy lleol, rydych yn ymddiried ynddynt yn fwy, gan eu bod yn ymddangos fel pe baent yn ymwneud â'ch cymuned chi.

holidays, buying food, music, books and so on on the internet. It is estimated that customers in Wales spend nearly £2 billion per annum online. Consolidating some of that money for Welsh companies will be one of the tasks for the .cymru and .wales domains, if they are established. There is plenty of evidence that consumers like to buy things locally, so consumers tend to choose domain names that they believe are local to them. That is, if you live in England or Wales, you are more likely to use .co.uk than .com to order goods—you are six times more likely to do so, according to research. If you believe that the companies are more local, you have greater trust in them, because they seem to belong to the same community as you.

Pe bai cwmnïau twristiaeth yn arddel .wales a .cymru, byddai hynny'n marchnata Cymru yn llawer mwy effeithiol. Byddai pobl wedyn yn gallu gweld lleoliad y busnesau twristiaeth hynny'n glir, ac yn gweld y gallent fynd i Lundain yn gyntaf cyn teithio i Gymru am gyfnod o'u gwyliau.

If tourism businesses adopted .wales and .cymru, that would market Wales much more effectively. People would then be able to see clearly where those businesses were located, and see that they could go to London first and then travel to Wales for part of their holiday.

Byddai modd hefyd defnyddio'r presenoldeb i gryfhau'r iaith Gymraeg ar y we. Mae'n dda gennyf ddweud mai'r Gymraeg yw un o'r ieithoedd lleiafrifol sy'n cael ei defnyddio fwyaf ar y we. O'r wythnos hon, bydd Google Mail ar gael yn Gymraeg, ac mae nifer o becynnau meddalwedd eraill ar gael yn yr iaith, megis rhai Open Source ac OpenOffice, ac mae gwaith yn cael ei wneud i gael Linux yn Gymraeg. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r ffaith bod trydar yn Gymraeg yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd ac yn dangos presenoldeb cryf iawn ar gyfer yr iaith Gymraeg.

It would also be possible to use the presence to strengthen to Welsh language on the internet. I am pleased to say that Welsh is one of the best used minority languages on the internet. From this week, Google Mail will be available in Welsh, and many other software packages are available in Welsh, such as Open Source and OpenOffice, and work is being done to provide Linux through the medium of Welsh. We are all aware of the fact that tweeting in Welsh is very popular at the moment, showing a very strong presence for the Welsh language.

Beth yw'r camau nesaf, a sut y gall y Cynulliad gefnogi'r broses hon? Yn gyntaf, rhaid tanlinellu cwpwl o brif bwyntiau. Mae Nominet yn gwmni dielw, a Nominet yw'r cwmni a ffafriodd Plaid Cymru fel cerbyd i ddelifro'r math hwn o ddatblygiad. Mae ganddo bwrpas cyhoeddus yn ei gyfansoddiad, ac mae felly'n gwmni priodol i yrru'r broses yn ei blaen.

What are the next steps, and how can the Assembly support this process? First, we need to underline some of the main points. Nominet is a not-for-profit company, and is the company that Plaid Cymru would favour as the vehicle to deliver this kind of development. It has a public ethos as part of its constitution, so it is an appropriate company to drive this process forward.

4.15 p.m.

Mae Nominet wedi addo y bydd yn agor swyddfa yng Nghymru pe bai'n llwyddiannus gyda .wales a .cymru. Mae'n siŵr y bydd nifer o Aelodau am wneud cais i gael y swyddfa honno yn eu hetholaethau. Yr oll ddywedaf i yn awr yw bod diddordeb creadigol cryf mewn llefydd fel Llanelli ac Aberystwyth, a gobeithio na fydd Nominet yn agor ei swyddfa yng Nghaerdydd. Mae llefydd eraill, yn sicr ar gyfer y we, lle gellir cynnal y math hwn o wasanaeth, a'i gynnal yn Gymraeg, fel mae Nominet wedi'i addo. Yn bwysicach, mae Nominet wedi addo, os bydd yn llwyddiannus ac yn cynnal y parth lefel uchaf hwn y byddai unrhyw arian dros ben a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan y gwaith yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl yng Nghymru drwy ymddiriedolaeth annibynnol. Credaf y byddai hynny'n sicrhau y bydd Cymru'n rhan o'r broses honno.

Nominet has pledged that it will open an office in Wales if it were to be successful with .wales and .cymru. I am sure that many Members will want to bid for that office to be in their constituencies. All that I will say now is that there is a strong creative interest in places such as Llanelli and Aberystwyth, and I hope that Nominet will not open its office in Cardiff. There are other locations, certainly for the web, where this kind of service could be maintained, and maintained in Welsh, as Nominet has pledged to do. More importantly, Nominet has pledged that if it is successful and if it is to maintain this top-level domain, any surplus produced by the work will be reinvested in Wales through an independent trust. I think that that would ensure that Wales will be part of that process.

Nawr bod y cais wedi'i gyflwyno, mae sawl peth pwysig y mae'n rhaid i ni fod yn dadlau yn eu cylch, ac un peth y mae'r Llywodraeth yn gallu ei wneud. Oherwydd natur ICANN, mae'r cais yn cael ei drin ar wahân. Yn wir, mae Nominet wedi gorfod talu ddwywaith, unwaith am .wales ac unwaith am .cymru. Rydym ni eisiau sicrhau yn awr bod .wales a .cymru yn cael eu clystyru gyda'i gilydd, ac yn cael eu trin a'u trafod gyda'i gilydd. Nid ydym eisiau gweld ICANN yn derbyn .cymru a gwrthod .wales neu dderbyn .wales a gwrthod .cymru. Mae'n bwysig eu bod yn cael eu trin a'u trafod gyda'i gilydd, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan, os oes rhaid, yn rhoi pwysau ar ICANN i wneud hynny. Rydym yn disgwyl cyhoeddiad o gwmpas 13 Mehefin ynglŷn â'r camau nesaf, ac y mae posibilrwydd cryf y bydd y parthau lefel uchaf .wales a .cymru yn cael eu sefydlu ac ar gael o 2013.

Now that the bid has been presented, there are several important things that we must address, and one thing that the Government can do. Due to the nature of ICANN, the bid is being treated separately. Indeed, Nominet has had to pay twice, once for .wales and once for .cymru. We want to ensure that .wales and .cymru are clustered together and are dealt with and considered together. We do not want to see ICANN accepting .cymru and rejecting .wales or accepting .wales and rejecting .cymru. It is important that they are dealt with together, and I hope that the Welsh Government and the Westminster Government, if necessary, will put pressure on ICANN to do that. We are expecting an announcement around 13 June on the next steps, and there is a strong possibility that the top-level domains of .wales and .cymru will be established and available from 2013.

Yr hyn allwn ni ei wneud heddiw fel Cynulliad yw datgan yn glir ein bod ni fel corff am ddefnyddio .wales a .cymru pan fyddant yn dod ar gael. Pan gefais fy ethol yn aelod etholedig am y tro cyntaf, roeddwn yn defnyddio cyfeiriad e-bost oedd yn gorffen gyda .gov.uk. Newidiwyd hwnnw i '.parliament.org'. Mae'n bryd inni newid o fod yn '.gov' i fod yn '.cynulliad.cymru' neu '.assembly.wales'.

What we can do today as an Assembly is state clearly that we as a body want to use .wales and .cymru when they become available. When I was first elected as an elected member, I used an e-mail address that ended with .gov.uk. That was changed to '.parliament.org'. It is time that we changed from '.gov' to '.cynulliad.cymru' or '.assembly.wales'.

*Gwelliant 1 Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3, dileu ‘Yn galw ar Gomisiwn’ a rhoi yn ei le ‘Yn galw ar Lywodraeth Cymru, ei hasiantaethau a Chomisiwn’*

*Amendment 1 Aled Roberts*

*In point 3, after ‘Calls on’, insert ‘the Welsh government, its agencies and’*

*Gwelliant 2 Aled Roberts*

*Rhoi ar ddiwedd pwynt 3, ‘ac yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i annog cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wneud yr un fath’.*

*Amendment 2 Aled Roberts*

*Insert at end of point 3, ‘and further calls on the Welsh government to encourage other public bodies in Wales to do the same’.*

**Eluned Parrott:** I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

**Eluned Parrot:** Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

I would like to thank Plaid Cymru for bringing forward this debate today. I am sure that we have all been following the development of the application to ICANN with great interest. We in the Liberal Democrats have been happy to add our support to that application, because we believe that the top-level domains of .wales and .cymru would be a real asset to us. We are particularly pleased that the application will hopefully be bundled, to ensure that both languages may be used. That is an important element of the application as it stands. For me, it has a symbolic importance in terms of our status as a nation, but it also gives us an opportunity to use it as a tool and to bring a range of practical economic benefits. However, I think that we can only hope to access those benefits if it is part of a wider package of marketing for Wales across the UK, Europe and the rest of the world. I hope that the Welsh Government can assure us that it is going to be taking a strong lead in this. We are kidding ourselves if we think that, following the introduction of .wales and .cymru top-level domain names, Wales’s brand recognition will automatically improve or that tourism numbers will automatically soar. This is just a small step, albeit a very important one, to promote Wales across the world.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd wedi bod yn dilyn datblygiad y cais i ICANN gyda diddordeb mawr. Rydym ni yn y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn hapus i ychwanegu ein cefnogaeth i'r cais hwnnw, oherwydd credwn y byddai'r parthau lefel uchaf .cymru a .wales yn gaffaeliad mawr inni. Rydym yn arbennig o falch y caiff y cais ei fwndelu, gobeithio, i sicrhau y ceir defnyddio'r ddwy iaith. Mae honno'n elfen bwysig o'r cais fel y mae. I mi, mae iddi bwysigrwydd symbolaidd o ran ein statws fel cenedl, ond mae hefyd yn rhoi cyfle inni ddefnyddio hyn yn arf i sicrhau ystod o fuddiannau economaidd ymarferol. Serch hynny, ni chredaf y gallwn obeithio manteisio ar y buddiannau hynny oni fydd hyn yn rhan o becyn ehangach o farchnata Cymru ar draws y Deyrnas Unedig, Ewrop a gweddill y byd. Rwyf yn gobeithio y gall Llywodraeth Cymru ein sicrhau y bydd yn cynnig arweiniad cryf yn hyn o beth. Rydym yn ein twyllo'n hunain os ydym yn meddwl, ar ôl cyflwyno'r enwau parth lefel uchaf .cymru a .wales, y bydd brand Cymru'n cael ei adnabod yn well yn awtomatig, neu y bydd niferoedd y twristiaid yn cynyddu'n awtomatig. Un cam bach yn unig yw hwn, er ei fod yn gam pwysig iawn, i hyrwyddo Cymru ledled y byd.

What really excites me about top-level domain names and their potential for Wales is the opportunity that they will give Welsh brands to differentiate themselves from other brands in the UK. A top-level domain name such as .wales and .cymru could be a real

Yr hyn sydd yn wir yn fy nghyffroi ynglŷn ag enwau parth lefel uchaf a'u potensial i Gymru yw'r cyfle y byddant yn ei gynnig i frandiau Cymru sefyll ar wahân i frandiau eraill y Deyrnas Unedig. Gallai enw parth lefel uchaf megis .cymru a .wales fod yn gaffaeliad go

asset in promoting the Welsh connections of products and companies such as Penderyn whisky and the Otley Brewing Company, both of which are based in my region—not that I am focusing on a particular market sector, you understand. Trading on Wales's unique brand requires Wales to have a unique brand, and the Minister has been open in admitting in the past that this is something that she believes her department has not got right yet. I am sure that we would all share her frustration with the situation as it stands. Work on identifying Wales's unique selling points, defining our brand strategy and deciding how that brand will be promoted must be completed before the launch of our domains or an important opportunity to bring these things together for maximum impact could well be lost. We need to launch this with a bang and not a whimper if we want to draw companies in and encourage them to use the .wales and .cymru names. I hope that the Minister will be able to give us an update on progress towards that brand development as soon as possible.

iawn wrth hyrwyddo cysylltiadau Cymreig cynhyrchion a chwmnïau megis whisgi Penderyn a'r Otley Brewing Company, sydd ill dau yn fy rhanbarth i—nid fy mod yn canolbwyntio ar un sector penodol o'r farchnad, cofiwch. Er mwyn masnachu ar sail brand unigryw Cymru, mae angen i Gymru gael brand unigryw, ac mae'r Gweinidog wedi cyfaddef yn agored yn y gorffennol fod hyn yn rhywbeth nad yw ei hadran wedi'i gael yn iawn eto, yn ei barn hi. Rwyf yn sicr y byddem i gyd yn rhannu ei rhwystredigaeth â'r sefyllfa fel y mae. Rhaid cwblhau'r gwaith ar adnabod pwyntiau gwerthu unigryw Cymru, diffinio strategaeth ein brand a phenderfynu sut yr hyrwyddir y brand hwnnw cyn lansio ein parthau neu byddwn yn colli cyfle pwysig i ddod â'r pethau hyn at ei gilydd er mwyn sicrhau'r effaith orau posibl. Mae angen inni floeddio, nid sibrwd, wrth lansio hyn er mwyn denu cwmnïau a'u hannog i ddefnyddio'r enwau .cymru a .wales. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu dweud wrthym am y cynnydd diweddaraf o ran datblygu'r brand hwnnw cyn gynted ag y bo modd.

In terms of our amendments today, we would like to go a little further than the motion does at present. The National Assembly for Wales should of course be a pioneer in adopting .wales and .cymru. As our national parliament, we have a very important symbolic role to play in that, but I am also sure that the Welsh Government would wish to be at the forefront in this, and that is why we have tabled an amendment that seeks to get that assurance. I hope that it will attract your support.

O ran ein gwelliannau heddiw, hoffem fynd ychydig ymhellach nag y mae'r cynnig yn mynd ar hyn o bryd. Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth gwrs arloesi wrth fabwysiadu .cymru a .wales. A ninnau'n senedd genedlaethol, mae gennym rôl symbolaidd bwysig iawn i'w chwarae yn hynny o beth, ond rwyf hefyd yn siŵr y byddai Llywodraeth Cymru am fod ar flaen y gad yn hyn, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant sy'n ceisio cael y sicrwydd hwnnw. Rwyf yn gobeithio y bydd yn denu'ch cefnogaeth.

Similarly, I think that public bodies in Wales should be encouraged to help those domains to become widely recognised and to become widely adopted by adopting them themselves— again, to be pioneers for this new innovation for us. I cannot imagine why public life in Wales would not wish to do so. I hope that that amendment will gain broad support.

Yn yr un modd, credaf y dylid annog cyrff cyhoeddus yng Nghymru i helpu i sicrhau adnabyddiaeth eang i'r parthau hynny ac iddynt gael eu mabwysiadu'n eang drwy eu mabwysiadu eu hunain—unwaith eto, i fod yn arloeswyr yn y datblygiad newydd hwn inni. Ni allaf ddychmygu pam na fyddai bywyd cyhoeddus yng Nghymru yn dymuno gwneud hynny. Rwyf yn gobeithio y bydd cefnogaeth eang i'r gwelliant hwnnw.

Turning to the Welsh Conservatives' amendment 3 today, I am not entirely convinced that, in and of itself, a .cymru

A throi at welliant 3 y Ceidwadwyr Cymreig heddiw, nid wyf yn gwbl argyhoeddedig y bydd enw parth .cymru ynddo'i hun yn

domain name will make a significant contribution on a practical level to developing the Welsh language, but I am open to persuasion and I look forward to hearing your contribution. Perhaps you can explain to me what practical steps this will make to drive the Welsh language forward.

gwneud cyfraniad sylweddol ar lefel ymarferol at ddatblygu'r Gymraeg, ond rwyf yn barod i gael fy narbwyllo ac yn edrych ymlaen at glywed eich cyfraniad. Efallai y gallwch esbonio imi ym mha ffordd ymarferol y bydd hyn yn hybu'r Gymraeg.

To conclude, I think that there is a lot of consensus on this issue in this Chamber. We support this motion wholeheartedly. We ask the Welsh Government to continue to work positively with Nominet so that Wales gains its own top-level domains. We also hope that the Welsh Government will work with business, tourism and other relevant parties to continue to promote Wales and Welsh firms around the world so that we can make maximum use of this fantastic opportunity.

I gloi, credaf fod llawer o gonsensws ynglŷn â hyn yn y Siambr hon. Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn o waelod calon. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru barhau i weithio'n adeiladol gyda Nominet er mwyn i Gymru gael ei pharthau lefel uchaf ei hun. Rydym yn gobeithio hefyd y gwnaiff Llywodraeth Cymru weithio gyda byd busnes, twristiaeth a phartïon perthnasol eraill i barhau i hyrwyddo Cymru a chwmnïau Cymru o gwmpas y byd er mwyn inni fanteisio i'r eithaf ar y cyfle gwych hwn.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of the motion:*

*Yn credu y bydd presenoldeb o’r fath ar y rhyngrwyd yn annog y defnydd o’r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.*

*Believes that such an internet presence will help encourage the use of Welsh in everyday life.*

**Suzy Davies:** I move amendment 3 in the name of William Graham.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliant 3 yn enw William Graham.

Thank you for the opportunity to speak in this debate. After moving the amendment, I hope that I will be able to persuade the Welsh Liberal Democrats of the value of it.

Diolch ichi am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Ar ôl cynnig y gwelliant, rwy'n gobeithio y byddaf yn gallu darbwyllo Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ynglŷn â'i werth.

This is a matter of interest that has exercised many of us in the first year of this Assembly and has been the subject of no little controversy during that time. The Welsh Government’s guidelines to applicants were a source of controversy as they were published during Christmas recess with no notice to Members, which meant that we were unable to ask questions that would receive an answer before the application period closed. Fortunately, those guidelines required high standards of probity, security and financial robustness from potential applicants, and I was pleased to see that.

Mae hwn yn fater o ddiddordeb sydd wedi cyffroi llawer ohonom ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn ac wedi bod yn bwnc eithaf llosg yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru i ymgeiswyr yn bwnc llosg oherwydd fe'u cyhoeddwyd yn ystod gwyliau'r Nadolig heb roi dim rhybudd i'r Aelodau. Oherwydd hynny, nid oeddem yn gallu gofyn cwestiynau a chael ateb cyn i'r cyfnod ymgeisio gau. Yn ffodus, roedd y canllawiau hynny'n mynnu bod darpar ymgeiswyr yn dangos bod ganddynt safonau uchel o ran cywirdeb, diogelwch a chadernid ariannol, ac roeddwn yn falch o weld hynny.

Members will also remember that there were

Bydd yr Aelodau'n cofio hefyd bod rhai'n

concerns that the primacy of cultural and community aspects of the geographic domain might be lost if the winning bid did not originate within Wales or if the bid focused on an English domain name at the expense of a Welsh one. That, at least, seems to have been partly addressed my Nominet’s dual bids. I commend the Welsh Government for indicating in its guidelines that the proposals for domain name strings in both English and Welsh would be prioritised over proposals favouring one language. That requirement recognised that .cymru would be likely to promote culture and the use of the Welsh language, but that .wales might be preferred by business.

poeni ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai uchafiaeth agweddau diwylliannol a chymunedol y parth daearyddol fynd ar goll pe na bai'r cais a enillai'n deillio o Gymru neu petai'r cais yn canolbwyntio ar enw parth Saesneg ar draul enw Cymraeg. Mae hynny, o leiaf, i bob golwg, wedi cael sylw'n rhannol yn sgil ceisiadau deuol Nominet. Cymeradwyaf Lywodraeth Cymru am nodi yn ei chanllawiau y rhoddid blaenoriaeth i gynigion ar gyfer llinynnau enwau parth Cymraeg a Saesneg o'u cymharu â chynigion a oedd yn ffafrio un iaith yn unig. Roedd y gofyniad hwnnw'n cydnabod y byddai .cymru yn debygol o hyrwyddo diwylliant a defnyddio'r Gymraeg, ond y byddai'n well gan fyd busnes o bosibl ddefnyddio .wales.

LE Wales’s subsequent economic benefits report, commissioned by Nominet, suggests that the picture is not quite that straightforward, as Simon Thomas indicated—although, I suspect that there will be competition for the location of that call centre, Simon. That report also highlights the essential point, which Eluned Parrott referred to, and that is the value of branding, whether in Welsh or English. As you said, Eluned, there is a problem with the branding of Wales at the moment: the Minister acknowledges it and we suffer the consequences of it. The dual language bid provides a specific identifiable internet brand for Wales in both languages. Simon and Eluned are right in saying that both should be considered simultaneously by ICANN.

Mae adroddiad LE Cymru wedyn ynglŷn â'r manteision economaidd, a gomisiynwyd gan Nominet, yn awgrymu nad yw'r darlun mor syml â hynny, fel y dangosodd Simon Thomas—er fy mod yn amau y bydd cystadleuaeth am leoliad y ganolfan alwadau honno, Simon. Mae'r adroddiad hwnnw hefyd yn tynnu sylw at y pwynt hollbwysig, y cyfeiriodd Eluned Parrott ato, sef gwerth brandio, boed hynny yn Gymraeg ynteu yn Saesneg. Fel y dywedasoch, Eluned, mae brandio Cymru yn broblem ar hyn o bryd: mae'r Gweinidog yn cydnabod hynny ac rydym yn dioddef yn sgil canlyniadau hynny. Mae'r cais ar gyfer dwy iaith yn cynnig brand penodol canfyddadwy i Gymru ar y rhyngrwyd yn y ddwy iaith. Mae Simon ac Eluned yn llygad eu lle'n dweud y dylai'r ddwy gael eu hystyried ochr yn ochr gan ICANN.

This brand can be used to reinforce an image of quality and distinctiveness and I think that, in part, this reflects some of the thinking behind the motion and the Lib Dem amendments, which we will be supporting. Quality and distinctiveness are attributes that we should desire for this Assembly, the Welsh Government, agencies and other public bodies in Wales. Therefore, I hope that the Minister will be able to explain why the Welsh Government guidelines specifically stated that the .gov.uk brand will be maintained for the delivery of public services, because not only did that stipulation limit the market in terms of potential bidders, it missed an opportunity to rectify the legacy

Gellir defnyddio'r brand hwn i atgyfnerthu delwedd o safon ac i ddangos ein bod yn wahanol a chredaf fod hyn, i raddau, yn adlewyrchu rhywfaint o'r meddwl sy'n gefn i'r cynnig hwn ac i welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Byddwn yn eu cefnogi. Mae safon a bod yn wahanol yn briodweddau y dylem fod yn awyddus i'w cael ar gyfer y Cynulliad hwn, Llywodraeth Cymru, asiantaethau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Felly, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu esbonio pam yr oedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud yn benodol y cedwir brand gov.uk ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd roedd mynnu hynny nid yn unig yn cyfyngu

of the existing domain name. Most of us in this Chamber are not in Government and we are all elected to represent the people of Wales and not the entire UK. The .gov.uk domain has long ceased to be appropriate for Members, the Commission and, indeed, any organisation independent of Government, not least those that deliver public services. Despite the availability of the ‘cymru’ prefix, the current domain name is monolingual, which limits the Commission’s ability to comply with any requirements regarding bilingualism that may emerge during the passage of the National Assembly for Wales (Officials Languages) Bill.

ar y farchnad o ran ymgeiswyr posibl, roedd hefyd yn colli cyfle i wneud iawn am waddol yr enw parth presennol. Nid yw'r rhan fwyaf ohonom sydd yn y Siambr hon yn rhan o'r Llywodraeth ac rydym i gyd wedi cael ein hethol i gynrychioli pobl Cymru ac nid pobl y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Nid yw'r enw parth .gov.uk yn enw priodol ers tro i'w ddefnyddio gan yr Aelodau, y Comisiwn, nac yn wir, gan unrhyw sefydliad nad yw'n rhan o'r Llywodraeth, yn enwedig gan y rheini sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Er bod y rhagddodiad 'cymru' ar gael, mae'r enw parth presennol yn uniaith, sy'n cyfyngu ar allu'r Comisiwn i gydymffurfio ag unrhyw ofynion ynglŷn â dwyieithrwydd a all godi wrth basio Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

Turning to the Welsh Conservatives’ amendment, the Welsh Government guidelines were clear that applications had to ensure ongoing alignment with the policy to strengthen the place of the Welsh language in everyday life. The only specific requirement that the guidelines gave was that the applicant should intend to provide a bilingual registry service, which is not exactly the most ambitious requirement for a geographic top-level domain name provider in Wales.

A throi at welliant y Ceidwadwyr Cymreig, roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir ei bod yn rhaid i geisiadau sicrhau y byddent yn parhau'n gyson â'r polisi i gryfhau lle'r Gymraeg mewn bywyd beunyddiol. Yr unig ofyniad penodol yn y canllawiau oedd y dylai fod yn fwriad gan yr ymgeisydd ddarparu gwasanaeth cofrestru dwyieithog. Go brin mai dyna'r gofyniad mwyaf uchelgeisiol ar gyfer darparwr enw parth lefel uchaf daearyddol yng Nghymru.

The Cardiff University report of 2007 concluded that there was a credible case for a domain name that promoted the use of Welsh. The LE Wales report suggests that the potential language benefits of both domain names may be small compared to other initiatives to promote the everyday use of Welsh, but that Welsh is both visible and actively used on websites and that both domain names would be a reinforcement of these wider activities. Nominet’s own view is that the names could provide scope to promote linguistic and cultural community activities, and I am confident that it will do all it can to advance that. It has also said that it will improve search results for Welsh-language websites.

Casgliad adroddiad Prifysgol Caerdydd yn 2007 oedd bod dadl gredadwy o blaid enw parth a fyddai'n hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Mae adroddiad LE Cymru yn awgrymu y gallai'r manteision ieithyddol posibl, o gael y ddau enw parth, fod yn fach o'u cymharu â chynlluniau eraill i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol, ond bod y Gymraeg yn weladwy ac yn cael ei defnyddio'n frwd ar wefannau ac y byddai'r ddau enw parth yn atgyfnerthu'r gweithgareddau ehangach hyn. Barn Nominet ei hun yw y gallai'r enwau gynnig posibiliadau i hyrwyddo gweithgareddau ieithyddol a diwylliannol cymunedol, ac rwyf yn hyderus y gwnaiff bopeth yn ei allu i hybu hynny. Mae wedi dweud hefyd y bydd yn gwella canlyniadau chwilio am wefannau Cymraeg eu hiaith.

My own view is that the potential for the growth of online Welsh-medium hyper-local websites and blogs is underestimated and that Welsh domain names will have a significant

Fy marn i fy hun yw bod y potensial ar gyfer twf gwefannau a blogiau lleol iawn Cymraeg eu cyfrwng ar lein yn cael ei danamcangyfrif ac y bydd gan enwau parth Cymraeg

signposting function, not just for engaging Welsh speakers, but those learning Welsh and those who want a myriad of places to practise. It will also have a signposting function for older Welsh-speaking people who may be disinclined to tackle the internet because it is outside their comfort zone linguistically as well as technologically. Getting them online would be one way of transmitting everyday language through the generations.

swyddogaeth gyfeirio bwysig, nid dim ond o ran ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg, ond hefyd i'r rheini sy'n dysgu'r iaith a'r rheini sydd am gael llu o fannau i ymarfer. Bydd hefyd yn cyflawni swyddogaeth gyfeirio i siaradwyr Cymraeg hŷn sydd o bosibl yn gyndyn o fynd i'r afael â'r rhyngrwyd oherwydd ei fod y tu allan i'w cylch cyfforddus yn ieithyddol yn ogystal ag yn dechnegol. Byddai eu cael ar lein yn un ffordd o drosglwyddo iaith bob dydd drwy'r cenedlaethau.

The point is that, with more of us communicating via the internet, it is an obvious place for more of us to build up confidence, competence and comfort in Welsh conversations. We need a big, fat sign, a brand we can trust, that will identify sites where we can do that.

Y pwynt yw, gan fod mwy ohonom yn cyfathrebu dros y rhyngrwyd, mae'n fan amlwg i ragor ohonom feithrin ein hyder a'n gallu i sgwrsio yn Gymraeg a theimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud hynny. Mae angen arwydd mawr trwchus arnom, brand y gallwn ymddiried ynddo, a fydd yn ein cyfeirio at safleoedd lle y gallwn wneud hynny.

**Alun Ffred Jones:** Hoffwn sôn, yn fyr, am y budd economaidd sy’n dod o gael parth lefel uchaf. Un o wendidau economi Cymru—sydd wedi ei grybwyll yn barod—yw diffyg adnabyddiaeth Cymru ar dir mawr Ewrop a thu allan. Rydym yn cyfeirio at hynny weithiau fel ‘brand’, ond nid wyf yn siŵr iawn am hynny gan fod brand yn rhywbeth ychydig yn wahanol. Fodd bynnag, yn sicr, mae diffyg adnabyddiaeth yn rhywbeth sy’n ffactor o ran mewnfuddsoddi a hefyd o ran y diwydiant twristiaeth. Mae’r rhesymau am hynny yn gymhleth, ond, yn sicr, mae cael y parth lefel uchaf yn un ffordd y gallwn ni yng Nghymru nodi ein bod ni yma a’n bod yn wahanol, a hefyd denu diddordeb yng Nghymru y tu hwnt i’n ffiniau.

**Alun Ffred Jones:** I want to briefly address the economic benefits that could accrue from a top-level domain. One of the weaknesses of the Welsh economy, which has already been mentioned, is a lack of recognition of Wales on the European mainland and beyond. We sometimes refer to that as a ‘brand’, but I am not sure about that as a brand is something slightly different. However, the lack of recognition is certainly a factor in terms of inward investment and also the tourism industry. The reasons for that are complex, but, certainly, having a top-level domain would be one way in which we in Wales could note that we are here and that we are different, and also attract interest in Wales from beyond our own borders.

Mae’n amlwg bod y rhyngrwyd yn e-beiriant ar gyfer twf economaidd ac mae’n rhaid cael mynediad iddo i sicrhau’r arloesed sydd ei angen ar Gymru. Mae Nominet yn honni ei fod wedi gwneud ymchwil yn ddiweddar sy’n profi budd economaidd parth lefel uchaf i Gymru. Dywed ei fod wedi darganfod bod cefnogaeth gref o blaid y parth lefel uchaf ymysg busnesau a chwsmeriaid a bod cyfleoedd da i wella gwelededd cwmnïau a Chymru ei hun ar y we yn ogystal â datblygu brand y busnesau unigol hynny.

It is obvious that the internet is a driver for economic growth and you have to have access to it to secure the innovation required in Wales. Nominet claims that it has carried out research recently that proves the economic benefits of a top-level domain to Wales. It has discovered that there is strong support for the top-level domain among businesses and customers and that there are good opportunities to improve the visibility of companies and Wales itself online, and to develop the brands of those individual businesses.

Mae’n debygol mai busnesau sy’n

It is likely that businesses that deal with

gysylltiedig â nwyddau neu gynnyrch Cymreig fydd yn derbyn y budd mwyaf, er enghraifft, cwmnïau bwyd, y diwydiant twristiaeth, a chwmnïau a chyrff diwylliannol a chreadigol, fel cwmnïau teledu neu artistiaid. Dylwn hefyd gofio-gan gydnabod cyfraniad Suzy Davies wrth sôn am yr iaith Gymraeg-bod yr iaith Gymraeg yn arf bwerus i rai busnesau ac mae cyflwyno delwedd ddwyieithog ar-lein yn rhan o'u brand a'r hyn maent yn ei werthu. Felly, mae'n allweddol bwysig bod Nominet yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cwmnïau hynny fydd am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffwn hefyd ategu'r pwynt a wnaethpwyd gan Simon Thomas, os bydda gobeithio pan fydd-Nominet yn sefydlu ei swyddfa yng Nghymru, gobeithiaf y bydd yn edrych ymhellach na Chaerdydd, oherwydd os oes un cyfrwng lle nad yw lleoliad yn bwysig, yna'r rhyngrwyd ydy hynny.

Welsh goods or produce will accrue the greatest benefits, for example, food companies, the tourism industry, and cultural and creative companies and bodies, such as television companies or artists. We should also remember—bearing in mind Suzy Davies's contribution on the Welsh language—that the Welsh language is a powerful tool for some businesses and having a bilingual identity online is part of their brand and what they are endeavouring to sell. Therefore, it is crucial that Nominet is able to provide a bilingual service to those companies that will want to communicate through the medium of Wales. I would like to endorse the point made by Simon Thomas, if—or hopefully when—Nominet establishes an office in Wales, I hope that it will look beyond Cardiff, because if there is one medium for which location is not important it is the internet.

4.30 p.m.

Mae gwerth siopa a masnachu ar-lein wedi'u cynyddu'n ddirfawr, ac mae rhai yn darogan y bydd yn tanseilio, a'u bod eisoes yn tanseilio, busnesau'r stryd fawr. Erbyn 2011, roedd gwerthiant ar-lein wedi codi i dros £50 biliwn yn y Deyrnas Unedig, 12% o'r holl fasnach manwerthu. Mae cyfran Cymru o hynny o gwmpas £2 biliwn, ond mae angen i ni godi'r canran hwnnw'n sylweddol os nad yw Cymru yn mynd i golli allan ar y cyfleoedd sydd yn cael eu cynnig i'n busnesau. Unwaith eto, credaf fod cael parth lefel uchaf yn hollbwysig o ran datblygu busnesau yma yng Nghymru a thynnu sylw at yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

The value of online shopping and e-commerce has increased substantially, and some predict that they will undermine, and are already undermining, high street businesses. By 2011, online sales had increased to almost £50 billion in the United Kingdom, 12% of all retail commerce. Wales's share of that is around £2 billion, but we need to increase that share significantly if Wales is not to miss out on the opportunities provided to our businesses. Once again, I think that having a top-level domain is crucial to developing businesses here in Wales and highlighting what we have to offer.

Bydd cael parth lefel uchaf ar gyfer Cymru yn sianelu prynwyr Cymru tuag at wasanaethau a darparwyr cynnyrch Cymreig. Felly, mae'n gyfle euraidd i osod seiliau cadarn i geisio sicrhau bod gwariant Cymreig yn aros yng Nghymru, a hefyd i dynnu sylw pobl tu allan i Gymru i'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

Having a top-level domain for Wales will channel customers in Wales towards Welsh services and manufacturers. Therefore, it is a golden opportunity to lay firm foundations to try to ensure that Welsh expenditure remains in Wales, and also to draw the attention of those outwith Wales to what we have to offer.

**Gwyn R. Price:** I am pleased to be able to speak to this motion and to an issue that has support from all Members across the Chamber. In these difficult economic times, as our programme for government sets out, jobs and the economy must be our overriding

**Gwyn R. Price:** Rwyf yn falch o gael siarad am y cynnig hwn ac am bwnc y mae pob Aelod ar draws y Siambr yn ei gefnogi. Yn yr oes economaidd anodd hon, fel y mae ein rhaglen lywodraethu'n dweud, rhaid inni sicrhau mai swyddi a'r economi yw ein prif

priorities. I would like to highlight the potential opportunity that a successful application would represent for business in Wales. Research on the economic benefits of an internet domain name for Wales produced last year by the economic and policy consultancy LE Wales suggested that 59% of Welsh businesses surveyed believe that Wales should have its own domain name and that around 40% believe that it would help to promote businesses in Wales. Around 30% believe that a Welsh domain would help to promote Welsh businesses outside Wales and internationally. Therefore, the new domain would appear to have the potential to bring significant economic benefits to Wales. It would help to strengthen Wales's global identity, promote business growth and encourage the exploitation of digital technology across all sectors.

flaenoriaethau. Hoffwn dynnu sylw at y cyfle posibl y byddai cais llwyddiannus yn ei gynnig i fusnesau yng Nghymru. Yn yr ymchwil i fuddiannau economaidd enw parth rhyngrwyd i Gymru a gyhoeddwyd y llynedd gan y cwmni ymgynghori ynglŷn â'r economi a pholisi, LE Cymru, awgrymwyd bod 59% o fusnesau a holwyd yn credu y dylai Cymru gael ei henw parth ei hun a bod tua 40% yn credu y byddai'n gymorth i hyrwyddo busnesau yng Nghymru. Cred tua 30% y byddai enw parth i Gymru'n gymorth i hyrwyddo busnesau Cymru y tu allan i Gymru ac yn rhyngwladol. Felly, mae'n ymddangos y gallai'r enw parth newydd ddwyn buddiannau economaidd sylweddol i Gymru. Byddai'n gymorth i gryfhau hunaniaeth Cymru yn y byd, i hyrwyddo twf busnesau ac i annog pobl i fanteisio ar dechnoleg ddigidol ar draws pob sector.

It has been suggested that the new domain could make a contribution to developing positive brand images for Wales, which could benefit particular sectors of the economy, such as tourism. Like other Members, I wish the application every success. I call on the Minister to work with the applicant to ensure that the domain achieves the maximum benefit for Wales and, in particular, supports the development of business and creates employment.

Awgrymwyd y gallai'r enw parth newydd gyfrannu at ddatblygu delweddau brand cadarnhaol i Gymru, a allai fod o fudd i sectorau penodol yn yr economi, megis twristiaeth. Fel yr Aelodau eraill, yr wyf finnau'n dymuno pob llwyddiant i'r cais. Galwaf ar y Gweinidog i weithio gyda'r ymgeisydd i sicrhau bod y parth yn sicrhau'r budd mwyaf i Gymru a'i fod, yn benodol yn gymorth i ddatblygu busnesau ac yn creu gwaith.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n dda gweld bod cefnogaeth drawsbleidiol yn barod yn y ddadl hon i'r syniad o sicrhau bod gan Gymru parth lefel uchaf a bod hynny yn ddwyieithog-.cymru a .wales. Mae'n dda gwybod hefyd bod Llywodraeth Cymru'n gefnogol i'r egwyddor hynny. Nid yw'r Llywodraeth wedi bod bob amser yn or-frwdfrydig am gael .cymru ochr yn ochr wrth .wales-nid wyf yn cyfeirio at y Gweinidog wrth ddweud hynny, ond at y Llywodraeth fel corff. Rwy'n hyderus y bydd Gweinidog yr un mor frwdfrydig dros .cymru â .wales. Mae gennyf gof nad oedd y Prif Weinidog yn or-frwdfrydig ar un adeg am .cymru; gobeithiaf ei fod wedi gweld y goleuni erbyn hyn. Mae'n bwysig bod gennym y ddau enw.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is good to see that there is already cross-party support in this debate for the idea of securing a top-level domain for Wales and that that should be bilingual—.cymru and .wales. It is also good to know that the Welsh Government is supportive of that principle. The Government has not always been overly enthusiastic about having .cymru side by side with .wales—I am not referring to the Minister, but to the Government as a body. I am confident that the Minister will be just as enthusiastic about .cymru as .wales. My recollection is that the First Minister was not overly enthusiastic at one time about having .cymru; I hope that he has now seen the light. It is important that we have both names.

Rwyf am gyfeirio yn bennaf y prynhawn yma at y budd diwylliannol, ond, cyn hynny, rwy'n credu bod y sefyllfa gyfansoddiadol yng Nghymru sydd wedi datblygu ers 1999,

This afternoon, I want to refer mainly to the cultural benefit, but, before that, I believe that the constitutional situation that has developed in Wales since 1999, and, certainly, since the

ac, yn wir, ers y refferendwm yn 1997, yn eithriadol o bwysig yn y cyd-destun hwn. Rydym wedi tyfu lan fel cenedl ac yn sgîl hynny mae cyrff, cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru sydd wedi magu hunaniaeth Gymreig a Chymraeg. Mae'n bwysig bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn y parth lefel uchaf. Mae hefyd yn bwysig bod y Cynulliad fel corff yn gwbl ymrwymedig yn ei chefnogaeth i hyn. Mae gennyf broblem yn y cyd-destun hwnnw gyda gwelliant 1 gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'n rhaid imi ddweud hyn wrth y Democratiaid Rhyddfrydol: nid yw Comisiwn y Cynulliad yn atebol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn sefydliad cwbl ar wahân i Lywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, mae galw ar Lywodraeth Cymru a'i Chomisiwn yn gamarweiniol ac yn creu cryn ddryswch o ran yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.

referendum in 1997, is extremely important in this context. We have grown up as a nation and in the wake of that there are bodies, companies and organisations in Wales that have fostered a Welsh and a Welsh-language identity. It is important that that is reflected in the top-level domain. It is also important that the Assembly as a body is thoroughly committed in its support for this. I have a problem in that context with amendment 1 from the Liberal Democrats. I have to say this to the Liberal Democrats: the Assembly Commission is not accountable to the Welsh Government. We a completely separate body to the Welsh Government. We are accountable to the National Assembly for Wales. Therefore, calling on the Welsh Government and its Commission is misleading and creates confusion about what we are trying to do.

Nod y ddadl hon, fel y dywedodd Simon Thomas ar y dechrau, yw sicrhau bod y Cynulliad fel corff yn gwbl gefnogol i hyn. Gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un gymryd y cam arloesol o gefnogi '.cym' pan godwyd y mater hwnnw gan grŵp gwirfoddol yn Aberystwyth. Byddwn ni, fel y dywedodd Simon Thomas, yn datgan ein gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaethpwyd gan y grŵp hwnnw. Mae'n bosibl na fyddwn yn y sefyllfa hon heddiw heblaw am y gwaith hwnnw ac, yn sicr, heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru'n Un.

The aim of this debate, as Simon Thomas said at the outset, is to ensure that the Assembly as a body is wholly supportive of this. The One Wales Government took the innovative step of supporting '.cym' when that issue was raised by a voluntary group in Aberystwyth. We, as Simon Thomas said, would state our appreciation of the work done by that group. We might not be in this situation today were it not for that work and, certainly, the support of the One Wales Government.

Rydym mewn sefyllfa bellach lle gallem symud ymlaen a dangos i'r byd ar y rhyngrwyd bod Cymru yn wlad a bod sefydliadau a chyrff yng Nghymru, yn ogystal ag unigolion, sydd eisiau'r gydnabyddiaeth ryngwladol honno. Mae gwerth diwylliannol enfawr i gyrff diwylliannol yng Nghymru gael eu gweld fel cyrff cenedlaethol—nid fel rhan o gyrff Prydeinig ond fel cyrff a sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru.

We are now in a position where we can move forward and show the world on the internet that Wales is a nation and that there are organisations and bodies in Wales, as well as individuals, who want that international recognition. There is great cultural value in cultural bodies in Wales being seen as national bodies—not as part of British bodies but as national bodies and institutions in Wales.

Mae'n bwysig, hefyd, ein bod yn cydnabod yn y ddadl hon pwysigrwydd hyn i'r iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth ar y rhyngrwyd. Fel iaith leiafrifol, mae'r defnydd o'r Gymraeg ar y rhyngrwyd yn llawer uwch nag yw o'i gymharu â'r ganran o'r boblogaeth yng

It is also important that we recognise in this debate the importance of this for the Welsh language. The Welsh language is used extensively on the internet. As a minority language, the use of Welsh on the internet is much higher that it is in compared with the percentage of the population in Wales that

Nghymru sy’n siarad Cymraeg. Mae gwledydd eraill sydd â pharth lefel uchaf lle mae eu hieithoedd brodorol â safle ar y parth lefel uchaf sydd â nifer llai o siaradwyr ac, yn sicr, defnydd llai ar y rhyngrwyd, na’r iaith Gymraeg.

speaks the language. There are other countries that have a top-level domain whose indigenous languages have a site on the top-level domain that have fewer speakers and, certainly, less use on the internet, than the Welsh language.

Felly, mae cyfleoedd gwirioneddol yma. Roedd yn ddiddorol, pan wnaeth Nominet yr ymchwil, bod y mwyafrif o unigolion a holwyd yn dymuno defnyddio parth .cymru, tra bod y mwyafrif o fusnesau yn dymuno defnyddio parth .wales. Mae hynny’n dangos yn glir bod lle i’r ddau a’u bod yn gorwedd yn esmwyth gyda’i gilydd. Er mwyn cael y budd mwyaf o hyn i gyd, mae’n rhaid inni ddefnyddio’r ddau. Felly, bydd Cymru yn elwa, bydd yr economi yng Nghymru yn elwa a bydd y sector diwylliannol a’r sector dwristiaeth yn elwa o hyn.

Therefore, there are genuine opportunities here. It was interesting, when Nominet did its research, that the majority of individuals asked wanted to use a .cymru domain, whereas the majority of businesses wanted to use a .wales domain. That clearly shows that there is room for both and that they lie comfortably side by side. In order to get the greatest benefit from this, we have to use both. Therefore, Wales will benefit, the economy in Wales will benefit, and the cultural sector and the tourism sector will benefit from this.

**Kenneth Skates:** Due to the time constraints, I will concentrate my contribution on some of the specific benefits that Wales could accrue internationally as a result of developing its own top-level domain name, as well as some of the challenges it may present.

**Kenneth Skates:** Oherwydd bod amser yn brin, canolbwyntiaf fy nghyfraniad ar rai o'r buddiannau penodol y gallai Cymru fanteisio arnynt yn rhyngwladol wrth ddatblygu ei henw parth lefel uchaf ei hun, yn ogystal â rhai o'r heriau a allai godi yn sgil hynny.

Much of the talk of late has centred on the need for Wales, particularly in the hyper-globalised economy in which we now exist, to develop a more distinct, durable and, in particular, a more clearly defined brand to sell Wales to the world. As set out in a recent LE Wales report, it is clear that a .wales domain name would be significantly attractive to Welsh businesses, not only as a way of attracting inward investment and helping to promote Welsh exports, but, in addition, providing a powerful vehicle to promote the image of Wales.

Mae llawer o'r sôn yn ddiweddar wedi canolbwyntio ar yr angen i Gymru, yn enwedig yn yr economi hynod fyd-eang yr ydym yn byw ynddi erbyn hyn, ddatblygu brand mwy unigryw, parhaus ac, yn benodol, brand sydd wedi'i ddiffinio'n gliriach er mwyn gwerthu Cymru i'r byd. Fel y dywedwyd mewn adroddiad diweddar gan LE Cymru, mae'n amlwg y byddai enw parth .wales yn ddeniadol iawn i fusnesau Cymru, nid dim ond er mwyn denu mewnfuddsoddi a helpu i hyrwyddo allforion Cymru, ond hefyd, byddai'n gyfrwng pwerus i hyrwyddo delwedd Cymru.

We know that the global trend for higher quality and more locally branded goods has been, in part, driven by the internet revolution. It has potential to generate significant additional revenue for Wales’s businesses. Greater e-commerce activity, more offline transactions and wider recognition of what Wales has to offer are some of the rewards that may be gained by Welsh businesses registering under the new domain.

Gwyddom mai chwyldro'r rhyngrwyd yn rhannol sy'n gyfrifol am y duedd fyd-eang i ffafrio nwyddau o safon uwch â brand mwy lleol. Gallai hyn gynhyrchu refeniw ychwanegol sylweddol i fusnesau Cymru. Mwy o weithgarwch e-fasnach, mwy o drafodion all-lein a mwy o gydnabyddiaeth i'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig—dyna rai o'r ffyrdd y gallai busnesau Cymru fod ar eu hennill drwy gofrestru o dan y parth newydd.

The LE Wales report gives the example of the impact of this development. If revenue generated were to increase by just 1%, it would be the equivalent of a sales increase of £195 million for the Welsh economy, supporting many thousands of additional jobs. It must be noted that Berlin, New York, Paris, Rome, Moscow, San Francisco, Tokyo and Sydney should soon have their own top-level domain names, thereby increasing the already significant economic power that they have. It is, therefore, in our national interest to ensure that Wales does not miss out.

Mae adroddiad LE Cymru yn rhoi enghraifft o effaith y datblygiad hwn. Pe na bai'r refeniw a gynhyrchid ond yn cynyddu 1%, byddai hynny'n cyfateb i gynnydd o £195 miliwn mewn gwerthiannau i economi Cymru, gan gefnogi miloedd lawer o swyddi ychwanegol. Rhaid nodi y bydd gan Berlin, Efrog Newydd, Paris, Rhufain, Moscow, San Francisco, Tokyo a Sydney eu henwau parth lefel uchaf eu hunain cyn bo hir, gan gynyddu'r pŵer economaidd sylweddol sydd ganddynt eisoes. Felly, mae er ein budd ni fel cenedl sicrhau nad yw Cymru'n colli'r cyfle.

Indeed, Wales has an even more pressing need for this, given that the recognition and knowledge of Wales is still comparatively poor in many locations and countries overseas. The Welsh Government, as we have seen, is keen to address this point through measures to raise the profile of Wales and strengthen the Wales brand. That is right and correct. One of the key benefits that small businesses regularly express to me is the value that comes directly from being able to market their services, products or wider business through unique geographical differentiation. For a creamery, a vineyard, or a guesthouse in my constituency looking to market its business to a wider audience, a new domain name will not conceal a substandard product, but it will help those outside Wales to understand what it is about and help match it up with what the market has on the web more effectively.

Yn wir, mae angen hyn ar Gymru fwy byth oherwydd bod cynifer o leoliadau a gwledydd tramor lle mae adnabyddiaeth Cymru'n dal yn gymharol wael ac nad oes llawer yn gwybod amdani. Mae Llywodraeth Cymru, fel y gwelsom, yn awyddus i fynd i'r afael â hyn drwy gymryd camau i godi proffil Cymru a chryfhau ei brand. Dyna'r peth iawn a chywir i'w wneud. Un o'r prif fanteision y bydd busnesau bach yn sôn wrthyf amdani yn aml yw'r gwerth sy'n dod o allu marchnata'u gwasanaethau, eu cynnyrch neu eu busnes ehangach yn uniongyrchol drwy ddangos eu bod yn wahanol ac yn unigryw o safbwynt daearyddol. I hufenfa, gwinllan, neu westy bach yn fy etholaeth sy'n ceisio marchnata'u busnes i gynulleidfa ehangach, ni fydd enw parth newydd yn celu cynnyrch is-safonol, ond bydd yn gymorth i'r rheini y tu allan i Gymru ddeall beth yw hanfod y cynnyrch hwnnw ac yn gymorth iddynt ei gyfatebu'n fwy effeithiol â'r hyn sydd gan y farchnad ar y we.

We see this most clearly in the production, marketing and sale of food. Geographical origin labels are enormously valuable to consumers, because of the trust and brand loyalty that they can engender. Boosting sales through building trust offers considerable potential. While there are no detailed or robust estimates to work from in this area, one estimate that I read about highlighted that if the food and drink manufacturing and processing sector increased turnover by just 1%, it would be equivalent to an annual increase in sales of around £17 million. It is worth noting that Tesco recently exceeded £1 billion in Welsh products. Imagine the potential if those products also carried a .wales or a .cymru brand and the recognition

Gwelwn hyn ar ei egluraf ym maes cynhyrchu, marchnata a gwerthu bwyd. Mae labeli tarddiad daearyddol yn werthfawr eithriadol i ddefnyddwyr, oherwydd eu bod yn gallu meithrin ymddiriedaeth a theyrngarwch at frand. Mae hybu gwerthiannau drwy feithrin ymddiriedaeth yn cynnig potensial sylweddol. Er nad oes amcangyfrifon manwl na chadarn i weithio arnynt yn y maes hwn, roedd un amcangyfrif y darllenais amdano'n dweud, pe na bai'r sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod ond yn cynyddu ei drosiant 1%, y byddai hynny'n cyfateb i gynnydd o oddeutu £17 miliwn mewn gwerthiannau. Mae'n werth nodi bod Tesco wedi gwerthu gwerth dros £1 biliwn o gynhyrchion o Gymru'n

of Wales that that could provide.

ddiweddar. Dychmygwch y potensial petai'r cynhyrchion hynny hefyd yn cynnwys brand .cymru neu .wales a'r adnabyddiaeth o Gymru y gallai hynny ei gynnig.

Indeed, a more distinct Welsh brand could help to unlock a previously untapped segment of the consumer market, namely those who are somewhat internet wary. It is estimated that, currently, around a third of consumers are reluctant to engage in commercial transactions on the web because of a lack of confidence. In contrast, 28% of Welsh businesses believe that a top-level domain for Wales would increase consumer trust in their business, suggesting that at least some people could start using the internet in ways that they have previously not done.

Yn wir, gallai brand mwy gwahanol i Gymru helpu i ddatgloi cyfran newydd o'r farchnad defnyddwyr, sef y rheini sydd braidd yn amheus o'r rhyngrwyd. Amcangyfrifir fod oddeutu traean o ddefnyddwyr yn gyndyn o fasnachu ar y we oherwydd diffyg hyder. Yn groes i hynny, cred 28% o fusnesau Cymru y byddai parth lefel uchaf i Gymru'n cryfhau ymddiriedaeth defnyddwyr yn eu busnes, gan awgrymu y gallai rhai pobl o leiaf ddechrau defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffyrdd gwahanol i'r ffordd y maent wedi'i ddefnyddio o'r blaen.

There are important infrastructure implications to this new environment for Welsh business. One important issue is the coverage of superfast broadband across Wales and the need, particularly in rural and semi-rural areas, where many of our niche manufacturers are based, to ensure that everyone would have the chance to benefit from a more distinctive Welsh internet brand. Another is the need to adapt the business and marketing support that we offer Welsh companies to help them to grow. Many small local producers will need extra help to assist them in exploiting the worldwide potential of their product or service. The major obstacles of addressing payment security concerns and enhancing branding support and shared cost advertising will need to be taken on board by the Welsh Government and those agencies supporting smaller niche Welsh businesses in particular. None of these, however, are too large an obstacle to overcome. This is not a silver bullet with regard to branding Wales abroad, but it is a start, and I look forward to seeing how it can enhance our economy, culture and identity on the worldwide web.

Mae gan yr amgylchedd newydd hwn i fusnesau Cymru oblygiadau pwysig o ran y seilwaith. Un peth pwysig yw'r ddarpariaeth band eang cyflym iawn ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig, lle mae llawer o'n gweithgynhyrchwyr arbenigol yn gweithio, bod angen sicrhau y byddai pawb yn cael cyfle i elwa ar frand mwy gwahaniaethol i Gymru ar y rhyngrwyd. Un arall yw bod angen addasu'r cymorth busnes a marchnata y byddwn yn ei gynnig i gwmnïau Cymru i'w helpu i dyfu. Bydd angen cymorth ychwanegol ar lawer o gynhyrchwyr lleol bychain i'w cynorthwyo i fanteisio ar botensial byd-eang eu cynnyrch neu eu gwasanaeth. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau hynny sy'n cefnogi busnesau arbenigol llai Cymru yn benodol fynd i'r afael â'r prif rwystrau sef pryderon ynglŷn â diogelwch dulliau talu a chryfhau'r cymorth i frandio a rhannu costau hysbysebu. Nid yw'r un o'r rhain, serch hynny'n rhwystr rhy fawr i'w oresgyn. Nid bwled arian yw hon o ran brandio Cymru dramor ond mae'n fan cychwyn, ac rwyf yn edrych ymlaen at weld sut y gall gryfhau ein heconomi, ein diwylliant a'n hunaniaeth ar y we fyd-eang.

**Nick Ramsay:** I am pleased that Plaid Cymru has brought this debate to the Chamber today. Those of you who know me well will know that I am not the most internet-competent or computer-competent person in this place, far from it, but I recognise the importance of this bid. As

**Nick Ramsay:** Rwyf yn falch bod Plaid Cymru wedi dod â'r ddadl hon gerbron y Siambr heddiw. Bydd y rheini ohonoch sy'n fy adnabod yn gwybod nad fi yw'r un gorau am ddefnyddio'r rhyngrwyd na chyfrifiadur yn y lle hwn, ymhell o fod, ond rwyf yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r cais hwn. Fel

Simon Thomas said in his opening remarks, this is not just about the computer or the internet, but about the branding of Wales. We have had a number of debates over the last weeks and months related to the branding of Wales, and all of us have recognised the need to improve that branding. This is probably the best way in the modern world to do it for Wales.

y dywedodd Simon Thomas yn ei sylwadau agoriadol, mae a wnelo hyn â mwy na dim ond y cyfrifiadur neu'r rhyngrwyd, mae a wnelo â brandio Cymru. Rydym wedi cael nifer o ddadleuon dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf ynglŷn â brandio Cymru, ac rydym i gyd wedi sylweddoli bod angen gwella'r brandio hwnnw. Mae'n debyg mai dyma'r ffordd orau o wneud hynny i Gymru yn y byd modern.

On the issue of the joint names, I am pleased that the bid is going forward in the format that it is. There was, for those of us who were involved with the internet bid being formed, an emotive discussion about whether we should have .cymru or .wales. It was difficult, from my point of view, to come down on one side or the other. The research that suggests that consumers tended to favour .cymru, whereas businesses favoured .wales, is interesting. The facts that the bid has been able to go forward and that Nominet has been able to produce that in the form that it has are to be welcomed. When I spoke to it some months back, when it was halfway through this process, it was not entirely sure how that bid could be put together. I know that the time it had was limited, but it has done a great job in putting this forward.

O ran y ddau enw, rwyf yn falch bod y cais yn mynd yn ei flaen yn y fformat hwn. I'r rheini ohonom a fu'n ymwneud â llunio cais y rhyngrwyd, cawsom drafodaeth emosiynol ynglŷn ag a ddylem gael .cymru ynteu .wales. Fe'i cefais i hi'n anodd penderfynu o blaid y naill neu'r llall. Mae'r ymchwil sy'n awgrymu bod defnyddwyr yn tueddu i ffafrio .cymru, tra bo busnesau'n ffafrio .wales yn ddiddorol. Mae'r ffaith bod y cais wedi gallu mynd yn ei flaen a bod Nominet wedi gallu ei gynhyrchu yn y ffurf honno i'w chroesawu. Pan siaradais â'r cwmni ychydig fisoedd yn ôl, pan oedd hanner ffordd drwy'r broses hon, nid oedd yn gwbl sicr sut y gellid llunio'r cais hwnnw. Gwn nad oedd ganddo lawer o amser, ond mae wedi gwneud gwaith da iawn yn cyflwyno hyn.

Finally, other Members have mentioned Nominet, and I think that it is a suitable company for the bid. It is not for profit and, as has been said, has the importance of supporting communities written into its constitution. In addition, I know that it has donated more than £20 million to projects throughout the UK, including a number in Wales. Therefore, I feel able to support all elements of this bid, and it will send a clear message to ICANN—that distant company in America—that there is joint support, not just from the parties here, but also from the Welsh Government and the UK Government, and that really does set the best precedent for this bid to be accepted. I hope that it is successful.

Yn olaf, mae Aelodau eraill wedi crybwyll Nominet, a chredaf ei fod yn gwmni addas ar gyfer y cais. Mae'n gwmni heb fryd ar wneud elw ac, fel y dywedwyd, mae pwysigrwydd cefnogi cymunedau'n rhan o'i gyfansoddiad. Gwn iddo gyfrannu mwy nag £20 miliwn i brosiectau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys nifer yng Nghymru. Felly, rwyf yn teimlo y gallaf gefnogi holl elfennau'r cais hwn, a bydd yn anfon neges glir at ICANN—y cwmni pell hwnnw yn America—bod pawb yn cefnogi'r cais, nid dim ond y pleidiau sydd yma, ond Llywodraeth Cymru hefyd a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae hynny'n wir yn gosod y gynsail orau posibl are gyfer derbyn y cais hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd yn llwyddo.

4.45 p.m.

**Assembly Commissioner (Peter Black):** I am pleased to welcome and support this motion on behalf of the Assembly Commission. I spent an afternoon at the

**Comisiynydd y Cynulliad (Peter Black):** Rwyf yn falch o groesawu a chefnogi'r cynnig hwn ar ran Comisiwn y Cynulliad. Treuliais brynhawn ym mhencadlys Nominet

Nominet headquarters in Oxford, and I have to say that I was impressed by its operation there. In particular, I have confidence that, as ân organisation, it is best placed to take forward the .wales and .cymru domain names. Not only does it have the experience and administrative base for the registration regime required to ensure the success of this proposal, it also has the infrastructure along with the finance and resources necessary to ensure that if ICANN grants the use of .wales and .cymru, as we all hope, it will be able to take those domain names forward and market them successfully across Wales and beyond. All these are important considerations, and when the Government supported the bid, it no doubt took them into account, as I am sure the Minister will make clear when she responds to the debate.

yn Rhydychen, a rhaid imi ddweud i'w waith yno greu argraff arnaf. Yn benodol, rwyf yn ffyddiog mai dyma' r cwmni sydd yn sefyllfa orau i fwrw ymlaen ag enwau parth .cymru a .wales. Nid yn unig y mae ganddo'r profiad a'r sylfaen weinyddol i gynnal y drefn gofrestru a fydd yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y cynnig hwn yn llwyddo, mae ganddo hefyd y seilwaith, ynghyd â'r cyllid a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau, os bydd ICANN yn caniatáu inni ddefnyddio .cymru a .wales, fel yr ydym i gyd yn gobeithio y gwnaiff, y bydd yn gallu bwrw ymlaen â'r enwau parth hynny a'u marchnata'n llwyddiannus drwy Gymru a'r tu hwnt. Mae'r rhain i gyd yn ystyriaethau pwysig, a phan gefnogodd y Llywodraeth y cais, fe ystyriodd y pethau hynny mae'n siŵr, fel yr wyf yn sicr y bydd y Gweinidog yn ei egluro inni wrth ymateb i'r ddadl.

It is also useful that the company has indicated that it will have an office in Wales and that it will distribute any surpluses made to worthy causes here. The fact that it will have an office here means that it is not just the domain names that will be bilingual, but that the service and the registration process will be, too, and people will be able to interact with Nominet in English or Welsh as they choose. That is important.

Mae'n beth da hefyd bod y cwmni wedi dweud y bydd ganddi swyddfa yng Nghymru ac y bydd yn dosbarthu unrhyw warged i achosion teilwng yma. Mae'r ffaith y bydd ganddo swyddfa yma'n golygu nad dim ond yr enwau parth a fydd yn ddwyieithog, ond y bydd y gwasanaeth a'r broses gofrestru'n ddwyieithog hefyd, ac y bydd pobl yn gallu ymwneud â Nominet yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl eu dewis. Mae hynny'n bwysig.

I also think it important that the Commission, as suggested in point 3 of the motion, takes the lead on these domain names. I believe that there is significant demand among the third sector and civic society to use .wales and .cymru, as there is among businesses as well, as Members have mentioned. Nominet’s own research has discovered different types of demand for .cymru and .wales. Clearly, that demand will not be confined within the borders of Wales, and I anticipate that companies with Welsh links in America and elsewhere will make use of those domain names as well.

Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig hefyd i'r Comisiwn, fel yr awgrymwyd ym mhwynt 3 y cynnig, yn arwain o ran yr enwau parth hyn. Credaf fod galw sylweddol ymhlith y trydydd sector a chymdeithas sifil am ddefnyddio .cymru a .wales. Mae'r un galw ymhlith busnesau hefyd, fel y mae'r Aelodau wedi'i grybwyll. Mae ymchwil Nominet ei hun wedi gweld bod gwahanol fathau o alw am .cymru a .wales. Mae'n amlwg na fydd y galw hwnnw'n gyfyngedig i diriogaeth Cymru yn unig, a rhagwelaf y bydd cwmnïau a chanddynt gysylltiadau â Chymru yn America ac mewn mannau eraill yn defnyddio'r enwau perth hynny hefyd.

The Commission supports the Welsh Government’s application to register these top-level domain names, and we are very much interested in moving to use these as and when they become available. To that end, we already have a planning process under way to

Mae'r Comisiwn yn cefnogi cais Llywodraeth Cymru i gofrestru'r enwau parth lefel uchaf hyn, ac mae gennym ddiddordeb mawr mewn defnyddio'r rhain pan fyddant ar gael. At y diben hwnnw, rydym eisoes wedi rhoi proses gynllunio ar waith i ddeall beth y bydd hyn

understand what is involved so that, as soon as is practical after approval, we will be able to use these names. Of course, we have known for some time that we would have to change our e-mail addresses anyway because, as a parliament, effectively, we should not be using .gov.uk, as we are not a government. Part of that move will involve a change of e-mail address for Assembly Members to @assembly.wales or @cynulliad.cymru, as well as changing the domain names for our websites. That move will have to take place, but I am reluctant to drop the .gov.uk at this stage until we have the change in domain name. Changing one's e-mail address once is bad enough, but changing it twice is even worse. Clearly, it is important that we get it right and do it at the right time. However, the opportunity is there, and once we get the go-ahead, we hope to move forward as soon as possible. We will then have to plan not only for the registration of our website address and the change of e-mail addresses, but also for looking again at our branding, our logos, our letterheads and our business cards, so there is a huge administrative burden in the change suggested by the motion.

yn ei olygu, er mwyn inni allu defnyddio'r enwau hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl eu cymeradwyo. Wrth gwrs, rydym yn gwybod ers tro y byddai'n rhaid inni newid ein cyfeiriadau e-bost beth bynnag oherwydd na ddylem ni'r senedd, mewn gwirionedd, fod yn defnyddio .gov.uk, oherwydd nad llywodraeth mohonom. Bydd rhan o'r newid hwnnw'n golygu newid cyfeiriad e-bost Aelodau'r Cynulliad i @cynulliad.cymru, neu @assembly.wales, yn ogystal â newid enwau parth ein gwefannau. Bydd yn rhaid i'r newid hwnnw ddigwydd, ond rwyf yn gyndyn o ollwng y .gov.uk ar hyn o bryd nes bod enw'r parth yn newid. Mae newid cyfeiriad e-bost unwaith yn ddigon drwg, ond mae ei newid ddwywaith yn waeth byth. Mae'n amlwg yn bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn ac yn ei wneud ar yr adeg iawn. Serch hynny, mae'r cyfle yno, ac unwaith y cawn rwydd hynt i fwrw ymlaen, rydym yn gobeithio gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Yna, bydd yn rhaid inni gynllunio nid yn unig ar gyfer cofrestru cyfeiriad ein gwefan a newid cyfeiriadau e-bost, ond hefyd ar gyfer edrych eto ar ein brandio, ein logos, ein penllythyrau a'n cardiau busnes, felly, bydd y newid a awgrymir yn sgil y cynnig yn golygu baich gweinyddol enfawr.

In principle, the Commission is happy to support the motion. However, Members need to understand that it cannot be done overnight, given the issues involved, but the planning is in place and I hope that we can make the transition as painless as possible—certainly less painful than changeovers of the computer systems in previous times.

Mewn egwyddor, mae'r Comisiwn yn hapus i gefnogi'r cynnig. Serch hynny, mae angen i'r Aelodau ddeall na fydd modd gwneud hyn dros nos, ac ystyried yr hyn y mae'n ei olygu, ond mae'r cynllunio ar y gweill, ac rwyf yn gobeithio y gallwn groesi'r bont gyda chyn lleied o boen â phosibl—yn sicr gyda llai o boen na phan newidiwyd systemau cyfrifiadurol yn y gorffennol.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I am very pleased to be debating this subject today, and I am pleased that Plaid Cymru has tabled a motion that I believe we can all support across the Chamber. Unfortunately, that is not the case in respect of two of the amendments.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf yn falch iawn o gael trafod y pwnc hwn heddiw, ac yn falch bod Plaid Cymru wedi cyflwyno cynnig y gallwn i gyd ei gefnogi, mi gredaf, ar draws y Siambr. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir am ddau o'r gwelliannau.

Turning to the amendments from the Liberal Democrats, the UK Government has actually set criteria on the maintenance of the UK brand for delivery of public services, and the reservation of .gov for Government use. The UK Government criteria require us to

A throi at welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn gwirionedd wedi pennu meini prawf ynglŷn â chynnal brand y Deyrnas Unedig ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a chadw .gov at ddefnydd y

maintain the .gov.uk brand for delivery of UK-wide public services and reserve .gov for UK Government use. These reservations were required for the application to proceed to ICANN. Nominet has made a commitment to work with both the UK and Welsh Governments to ensure that the reservations are made, and we will need to evaluate the advantage of these domain names in relation to devolved issues. We will maintain a dialogue with the UK Government on this. Scotland has taken a similar line to ours.

Llywodraeth. Mae meini prawf Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynnu ein bod yn cadw brand .gov.uk ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus y Deyrnas Unedig gyfan a bod .gov yn cael ei neilltuo at ddefnydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd gofyn gwneud hyn er mwyn i'r cais fynd yn ei flaen i ICANN. Mae Nominet wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr enwau hyn yn cael eu neilltuo a bydd angen inni bwyso a mesur mantais yr enwau parth hyn gyda golwg ar faterion sydd wedi'u datganoli. Byddwn yn parhau i drafod hyn â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r Alban wedi dilyn trywydd tebyg i ni.

The same applies in respect of amendment 2, but we will encourage the use of domains where that does not jeopardise the application process itself, which is the key issue for us as a Government. We will maintain our dialogue with the UK Government. It is purely on that basis that I am opposing the amendments from the Liberal Democrats, but I appreciate the contribution made by Eluned Parrott in the wider sense about the importance of domains.

Mae’r un peth yn wir am welliant 2, ond byddwn yn annog defnyddio’r parthau lle na fydd hynny’n peryglu’r broses ymgeisio’i hun, sef y peth pwysicaf i ni'r Llywodraeth. Byddwn yn dal i drafod â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ar y sail honno’n unig yr wyf yn gwrthwynebu’r gwelliannau gan y Democratiaid Cymdeithasol, ond rwyf yn gwerthfawrogi cyfraniad Eluned Parrott yn yr ystyr ehangach am bwysigrwydd parthau.

We will be pleased to support the Welsh Conservatives’ amendment 3. The domain names will also provide a new vehicle for promoting the Welsh language and culture online. The domains will be run on a fully bilingual basis, and a Welsh language scheme will be published in due course. Nominet has also committed to developing a Welsh language scheme and to full compliance with the requirements of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Senior officials from the Department of Education and Skills Welsh language unit have scrutinised this commitment, and are content that the proposals are sufficiently robust with regard to the Welsh language.

Byddwn yn falch o gefnogi gwelliant 3 y Ceidwadwyr. Bydd yr enwau parth hefyd yn cynnig cyfrwng newydd i hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant ar lein. Bydd y parthau’n cael eu cynnal ar sail gwbl ddwyieithog, a chyhoeddir cynllun Iaith Gymraeg maes o law. Mae Nominet hefyd wedi ymrwymo’n llwyr i ddatblygu cynllun iaith Gymraeg ac i gydymffurfio’n llawn â gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae uwch swyddogion uned iaith Gymraeg yr Adran Addysg a Sgiliau wedi craffu ar yr ymrwymiad hwn, ac yn fodlon bod y cynigion yn ddigon cadarn o ran y Gymraeg.

**Peter Black:** With my other hat on, as a Liberal Democrat, I want to say that I understand your reasoning behind rejecting amendment 1, but amendment 2 calls on the Welsh Government to encourage other public bodies to use the new domain names, and I wondered whether you were referring to both amendments or just to amendment 1.

**Peter Black:** A minnau’n gwisgo fy het arall, het Democrat Rhyddfrydol, yr wyf am ddweud fy mod yn deall eich rhesymau dros wrthod gwelliant 1, ond mae gwelliant 2 yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog cyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio’r enwau parth newydd, a thybed a oeddech yn cyfeirio at y ddau welliant ynteu at welliant 1 yn unig.

**Edwina Hart:** I was referring to both amendments at this stage. However, obviously we can look at that at a later stage. I am opposing the amendments today purely in the sense of the advice that I have had regarding the bid.

**Edwina Hart:** Roeddwn yn cyfeirio at y ddau welliant ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'n amlwg y gallwn edrych ar hynny'n ddiweddarach. Yr unig reswm sydd gennyf dros wrthwynebu'r gwelliannau heddiw yw oherwydd y cyngor yr wyf wedi'i gael ynglŷn â'r cais.

As a Government, we have always expressed our support for the two top-level internet domain names for Wales, .wales and .cymru. The organisation responsible for managing these names across the globe is the Internet Corporation of Assigned Names and Numbers, or ICANN, and this year it invited applications for new top-level domains, and, as Members have indicated, a lot of countries and nations, including our own, have taken advantage of that opportunity. It has the potential to transform the online world and presents the opportunity for Wales to secure its own top-level domain. In December 2011, we invited applications from organisations interested in applying for top-level domain names for Wales. As a result of this process, Nominet has submitted applications to ICANN for both .wales and .cymru. I am pleased that we have had that support and was delighted by Simon Thomas's contribution in introducing this debate. He, like other Members, including Peter Black as Commissioner, referred to the excellent work that Nominet was doing as a company, in its approach, the fact that it is a not-for-profit company, and its commitment to Wales. Those are all important issues for us to consider when discussing this particular application.

Rydym ni'r Llywodraeth wedi mynegi ein cefnogaeth erioed i'r ddau barth rhyngrwyd lefel uchaf i Gymru, .cymru a .wales. Y corff sy'n gyfrifol am reoli'r enwau hyn drwy'r byd yw Corfforaeth y Rhyngrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir, neu ICANN, ac eleni, gwahoddodd geisiadau am barthau lefel uchaf newydd. Fel y mae Aelodau wedi awgrymu, mae llawer o wledydd a chenhedloedd, ninnau yn eu plith, wedi manteisio ar y cyfle hwn. Gallai hyn weddnewid y byd ar-lein ac mae'n cynnig y cyfle i Gymru sicrhau ei pharth lefel uchaf ei hun. Ym mis Rhagfyr 2011, gwahoddwyd ceisiadau gan fudiadau a oedd â diddordeb mewn gwneud cais am enwau parth lefel uchaf i Gymru. Yn sgil y broses hon, mae Nominet wedi cyflwyno ceisiadau i ICANN ar gyfer .cymru a .wales. Rwyf yn falch inni gael y gefnogaeth honno ac roeddwn wrth fy modd gyda chyfraniad Simon Thomas yn cyflwyno'r ddadl hon. Cyfeiriodd ef, ac aelodau eraill, gan gynnwys Peter Black ac yntau'n gomisiynydd, at y gwaith rhagorol yr oedd cwmni Nominet yn ei wneud, a'r ffordd y mae'n mynd ati, y ffaith mai cwmni heb fryd ar wneud elw ydyw, a'i ymrwymiad i Gymru. Mae'r rheini i gyd yn faterion pwysig inni eu hystyried wrth drafod y cais arbennig hwn.

ICANN has not yet confirmed the exact timescales for the review of the applications for .wales and .cymru. It is not clear when a decision will be made on the applications. We hope that it will review them and reach a conclusion before the end of 2012, but there is a chance that this will stray into 2013.

Nid yw ICANN wedi cadarnhau eto yr union amserlenni ar gyfer adolygu'r ceisiadau ar gyfer .cymru. a .wales. Nid yw'n glir pa bryd y penderfynir ynglŷn â'r ceisiadau. Gobeithiwn y gwnaiff eu hadolygu a phenderfynu cyn diwedd 2012, ond mae'n bosibl y bydd hyn yn llithro i 2013.

We believe that these top-level domains will bring benefits for the people of Wales. Many Members have alluded to the research that has shown that strong support exists among businesses and consumers in Wales for Welsh top-level domains, and we expect there to be significant business take-up. The

Credwn y bydd y parthau lefel uchaf hyn o fudd i bobl Cymru. Mae llawer o Aelodau wedi crybwyll bod cefnogaeth gref ymhlith busnesau a defnyddwyr yng Nghymru i barthau lefel uchaf i Gymru, ac rydym yn disgwyl y bydd nifer fawr o fusnesau'n manteisio arnynt. Bydd y parthau newydd yn

new domains will be an opportunity for Wales to ensure that we are at the forefront of developments on the internet and to put a flag for us on the online map. We will also be able to use the top-level domains to establish a strong online presence for Wales, which surely affects our national identity, helping to create a distinct Welsh brand online and promote ourselves across the globe.

gyfle i Gymru sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran datblygiadau ar y rhyngrwyd ac inni osod ein baner ar y map ar-lein. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio'r parthau lefel uchaf i sefydlu presenoldeb cryf ar lein i Gymru, sydd yn sicr o effeithio ar ein hunaniaeth genedlaethol, gan ein helpu i greu brand ar-lein unigryw i Gymru ac inni ein hyrwyddo ein hunain ar draws y byd.

Ken Skates alluded to the business and marketing support that might be required by businesses, particularly in the niche markets, and there will be a lot of follow-on work once we have had the establishment of the domain names. Eluned Parrott referred to the branding issues and wanted in due course to be updated on how we are taking issues forward in the Welsh Government. This area is also key to the development of our branding going forward. Nick Ramsay is keen on the branding and the image of Wales and how we can use all our resources to enhance that.

Crybwyllodd Ken Skates at y cymorth busnes a marchnata y gall fod ei angen ar fusnesau, yn enwedig yn y marchnadoedd arbenigol a bydd llawer o waith dilynol ar ôl inni sefydlu'r enwau parth. Cyfeiriodd Eluned Parrott at y materion brandio ac roedd am gael yr wybodaeth ddiweddaraf maes o law am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r materion hyn. Mae'r maes hwn hefyd yn allweddol o ran datblygu ein brandio at y dyfodol. Mae Nick Ramsay yn frwd o blaid y brandio a delwedd Cymru a sut y gallwn ddefnyddio ein holl adnoddau i gryfhau hynny.

Therefore, businesses will be able to strengthen their brand identity in the new social media driven markets and fine-tune their branding strategies to seize these new opportunities. The new domains can help to improve our visibility in search engine results, which, in turn, may help to achieve higher conversions into financial returns for us. We must look at the financial and economic benefits, and both Alun Ffred Jones and Gwyn R. Price referred to the economic benefits that the new domain could bring. Alun Ffred Jones looked particularly at food, tourism, culture, heritage and so on, which are all areas that we will need to look at when we have the new domains.

Felly, bydd busnesau'n gallu cryfhau hunaniaeth eu brand yn y marchnadoedd newydd sy'n cael eu gyrru gan y cyfryngau cymdeithasol a mireinio'u strategaethau brandio er mwyn bachu ar y cyfleoedd newydd hyn. Gall y parthau newydd hyn helpu i'n gwneud yn fwy amlwg mewn canlyniadau chwilota, a all yn ei dro, helpu i sicrhau bod mwy o'r chwiliadau hynny'n troi'n elw ariannol i ni. Rhaid inni edrych ar y buddiannau ariannol ac economaidd a chyfeiriodd Alun Ffred a Gwyn R. Price at y buddiannau economaidd y gallai'r parth newydd eu sicrhau. Edrychodd Alun Ffred Jones yn benodol ar fwyd, twristiaeth, diwylliant, treftadaeth ac ati, ac mae'r rheini i gyd yn feysydd y bydd angen inni eu hystyried pan fydd y parthau newydd gennym.

There will be significant economic benefits to Wales, with Welsh businesses being able to use their online presence to promote themselves globally, using a strong Welsh identity. That strong Welsh identity will help us with a lot of other things as well. The new domains will provide new flexibility, allowing businesses to innovate and diversify online, which are also important. The domain names will be fully bilingual and will provide

Daw hyn â buddiannau economaidd sylweddol i Gymru a bydd busnesau Cymru yn gallu defnyddio'u presenoldeb ar lein i'w hyrwyddo'u hunain drwy'r byd, gan ddefnyddio hunaniaeth Gymreig gref. Bydd yr hunaniaeth Gymreig gref honno'n gymorth inni gyda llawer o bethau eraill hefyd. Bydd y parthau newydd yn cynnig hyblygrwydd newydd gan ganiatáu i fusnesau arloesi ac arallgyfeirio ar lein, sydd hefyd yn bwysig.

a newer vehicle, I believe, for promoting the Welsh language and culture online.

Bydd yr enwau parth yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnig cyfrwng newyddach, mi gredaf, i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant ar lein.

In conclusion, we have had a good discussion today with consensus across the Chamber. We all look forward to the outcome of ICANN's deliberations on these matters. If it would be helpful, I would be more than happy to provide a written statement, perhaps in the autumn, with any update that might be necessary to give or, of course, as usual, to answer any questions in the Chamber.

I gloi, rydym wedi cael trafodaeth dda heddiw a chonsensws ar draws y Siambr. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at ganlyniad trafodaethau ICANN ynglŷn â'r pethau hyn. Petai'n gymorth, byddwn yn fwy na bodlon rhoi datganiad ysgrifenedig, yn yr hydref efallai, gydag unrhyw ddiweddariad y gall fod ei angen neu, wrth gwrs, fel sy'n arferol, ateb unrhyw gwestiynau yn y Siambr.

**Simon Thomas:** I thank everyone for taking part in this debate. To support the words of the Minister, this has been a constructive debate. It has allowed us to come to a view as an Assembly and to hear the supportive words of the Minister in representing the Government. I agree with the Minister's analysis of the amendments. We can tolerate amendment 2, but we want to reject amendment 1, for precisely the reasons that she set out. We support amendment 3 from the Conservatives.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i bawb am gyfrannu at y ddadl hon. Gan ategu geiriau'r Gweinidog, mae'r ddadl hon wedi bod yn un adeiladol. Mae wedi rhoi cyfle inni'r Cynulliad lunio barn a chlywed geiriau cefnogol y Gweinidog wrth iddi gynrychioli'r Llywodraeth. Rwyf yn cytuno â'r ffordd y mae'r Gweinidog yn dadansoddi'r gwelliannau. Gallwn oddef gwelliant 2, ond rydym am wrthod gwelliant 1, am yr union resymau a eglurwyd ganddi. Rydym yn cefnogi gwelliant 3 gan y Ceidwadwyr.

I thought that Eluned Parrott, who is unfortunately no longer in her place, as they say, clearly set out why we could support the move forward today in relation to branding. Alun Ffred Jones was not so keen on the use of the word 'brand' in respect of Wales, and I understand his reluctance, although branding has been a theme. However, if the .wales and .cymru internet domains are set up, it is clear that Welsh speakers on the internet will want to cluster around the use of .cymru in particular, and will want to use it as a way of supporting the use of the Welsh language on the internet. Several Members have set that out, including Suzy Davies and Rhodri Glyn Thomas. This is a growing phenomenon of a minority language making very good use of the internet through social media to support Welsh speakers, not just throughout Wales, but internationally. I can say to Nick Ramsay that support and training is available for those who do not feel competent, although I think that he was referring to internet competence, rather than a more general incompetence. [*Laughter.*] However, he also demonstrated strong support for the use of both domain names and alluded to why that is important.

Credaf i Eluned Parrott, nad yw yn ei lle rhagor yn anffodus, fel y dywedir, ddangos y glir pam y gallem gefnogi camu ymlaen heddiw o ran brandio. Nid oedd Alun Ffred Jones mor frwd o blaid defnyddio'r gair 'brand' yng nghyswllt Cymru, ac rwyf yn deall ei gyndynrwydd, er bod brandio wedi bod yn thema. Serch hynny, os sefydlir parthau rhyngrwyd .cymru a .wales, mae'n amlwg y bydd siaradwyr Cymraeg ar y rhyngrwyd am glystyru o gwmpas defnyddio .cymru yn benodol, a byddant am ei ddefnyddio i ategu defnyddio'r Gymraeg ar y rhyngrwyd. Mae sawl Aelod wedi son am hynny, gan gynnwys Suzy Davies a Rhodri Glyn Thomas. Mae hon yn ffenomen sy'n tyfu- iaith leiafrifol yn defnyddio'r rhyngrwyd mewn ffordd effeithiol iawn drwy'r cyfryngau cymdeithasol i gefnogi siaradwyr Cymraeg, nid dim ond drwy Gymru, ond yn rhyngwladol. Gallaf ddweud wrth Nick Ramsay bod cymorth a hyfforddiant ar gael i'r rheini nad ydynt yn teimlo'n gymwys, er fy mod yn meddwl mai cyfeirio at allu i ddefnyddio'r rhyngrwyd, yn hytrach nag ag anallu mwy cyffredinol yr oedd [*Chwerthin*]. Serch hynny, roedd hefyd yn dangos cefnogaeth gref o blaid

defnyddio'r ddau enw parth gan awgrymu pam mae hynny'n bwysig.

Gwyn R. Price and Ken Skates spoke strongly on the economic benefits that this campaign would bring, and I very much support what they had to say. I was particularly struck by Ken Skates's reference to the amount of Welsh produce being sold by Tesco, and I think that I saw the Deputy Minister for food nodding his head to affirm that. That brought to mind the possibility of linking the marketing of Welsh produce with the internet presence of .wales or .cymru, particularly given the protected geographical indication certification for Welsh produce. You can see how these things happen. Given that we have all started using the internet within our lifetime, we all know how this thing has grown and made connections that we never thought possible. It has developed in such an interactive way. That is the real potential that this has for the use of the Welsh language and the presence of Wales on the internet. As Ken Skates said, it is in the national interest to establish a top-level domain presence for Wales, and this campaign for .wales and .cymru is the best way to reflect that.

Siaradodd Gwyn R. Price a Ken Skates yn gryf am y manteision economaidd a ddeuai yn sgil yr ymgyrch hon, ac rwyf yn gefnogol iawn i'r hyn a ddywedwyd ganddynt. Gwnaeth cyfeiriad Ken Skates at faint o gynnyrch o Gymru sy'n cael ei werthu gan Tesco argraff arbennig arnaf, a chredaf imi weld y Dirprwy Weinidog bwyd yn amneidio i gadarnhau hynny. Cododd hynny'r posibilrwydd o gysylltu marchnata cynnyrch Cymru â phresenoldeb .cymru neu .wales ar y rhyngrwyd, yn enwedig a chofio'r dynodiad daearyddol gwarchodedig sydd gan gynnyrch Cymru. Gallwch weld sut mae'r pethau hyn yn digwydd. Gan ein bod i gyd wedi dechrau defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod ein hoes ni, gwyddom i gyd sut mae'r peth hwn wedi tyfu ac wedi creu cysylltiadau nad oeddem erioed wedi meddwl eu bod yn bosibl. Mae wedi datblygu mewn ffordd mor rhyngweithiol. Dyna'r gwir botensial sydd gan hyn ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a phresenoldeb Cymru ar y rhyngrwyd. Fel y dywedodd Ken Skates, sefydlu presenoldeb parth lefel uchaf i Gymru er lles y genedl, a'r ymgyrch hon o blaid .cymru a .wales yw'r ffordd orau o adlewyrchu hynny.

5.00 p.m.

We tabled this motion for debate today knowing that the Government was in support, but wanting us as an Assembly to show our support as well. ICANN does not just look for Government support, as it also wants to see cultural and group support from representatives of a nation. We represent everyone in Wales: we are elected. By affirming our commitment today, we are able to send that message to ICANN as well. That is why I was particularly pleased that Peter Black, on behalf of the Commission, acknowledged that the Commission would be using these domain names as soon as practicably possible—I accept that it has to be practicable—but we all have to be aware that we are no longer part of Government. This is not a corporate body and .gov.uk is no way of describing Welsh Assembly Members now. This is our opportunity to put ourselves on the map internationally and in internet terms, and to assert our internet presence as a

Cyflwynwyd y cynnig hwn ar gyfer y ddadl heddiw gan wybod bod y Llywodraeth yn gefnogol, ond ei bod yn dymuno i ni'r Cynulliad ddangos ein cefnogaeth hefyd. Nid yw ICANN yn edrych i weld a yw'r Llywodraeth yn gefnogol yn unig, mae am weld cefnogaeth ddiwylliannol a chefnogaeth gan grwpiau sy'n cynrychioli cenedl. Rydym yn cynrychioli pawb yng Nghymru: rydym wedi ein hethol. Drwy gadarnhau ein hymrwymiad heddiw, gallwn anfon y neges honno at ICANN hefyd. Dyna pam roeddwn yn arbennig o falch bod Peter Black, ar ran y Comisiwn, yn cydnabod y byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r enwau parth hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl—rwyf yn derbyn ei bod yn rhaid iddo fod yn ymarferol—ond rhaid inni i gyd fod yn ymwybodol nad ydym bellach yn rhan o'r Llywodraeth. Nid corff corfforaethol yw hwn ac nid yw .gov.uk yn ffordd dda o gwbl o ddisgrifio Aelodau Cynulliad Cymru yn awr.

nation and as an Assembly. I thank all Members for their contributions.

Dyma'n cyfle inni ein rhoi ein hunain ar y map yn rhyngwladol a mynnu presenoldeb ar y rhyngrwyd i ni'r genedl ac i ninnau'r Cynulliad. Diolch i'r Aelodau i gyd am eu cyfraniadau.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I therefore defer all votes on this item until voting time.

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
## Welsh Liberal Democrats Debate

### Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Canser
### National Cancer Delivery Plan

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5001 Aled Roberts*

*Motion NDM5001 Aled Roberts*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd ei Chynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Canser yn:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its National Cancer Delivery Plan will:*

*a) galluogi cynifer o bobl â phosibl i gael triniaeth canser mor agos at eu cartrefi â phosibl;*

*a) enable as many people as possible to receive cancer treatment as close to their homes as possible;*

*b) darparu ar gyfer cymorth i gleifion canser sy'n ei chael yn anodd teithio i'w canolfan driniaeth; ac*

*b) provide for support for cancer patients who struggle to travel to their treatment centre; and*

*c) darparu ar gyfer cyngor ariannol ac ymarferol i ddioddefwyr canser.*

*c) provide for financial and practical advice for cancer sufferers*

.

**Kirsty Williams:** I move the motion.

**Kirsty Williams:** Cynigiaf y cynnig.

A diagnosis of cancer, Deputy Presiding Officer, is never less than devastating, for the individual and for the wider family. Thoughts immediately turn to matters of prognosis, and to matters of life and death, of what treatment options may be available and how quickly that treatment can be accessed. After that, thoughts turn to issues of emotion and, perhaps for some, spirituality; how to tell

Ddirprwy Lywydd, nid yw cael gwybod bod canser arnoch byth yn brofiad llai nag echrydus i'r unigolyn ac i'r teulu ehangach. Bydd meddwl rhywun yn troi ar unwaith at y prognosis ac at faterion sy'n ymwneud a bywyd a marwolaeth, pa opsiynau a all fod ar gael o ran triniaeth a pha mor gyflym y gellir manteisio ar y driniaeth honno. Ar ôl hynny, bydd meddyliau'n troi at faterion emosiynol

loved ones, and how to tell your children; how to keep things as normal as possible when, let us face it, things are far from normal; and how to manage the inevitable anxiety that a diagnosis of this kind brings, and how, in the middle of the night, to bear down on that anxiety when you are so very frightened about what the future brings. For many cancer sufferers in Wales, that anxiety is added to from a somewhat unexpected source, one that is certainly not at the forefront of your mind when you sit in that doctor's room and they deliver the news. That anxiety is of how you cover the costs of your cancer diagnosis.

ac, efallai i rai, at faterion ysbrydol; sut mae dweud wrth anwyliaid, a sut mae dweud wrth eich plant; sut mae cadw pethau mor normal â phosibl a hynny, gadewch inni wynebu'r peth, ar adeg pan fydd popeth ymhell o fod yn normal; a sut mae rheoli'r pryder anochel y mae diagnosis fel hyn yn ei achosi, a sut, yng nghanol y nos, y mae ymdopi â'r pryder hwnnw a chithau'n ofni gymaint beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig. I lawer o bobl sy'n dioddef o ganser yng Nghymru, mae'r pryder hwnnw'n cael ei ddwysáu o ffynhonnell annisgwyl braidd, un sy'n sicr ymhell o fod ar flaen eich meddwl pan fyddwch yn eistedd yn ystafell y meddyg ac yn clywed y newyddion. Y pryder hwnnw yw sut mae talu am gostau eich diagnosis o ganser.

The Welsh Liberal Democrats have long argued for the need for a comprehensive cancer plan for Wales. One of the key elements that we believe should be part of that cancer plan is a comprehensive information and support service for people with a diagnosis of cancer. I know that the Government is now committed to publishing such a cancer plan—the consultation ended in March—and I know that the Minister is close to publishing her plan. I hope that we can use this hour to put a last-ditch bid to ensure that the plan that is published next month will include this vital element of support for cancer patients, because the number of people affected by cancer in Wales is growing. If the trend continues, in 20 years' time, almost 250,000 people will be living with the disease; that is a doubling of the figures that we have at present. While we rightly look at the need to develop, improve and enhance our public health campaigns to reduce cases of cancer in the future, we have to be honest an upfront about the fact that we have a cohort of the current Welsh population that will go on to develop this disease. Those citizens and patients will need our help.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dadlau ers tro bod angen cynllun canser cynhwysfawr i Gymru. Un o'r prif elfennau a ddylai fod yn rhan o'r cynllun canser hwnnw yn ein barn ni yw gwasanaeth gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr i bobl sydd wedi cael gwybod bod canser arnynt. Gwn fod y Llywodraeth yn awr wedi ymrwymo i gyhoeddi cynllun canser o'r fath—daeth yr ymgynghori i ben ym mis Mawrth—a gwn fod y Gweinidog ar fin cyhoeddi ei chynllun. Rwyf yn gobeithio y gallwn ddefnyddio'r awr hon i wneud cais munud olaf i sicrhau bod y cynllun a gyhoeddir fis nesaf yn cynnwys yr elfen gymorth hollbwysig hon i gleifion canser, oherwydd mae nifer y bobl yr effeithir arnynt gan ganser yng Nghymru yn tyfu. Os bydd y duedd yn parhau, ymhen 20 mlynedd, bydd bron 250,000 o bobl yn byw gyda'r clefyd, mae hynny'n ddwbl y ffigurau sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'n iawn inni ystyried yr angen i ddatblygu, gwella a chryfhau ein hymgyrchoedd iechyd cyhoeddus er mwyn lleihau nifer yr achosion canser yn y dyfodol, ond rhaid inni fod yn onest ac yn agored am y ffaith bod gennym garfan o'r boblogaeth bresennol yng Nghymru a fydd yn cael y clefyd hwn. Bydd angen ein help ar y dinasyddion a'r cleifion hynny.

A diagnosis of cancer can be very expensive, and the current pressures come from a variety of sources, as was recently highlighted by Macmillan Cancer Support in its recent publication 'Counting the Cost of Cancer.' It pointed out, first, to a drop in income faced

Gall clywed fod canser arnoch fod yn ddrud iawn a daw'r pwysau ar hyn o bryd o amrywiaeth o ffynonellau, fel y dangosodd Cymorth Canser Macmillan yn ei gyhoeddiad diweddar, 'Cyfri Cost Canser'. Soniodd yn gyntaf am y gostyngiad yn eu hincwm a

by many on diagnosis. Of those that are employed at the point of diagnosis, 43% saw an immediate drop in their income. It is greatest in the first year following that diagnosis, but it can go on beyond that. Average losses in the first year across Wales are some £5,500. That is a very significant amount of money. That is compounded by an increase in costs, the largest of which was found in Macmillan's research to be that of travel. Some 95% of cancer patients responding to its survey found that that they were spending additional resources in this particular area. The cost associated with travel for treatment depends on the nature of your cancer. Breast cancer and leukaemia require more trips to the hospital. Where you live and receive your treatment for cancer also has a huge impact on cost.

wynebir gan lawer wrth iddynt gael diagnosis. O blith y rhai sy'n gyflogedig pan gânt ddiagnosis, gwelodd 43% eu hincwm yn gostwng ar unwaith. Mae'r gostyngiad ar ei fwyaf yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl cael y diagnosis, ond fe all fynd y tu hwnt i hynny. Mae'r colledion ar gyfartaledd yn y flwyddyn gyntaf ledled Cymru oddeutu £5,500. Mae hwnnw'n swm sylweddol iawn. Bydd hynny'n waeth yn sgil cynnydd mewn costau, a'r gost fwyaf a ganfuwyd yn ymchwil Macmillan yw cost teithio. Roedd 95% o gleifion canser a atebodd ei arolwg yn gweld eu bod yn gwario adnoddau ychwanegol yn y maes penodol hwn. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â theithio i gael triniaeth yn dibynnu ar natur eich canser Mae canser y fron a liwcemia'n golygu ei bod yn rhaid teithio'n amlach i'r ysbyty. Mae lle'r ydych yn byw ac yn cael eich triniaeth ar gyfer canser yn cael effaith enfawr ar y gost hefyd.

The report particularly highlighted the plight of citizens living in the county of Powys, who, on average, over a five year period, spent £1,440 simply travelling to get the treatment they needed, which is much higher than the Welsh average. Of course, Powys patients are not the only patients travelling. Patients from west Wales travel to the cancer centre in Swansea, and people in north Wales travel along the A55 to specialist centres in the east. However, travel is not the only cost. Due to the nature of the disease and the treatment, many find that they have to replace the content of their wardrobes, either because they gain a lot of weight, or, more commonly, lose a lot of weight, as a side effect of their treatment.

Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw'n benodol at ddinasyddion sy'n byw yn sir Powys a'r rheini sydd wedi gwario ar gyfartaledd, dros gyfnod o bum mlynedd, £1,440 dim ond ar deithio i gael y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt, sy'n uwch o lawer na chyfartaledd Cymru. Wrth gwrs, nid cleifion Powys yw'r unig gleifion sy'n teithio. Bydd cleifion yn teithio o orllewin Cymru i'r ganolfan ganser yn Abertawe, a bydd pobl yn y gogledd yn teithio ar hyd yr A55 i ganolfannau arbenigol yn y dwyrain. Serch hynny, nid teithio yw'r unig gost. Oherwydd natur y clefyd a'r driniaeth, bydd llawer yn gweld ei bod yn rhaid iddynt gael dillad newydd, naill ai oherwydd eu bod yn magu llawer o bwysau, neu'n fwy cyffredin, yn colli llawer o bwysau, fel un o sgil-effeithiau eu triniaeth.

There are increased bills, including fuel bills. The effects of chemotherapy can make you feel frozen all of the time. Of course, when you are ill you need to stay at home and you need to keep your heating on all day long. Some people will find that they need a new diet and need to spend more of their resources on food. For others, it is the increased cost of keeping in touch with family, whether that be increased telephone calls or internet access. For some, it might be the need simply to have specialist toiletries.

Mae eich biliau'n uwch, gan gynnwys biliau tanwydd. Gall effeithiau cemotherapi olygu eich bod yn rhynnu o hyd. Wrth gwrs, pan fyddwch yn sâl, bydd angen ichi aros gartref, a bydd angen ichi gadw'ch gwres ymlaen drwy'r dydd. Bydd rhai pobl yn gweld bod angen deiet newydd arnynt a bod angen iddynt wario rhagor o'u hadnoddau ar fwyd. I eraill, mae'n fwy costus cadw mewn cysylltiad â'r teulu'n, boed hynny oherwydd cynnydd yn nifer y galwadau ffôn neu gysylltiad â'r rhyngrwyd. I rai, efallai y bydd angen nwyddau ymolchi arbenigol.

There is not a great deal that we can do about some of these things. However, one of the things that we are calling for today in the Liberal Democrat debate is to look to use every opportunity to deliver cancer services as close to people's homes as possible. In some cases, that is impossible. We cannot have, nor would we want, linear accelerators in every hospital, but because of the advances in cancer treatment, more and more people can be treated closer to their homes. For instance, some chemotherapy regimes that were previously delivered intravenously could be delivered by tablets and be taken at home. Some chemotherapy can be delivered at home; I have seen district nurses in Powys do it themselves. Some could be delivered in our network of community hospitals, negating the need to travel to further away district general hospitals. Many of us here will be familiar with the Tenovus mobile unit that can travel around the country and deliver chemotherapy and support services in people's communities—again, significantly reducing the need to travel.

Nid oes llawer y gallwn ei wneud ynglŷn â rhai o'r pethau hyn. Fodd bynnag, un o'r pethau yr ydym yn galw amdano heddiw yn nadl y Democratiaid Rhyddfrydol yw ceisio manteisio ar bob cyfle i ddarparu gwasanaethau canser mor agos ag y bo modd at gartrefi pobl. Mewn ambell achos, mae hynny'n amhosibl. Ni allwn gael, ac ni fyddem am gael, cyflymydd llinellol ym mhob ysbyty, ond, oherwydd bod triniaethau ar gyfer canser yn datblygu, mae'n bosibl trin mwy a mwy o bobl yn nes at eu cartrefi. Er enghraifft, mae modd rhoi rhai mathau o gemotherapi ar ffurf tabledi i'w llyncu gartref yn lle chwistrellu'r cyffur i'r gwythiennau fel y gwneid gynt. Mae'n bosibl darparu rhai mathau o gemotherapi gartref. Rwyf wedi gweld nyrsys ardal ym Mhowys yn rhoi'r cyffuriau hyn i gleifion eu hunain. Gellid darparu rhai triniaethau yn ein rhwydwaith o ysbytai cymunedol, gan olygu na fyddai'n rhaid i bobl deithio ymhellach i ysbytai cyffredinol dosbarth. Bydd llawer ohonom yma'n gyfarwydd ag uned deithiol Tenovus sy'n gallu teithio o gwmpas y wlad a darparu cemotherapi a gwasanaethau cymorth yng nghymunedau pobl—unwaith eto, gan olygu bod llawer llai o angen teithio.

Our motion today also calls for the Government's plan to provide an opportunity for meaningful engagement with the third sector. It is quite clear that, often, our clinicians and even our specialist nurses do not have the time or the resources to talk about some of these wider support issues. However, the third sector has the time and the expertise, and it has the will and the way and the desire to do just that. Macmillan and others have a proud record and history of doing so, but the sector needs to feel an integral part of the team if it is to continue to do that. The third sector needs a clear signal from this Government in the cancer plan that its contribution is needed and valued and will continue to be delivered.

Mae ein cynnig heddiw yn galw hefyd ar i gynllun y Llywodraeth gynnig cyfle i ymgysylltu'n ystyrlon â'r trydydd sector. Mae'n eithaf clir nad oes gan ein clinigwyr na hyd yn oed ein nyrsys arbenigol yr amser na'r adnoddau i siarad am rai o'r materion cymorth ehangach hyn. Serch hynny, mae gan y trydydd sector yr amser a'r arbenigedd, ac mae ganddo'r ewyllys a'r ffordd a'r awydd i wneud yr union beth hwnnw. Mae gan Macmillan ac eraill hanes balch o wneud hynny, ond mae angen i'r sector deimlo'n rhan hanfodol o'r tîm er mwyn iddo barhau i wneud hynny. Mae angen arwydd clir ar y trydydd sector gan y Llywodraeth hon yn y cynllun canser bod angen ei gyfraniad, bod y cyfraniad hwnnw'n cael ei werthfawrogi ac y bydd yn dal i gael ei ddarparu.

Colleagues will touch on other aspects of this important debate, but I hope that, in responding this afternoon, the Minister can give a clear indication that her plans will address this often hidden aspect of a diagnosis of cancer.

Bydd fy nghyd-Aelodau'n crybwyll agweddau eraill ar y ddadl bwysig hon, ond rwyf yn gobeithio, wrth ymateb y prynhawn yma, y gall y Gweinidog roi awgrym clir y bydd ei chynlluniau'n mynd i'r afael â'r agwedd hon ar ddiagnosis o ganser, agwedd sy'n aml ynghudd.

*Gwelliant 1 Jocelyn Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd is-bwynt c)*

*'gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau lles'.*

**Elin Jones:** Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Mae'r cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw yn amserol iawn nid yn unig am fod y Llywodraeth ar fin cyhoeddi ei chynllun canser, ond am fod y materion sydd yn y cynnig hwn yn berthnasol iawn i'r cynlluniau ad-drefnu y bydd y byrddau iechyd yn eu cyhoeddi maes o law.

Efallai fod rhai ohonoch wedi gweld rhaglen *Week In Week Out* neithiwr, a oedd yn canolbwyntio ar wasanaethau'r NHS. Cefais fy nharo gan un fenyw mewn oedran o ardal Llanidloes a oedd yn sôn am ei phrofiad hi o gael gwasanaethau a thriniaethau canser. Yn benodol, cyfeiriodd at y ffaith bod ei harbenigwr hi wedi awgrymu bod angen llawdriniaeth canser arni a bod y llawdriniaeth honno ar gael yn ysbyty Glangwili, ond, os nad oedd am gymryd yr opsiwn hwnnw, byddai triniaeth chemotherapi ar gael iddi yn ysbyty Bronglais. Dywedodd yn glir ar y rhaglen neithiwr ei bod hi wedi penderfynu mynd am y gwasanaeth chemotherapi ym Mronglais am fod Bronglais 30 milltir o'i chartref tra bod Glangwili 70 milltir o'i chartref, er gwaetha'r argymhelliad taw'r llawdriniaeth yn Glangwili fyddai'r driniaeth orau. Nid oedd yn fodlon rhoi'r baich ar ei theulu a'i ffrindiau drwy ddewis y driniaeth yn Glangwili.

Cyn hynny, roedd yn rhaid iddi deithio ar gyfer nifer fawr o apwyntiadau canser. Soniodd yn benodol am gael un apwyntiad am 9 a.m. un bore yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, ddwy awr a hanner o'i chartref. Mae hynny'n dangos rhai o'r problemau yn strwythur NHS o ran lle mae canolfannau arbenigol yn bodoli a'r ffordd maent yn ymdopi ac yn darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw yn bell iawn o'r canolfannau hynny. Nid yw hynny'n golygu nad wyf yn derbyn, wrth gwrs, fod y canolfannau arbenigol yn bwysig iawn; maent yn bodoli

*Amendment 1 Jocelyn Davies*

*Insert at end of sub point c)*

*'including welfare benefit advice'.*

**Elin Jones:** I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

The Liberal Democrat motion today is very timely because not only is the Government about to publish its cancer plan, but it contains issues that are relevant to the reorganisation plans that the health boards will soon be publishing.

Some of you may have seen *Week In Week Out* last might, which focused on NHS services. I was struck by the comments made by one elderly lady from the Llanidloes area about her experience of cancer services and treatment. She referred in particular to the fact that her consultant had recommended surgery for her cancer, which could be carried out at Glangwili hospital, but, if she chose not to take that option, chemotherapy would be available at Bronglais hospital. She stated clearly on the programme last night that she had decided to go for the chemotherapy at Bronglais because Bronglais was only 30 miles from her home while Glangwili was 70 miles from her home, despite the consultant's recommendation that the surgery at Glangwili would be the better treatment for her. She was not prepared to place that burden on her family and friends by choosing the treatment at Glangwili.

Prior to that, she had had to travel for a number of appointments related to her cancer, and she referred specifically to an appointment at 9 a.m. one morning at Withybush General Hospital, two and a half hours from her home. This demonstrates some of the problems within the structure of the NHS in terms of where specialist centres are located and how they deal with providing services to people who live a long distance from those centres. That is not to say that I do not accept, of course, that these specialist centres are extremely important; they do exist

ar hyn o bryd a byddant yno yn y dyfodol. Serch hynny, mae angen sicrhau, fel y dywed y cynnig, fod y triniaethau a'r apwyntiadau monitro ar gael i gleifion yn agosach at eu cartrefi, hynny yw, mewn clinigau cleifion allanol yn agosach at eu cartrefi, a bod cynlluniau trafnidiaeth cefnogol ac ymarferol ar waith er mwyn cludo cleifion i'r ysbyty ac i apwyntiadau yn ôl yr angen. Mae'r sector gwirfoddol yn bwysig iawn yn y maes hwn.

at present and will exist in the future. However, we need to ensure, as the motion sets out, that treatment and monitoring appointments are available closer to patients' homes, in outpatient clinics that are closer to their homes, and that practical transport plans that support patients are put in place in order to transport patients to hospital and to appointments as necessary. The voluntary sector is extremely important in this regard.

Mae ymchwil Macmillan fel rhan o'r ymgyrch Cyfri Cost Canser wedi amcan y costau ychwanegol i ddioddefwyr canser, gan ddangos yn benodol iawn y gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â theithio i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, am y rhesymau yr wyf wedi eu hamlinellu yn barod. Mae'r baich a'r poen meddwl a wynebir gan bobl yn sylweddol iawn ac mae'n bwysig inni gydnabod hynny.

Research conducted by Macmillan as part of the Counting the Cost of Cancer campaign has estimated the additional costs to cancer sufferers, and that specifically shows the additional cost related to travel for people living in rural areas, for the reasons that I have already outlined. The burden and anxiety that people face is very significant and it is important that we recognise that.

Yr wythnos diwethaf, bu imi ymweld â gwasanaeth hosbis yn y cartref yn fy etholaeth i, Ffagl Gobaith, a oedd yn awyddus iawn i ddweud wrthyf i, ac wrth y Gweinidog a'r Cynulliad heddiw, fod dwy elfen i'w gwaith fel hosbis: y gwaith o ddarparu gofal nyrsio yn y cartref, sy'n bwysig iawn; a'r gwaith sy'n cyd-redeg â hynny—gwaith yr oedd y staff yn ei alw'n waith cymdeithasol—sef roi cyngor ariannol yn bennaf i gleifion canser, a'u teuluoedd, sydd llawn mor bwysig.

Last week, I visited a hospice at home service in my constituency, Beacon of Hope, and its representatives were very eager to tell me, and to inform the Minister and the Assembly today, that there are two elements to their work as a hospice: the work of providing nursing care in the home, which is very important; and the work that runs alongside that, which the staff referred to as social work, of giving financial advice to patients with cancer, and their families, which is just as important.

5.15 p.m.

Dyna pam ein bod yn cyflwyno'r gwelliant heddiw i'r cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol, i roi cyngor ariannol, yn enwedig yng nghyd-destun newidiadau i fudd-daliadau. Rydym yn gwybod bod hynny'n bwrw cleifion canser, yn anffodus, ar hyn o bryd. Gobeithiaf y bydd y cynllun canser, pan y'i cyhoeddir, yn ymateb i'r ffaith bod angen ariannu'r claf yn ei gyfanrwydd ac nid ariannu cefnogaeth i'r clefyd yn unig.

That is why we have tabled this amendment to the Liberal Democrat motion in order to provide that financial advice, particularly in the context of changes to benefits. We know that that, unfortunately, is currently impacting cancer patients. I hope that, when it emerges, the cancer plan will respond to the need to fund the patient as a whole and not just fund support for the disease.

*Gwelliant 2 William Graham*

*Amendment 2 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod cleifion yng Nghymru bum*

*Regrets that patients in Wales are five times*

*gwaith yn llai tebygol na'r rheini yn Lloegr o gael cyffuriau canser mwy newydd.*

*less likely to access newer cancer drugs than patients in England.*

*Gwelliant 3 William Graham*

*Amendment 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod 24 o gyffuriau canser modern sydd ar gael yn rheolaidd nawr i gleifion yn Lloegr drwy ddefnyddio Cronfa Cyffuriau Canser Llywodraeth y DU ac yn gresynu nad yw'r rhain ar gael mor rhwydd i gleifion yng Nghymru.*

*Notes that there are 24 modern cancer drugs which are now routinely available to patients in England via the use of the UK Government's Cancer Drugs Fund and regrets that these are less accessible for patients in Wales.*

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa a fydd yn ei gwneud yn haws i gleifion yng Nghymru gael gafael ar driniaethau canser modern.*

*Calls on the Welsh Government to establish a fund which will improve access for Welsh patients to modern cancer treatments.*

*Gwelliant 5 William Graham*

*Amendment 5 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn 2012-13 a oedd yn fwy nag erioed o'r blaen, a bod modd i'r rhain beryglu gweithredu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Canser.*

*Notes the Welsh Government's record-breaking cuts to the Welsh National Health Service in 2012-13 and that these have the potential to jeopardise the implementation of the National Cancer Delivery Plan.*

**Darren Millar:** I move amendments 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

I welcome the opportunity to debate this important subject again today. We have revisited this many times already in this fourth Assembly, and may we continue to do that as we monitor the progress of the national cancer plan once it has been produced and implementation starts. I think that it is right that we are paying this a great deal of attention, because we know that, although survival rates are improving, which is obviously very good news, there is a greater incidence of cancer. We know that improvements can be made and that there is a bit of a postcode lottery when it comes to care, as is the case with the 31-day treatment

**Darren Millar:** Rwyf yn cynnig gwelliant 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod y pwnc pwysig hwn eto heddiw. Rydym wedi dychwelyd at y pwnc hwn droeon eisoes yn y pedwerydd Cynulliad hwn, a boed inni barhau i wneud hynny wrth inni fonitro cynnydd y cynllun canser cenedlaethol ar ôl ei gyhoeddi a dechrau ei roi ar waith. Credaf ei bod yn iawn inni roi llawer o sylw i hyn, oherwydd gwyddom, er bod cyfraddau goroesi'n gwella, sy'n amlwg yn newyddion da iawn, fod nifer yr achosion canser yn cynyddu. Gwyddom fod modd gwella pethau, a bod y gofal a ddarperir yn dipyn o loteri cod post, fel sy'n wir am y targed triniaeth 31 diwrnod ar gyfer mathau penodol o ganser

target for certain cancers in certain parts of Wales. Therefore, there is no doubt that improvements can be made.

mewn rhannau penodol o Gymru. Felly, nid oes amheuaeth nad oes modd gwella pethau.

As organisations like Cancer Research have said, the early diagnosis of cancer is absolutely critical. We must make progress on ensuring that people can be diagnosed as quickly as possible. Kirsty and Elin referred to the fact that we need local access to treatment. That is absolutely right, and I too recall paying a visit to the Tenovus mobile unit, which is absolutely fantastic in the way that it provides for patients. I look forward to being able to welcome that to more locations in north Wales in future.

Fel y mae mudiadau megis Ymchwil Canser wedi dweud, mae cael diagnosis cynnar o ganser yn gwbl hanfodol. Rhaid inni wella pethau o ran sicrhau bod pobl yn medru cael diagnosis cyn gynted ag y bo modd. Cyfeiriodd Kirsty ac Elin at y ffaith bod angen i bobl allu cael triniaeth yn lleol. Mae hynny'n gwbl iawn, ac yr wyf finnau hefyd yn cofio ymweld ag uned deithiol Tenovus, sy'n darparu gwasanaeth rhagorol i gleifion. Edrychaf ymlaen at allu croesawu honno i fwy o leoliadau yn y gogledd yn y dyfodol.

However, we have also seen big advances in cancer treatment in terms of ambulatory care, the acute oncology that is now available and the biomarkers and targeted treatments that enable very tailored and personal treatment services and drug interventions for cancer patients. It is important that we recognise that, with all of those new things coming, there will be a need for the cancer plan to recognise that new modern ways of identifying and treating cancer are upon us.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld datblygiadau mawr wrth drin canser o ran gofal dydd, yr oncoleg aciwt sydd ar gael yn awr a'r bioddangosyddion a'r triniaethau wedi'u targedu sy'n golygu bod cleifion canser yn gallu cael gwasanaethau triniaeth bersonol a chyffuriau sydd wedi'u teilwra'n fanwl iawn ar eu cyfer. Mae'n bwysig inni sylweddoli, a'r holl bethau hynny ar y gweill, y bydd angen i'r cynllun canser gydnabod bod ffyrdd modern newydd ar ein gwarthaf o ran adnabod canser a'i drin.

The role of specialist nurses should not go unrecognised either. I attended the cross-party group on nursing and midwifery last night, and it was very interesting to hear a presentation from a head and neck cancer nurse specialist who talked about her role in offering support and care for cancer patients and their families. The confidence that that can bring to a cancer patient in enabling them to have a positive outlook as far as their treatment is concerned should not be underestimated. I would like to see more nurse cancer specialists across Wales in future.

Rhaid cydnabod rôl nyrsys arbenigol hefyd. Roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth neithiwr, ac roedd yn ddiddorol iawn clywed cyflwyniad gan nyrs canser y pen a'r gwddf yn sôn am ei rôl yn cynnig cymorth a gofal i gleifion canser a'u teuluoedd. Mae'r hyder y gall hynny ei roi i glaf canser o ran ei alluogi i arddel agwedd gadarnhaol at ei driniaeth yn rhywbeth na ddylid ei danystyried. Hoffwn weld rhagor o nyrsys canser arbenigol ledled Cymru yn y dyfodol.

I was pleased that Elin also referred to the importance of the hospices across Wales—hospices at home and the other hospices across the country. We have probably all been to visit hospices that are in our constituencies or local to us. I want to pay tribute to the fantastic work that the hospice movement does across Wales. I particularly want to welcome the continued funding for hospices from the Welsh Government. I just

Roeddwn yn falch o glywed Elin yn cyfeirio hefyd at bwysigrwydd yr hosbisau drwy Gymru—hosbisau yn y cartref a'r hosbisau eraill ar draws y wlad. Mae'n debyg ein bod i gyd wedi ymweld â hosbisau yn ein hetholaethau neu yn ein hardal leol. Rwyf am roi teyrnged i'r gwaith rhagorol y mae'r mudiad hosbisau'n ei wneud ledled Cymru. Rwyf am groesawu'n benodol benderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau i ariannu'r

wish that it was a little bit more in terms of the share of its funding overall.

hosbisau. Bechod na allent gael cyfran ychydig yn fwy o'i harian drwyddi draw.

Obviously, we will be supporting the Welsh Liberal Democrats' motion. Indeed, we will also support the Plaid Cymru amendment. We recognise that there is a cost that people incur when they are diagnosed with cancer, as Macmillan quite rightly points out. It is important that people are given appropriate advice and support to help meet those costs.

Mae'n amlwg y byddwn yn cefnogi cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Yn wir, byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru. Sylweddolwn fod cost i bobl ei hysgwyddo pan gânt wybod bod canser arnynt, ac mae Macmillan yn llygad ei le'n tynnu sylw at hynny. Mae'n bwysig bod pobl yn cael cyngor a chymorth priodol i'w helpu i dalu'r costau hynny.

Turning briefly to our amendments, we have consistently made it absolutely clear that we believe that we need to improve access to modern cancer medicines in Wales. We are the worst nation in the United Kingdom at ensuring that these modern treatments are available to cancer patients, and that is shameful. It is outrageous that people are five times less likely to get access to cancer drugs in Wales than in England and, indeed, that there are now 24 drugs that are routinely available over the border that are not available here in Wales. We know that the Rarer Cancers Foundation has estimated that the cost of establishing a similar fund to the one over the border would be as little as £3 million. Given that the First Minister, in questions only yesterday, dismissed £12.5 million as a small, paltry sum when we talked about the bailout, I think that the Welsh NHS can find £3 million to open up access to these modern treatments.

A throi'n fras at ein gwelliannau, rydym wedi'i gwneud yn gwbl glir yn gyson bod angen inni sicrhau ei bod yn haws i bobl gael gafael ar feddyginiaethau canser modern yng Nghymru. Ni yw'r wlad waethaf yn y Deyrnas Unedig o ran sicrhau bod y triniaethau modern hyn ar gael i gleifion canser, ac mae hynny'n warth. Mae'n gywilyddus bod pobl bum gwaith yn llai tebygol o allu cael gafael ar gyffuriau canser yng Nghymru nag yn Lloegr ac, yn wir, bod 24 o gyffuriau yn awr sydd ar gael fel mater o drefn dros y ffin nad ydynt ar gael yma yng Nghymru. Gwyddom fod y Sefydliad Canserau Prinnach wedi amcangyfrif na fyddai ond yn costio £3 miliwn i sefydlu cronfa debyg i'r gronfa dros y ffin. A chofio bod y Prif Weinidog yn y sesiwn cwestiynau ddoe ddiwethaf wedi dweud, wrth inni drafod yr arian ychwanegol ar gyfer y byrddau iechyd, mai swm bychan, pitw oedd £12.5 miliwn, credaf y gall GIG Cymru ddod o hyd i £3 miliwn i agor y drws ar y triniaethau modern hyn.

Finally, in the short time that I have left, I want to make reference to the fact that the NHS budget, which is under severe pressure and being cut by a record amount in this current financial year, will make it very difficult to successfully implement any new cancer plan. I ask the Minister to reassure us that proper investment will be tied to the cancer plan as it comes forward so that we can monitor effectively its implementation in the future.

Yn olaf, yn y cyfnod byr sydd gennyf ar ôl, yr wyf am gyfeirio at y ffaith bod cyllideb y GIG, sydd o dan bwysau difrifol ac yn cael ei dorri fwy nag erioed yn y flwyddyn ariannol hon, yn golygu y bydd yn anodd iawn rhoi unrhyw gynllun canser newydd ar waith. Gofynnaf i'r Gweinidog dawelu ein meddwl y bydd buddsoddiad priodol ynghlwm wrth y cynllun canser wrth iddo gael ei gyflwyno er mwyn inni allu monitro'i weithredu'n effeithiol yn y dyfodol.

**Eluned Parrott:** It is a matter of deep concern that the prevalence of cancer in Wales is so high. It is also worrying that survival rates are lower than the European average, and that male cancers, in particular,

**Eluned Parrott:** Mae'n destun pryder difrifol bod canser mor gyffredin yng Nghymru. Mae'n destun pryder hefyd bod y cyfraddau goroesi'n is na'r cyfartaledd yn Ewrop, a bod mwy o achosion o ganserau

are more prevalent here than in the rest of the UK. While demographic and historical factors can explain why Welsh people are more likely to develop cancer, they cannot explain why Welsh people are more likely to die from them when they get them than people in other parts of Europe.

dynion, yn benodol, yma nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Er y gall ffactorau demograffig a hanesyddol esbonio pam mae pobl Cymru'n fwy tebygol o gael canser, ni allant esbonio pam mae pobl Cymru yn fwy tebygol o farw ohono ar ôl ei gael, nag y mae pobl mewn rhannau eraill o Ewrop.

I have heard the Minister, on several occasions in the Chamber, telling Members that, in Wales, we spend £4.50 more per head of population on treating cancer than the Department of Health spends in England. Given that, I was baffled as to why our success rate in treating cancer was consistently worse. Therefore, I decided to investigate the figures in more detail; I hope that you will forgive the statistical digest that now follows. Using the Department of Health and Welsh Government statistics, I found the source of this £4.50 figure, and I found that it did not include England's £200 million cancer drugs fund, which is worth approximately £4 per head of population. Why would we not include cancer drugs in the figures for cancer treatment? Is it because England has this fund and Wales does not? I am all for consistency, but treatment is treatment, regardless of budget line. If we include it, of course, the gap is, in fact, more like 50p per head of population. However, as we have already heard, cancer is significantly more prevalent in Wales than England or, to put it simply, we have more patients per head of population than England. Therefore, the amount of funding that is spread across people who do not have cancer really is not relevant here. What matters to people facing cancer and trying to fight it is the availability of treatments to them as patients, as individual human beings.

Rwyf wedi clywed y Gweinidog yn dweud wrth yr Aelodau droeon yn y Siambr ein bod yn gwario £4.50 yn fwy y pen o'r boblogaeth ar drin canser nag y mae'r Adran Iechyd yn ei wario yn Lloegr. Ac ystyried hynny, nid oeddwn yn deall pam yr oedd ein cyfradd llwyddiant yn trin canser yn gyson waeth. Felly, penderfynais ymchwilio'n fwy manwl i'r ffigurau. Rwyf yn gobeithio y maddeuwch i'r crynodeb ystadegol a ganlyn. Gan ddefnyddio ystadegau'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru, cefais hyd i ffynhonnell y ffigur £4.50 hwn, a chanfod nad yw'n cynnwys cronfa cyffuriau canser Lloegr sy'n werth £200 miliwn,, sef oddeutu £4 y pen o'r boblogaeth. Pam na fyddem yn cynnwys cyffuriau canser yn y ffigurau ar gyfer trin canser? Ai oherwydd bod gan Loegr y gronfa hon ac nad oes gan Gymru un? Yr wyf o blaid cysondeb, ond triniaeth yw triniaeth, ni waeth ar ba linell y mae'n ymddangos yn y gyllideb. Os byddwn yn ei gynnwys, wrth gwrs, mae'r bwlch, mewn gwirionedd, yn fwy tebyg i 50c y pen o'r boblogaeth. Serch hynny, fel y clywsom eisoes, mae nifer sylweddol fwy o achosion canser yng Nghymru nag yn Lloegr neu, i'w roi'n syml, mae gennym fwy o gleifion y pen o'r boblogaeth nag sydd gan Loegr. Felly, nid yw'n berthnasol yma mewn gwirionedd faint o arian sydd wedi'i daenu ar draws y bobl hynny nad oes canser arnynt. Yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n wynebu canser ac yn ceisio brwydro yn ei erbyn yw'r triniaethau sydd ar gael iddynt fel cleifion, fel bodau dynol.

Using the same statistics, cancer is 11% more prevalent in Wales than England, although I am aware that other statistics show an even higher prevalence. Again, using the same statistics, you would need to allocate 11% more funding per head of population to equal the funding given to each individual English patient. Minister, you do not do that. Your figure is just 0.5%. When you look at the funding allocated to treat each individual

Gan ddefnyddio'r un ystadegau, mae 11% yn fwy o achosion canser yng Nghymru nag yn Lloegr, er fy mod yn ymwybodol bod ystadegau eraill yn dangos bod y gwahaniaeth yn uwch na hynny. Unwaith eto, a defnyddio'r un ystadegau, byddai angen ichi ddyrannu 11% yn fwy y pen o'r boblogaeth er mwyn i'r arian gyfateb i'r swm sydd ar gael ar gyfer pob claf unigol yn Lloegr. Weinidog, nid ydych yn gwneud

patient, each individual human being, you see that Wales spends nearly £300 less per year than England for every single cancer patient. That is 10% less than England. This consistent focus on the per-head-of-population figure is, at best, misleading, because it masks the fact that, for those people directly involved, there is less money for them personally and less money for their treatment.

hynny. Nid yw eich ffigur chi ond yn 0.5%. Pan edrychwch ar yr arian a ddyrennir i drin pob claf unigol, pob bod dynol unigol, gwelwch fod Cymru yn gwario bron £300 yn llai y flwyddyn nag y mae Lloegr yn ei wario ar bob claf canser unigol. Mae hynny'n 10% yn llai nag yn Lloegr. Mae'r canolbwyntio cyson hwn ar ffigur y pen o'r boblogaeth ar ei orau'n gamarweiniol, oherwydd ei fod yn cuddio'r ffaith, i'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hyn, bod llai o arian ar gael iddynt hwy'n bersonol a llai o arian ar gael ar gyfer eu triniaeth.

Therefore, what is the human face of this deficit in funding? It is fighting tooth and nail, as we heard from Darren Millar just now, to get the drugs that you need to make you better. The Minister may think that we have a system for giving access to new treatments and drugs in the independent patient referral process, but that system is broken.

Felly, beth yw gwedd ddynol y diffyg ariannu hwn? Mae'n golygu ymladd fel llew, fel y clywsom gan Darren Millar gynnau, i gael y cyffuriau y mae eu hangen arnoch i'ch gwella. Efallai y bydd y Gweinidog yn meddwl bod gennym system i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar driniaeth a chyffuriau newydd, sef y broses annibynnol i gyfeirio cleifion, ond mae'r system honno'n deilchion.

In November, I was approached by a gentleman who was fighting to access abiraterone. It was only available on the independent patient referral at that time, although I know that it is now available. You know about this case, Minister, because I corresponded with you on it. We fought, and we got the drug in January, but, by that time, it was too late. While we did the paperwork, his cancer went from treatable to untreatable. When he went to hospital for the treatment that we had fought for and that you had supported, Minister, he was told that it was now too late. He died just two weeks later. Minister, he did not die of cancer; he died of bureaucracy. In the two months that I was writing to you and to the local health board, his cancer was spreading. While we were chasing a decision, he ran out of time. He died, and we cannot bring him back. For each individual patient, this is the single most important battle of their lives. We must focus on each individual patient. They should be battling the cancer, not the paperwork. The system is broken. It is timing people out—it is timing people out of their lives, and that is completely intolerable.

Ym mis Tachwedd, daeth gŵr bonheddig ataf a oedd yn brwydro i gael gafael ar abirateron. Bryd hynny, nid oedd ond ar gael drwy'r drefn annibynnol ar gyfer cyfeirio cleifion, er fy mod yn gwybod ei fod ar gael erbyn hyn. Rydych yn gwybod am yr achos hwn, Weinidog, oherwydd bûm yn gohebu â chi yn ei gylch. Brwydrasom, ac fe gawsom y cyffur ym mis Ionawr, ond, erbyn hynny, roedd yn rhy hwyr. Yn ystod y cyfnod y buom wrthi'n gwneud y gwaith papur, o fod yn ganser y gallesid ei drin, aeth yn ganser nad oedd modd ei drin rhagor. Pan aeth i'r ysbyty i gael y driniaeth roeddem wedi brwydro i'w chael ac yr oeddech chi wedi'i chefnogi, Weinidog, dywedwyd wrtho ei bod yn rhy hwyr erbyn hynny. Bu farw bythefnos wedyn. Weinidog, nid canser a'i lladdodd, ond biwrocratiaeth. Yn ystod y ddau fis pan oeddwn yn ysgrifennu atoch chi, ac at y bwrdd iechyd lleol, roedd ei ganser yn lledaenu. Wrth i ni fynd ar drywydd penderfyniad, daeth ei amser i ben. Bu farw, ac ni allwn ddod ag ef yn ôl. I bob claf unigol, dyma'r frwydr bwysicaf un yn eu bywyd. Dylent fod yn brwydro yn erbyn y canser, nid yn erbyn y gwaith papur. Mae'r system yn deilchion. Bydd bywyd pobl yn dirwyn i ben tra'u bod yn disgwyl, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol.

**Julie Morgan:** Thank you, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak in this important debate. It is important that the Lib Dem motion draws attention to the financial costs that cancer sufferers face and perhaps it is an area that we do not look at often enough. Reference has already been made to Macmillan’s publication of ‘Counting the Cost of Cancer’. Incidentally, the documentation points out that up to 7,000 cancer patients across the UK are likely to lose £94 a week under the welfare benefit cuts that are being introduced by the UK Government in Westminster. We have already heard that cancer patients need additional heating and special diets and may need to travel for treatments, and those costs add up.

**Julie Morgan:** Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, am fy ngalw i siarad yn y ddadl bwysig hon. Mae'n bwysig bod cynnig y Rhyddfrydwyr Democratiaid yn tynnu sylw at y costau ariannol y bydd dioddefwyr canser yn eu hwynebu ac efallai fod hwn yn faes nad ydym yn edrych arno'n ddigon aml. Cyfeiriwyd eisoes at gyhoeddiad Macmillan 'Cyfri Cost Canser'. Gyda llaw, mae'r ddogfennaeth yn dweud bod hyd at 7,000 o gleifion canser drwy'r Deyrnas Unedig yn debygol o golli £94 yr wythnos o dan y toriadau i fudd-daliadau lles a gyflwynir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan. Rydym eisoes wedi clywed bod angen mwy o wres a deiet arbennig ar gleifion canser ac y gall fod gofyn iddynt deithio i gael triniaeth, ac mae'r costau hyn yn pentyrru.

However, we should be grateful that we are living in Wales, because prescriptions are free here. Before free prescriptions were brought in, if you had cancer, you paid for the cancer drugs. That is important, and I am proud and think that it is absolutely right that we have free prescriptions. In addition, let us not forget that we have free parking at hospitals in Wales. We all know what it is like if you have to travel to a hospital on a routine basis for treatment and you have to pay for parking. We all remember what that was like. Now, in Wales, thanks to the Welsh Government, we can park for free. It is important that we remember those two things when we talk about this.

Fodd bynnag, dylem fod yn ddiolchgar ein bod yn byw yng Nghymru oherwydd bod presgripsiynau am ddim yma. Cyn cyflwyno presgripsiynau am ddim, petai canser arnoch, byddech yn talu am gyffuriau at ganser. Mae hynny'n bwysig ac rwyf yn falch ac yn meddwl ei bod yn gwbl iawn inni gael presgripsiynau am ddim. Hefyd, gadewch inni beidio ag anghofio bod gennym barcio am ddim mewn ysbytai yng Nghymru. Rydym i gyd yn gwybod sut beth yw gorfod teithio i'r ysbyty am driniaeth yn rheolaidd a gorfod talu am barcio. Rydym i gyd yn cofio sut beth oedd hynny. Nawr, yng Nghymru, diolch i Lywodraeth Cymru, gallwn barcio am ddim. Mae'n bwysig inni gofio am y ddau beth hynny wrth inni sôn am hyn.

**Kirsty Williams:** As you know, Julie, I spent a great deal of time last year travelling to and from hospital with my father. May I let you know that in both hospitals that he attended, Llanelli’s Prince Philip Hospital and Carmarthen, parking charges are alive and well? You still have to pay for parking at both hospitals when you are getting your cancer treatment.

**Kirsty Williams:** Fel y gwyddoch, Julie, treuliais lawer iawn o amser y llynedd yn teithio i'r ysbyty ac oddi yno gyda fy nhad. Ga'i roi gwybod ichi fod talu am barcio'n fyw ac yn iach yn y ddau ysbyty y bu ef ynddynt, Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli ac yng Nghaerfyrddin? Mae'n rhaid ichi dalu am barcio yn y ddau ysbyty hynny pan fyddwch yn mynd am eich triniaeth ar gyfer canser.

**Julie Morgan:** I know that; it is because the contracts have to run out before parking becomes free. However, eventually all hospital parking will be free and a lot of hospital parking is free now. At Velindre and Llandough, and many other hospitals, it is

**Julie Morgan:** Gwn hynny, oherwydd ei bod yn rhaid i'r contractau ddirwyn i ben cyn y bydd parcio ar gael am ddim. Fodd bynnag, maes o law, bydd parcio am ddim ym mhob ysbyty ac mae'n bosibl parcio am ddim mewn llawer o'n hysbytai eisoes. Yn Felindre a

free. It is important to remember that we are on the road to all hospital parking being free.

Llandochau, ac mewn llawer o ysbytai eraill, mae modd parcio am ddim. Mae'n bwysig cofio ein bod ar drywydd sicrhau bod modd parcio am ddim ym mhob ysbyty.

I wanted to make a few points about the cancer delivery plan. The cross-party group that I chair has written a response to the consultation about the delivery plan. It wanted to raise a few important points on which it is thought that there should be more emphasis in the plan. One was integrating research more closely into the plan. We have talked a lot today about higher education and the importance of research in Wales. It is important that you link clinical trials to existing resources, such as the Wales cancer bank, because it is possible for many patients to go on trials of high-cost cancer drugs, and it is important that we try to ensure that those cancer drug trials are made available as much as possible.

Roeddwn am wneud ambell bwynt am y cynllun cyflawni ar gyfer canser. Mae'r grŵp trawsbleidiol yr wyf yn ei gadeirio wedi ysgrifennu ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cynllun cyflawni. Roedd am godi ambell bwynt pwysig y teimlid y dylid rhoi mwy o bwyslais arno yn y cynllun. Un o'r rheini oedd plethu'r ymchwil yn well â'r cynllun. Rydym wedi sôn llawer heddiw am addysg uwch a phwysigrwydd ymchwil yng Nghymru. Mae'n bwysig ichi gysylltu treialon clinigol ag adnoddau sydd ar gael eisoes, megis banc canser Cymru, oherwydd mae'n bosibl i lawer o gleifion fynd ar dreialon i gael cyffuriau canser drud, ac mae'n bwysig inni sicrhau bod y treialon hynny ar gyfer cyffuriau at ganser ar gael gymaint ag y bo modd.

There was also the fact that there should be even more emphasis on early diagnosis. The point that was raised by the group dealt with treating children and young people, because it usually takes four to five visits to a GP over a six to 12-month period before a diagnosis is made for children. It is not surprising, because GPs so rarely see cancer in children. It is important that they are given the skills to access the proper diagnosis tests.

Roedd y ffaith hefyd y dylid rhoi mwy o bwyslais byth ar ddiagnosis cynnar. Roedd a wnelo'r pwynt a godwyd gan y grŵp â thrin plant a phobl ifanc, oherwydd, fel rheol, bydd angen rhyw bedwar neu bump ymweliad â meddyg teulu dros gyfnod o chwe i 12 mis cyn gwneud diagnosis i blant. Nid yw'n syndod oherwydd anaml iawn y bydd meddygon teulu'n gweld canser ar blant. Mae'n bwysig rhoi'r sgiliau iddynt allu cael gafael ar y profion diagnosis iawn.

There is also the issue of palliative care, which Darren Millar mentioned. I declare an interest as the vice-president of George Thomas Hospice Care. It is important that we integrate palliative care into the delivery plan as well, and I hope that the Minister takes that on board.

Hefyd, mae mater gofal lliniarol, a grybwyllwyd gan Darren Millar. Rwyf yn datgan budd a minnau'n is-lywydd Gofal Hosbis George Thomas. Mae'n bwysig inni blethu gofal lliniarol â'r cynllun cyflawni hefyd, ac rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog ystyried hynny.

I want to emphasise the importance of supporting advances in radiotherapy. We have discussed radiotherapy in the Chamber a few times, and I know that people know how important it is, but we seem to spend an awful lot of time discussing the drugs fund and less time discussing how we can improve treatment for patients through an investment that will help to prevent the cancer at a much earlier stage. Velindre hospital, in my constituency, leads the way in this in Wales.

Rwyf am bwysleisio pwysigrwydd cefnogi datblygiadau ym maes radiotherapi. Rydym wedi trafod radiotherapi yn y Siambr sawl tro, a gwn fod pobl yn gwybod pa mor bwysig yw hyn ond rydym i bob golwg yn treulio llawer iawn o amser yn trafod y gronfa gyffuriau a llai o amser yn trafod sut y gallwn wella'r driniaeth i gleifion drwy fuddsoddi mewn ffordd a fydd yn helpu i atal canser yn gynharach o lawer. Mae ysbyty Felindre, yn fy etholaeth, ar flaen y gad yn

Radiotherapy does treat people with cancer for a relatively low cost and with excellent results. Radiotherapy cures cancer, it is cost-effective and it is cutting-edge. That is an area that we need to put greater emphasis on and look at more intensely.

hyn yng Nghymru. Mae radiotherapi yn trin pobl a chanser arnynt am gost gymharol rad ac mae'r canlyniadau'n rhagorol. Mae radiotherapi'n gwella canser, mae'n gost-effeithiol ac mae'n arloesol. Dyma un maes y mae angen inni roi rhagor o bwyslais arno a'i ystyried yn fwy dwys.

5.30 p.m.

As a final point, it is important that we look at the new system of value-based pricing that is coming in. That is coming in 2014. If handled right, it will bring access to many of the drugs that are being referred to today. It is something that the UK Government is developing, and I think that it is very important that the Minister and the Welsh Government work with the UK Government to ensure that those drugs can be made accessible by bringing the price of them down.

Yn olaf, mae'n bwysig inni edrych ar y system newydd a gyflwynir sef prisio seiliedig ar werth. Daw hynny yn 2014. O'i thrin yn iawn, bydd llawer o'r cyffuriau y cyfeirir atynt heddiw ar gael. Mae'n rhywbeth y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ddatblygu, a chredaf ei bod yn bwysig iawn bod y Gweinidog a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y cyffuriau hynny ar gael drwy ostwng eu pris.

**William Powell:** The report, ‘Counting the costs of cancer’, provides truly alarming reading. Most people who are about to undergo treatment for this devastating disease are rightly focused on the details of their treatment and on the emotional effects of tackling it, as well as on the impact on their family and friends. In such situations, people probably do not think so much about the knock-on effects on other aspects of their life, particularly their finances.

**William Powell:** Mae'r adroddiad 'Cyfri Cost Canser', yn ddigon i ddychryn rhywun o ddifrif. Bydd y rhan fwyaf o'r bobl sydd ar fin cael triniaeth am y clefyd dinistriol hwn wrth gwrs yn canolbwyntio ar fanylion eu triniaeth ac ar effeithiau emosiynol mynd i'r afael â hi, yn ogystal ag ar yr effaith ar eu teulu a'u ffrindiau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, go brin y bydd pobl yn meddwl cymaint am y sgil effaith ar agweddau eraill eu bywyd, yn enwedig ar eu sefyllfa ariannol.

It has already been stated that travel is one of the biggest costs to have an impact on patients. Travel costs can vary considerably across Wales, depending on how far patients live from their treatment centre. For example, in most of south Wales, Macmillan estimates additional costs of between £1,000 and £1,500 over a five-year period, whereas, in rural areas, such as the county of Powys, as has already been emphasised, costs can be as high as £3,000. This makes the work of Tenovus and the recent development of outreach clinics by Velindre hospital, which Julie Morgan has paid tribute to, at Bronllys Hospital and elsewhere very valuable, as they help to drive down additional costs. This is to be welcomed.

Dywedwyd eisoes mai teithio yw un o'r costau mwyaf sy'n effeithio ar gleifion. Gall costau teithio amrywio'n sylweddol o fan i fan yng Nghymru, a dibynnu ymhle y mae cleifion yn byw a'i bellter oddi wrth eu canolfan driniaeth. Er enghraifft, yn y rhan fwyaf o'r de, mae Macmillan yn amcangyfrif bod y costau ychwanegol rhwng £1,000 a £1,500 dros bum mlynedd, ond mewn ardaloedd gwledig, megis yn sir Powys, fel y pwysleisiwyd eisoes, gall y costau fod gyfuwch â £3,000. Mae hyn yn gwneud gwaith Tenovus a datblygu'r clinigau maes yn ddiweddar gan ysbyty Felindre y rhoddodd Julie Morgan deyrnged iddynt, yn ysbyty Bronllys ac ym mhobman arall yn werthfawr iawn, gen eu bod yn help i gadw costau ychwanegol yn is. Mae hyn i'w groesawu.

The issue of transport poverty has been raised previously on many occasions in this Chamber. The need to travel to receive cancer care demonstrates this in a truly stark way. The loss of income suffered by patients undergoing cancer treatment can also vary greatly, depending on where in Wales they live. In Conwy, this loss of income is put at between £14,000 and £15,000 over a five-year period, whereas in the Vale of Glamorgan, it could be as high as £19,000, according to the statistics available to me. Of course, the cost of travelling to and from hospital will vary according to the type of cancer that a patient has. Some forms of cancer, as we have heard, such as breast cancer and leukaemia, might require more routine trips to hospital than other types, and so the cost is commensurately higher.

Mae mater tlodi cludiant wedi'i godi o'r blaen droeon yn y Siambr hon. Mae'r ffaith bod angen i bobl deithio er mwyn cael gofal canser yn dangos hyn yn glir iawn. Gall yr incwm a gollir gan gleifion sy'n cael triniaeth ar gyfer canser amrywio'n fawr hefyd, a dibynnu ym mhle yng Nghymru y maent yn byw. Yng Nghonwy, amcangyfrifir y collir rhwng £14,000 a £15,000 dros gyfnod o bum mlynedd, ond fe allai fod gymaint ag £19,000, yn ôl yr ystadegau sydd ar gael imi. Wrth gwrs, bydd cost teithio i'r ysbyty ac oddi yno'n amrywio yn ôl y math o ganser sydd ar glaf. Efallai, fel yr ydym wedi clywed, y bydd angen mwy o deithiau rheolaidd i'r ysbyty ar gyfer rhai mathau o ganser, megis canser y fron a liwcemia nag ar gyfer mathau eraill, ac felly, mae'r gost gymaint â hynny'n uwch.

It is highly unlikely that patients will have thought about the costs associated with their treatment, and it is even less likely that they will have thought about them in relation to the impact of their particular cancer. For this reason, it is essential that patients are offered a full programme of financial advice and planning. Our motion asks the Government to ensure that its cancer plan recognises this burden on cancer patients and that it therefore provides advice to patients so that these additional costs do not come as a sudden shock later in the treatment. At present, fewer than half of the people surveyed by Macmillan say that they were offered financial support and advice when diagnosed with cancer. Alarmingly, it seems that people over the age of 65 were even less likely to receive such support—only one in three received such advice. This support may not need to be provided by the NHS itself. Doctors could simply signpost patients in the direction of organisations in the voluntary sector and elsewhere that could provide that valuable support.

Mae'n hynod annhebygol y bydd cleifion wedi meddwl am y costau sydd yn gysylltiedig â'u triniaeth, ac mae'n llai tebygol byth y byddant wedi meddwl amdanynt yng nghyswllt yr effaith a gaiff eu canser penodol hwy. Felly, mae'n hanfodol bod cleifion yn cael cynnig rhaglen lawn o gyngor a chynllunio ariannol. Mae ein cynnig yn gofyn i'r Llywodraeth sicrhau bod ei chynllun canser yn cydnabod y baich hwn ar gleifion canser a'i bod felly'n rhoi cyngor i gleifion fel nad yw'r costau ychwanegol hyn yn dod yn sioc sydyn yn ddiweddarach yn ystod y driniaeth. Ar hyn o bryd, llai na hanner y bobl a holwyd gan Macmillan sy'n dweud iddynt gael cymorth a chyngor ariannol pan gawsant wybod bod canser arnynt. Mae'n ddychrynllyd bod pobl dros 65 oed yn llai tebygol byth o gael cymorth o'r fath—dim ond un o bob tri a gafodd gyngor o'r fath. Efallai na fydd angen i'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan y GIG ei hun. Gallai meddygon gyfeirio cleifion at fudiadau yn y sector gwirfoddol ac mewn mannau eraill a allai ddarparu'r cymorth gwerthfawr hwnnw.

Financial advice is not just practical support; it can help to relieve the long-term burden on patients, their families and their friends, and it has the opportunity to greatly improve people’s state of mind. In turn, this can help enormously by enhancing an individual patient’s prospects of a steady recovery without fear of the impact that would have on

Nid dim ond cymorth ymarferol yw cyngor ariannol. Gall helpu i liniaru'r baich tymor hir ar gleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau, ac mae cyfle iddo wella cyflwr meddwl pobl yn fawr. Yn ei dro, gall hyn fod yn gymorth enfawr drwy wella rhagolygon claf unigol am wella'n gyson heb ofni'r effaith a gâi hynny ar eu cyflwr ac ar eu rhagolygon am wella.

their condition and their prospects for recovery.

**Janet Finch-Saunders:** It is no secret that we believe in local, safe and accessible treatment for those suffering with cancer. This is a time when they will be feeling low, demoralised and in very low spirits, so travelling large distances is certainly the last thing on their minds, yet it is another major concern for them and their loved ones. To this end, I welcome the 'Together against Cancer' consultation document and the corresponding plan, and the fact that it includes an aim to make transport to clinics and hospitals as easy as possible. I do have concerns, though, and I wonder whether this document has taken into account the recent decision about the cuts to community transport funding and the bus service operators grant. This is already affecting some of those living in our more rural constituencies, and I wonder whether that has been taken fully into account.

**Janet Finch-Saunders:** Nid yw'n gyfrinach ein bod yn credu mewn triniaeth leol, ddiogel a hygyrch i'r sawl sy'n dioddef o ganser. Mae'n adeg pan fyddant yn teimlo'n isel, yn ddi-hwyl a bydd eu hysbryd yn isel iawn, felly teithio ymhell yw'r peth diwethaf ar eu meddwl yn sicr. Eto i gyd, bydd hyn yn beth mawr arall iddynt hwy a'u hanwyliaid boeni amdano. Felly, rwyf yn croesawu'r ddogfen ymgynghori 'Gyda'n Gilydd yn erbyn Canser' a'r cynllun sy'n cyd-fynd â hi, a'r ffaith mai un o'i nodau yw sicrhau bod cludiant i glinigau ac ysbytai mor rhwydd â phosibl. Serch hynny, rwyf yn poeni am ambell beth, a thybed a yw'r ddogfen hon wedi ystyried y penderfyniad diweddar ynglŷn â'r toriadau ym maes trafnidiaeth gymunedol a'r grant i weithredwyr gwasanaethau bysiau. Mae hyn eisoes yn effeithio ar rai o'r rheini sy'n byw yn ein hetholaethau mwy gwledig, a thybed a yw hynny wedi'i ystyried yn llawn.

I feel also that this debate today must go much deeper, and that the needs of those living with cancer in Wales must be properly dealt with in the national cancer delivery plan. Those charged with delivering treatment to support those suffering with cancer must be fully acknowledged throughout the whole ethos of this particular plan.

Rwyf yn teimlo hefyd ei bod yn rhaid i'r ddadl hon heddiw fynd yn ddyfnach o lawer, a'i bod yn rhaid i'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer canser ymdrin yn iawn ag anghenion y rheini sy'n byw gyda'r clefyd yng Nghymru. Rhaid i'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu triniaeth i gynorthwyo'r sawl sy'n dioddef o ganser gael eu cydnabod yn llawn drwy holl ethos y cynllun penodol hwn.

As has been mentioned, we learned from Macmillan last week that less than one third of over 65s with cancer actually receive any financial support, and the cost of any diagnosis to a patient can be as much as £18,000—a colossal and worrying sum when many more concerns will be heavily weighing on their minds. We learned, too, that 10% of patients newly diagnosed via the urgent suspected cancer route were not seen within the target of 62 days between September and December last year. As has been mentioned, I cannot begin to describe how disgraceful this statistic is. Can you imagine how it must feel to find yourself diagnosed with cancer and not to be called for treatment or support for over two months? Can you imagine the worry, the anxiety and the heartbreak for them and their families?

Fel y crybwyllwyd, dysgasom gan Macmillan yr wythnos diwethaf na chaiff gynifer â thraean y rhai sydd dros 65 oed ac sydd a chanser arnynt unrhyw gymorth ariannol o gwbl mewn gwirionedd, ac y gall cost diagnosis o'r fath i glaf fod gymaint â £18,000—swm aruthrol sy'n ennyn pryder pan fydd llawer mwy o bryderon eisoes yn pwyso'n drwm ar eu meddyliau. Dysgasom hefyd, fod 10% o'r cleifion a oedd newydd gael gwybod bod canser arnynt drwy'r llwybr brys heb gael eu gweld o fewn y targed 62 diwrnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr y llynedd. Fel y crybwyllwyd, ni allaf ddechrau disgrifio pa mor gywilyddus yw'r ystadegyn hwn. A allwch ddychmygu sut mae'n teimlo pan fyddwch yn clywed bod canser arnoch ac eto na chewch eich galw i gael triniaeth neu gymorth am dros ddeufis? A allwch

Just think what that must be like. A target of two months is already too long, but to extend beyond that beggars belief.

ddychmygu'r poen meddwl, y pryder a'r torcalon iddynt hwy a'u teuluoedd? Meddyliwch sut beth yw hynny. Mae targed o ddeufis yn rhy hir eisoes, ond mae ymestyn y cyfnod y tu hwnt i hynny'n anghredadwy.

Earlier this month, the Minister for Health and Social Services spoke in Cabinet about a reduction in admissions to and reliance on hospital beds in district general hospitals, and the role of these hospitals being changed. Just yesterday, when I was here in this Chamber, an e-mail came through to me from a constituent whose operation had been cancelled for a third time due to bed shortages. That was the third time. Today, my office has spoken to a patient who has spent almost four hours in a queue of ambulances at Ysbyty Glan Clwyd this weekend. In addition, we have already seen the closure of some of our local hospitals over the winter. These hospitals must be protected and equipped to enable people to receive vital cancer support and treatment as close to their homes as possible and on a reliable basis.

Yn gynharach y mis hwn, siaradodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cabinet am ostyngiad yn nifer y derbyniadau i welyau ysbytai cyffredinol dosbarth a'r ddibyniaeth arnynt, a newid rôl yr ysbytai hyn. Ddoe ddiwethaf, pan oeddwn yma yn y Siambr hon, cefais neges e-bost gan etholwr yr oedd ei lawdriniaeth wedi'i chanslo am y trydydd tro oherwydd prinder gwelyau. Dyna'r trydydd tro. Heddiw, mae fy swyddfa wedi siarad â chlaf sydd wedi treulio bron pedair awr mewn rhes o ambiwlansiau yn Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos yma. At hynny, rydym eisoes wedi gweld cau rhai o'n hysbytai lleol dros y gaeaf. Rhaid gwarchod yr ysbytai hyn a'u harfogi er mwyn galluogi pobl i gael cymorth a thriniaeth hollbwysig a dibynadwy ar gyfer canser mor agos at eu cartrefi ag y bo modd.

As the consultation document says, the patient must be placed at the centre of arrangements. Furthermore, this must be true for access to cancer drugs, which can currently best be described as a postcode lottery. The Welsh Conservative amendments calling for a fund to improve access for Welsh patients to modern treatment have been passionately argued for since before I even came into this Chamber by my colleagues, including none other than Professor Nick Bourne. The fund was argued for yesterday by the leader of the opposition and today by Darren Millar AM, and others. It is staggering that the Welsh Government can refuse to spend £3 million on this, denying our cancer patients potentially life-extending drugs that are available just across the border.

Fel y dywed y ddogfen ymgynghori, rhaid gosod y claf yng nghanol y trefniadau. At hynny, rhaid i hyn fod yn wir ynglŷn â chael gafael ar gyffuriau at ganser. Ar hyn o bryd, y ffordd orau o ddisgrifio hynny yw loteri cod post. Mae gwelliannau'r Ceidwadwyr Cymreig sy'n galw am gronfa i'w gwneud yn haws i gleifion Cymru gael gafael ar driniaeth fodern wedi bod yn destun dadlau brwd gan fy nghyd-Aelodau, ers cyn imi ddod i'r Siambr hon hyd yn oed, gan gynnwys neb llai na'r Athro Nick Bourne. Ddoe, dadleuwyd o blaid y gronfa gan arweinydd yr wrthblaid a heddiw gan Darren Millar AC, ac eraill. Mae'n syfrdanol bod Llywodraeth Cymru yn gallu gwrthod gwario £3 miliwn ar hyn, gan wadu cyffuriau i'n cleifion canser a allai ymestyn eu bywyd, cyffuriau sydd ar gael yr ochr draw i'r ffin.

The First Minister has previously referred to the £12 million additional funding support to the health boards this year as a small sum. We are proud to support the Rarer Cancers Foundation in calling for improved access to modern treatment, yet this would cost only a quarter of that amount, and has the potential to make a real difference to those living with

Mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio o'r blaen at y cymorth ariannol ychwanegol gwerth £12 miliwn i'r byrddau iechyd eleni a'i alw'n swm bychan. Rydym yn falch o gefnogi'r Sefydliad Canserau Prinnach sy'n galw am wella'r mynediad at driniaeth fodern. Eto i gyd, ni fyddai hyn ond yn costio chwarter y swm hwnnw, ac fe allai wneud gwahaniaeth

cancer. Across the border, where these potentially life-extending treatments are available, they have been complemented by the announcement yesterday of a £60 million funding package for hospices.

go iawn i'r rheini sy'n byw gyda chanser. Dros y ffin, lle mae'r triniaethau hyn a allai ymestyn bywydau pobl ar gael, fe'u hategwyd ddoe wrth gyhoeddi pecyn ariannu gwerth £60 miliwn i hosbisau.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude now, please.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dewch i ben yn awr os gwelwch yn dda.

**Janet Finch-Saunders:** The package is to include support for the provision of transport services and direct outreach support for our people.

**Janet Finch-Saunders:** Bydd y pecyn yn cynnwys cymorth i ddarparu gwasanaethau cludiant ac allgymorth uniongyrchol i'n pobl.

**The Deputy Presiding Officer:** I call Lynne Neagle.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Lynne Neagle.

**Lynne Neagle:** My work in supporting a number of constituents with cancer has meant that the issues around access to specialist cancer treatments are close to my heart. Before I move on to that, I want to touch briefly on the key themes that underpin 'Together against Cancer'. Despite my worries over parity of access to newer cancer treatments, I recognise that it is only one piece in a very complex puzzle. However, ultimately, it is the earlier and better diagnosis, the improved public health and effective prevention that will be the key drivers in bringing those crucial cancer survival rates down in the years ahead.

**Lynne Neagle:** Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn cynorthwyo nifer o etholwyr a chanser arnynt wedi golygu bod y materion sy'n ymwneud â thriniaethau arbenigol ar gyfer canser yn agos at fy nghalon. Cyn imi symud ymlaen at hynny, yr wyf am sôn yn gryno am y prif themâu sy'n sail i 'Gyda'n Gilydd yn erbyn Canser'. Er fy mod yn poeni am degwch y drefn ar gyfer cael gafael ar driniaethau canser mwy newydd, sylweddolaf mai un darn yn unig mewn pos cymhleth iawn yw hwn. Serch hynny, yn y pen draw, cael diagnosis gwell yn fwy cynnar, gwella iechyd cyhoeddus a gwasanaethau atal effeithiol fydd y sbardunau allweddol er mwyn gwella'r cyfraddau goroesi canser hollbwysig hynny yn y blynyddoedd i ddod.

'Together against Cancer' is right to state that we should be striving for cancer survival rates in Wales that are comparable with the best in Europe. However, while I recognise that prevention is better than cure, at the same time, we cannot escape the fact that people with terminal cancer need our support and attention, too. No matter how good we get at detecting and preventing cancer, I will still have constituents coming to me who cannot understand why they are being denied treatment that they have been told that they need by their clinicians and which may be available in England. While I have concerns about this issue, I pay tribute to the Minister for health's willingness to engage with critical voices on this matter, and I was grateful that she agreed to meet me recently, alongside several senior clinicians, to discuss the individual patient funding request process

Mae 'Gyda'n Gilydd yn erbyn Canser' yn iawn yn dweud y dylem fod yn anelu at gyfraddau goroesi canser yng Nghymru sydd gyda'r gorau yn Ewrop. Serch hynny, er fy mod yn sylweddoli ei bod yn well rhwystro'r clwy na'i wella, ar yr un pryd, ni allwn ddianc rhag y ffaith bod angen ein cymorth a'n sylw hefyd ar bobl hynny sy'n dioddef o ganser ac nad oes gwella iddynt. Pa mor dda bynnag y llwyddwn i ganfod ac atal canser, bydd gennyf etholwyr o hyd a ddaw ataf na allant ddeall pam y gwedir triniaeth iddynt, triniaeth y mae eu clinigwyr wedi dweud wrthynt y mae ei hangen arnynt, ac a all fod ar gael yn Lloegr. Er fy mod yn poeni am hyn, rhoddaf deyrnged i'r Gweinidog iechyd am ei pharodrwydd i drafod â'r lleisiau hollbwysig ynglŷn â hyn, ac roeddwn yn ddiolchgar iddi gytuno i gyfarfod â mi'n ddiweddar, ochr yn ochr â sawl uwch

in detail.

glinigydd, i drafod yn fanwl y broses ymgeisio am arian ar gyfer cleifion unigol.

I feel that important opportunities were missed in the recent review into the IPFR and whether or not we should be choosing to follow the same path as England, we could still be doing more to improve the system that we have in Wales. That is not to say that there have not been some positive developments. I welcome the extension of the patient access scheme Wales in relation to access to medicines, which is a sign, I hope, of an improving relationship between the Welsh NHS and the pharmaceutical industry, and which is something that should allow more medicines to be prescribed routinely on the Welsh NHS. I welcome, too, the announcement that the all-Wales medicines strategy group will step-up its fast-track reviews into medicines that have yet to be appraised. That is a really positive step forward.

Teimlaf fod cyfleoedd pwysig wedi'u colli yn yr adolygiad diweddar i'r IPFR ac ni waeth a ddylem fod yn dewis dilyn yr un llwybr â Lloegr neu beidio, gallem fod yn gwneud rhagor o hyd i wella'r system sydd gennym yng Nghymru. Nid yw hynny'n golygu nad oes nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi bod. Croesawaf estyn y cynllun mynediad i gleifion yng Nghymru o ran cael gafael ar feddyginiaethau, sy'n arwydd, gobeithio, bod y berthynas rhwng GIG Cymru a'r diwydiant fferyllol yn gwella. Dylai hyn olygu bod rhagor o feddyginiaethau'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn fel mater o drefn o dan y GIG yng Nghymru. Rwyf yn croesawu hefyd y cyhoeddiad y bydd grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan yn camu ymlaen â'i adolygiadau llwybr carlam o feddyginiaethau sydd heb eu gwerthuso eto. Mae hwnnw'n ddatblygiad gwirioneddol adeiladol.

However, I do not believe that we have moved far enough in terms of bringing greater transparency to the IPFR system—transparency that would help drive out inequalities in access to new cancer treatments that exist in different parts of Wales. Of course I understand that patient confidentiality must be paramount, but I was disappointed when it was announced that the all-Wales statistics will be anonymised to such an extent that direct comparison between different health board areas in Wales will be virtually impossible. It should not be beyond us to find ways of presenting this vital data so that we can hold health boards to account properly for their implementation of the IPFR policy, which is, after all, meant to ensure uniformity of decision making across Wales, particularly given that local accountability is the stated reason for not convening an all-Wales panel to consider IPFRs.

Fodd bynnag, ni chredaf inni symud yn ddigon pell o ran dod â mwy o dryloywder i'r system IPFR—tryloywder a fyddai'n gymorth i ddileu anghydraddoldebau o ran cael gafael ar driniaethau newydd ar gyfer canser sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Wrth gwrs, rwyf yn deall bod sicrhau cyfrinachedd i gleifion yn hollbwysig, ond roeddwn yn siomedig pan gyhoeddwyd y caiff ystadegau Cymru gyfan eu gwneud yn ddienw i'r fath raddau nes y bydd fwy neu lai'n amhosibl cymharu'n uniongyrchol rhwng ardaloedd y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Ni ddylai fod y tu hwnt i'n gallu i ddod o hyd i ffyrdd o gyflwyno'r data hollbwysig hyn er mwyn inni ddal byrddau iechyd yn gyfrifol am y ffordd y maent yn rhoi'r polisi IPFR ar waith. Wedi'r cyfan, bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod y drefn benderfynu drwy Gymru'n unffurf, yn enwedig gan mai atebolrwydd lleol yw'r rheswm a roddwyd am beidio â chynnull panel Cymru gyfan i ystyried IPFRs.

Like everyone with a close interest in this area, I wrestle constantly with the rights and wrongs of this debate—that incredibly tough balance between the rights and needs of individual patients who are suffering and the wider good that states that the NHS has to

Rwyf fi, fel pawb sydd â diddordeb mawr yn y maes hwn, yn ymlafnio'n barhaus â'r hyn sy'n iawn a'r hyn nad yw'n iawn yn y ddadl hon. Mae'n anhygoel o anodd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng hawliau ac anghenion y cleifion unigol sy'n dioddef a'r lles ehangach

work as a whole. I am also mindful of the risk that too much focus on cancer could distract from efforts to tackle other diseases that cause great pain and misery. It would be remiss not to recognise that much of this debate will become moribund as we move rapidly towards the value-based pricing revolution that will inevitably change all the reference points in this debate. These developments are of crucial importance to the Welsh NHS and need full engagement and leadership from the Welsh Government.

sy'n dweud ei bod yn rhaid i'r GIG weithio fel un endid. Rwyf hefyd yn cadw mewn cof y perygl y gallai canolbwyntio gormod ar ganser dynnu sylw oddi ar ymdrechion i fynd i'r afael â chlefydau eraill sy'n achosi poen a diflastod mawr. Rhaid inni sylweddoli hefyd y bydd llawer o'r ddadl hon yn hen stori wrth inni symud yn gyflym tuag at y chwyldro prisio ar sail gwerthoedd a fydd yn anochel yn newid holl bwyntiau cyfeirio'r ddadl hon. Mae'r datblygiadau hyn yn hollbwysig i GIG Cymru ac mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n llawn â hwy a dangos arweiniad.

I do not, for one moment, pretend that any of this is easy and that I have all the answers. However, while it is all very well to draw a line under the cancer drugs fund—and there is no reason why we should be seeking to carbon-copy that policy here in Wales—it is a fact that clinicians in the Welsh NHS will be telling patients that the drugs not available to them would be accessible if they lived over the border in England. I do not blame them for that; they are just being honest and doing their best for their patients. However, we must accept that this will leave Welsh cancer patients feeling a continuing sense of injustice. We must therefore address that.

Nid wyf am un eiliad am esgus bod dim o hyn yn rhwydd na bod gennyf yr holl atebion. Fodd bynnag, popeth yn iawn tynnu llinell o dan y gronfa gyffuriau ar gyfer canser—ac nid oes dim rheswm pam y dylem fod yn ceisio creu copi carbon o'r polisi hwnnw yng Nghymru—mae'n ffaith y bydd clinigwyr yn GIG Cymru yn dweud wrth gleifion y byddai'r cyffuriau nad ydynt ar gael iddynt hwy yma ar gael iddynt petaent yn byw dros y ffin yn Lloegr. Nid wyf yn eu beio am hynny; maent yn bod yn onest ac yn gwneud eu gorau dros eu cleifion. Fodd bynnag, rhaid inni dderbyn y bydd hyn yn gadael cleifion canser Cymru yn teimlo o hyd bod hyn yn anghyfiawn. Rhaid inni felly fynd i'r afael â hynny.

5.45 p.m.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Members for their contributions to this debate on what is always a very emotive subject.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl hon, dadl sy'n ymwneud a phwnc sydd bob tro'n un emosiynol iawn.

Before I respond to the substantive motion, I would like address, once again, the issue of the cancer drugs fund, which the Welsh Conservatives have raised again in their amendments and in the debate. With respect, some people are either being deliberately obtuse or they are choosing to ignore the cold hard facts. The cancer drugs fund in England is worth £600 million over three years. That is £200 million a year for a population of more than 50 million. In Wales, we spend over £70 million a year on drugs for cancer patients for a population of 3 million. Despite what the leader of the opposition said

Cyn imi ymateb i'r cynnig yn ei grynswth, hoffwn roi sylw, unwaith eto, i fater y gronfa gyffuriau ar gyfer canser, pwnc y mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi'i godi eto yn eu gwelliannau ac yn y ddadl. A phob parch, mae rhai pobl naill ai'n bod yn fwriadol ddiddeall neu maent yn dewis anwybyddu'r ffeithiau caled, oer. Mae'r gronfa gyffuriau ar gyfer canser yn Lloegr yn werth £600 miliwn dros dair blynedd. Mae hynny'n £200 miliwn y flwyddyn i boblogaeth dros 50 miliwn. Yng Nghymru, byddwn yn gwario dros £70 miliwn y flwyddyn ar gyffuriau ar gyfer cleifion canser i boblogaeth o 3 miliwn. Er

yesterday in Plenary, the medical director of the NHS in England, Sir Bruce Keogh, has made it clear that the money for this fund comes primarily from clawbacks from primary care trust budgets, not from new money.

gwaethaf yr hyn a ddywedodd arweinydd yr wrthblaid yn y Cyfarfod Llawn ddoe, mae cyfarwyddwr meddygol y GIG yn Lloegr, Syr Bruce Keogh, wedi'i gwneud yn glir bod yr arian ar gyfer y gronfa hon yn dod yn bennaf o'r arian a adfachwyd o gyllidebau ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, ac nad arian newydd mohono.

When you drill down into what is really being spent, as opposed to sitting in a pot, in England the figures are quite shocking. A written answer in the House of Commons on 18 April this year showed that, of the £200 million allocated to the cancer drugs fund in 2011-12, there was an underspend of £150 million. So, last year, in England, only £50 million was spent for a population of more than 50 million people, and it was allocated in such a way that it ensured that it is a huge postcode lottery in England—not in Wales.

Pan edrychwch yn fanwl ar yr hyn sy'n cael ei wario mewn gwirionedd, yn hytrach nag ar yr arian sy'n sefyll mewn pot, mae'r ffigurau yn Lloegr yn eithaf dychrynllyd. Mewn ateb ysgrifenedig yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Ebrill eleni, gwelwyd bod £150 miliwn o'r £200 miliwn a ddyrannwyd i'r gronfa gyffuriau ar gyfer canser yn 2011-12 heb ei wario. Felly, y llynedd, yn Lloegr, dim ond £50 miliwn a wariwyd ar gyfer poblogaeth o dros 50 miliwn o bobl, ac mae'r ffordd y dyrannwyd yr arian hwnnw'n golygu mai yn Lloegr y mae'r loteri cod post enfawr—nid yng Nghymru.

I can assure everyone that all patients in Wales with cancer receive the best evidence-based treatment, as recommended by the all-Wales medical strategy group or the National Institute for Health and Clinical Excellence. I can assure Eluned Parrott that the individual patient funding request is not broken. I looked at the Rarer Cancers Foundation report, which was published in April 2011, entitled, ‘Exceptional Cymru?’ That list had 22 cancer treatments that are not available in Wales; I assume that that is where the Welsh Conservatives got their figure of 24 treatments. Of the 22 cancer treatments on that list, treatment was supported for 14 in Wales and for the remaining 8, no requests for treatment were received. Lynne Neagle knows that I am working very hard to further improve the IPFR, and we need to look at the transparency issue.

Gallaf sicrhau pawb bod pob claf yng Nghymru a chanser arno'n cael y driniaeth orau ar sail tystiolaeth, fel y'i hargymhellir gan grŵp strategaeth feddygol Cymru-gyfan neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Gallaf sicrhau Eluned Parrott nad yw'r drefn ymgeisio am arian i gleifion unigol yn deilchion. Edrychais ar adroddiad y Sefydliad Canserau Prinnach, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2011, o dan y teitl, 'Exceptional Cymru?' Yn y rhestr honno, roedd 22 o driniaethau ar gyfer canser nad ydynt ar gael yng Nghymru; rwyf yn tybio mai o'r fan honno y cafodd y Ceidwadwyr Cymreig eu ffigur o 24 triniaeth. O blith y 22 triniaeth ar gyfer canser sydd ar y rhestr honno, cefnogwyd triniaeth ar gyfer 14 yng Nghymru ac ar gyfer yr 8 arall, ni chafwyd cais am driniaeth. Mae Lynne Neagle yn gwybod fy mod yn gweithio'n galed iawn i wella'r IPFR eto, ac mae angen inni edrych ar fater tryloywder.

Finally, the cancer drugs fund misleads and raises false hopes. NHS Wales supports the use of new and established therapies across all disease categories where there is a proven cost-effective evidence base. *The Lancet* condemns the decision to set up the cancer drugs fund in England, saying that it has undermined the role of NICE—I have no

Yn olaf, mae'r gronfa gyffuriau ar gyfer canser yn camarwain pobl ac yn codi gobeithion ffug. Mae GIG Cymru yn cefnogi defnyddio therapïau newydd a'r rhai sydd wedi cael eu defnyddio ers tro ym mhob categori o glefyd lle y profwyd bod sylfaen dystiolaeth gost-effeithiol ar gael. Mae *The Lancet* yn condemnio'r penderfyniad i

intention of doing that—and describing it as an example of ‘political opportunism and intellectual incoherence’. That description could equally apply to the arguments that we constantly hear from the Welsh Conservatives. I really hope that you pause for thought and that you stop peddling the notion that cancer patients in Wales are disadvantaged when it comes to their treatment, because they clearly are not.

sefydlu'r gronfa gyffuriau ar gyfer canser yn Lloegr, gan ddweud ei bod wedi tanseilio rôl NICE—nid yw'n fwriad gennyf wneud hynny o gwbl—gan ddweud ei bod yn enghraifft o fachu ar gyfle gwleidyddol a diffyg deallusol. Gellid defnyddio'r un disgrifiad ar gyfer y dadleuon y byddwn yn eu clywed o hyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Rwyf yn wir yn gobeithio yr arhoswch i feddwl am funud ac y rhowch y gorau i ledaenu'r syniad bod cleifion canser yng Nghymru o dan anfantais o ran eu triniaeth, oherwydd mae'n amlwg nad ydynt.

I welcome the opportunity to debate the issues around the financial burden placed on people affected by cancer. I support the motion and also Plaid Cymru’s amendment. Putting people at the centre is the key theme of ‘Together against Cancer’. That means meeting their clinical and non-clinical needs. In Wales, we are building on a record of significant success. Survival rates for cancer have improved greatly with more patients surviving for far longer, which means that many patients suffering from cancer now have a chronic condition. Therefore, we need to plan differently around the important issues raised in this debate.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod y materion ynglŷn â'r baich ariannol sydd ar bobl yr effeithir arnynt gan ganser. Rwyf yn cefnogi'r cynnig a gwelliant Plaid Cymru hefyd. Rhoi pobl yn y canol yw prif thema 'Gyda'n Gilydd yn erbyn Canser'. Mae hynny'n golygu diwallu eu hanghenion clinigol ac anghlinigol. Yng Nghymru, rydym yn adeiladu ar sail hanes llwyddiant sylweddol. Mae'r cyfraddau goroesi canser wedi gwella'n fawr a rhagor o gleifion yn byw'n hwy o lawer, sy'n golygu mai cyflwr cronig sydd ar lawer o bobl sy'n dioddef o ganser erbyn hyn. Felly, mae angen inni gynllunio'n wahanol o gwmpas y materion pwysig a godwyd yn y ddadl hon.

Turning to the first part of the motion, I fully agree that as many patients as possible should receive treatment as close to their homes as possible. We are already making progress, laid out in ‘Setting the Direction: Primary and Community Services Strategic Delivery Programme’, and as made clear in the recently published case for change, we must reduce the need for unnecessary hospital care by transforming our services. That can apply to diagnosis and treatment of cancer.

A throi at ran gyntaf y cynnig, rwyf yn cytuno'n llwyr y dylai cynifer o gleifion ag sy'n bosibl gael triniaeth mor agos at eu cartrefi â phosibl. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd, fel y'i disgrifiwyd yn 'Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned: Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi', ac fel y'i gwnaethpwyd yn glir yn y ddadl o blaid newid a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rhaid inni sicrhau bod angen llai o ofal diangen mewn ysbyty drwy weddnewid ein gwasanaethau. Gall hynny fod yn berthnasol i ddiagnosis o ganser a'i drin.

General practitioners play a key part in the early diagnosis of cancer. Wherever possible, the diagnosis needs to be made in primary care without delay or unnecessary hospital appointments. I want cancer treatment, such as chemotherapy services, to be delivered as close to home as possible. Our third sector partners are already helping here. Kirsty Williams referred to Tenovus, for example, which operates mobile services to deliver

Mae meddygon teulu'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau diagnosis cynnar o ganser. Lle bynnag y bo modd, mae angen gwneud y diagnosis hwnnw mewn gofal sylfaenol heb oedi nac apwyntiadau diangen mewn ysbytai. Rwyf am i driniaeth ar gyfer canser, megis gwasanaethau cemotherapi gael eu darparu mor agos at gartrefi pobl ag y bo modd. Mae ein partneriaid yn y trydydd sector eisoes yn cynorthwyo gyda hyn.

chemotherapy or help with the treatment of lymphedema.

Cyfeiriodd Kirsty Williams at Tenovus, er enghraifft, sy'n darparu gwasanaethau cemotherapi teithiol neu gymorth i drin lymffedema.

I also fully support the second part of the motion about support for cancer patients who struggle with travel to their treatment centre. The more specialised cancer services, such as surgery and radiotherapy, will always be provided in centres of excellences, so there will be unavoidable need for some patients to travel, as Elin Jones referred to. It is about the need to ensure that we have the correct transport links in place to assist patients to travel. I work closely with Carl Sargeant on this issue, as we go through the reconfiguration work.

Rwyf hefyd yn llwyr gefnogol i ail ran y cynnig ynglŷn â chymorth i gleifion canser sy'n straffaglu i deithio i'w canolfan driniaeth. Bydd y gwasanaethau canser mwy arbenigol, megis llawfeddygaeth a radiotherapi, bob tro'n cael eu darparu mewn canolfannau rhagoriaeth, felly bydd teithio'n anochel i rai cleifion. Mae a wnelo hyn â'r angen i sicrhau bod gennym y cysylltiadau trafnidiaeth iawn i helpu cleifion i deithio. Rwyf yn gweithio'n glos gyda Carl Sargeant yn y cyswllt hwn, wrth inni fynd drwy'r gwaith ad-drefnu.

In our cancer delivery plan, which I plan to launch next month, we will outline an absolute expectation of NHS bodies to facilitate travel arrangements, working closely with partners, such as the third sector. We are already doing well, but I want us to do more. Kirsty also raised the need for continuing to work closely with the third sector. I was very pleased with how such organisations had such positive inputs into the plan.

Yn ein cynllun cyflawni ar gyfer canser, y bwriadaf ei lansio fis nesaf, byddwn yn cynnwys disgwyliad absoliwt ar i gyrff y GIG hwyluso trefniadau teithio, gan weithio'n glos gyda phartneriaid, megis y trydydd sector. Rydym eisoes yn gwneud yn dda, ond rwyf am inni wneud rhagor. Cododd Kirsty'r ffaith hefyd fod angen parhau i weithio'n glos gyda'r trydydd sector. Roeddwn yn falch iawn o weld pa mor gadarnhaol oedd cyfraniad mudiadau o'r fath i'r cynllun.

I wish to see good practice spread across the NHS in Wales. An example is the work in north Wales on upper gastrointestinal cancer surgery, which has very good travel and accommodation arrangements for both patients and their families. Cancer patients, along with renal dialysis patients, are able to access free transport to hospital for treatment from the Welsh ambulance service.

Rwyf am weld arferion da'n lledaenu drwy'r GIG yng Nghymru. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith yng ngogledd Cymru ar lawfeddygaeth ar gyfer canser uwch gastroberfeddol, lle mae'r trefniadau teithio a llety i gleifion a'u teuluoedd yn dda iawn. Bydd cleifion canser, a chleifion dialysis yr arennau, yn gallu manteisio ar gludiant am ddim i'r ysbyty gan wasanaeth ambiwlans Cymru er mwyn cael triniaeth.

I also agree with the third part of the motion about financial and practical advice. A diagnosis of cancer has a huge personal, social and, often, economic significance for individuals and their families. Cancer poverty is, unfortunately, a consequence for many because of the impact of cancer on their lives. The Macmillan report, ‘Counting the Cost of Cancer’, highlights these problems all too clearly, and I look forward to attending the launch this evening of its scheme to end cancer poverty. This report arrives at a time

Rwyf yn cytuno hefyd â thrydedd ran y cynnig ynglŷn â chyngor ariannol ac ymarferol. Mae cael gwybod bod canser arnoch yn rhywbeth sy'n aml ag arwyddocâd personol, cymdeithasol ac economaidd enfawr i unigolion ac i'w teuluoedd. Yn anffodus, mae canlyniad hyn i lawer fydd tlodi canser oherwydd yr effaith a gaiff canser ar eu bywydau. Mae adroddiad Macmillan, 'Cyfri Cost Canser', yn tynnu sylw at y problemau hyn yn glir iawn, ac rwyf yn edrych ymlaen at fynd i lansio'i

when significant numbers of people in Wales are facing financial hardship, exacerbated by the cuts in welfare benefits by the UK coalition Government. This creates added stress at a time when people need to muster all their strength to fight the disease. Travel, clothing, special food and fuel costs all contribute to the stress and worry of a cancer diagnosis. It is therefore crucial that patients receive the financial advice that they need to access help and ease the burden. This is why we should include how to claim welfare benefits, to which many people affected by cancer are eligible, and that is why I will support Plaid Cymru's amendment.

gynllun heno i roi terfyn ar dlodi canser. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar adeg pan fydd nifer sylweddol o bobl yng Nghymru yn wynebu caledi ariannol, a hynny'n waeth yn sgil toriadau budd-daliadau lles Llywodraeth glymblaid y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn creu rhagor o straen ar adeg pan fydd angen i bobl feithrin eu holl nerth i frwydro yn erbyn y clefyd. Mae costau teithio, dillad, bwyd arbennig a thanwydd i gyd yn cyfrannu at straen a phoen diagnosis canser. Felly, mae'n hollbwysig i gleifion cael y cyngor ariannol sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt gael cymorth a lliniaru'r baich. Dyma pam y dylem gynnwys sut mae hawlio budd-daliadau lles, y mae llawer o bobl y mae canser yn effeithio arnynt yn gymwys i'w cael, a dyna pam y byddaf yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru.

Despite the assistance offered by organisations such as Macmillan and the Welsh NHS, it is a sad fact that many people who need support do not get it until it is too late. Therefore, as much as the Welsh Conservatives disparage them, I know that our policies, as Julie Morgan mentioned, such as free prescriptions and free hospital car parking, are helping to reduce costs for people affected by cancer and their families. Cancer patients on certain welfare benefits are able to claim back some travel costs.

Er gwaethaf y cymorth a gynigir gan gyrff megis Macmillan a GIG Cymru, mae'n ffaith drist nad yw cynifer o bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt nes iddi fod yn rhy hwyr. Felly, gymaint ag y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn eu difrïo, gwn fod ein polisïau, fel y crybwyllwyd gan Julie Morgan, megis presgripsiynau am ddim, a pharcio am ddim mewn ysbytai, yn gymorth i leihau'r costau i bobl y mae canser yn effeithio arnynt, a'u teuluoedd. Bydd cleifion canser sy'n cael rhai budd-daliadau lles penodol yn gallu adhawlio rhywfaint o'u costau teithio.

We must routinely signpost people to information. When a person with cancer diagnosis has a key worker working alongside them, they will have a pivotal role in raising awareness and signposting available help and support.

Rhaid i'r drefn arferol gynnwys cyfeirio pobl at wybodaeth. Pan fydd rhywun wedi cael gwybod bod canser arno a bod ganddo weithiwr allweddol yn gweithio ochr yn ochr ag ef, bydd gan y gweithiwr hwnnw rôl hollbwysig sef codi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael a chyfeirio'r claf atynt.

It has been useful today to clarify the Welsh Government's policy position in relation to the national cancer delivery plan and to reaffirm our commitment to ensuring that cancer patients in Wales receive the best and most appropriate treatment and care, comparable with the best in Europe.

Bu'n fuddiol heddiw inni egluro safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer canser ac ategu ein hymrwymiad i sicrhau bod cleifion canser yng Nghymru yn cael y driniaeth a'r gofal gorau a mwyaf priodol sydd gyda'r gorau yn Ewrop.

**Aled Roberts:** I thank Members for their contributions to the debate today. It is timely that we have had the opportunity to discuss

**Aled Roberts:** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl heddiw. Mae'n adeg dda inni gael y cyfle i drafod y materion, ac yn

the issues and, more importantly, for individual Members—Kirsty Williams, Elin Jones and Darren Millar—to remind us of the real problems that people face, particularly in rural communities, as outlined in the Macmillan report.

anad dim, i Aelodau unigol—Kirsty Williams, Elin Jones a Darren Millar—ein hatgoffa am y problemau gwirioneddol y bydd pobl yn eu hwynebu, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, fel y nodwyd yn adroddiad Macmillan.

Eluned Parrott brought emotion to the subject. Each and every one of us have experience of people going through traumatic experiences in their lives and who face real issues with regard to their ability to receive treatment.

Daeth Eluned Parrott ag emosiwn i'r pwnc. Mae gan bob un ohonom brofiad o bobl yn cael profiadau trawmatig yn eu bywydau ac yn wynebu anawsterau gwirioneddol o ran gallu cael triniaeth.

I say to Julie Morgan that we certainly support value-based pricing and see it as a long-term solution to some of the drugs access issues, as well as developments in personalised treatment. However, we need to ensure that the system that the Government operates works more effectively and efficiently than is currently the situation. We would all accept that we should not be satisfied where we know that things could work better.

Dywedaf wrth Julie Morgan ein bod yn sicr yn cefnogi prisio ar sail gwerth ac yn ei weld yn ateb tymor hir i rai o'r anawsterau sydd ynghlwm wrth gael gafael ar gyffuriau, yn ogystal ag o ran datblygiadau sy'n teilwra'r driniaeth yn fwy ar gyfer yr unigolyn. Serch hynny, mae angen inni sicrhau bod y system y mae'r Llywodraeth yn ei gweithredu'n gweithio'n fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon nag y mae ar hyn o bryd. Byddem i gyd yn derbyn na ddylem fod yn fodlon a ninnau'n gwybod y gallai pethau weithio'n well.

We need a strategy for introducing more than just new drugs, because that is not the issue. I remember attending, with Julie, the Velindre presentation, which outlined the need to understand how new technologies will be introduced, such as advanced radiotherapy, which you referred to in comments today.

Nid dim ond strategaeth ar gyfer cyflwyno cyffuriau newydd sydd ei angen arnom, oherwydd nid dyna'r broblem. Rwyf yn cofio mynd i gyflwyniad Felindre gyda Julie, lle y soniwyd bod angen deall sut y caiff technolegau newydd eu cyflwyno, technolegau megis radiotherapi datblygedig, y cyfeiriwyd atynt gennych yn eich sylwadau heddiw.

William Powell recognised the work of the outreach clinics, which are being operated in very rural locations and which address the third element of our motion, namely the need for people to be signposted to financial advice provided, in the main, by the third sector. Janet Finch-Saunders reminded us that it is perhaps not solely the responsibility of the Minister for health. There are real problems with regard to the reconfiguration proposals in rural areas in north Wales and in the Hywel Dda Local Health Board area in particular. Decisions taken by other Ministers, such as with regard to transport issues, have an impact. I was reassured that the Minister indicated that those discussions will take place with the Minister for Local Government and Communities in light of the

Roedd William Powell yn cydnabod gwaith y clinigau maes, sy'n ymweld â'r ardaloedd gwledig iawn, ac sy'n mynd i'r afael â thrydedd elfen ein cynnig, sef bod angen cyfeirio pobl at y cymorth ariannol a ddarperir, a hynny'n bennaf gan y trydydd sector. Cawsom ein hatgoffa gan Janet Finch-Saunders nad cyfrifoldeb y Gweinidog iechyd yn unig yw hyn o bosibl. Mae problemau gwirioneddol ynghlwm wrth y cynlluniau ad-drefnu ar gyfer ardaloedd gwledig y gogledd ac yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn benodol. Mae penderfyniadau Gweinidogion eraill, megis rhai ynglŷn â thrafnidiaeth, yn effeithio ar hyn. Tawelwyd fy meddwl o glywed y Gweinidog yn dweud y cynhelir y trafodaethau hynny gyda'r Gweinidog

recommendations that will be coming forward.

Llywodraeth Leol a Chymunedau yng ngoleuni'r argymhellion a gynigir.

I welcome the Minister’s overall positive response to the motion. Despite obvious differences with regard to the cancer drugs fund, we have to accept that 10,000 patients in England who would not otherwise have been treated have been treated since the provision of the fund. Minister, if you and the Government are not persuaded about the introduction of the fund in Wales, will you have regard to the comments that you heard from various Members, including Lynne Neagle on your own benches, this afternoon that there is some frustration about the operation of the Welsh system currently? This is not only on the part of those who feel that they are being denied treatment but on the part of those working in the system. The Rarer Cancers Foundation says that the fund has put patients and doctors at the heart of decision making. It believes that it has transformed the way in which patients are able to access clinically effective cancer treatments. It is also worth noting that, despite your quotations from *The Lancet*, the fund is supported by Cancer Research UK, because it believes that it allows patients to access medicines that would not otherwise be available.

Rwyf yn croesawu ymateb cadarnhaol y Gweinidog i'r cynnig yn gyffredinol. Mae'n amlwg bod gwahaniaethau amlwg o ran y gronfa gyffuriau ar gyfer canser, rhaid inni dderbyn bod 10,000 o gleifion yn Lloegr na fyddent wedi cael triniaeth fel arall, wedi cael triniaeth ers darparu'r gronfa. Weinidog, os nad ydych chi a'r Llywodraeth wedi'ch darbwyllo i gyflwyno'r gronfa yng Nghymru, a wnewch roi sylw i'r sylwadau a glywsoch gan wahanol Aelodau, gan gynnwys Lynne Neagle ar eich meinciau chi'ch hun, y prynhawn yma, fod rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â'r ffordd y gweithredir system Cymru ar hyn o bryd. Nid dim ond y rheini sy'n teimlo bod triniaeth yn cael ei gwadu iddynt sy'n anfodlon ond hefyd y rheini sy'n gweithio yn y system. Dywed y Sefydliad Canserau Prinnach fod y gronfa wedi rhoi cleifion a meddygon wrth wraidd y penderfyniadau. Mae'n credu ei bod wedi gweddnewid gallu cleifion i fanteisio ar driniaethau clinigol effeithiol ar gyfer canser. Mae'n werth nodi hefyd, er gwaethaf eich dyfyniadau o *The Lancet*, bod Ymchwil Canser y Deyrnas Unedig yn cefnogi'r gronfa am ei fod yn meddwl ei fod yn rhoi cyfle i gleifion gael gafael ar feddyginiaethau na fyddent ar gael iddynt fel arall.

I accept that you seek to reassure us about the procedures that are already in place to provide advice to patients. That may be true, but we are also concerned that current provision in Wales is not as universal as it should be. As Macmillan points out in the report, fewer than half of cancer patients say that they were offered financial advice, even though we are told that that is currently in place. Only a third of patients over 65, who may be in greater need of financial advice than others, say that they were offered that advice within the service. Therefore, clearly, whatever procedures or guidance are in place at the moment, there are places where it is not working effectively enough. I accept that it would be up to local health boards to develop plans for new equipment or advice services, but local health boards operate under your guidance as Minister for health. In moving towards this national cancer plan, we need to ask you to ask the local health boards to do

Rwyf yn derbyn eich bod yn ceisio tawelu ein meddwl am y gweithdrefnau sydd eisoes ar waith i roi cyngor i gleifion. Efallai fod hynny'n wir, ond rydym yn poeni hefyd nad yw'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gael i'r un graddau ym mhobman fel y dylai fod. Fel y dywed Macmillan yn yr adroddiad, llai na hanner y cleifion sydd yn dioddef o ganser sy'n dweud iddynt gael cynnig cyngor ariannol, er inni glywed bod y cyngor hwnnw ar gael. Dim ond un claf o bob tri dros 65 oed, ac efallai mai ar y rhain y mae angen cyngor ariannol yn fwy na neb, sy'n dweud iddynt gael cynnig y cyngor hwnnw o fewn y gwasanaeth. Felly, mae'n amlwg, pa weithdrefnau neu ganllawiau bynnag sydd ar waith ar hyn o bryd, nad yw'r drefn yn gweithio'n ddigon effeithiol ym mhobman. Rwyf yn derbyn mai gwaith byrddau iechyd lleol fyddai datblygu cynlluniau ar gyfer offer newydd neu wasanaethau cynghori, ond bydd y byrddau iechyd lleol yn gweithredu ar sail

everything that they can to ensure universal provision and delivery of the plan. As a Government, you can intervene or direct local health boards as and when you see fit, and you quite often do this.

eich cyfarwyddyd chi, a chithau'n Weinidog iechyd. Wrth symud tuag at y cynllun canser cenedlaethol hwn, mae angen i ni ofyn i chi ofyn i'r byrddau iechyd lleol wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod yr un ddarpariaeth ar gael a'r cynllun yn cael ei gyflawni ym mhobman. Gallwch chi'r Llywodraeth ymyrryd neu roi cyfarwyddyd i fyrddau iechyd lleol fel y gwelwch yn dda, a byddwch yn aml iawn yn gwneud hyn.

At the end of the day, it is a matter of political priority whether the Government directs local health boards to do a certain thing. This afternoon, in welcoming the fact that you will be issuing the national cancer plan, we ask you to give local health boards that sense of direction. You need to show them that it is one of your priorities as the Welsh Government.

Yn y pen draw, blaenoriaeth wleidyddol sy'n penderfynu a wnaiff y Llywodraeth gyfarwyddo byrddau iechyd lleol i wneud rhywbeth penodol. Y prynhawn yma, gan groesawu'r ffaith y byddwch yn cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer canser, gofynnwn ichi ddangos y ffordd i'r byrddau iechyd lleol. Mae angen ichi ddangos iddynt mai dyma un o'ch blaenoriaethau chi, Lywodraeth Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Voting time will now follow. Before we proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Awn rhagom i bleidleisio yn awr. Cyn inni fwrw ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno imi ganu'r gloch? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.*
*Votes deferred until voting time.*

6.00 p.m.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM4998: O blaid 13, Ymatal 0, Yn erbyn 44.*
*Motion NDM4998: For 13, Abstain 0, Against 44.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark

Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.*
*Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4998: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Amendment 1 to NDM4998: For 39, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4998: O blaid 34, Ymatal 10, Yn erbyn 13.*
*Amendment 2 to NDM4998: For 34, Abstain 10, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM4998: O blaid 56, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3 to NDM4998: For 56, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David

Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM4998: O blaid 5, Ymatal 13, Yn erbyn 39.*
*Amendment 4 to NDM4998: For 5, Abstain 13, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Sargeant, Carl
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Hart, Edwina
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Griffiths, John
Davies, Jocelyn
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Elin
Jones, Alun Ffred
Thomas, Gwenda
Davies, Alun
Cuthbert, Jeff
Mewies, Sandy
Hedges, Mike
Chapman, Christine
Davies, Keith
James, Julie
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Wood, Leanne
Gruffydd, Llyr Huws
Whittle, Lindsay
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Rees, David
Morgan, Julie
Skates, Kenneth
Antoniw, Mick
Gething, Vaughan
Watson, Joyce
Jones, Ann
Evans, Rebecca
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Drakeford, Mark
Price, Gwyn R.

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela

Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4998 fel y'i diwygiwyd:

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi bod:*

*a) 40% o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol uwchradd ag oed darllen sydd o leiaf chwe mis yn is na'u hoed cronolegol, yn ôl Adroddiad Blynyddol Estyn 2010/2011;*

*b) perfformiad Cymru yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) 2009 yn is o lawer na gwledydd eraill y DU;*

*c) dirywiad wedi bod yn nifer y disgyblion yng Nghymru sy'n cyflawni'r graddau uchaf mewn arholiadau Safon Uwch;*

*d) perfformiad mewn arholiadau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru yn waeth nag yn Lloegr; ac*

*e) ar hyn o bryd nad oes dim Prifysgolion o Gymru yn rhestr y Times o'r 200 o'r sefydliadau addysg uwch gorau yn y byd er bod 27 o Loegr a 5 o'r Alban.*

*2. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei chyllidebau addysg yn effeithiol i godi safonau yn system addysg Cymru.*

*3. Yn annog Llywodraeth Cymru i amlinellu sut y caiff gwariant addysg ei fonitro i sicrhau bod adnoddau, pan fo'n bosibl, yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n cyflenwi gwasanaethau'n uniongyrchol i ddysgwyr.*

*4. Yn croesawu'r grant amddifadedd disgyblion sydd wedi'i anelu at wella*

Motion NDM4998 as amended:

*The National Assembly for Wales:*

*1. Notes that:*

*a) forty per cent of pupils start secondary school with a reading age at least six months below their chronological age, according to Estyn's Annual Report 2010/2011;*

*b) Welsh performance in the 2009 Programme for International Student Assessments (PISA) was significantly below that of other UK nations;*

*c) there has been a decline in the number of pupils in Wales achieving top grades at A Level;*

*d) performance in GCSE and A Level examinations in Wales is worse than in England; and*

*e) there are presently no Welsh Universities in the World Top 200 Times Higher Education Rankings 2011/12, whereas there are 27 from England and 5 from Scotland.*

*2. Regrets that the Welsh Government has not effectively utilised its education budgets to drive up standards in the Welsh educational system.*

*3. Urges the Welsh Government to outline how education expenditure is monitored to ensure resources, where possible, are focussed on activities which deliver services directly to learners.*

*4. Welcomes the pupil deprivation grant which is aimed at improving the educational*

*cyrhaeddiad addysgol disgyblion difreintiedig.*

*attainment of disadvantaged pupils.*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwario'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei fonitro'n effeithiol er mwyn iddo gyflawni gwelliannau mewn cyrhaeddiad.*

*5. Calls on the Welsh Government to ensure that spending of the pupil deprivation grant is effectively monitored so that it delivers improvement in attainment.*

*Cynnig NDM4998 fel y'i diwygiwyd: O blaid 14, Ymatal 13, Yn erbyn 29.*
*Motion NDM4998 as amended: For 14, Abstain 13, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Gwrthodwyd cynnig NDM4998 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4998 as amended not agreed.*

*Cynnig NDM5000: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 18.*
*Motion NDM5000: For 39, Abstain 0, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Cynnig NDM5001: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 22.*
*Motion NDM5001: For 35, Abstain 0, Against 22.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Byron
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William

Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Will those Members who are leaving the Chamber for the next item, please do so quickly and quietly?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n ymadael â'r Siambr cyn yr eitem nesaf wneud hynny'n gyflym ac yn dddistaw?

## Dadl Fer
## Short Debate

### Blaenoriaeth i Blismona
### Policing is a Priority

**Y Dirprwy Lywydd:** Symudwn yn awr at y ddadl fer, a galwaf ar Keith Davies i siarad am y pwynt y mae wedi'i ddewis.

**The Deputy Presiding Officer:** WE now move to the short debate, and I call on Keith Davies to speak on his chosen subject.

**Keith Davies:** Siaradaf yn Saesneg y prynhawn yma.

**Keith Davies:** I will speak in English this afternoon.

I am glad of this opportunity today to discuss the future of policing in Wales. I have agreed for Joyce Watson, Rebecca Evans, Simon Thomas, Byron Davies and Peter Black to have a minute each in which to contribute.

Rwyf yn falch o'r cyfle heddiw i drafod dyfodol plismona yng Nghymru. Rwyf wedi cytuno i Joyce Watson, Rebecca Evans, Simon Thomas, Byron Davies a Peter Black gael munud yr un i gyfrannu.

Let us look at the background to what we are facing. On a like-for-like basis, the Government grant for the police increased by over 60%, or over £3.7 billion, between 1997 and 2010. This was a 20% increase in real terms. Let us zoom in and look at how

Gadewch i ni edrych ar gefndir yr hyn rydym yn ei wynebu. Ar sail debyg am ei debyg, roedd grant y Llywodraeth i'r heddlu wedi cynyddu dros 60 y cant, neu dros £3.7 biliwn, rhwng 1997 a 2010. Roedd hyn yn gynnydd o 20 y cant mewn termau real. Gadewch i ni

funding affected us in Wales. During the same time period, the total funding for the Welsh police authorities increased by 38%, or over £112 million. The statistics are staggering and deserve to be emphasised. They are a dramatic illustration of how funding increased under a UK Labour Government.

edrych yn fanylach ar sut yr oedd cyllido wedi effeithio arnom yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, roedd cyfanswm y cyllid ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru wedi cynyddu 38 y cant, neu dros £112 miliwn. Mae'r ystadegau'n aruthrol ac yn haeddu cael eu pwysleisio. Maent yn dangos yn ddramatig sut yr oedd cyllid wedi cynyddu o dan Lywodraeth Lafur y DU.

Sadly, they illustrate, too, the devastating cuts in funding, and consequently in services, during the time in which the Conservative-Liberal Democrat coalition has been in power at Westminster. We have had cuts of 20%, or around £2 billion, which have led to the worst budget settlement for the police in decades. They are too deep and too fast. Figures from the Police Federation of England and Wales and police authorities suggest that this could lead to the loss of 1,600 officers in Wales by 2014, a startling contrast to Nick Clegg's pre-election pledge to put a further 3,000 officers on the streets.

Yn anffodus, maent hefyd yn dangos y toriadau dinistriol mewn cyllid, ac mewn gwasanaethau o ganlyniad i hynny, yn ystod y cyfnod y mae clymblaid y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod mewn grym yn San Steffan. Rydym wedi cael toriadau o 20 y cant, neu oddeutu £2 biliwn, sydd wedi arwain at y setliad cyllideb gwaethaf i'r heddlu ers degawdau. Maent yn rhy ddwfn ac maent yn rhy gyflym. Mae ffigurau gan Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr ac awdurdodau heddlu'n awgrymu y gallai hyn arwain at golli 1,600 o swyddogion yng Nghymru erbyn 2014, sy'n dra gwahanol i addewid Nick Clegg cyn yr etholiad y byddai'n rhoi 3,000 o swyddogion ychwanegol ar y strydoedd.

Let us turn to the core of the issue: the effect on front-line services. The UK Government coined it a

Gadewch i ni droi at galon y mater: yr effaith ar wasanaethau'r rheng flaen. Roedd Llywodraeth y DU wedi ei alw yn

'move away from the bureaucratic culture'.

gam i ffwrdd oddi wrth y diwylliant biwrocrataidd.

It said that it was

Dywedodd ei bod

'possible for the police to make significant reductions in their budgets without affecting frontline policing'.

yn bosibl i'r heddlu leihau eu cyllidebau'n sylweddol heb effeithio ar blismona ar y rheng flaen.

Well, forces have told Her Majesty's Inspectorate of Constabulary that the cuts that they face are greater than the number of non-front-line officers in their force, while the HMIC has said that a 12% cut, as proposed by Labour, could be achieved without affecting the front line.

Wel, mae heddluoedd wedi dweud wrth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi bod y toriadau maent yn eu hwynebu yn fwy na nifer y swyddogion nad ydynt ar y rheng flaen yn eu heddlu, ac mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi wedi dweud y gellid cyflawni toriad o 12 y cant, fel y cynigir gan Lafur, heb effeithio ar y rheng flaen.

The worst cuts are to come in the first two years, which will make long-term efficiency savings difficult. Pressure will also be put on forces to cut office numbers, risking public

Daw'r toriadau gwaethaf yn ddwy flynedd gyntaf, a fydd yn golygu bod arbedion effeithlonrwydd tymor hir yn anodd. Rhoddir pwysau hefyd ar heddluoedd i gwtogi

safety and the fight against crime. Under Labour Governments at Westminster and in Wales, crime fell by 43% compared with the first half of 2011, when it rose. This is a wholly different situation to that outlined by David Cameron before the general election, when he said that any Cabinet member

niferoedd y swyddogion, gan roi diogelwch y cyhoedd a'r frwydr yn erbyn trosedd yn y fantol. O dan Lywodraethau Llafur yn San Steffan ac yng Nghymru, disgynnodd trosedd 43 y cant o'i gymharu â hanner cyntaf 2011 pan gynyddodd. Mae hon yn sefyllfa cwbl wahanol i honno a amlinellwyd gan David Cameron cyn yr etholiad cyffredinol, pan ddywedodd petai unrhyw aelod o'r Cabinet

'who comes to me and says, 'Here are my plans' and they involve frontline reductions, they'll be sent straight back to their department to go away and think again'.

yn dod ataf ac yn dweud, 'Dyma fy nghynlluniau' a'u bod yn golygu gostyngiadau i'r rheng flaen, byddant yn cael eu hanfon yn ôl i'w hadran ar eu hunion i ailfeddwl.

As we know, the Home Office commissioned a review by Tom Windsor, and among its recommendations is an annual fitness test for officers. The test, which is used for recruits in the Police Service of Northern Ireland, would carry disciplinary procedures for those who fail three times. The police federation has said that any tests must be proportionate on the basis of characteristics such as age and gender, and must not have a negative equality impact. Elements of the test, the police federation claims, will be unfair on young female recruits, for example, as some fitness conditions are disproportionate. They would be expected to wrestle a 13-stone man to the floor by grabbing his lapels. According to the police federation, there are significant differences between policing in England and Wales and in Northern Ireland. Officers in the Police Service of Northern Ireland are routinely armed, and its recruits' fitness test consists of an obstacle course that replicates several aspects of policing in Northern Ireland. Ninety-six per cent of the failures are women.

Fel y gwyddom, roedd y Swyddfa Gartref wedi comisiynu adolygiad gan Tom Windsor, ac roedd un o'i argymhellion yn cynnig prawf ffitrwydd blynyddol i swyddogion. Byddai'r prawf hwn, a ddefnyddir gyda recriwtiaid yng Ngwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon, yn arwain at weithdrefnau disgyblu petai unrhyw un yn methu deirgwaith. Mae ffederasiwn yr heddlu wedi dweud bod yn rhaid i unrhyw brofion fod yn gymesur ar sail nodweddion fel oed a rhyw, a bod rhaid iddynt beidio ag effeithio'n negyddol ar gydraddoldeb. Mae ffederasiwn yr heddlu yn honni y bydd elfennau o'r prawf yn annheg i recriwtiaid benywaidd ifanc, er enghraifft, gan fod rhai amodau ffitrwydd yn anghymesur. Byddai disgwyl iddynt reslo dyn 13 stôn i'r llawr drwy gydio yn ei labedi. Yn ôl ffederasiwn yr heddlu ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng plismona yng Nghymru a Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae gan swyddogion yng Ngwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon arfau'n rheolaidd, ac mae ei brawf ffitrwydd i recriwtiaid yn cynnwys cwrs rhwystrau sy'n efelychu sawl agwedd ar blismona yng Ngogledd Iwerddon. Mae naw deg chwech y cant o'r rheini sy'n methu'r prawf yn fenywod.

We know that fitness tests have an adverse impact on women, older people and disabled people. To meet the requirements of the equality legislation, fitness tests for employment must meet the real needs of the employer. The Police Federation of England and Wales supports the view of the police advisory board that fitness tests should properly reflect the requirements of the role required to be performed, as set by the chief

Rydym yn gwybod bod profion ffitrwydd yn cael effaith anffafriol ar fenywod, ar bobl hŷn ac ar bobl anabl. Er mwyn diwallu gofynion y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, rhaid i brofion ffitrwydd ar gyfer cyflogaeth ddiwallu gwir anghenion y cyflogwr. Mae Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr yn cefnogi safbwynt bwrdd cynghori'r heddlu y dylai profion ffitrwydd adlewyrchu gofynion y swyddogaeth sydd i'w chyflawni'n iawn, fel

constable. The most successful candidates in Windsor's recruitment process will be young, white men. With the current focus on equality, that surely should not happen.

Other issues arise in the area of equalities. The change to the retirement structure, with the retirement age raised further to 60, potentially triggers inequality consequences among female officers. These officers, who might have taken extended leave to look after young children, will be just in excess of having 10 years of pensionable service left before they are eligible to retire with a full pension. The effect will be to prolong their service, an effect that will probably not be matched for their male counterparts.

Fortunately, the response of the Labour Welsh Government here in Wales has not been a wringing of hands, weeping or grinding of teeth. Community safety and policing is a priority for the Labour Welsh Government. What does that mean in everyday language? It means support and it means reducing crime. How do you do it when money is in short supply? It is not an ideal situation, but the people whom we represent expect us to do our best. Despite the 20% cut from Westminster, the Welsh Government is increasing the community safety budget to an indicative £44.2 million in 2014-15. In practice, we need more effective collaboration through sharing services, with better procurement and workforce modernisation. We want effective services on an all-Wales basis, using what we have learned about sharing best practice and working together for the good of all.

How do we translate that into practical action that men, women and children can see in their own lives? First, the Welsh Government is committed to £5 million of funding for 500 police community support officers in addition to, not instead of, warranted officers. Recently, Dyfed-Powys Police is recruiting 74 new police community support officers, which will be funded by us, and 23 new police community

y pennir gan y prif gwnstabl. Dynion gwyn, ifanc fydd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus ym mhroses recriwtio Windsor. Siawns na ddylai hynny ddigwydd gyda'r ffocws presennol ar gydraddoldeb.

Mae materion eraill yn codi ym maes cydraddoldeb. Gallai'r newid i'r strwythur ymddeol, gan godi'r oed ymddeol ymhellach i 60, arwain at ganlyniadau anghydraddoldeb ymysg swyddogion benywaidd. Bydd y swyddogion hyn, a oedd efallai wedi cymryd cyfnod estynedig o'r gwaith i ofalu am blant ifanc, ag ychydig dros 10 mlynedd o wasanaeth pensiynadwy ar ôl cyn iddynt fod yn gymwys i ymddeol â phensiwn llawn. Effaith hyn fydd ymestyn eu gwasanaeth ac mae'n debyg na fydd yr effaith honno'n cael ei chyfateb ymysg eu cydweithwyr gwrywaidd.

Yn ffodus, nid yw Llywodraeth Lafur Cymru yma yng Nghymru wedi golchi ei dwylo, wylo na griddfan dannedd. Mae diogelwch cymunedol a phlismona yn flaenoriaeth i Lywodraeth Lafur Cymru. Beth y mae hynny'n ei olygu mewn iaith bob dydd? Mae'n golygu cymorth ac mae'n golygu lleihau trosedd. Sut y mae gwneud hynny pan fydd arian yn brin? Nid yw'n sefyllfa ddelfrydol, ond mae'r bobl rydym yn eu cynrychioli yn disgwyl i ni wneud ein gorau glas. Er gwaethaf y toriad o 20 y cant o San Steffan, mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r gyllideb diogelwch cymunedol i £44.2 miliwn dangosol yn 2014-15. Yn ymarferol, mae angen rhagor o gydweithio effeithiol arnom drwy rannu gwasanaethau, gyda chaffael gwell a moderneiddio'r gweithlu. Mae eisiau gwasanaethau effeithiol arnom ar draws Cymru gyfan, drwy ddefnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu am rannu'r arfer orau a chydweithio er budd pawb.

Sut yr ydym yn trosi hynny yn gamau gweithredu ymarferol y gall dynion, menywod a phlant eu gweld yn eu bywydau eu hunain? Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i £5 miliwn o gyllid ar gyfer 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ar ben, nid yn lle, swyddogion â gwarant. Yn ddiweddar, mae Heddlu Dyfed-Powys yn recriwtio 74 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu newydd, a fydd yn cael

support officers have joined since November. These officers will assist in developing existing relationships between the police and other Welsh Government priorities such as Communities First.

eu cyllido gennym ni, ac mae 23 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu newydd wedi ymuno er mis Tachwedd. Bydd y swyddogion hyn yn helpu i ddatblygu cysylltiadau sydd eisoes yn bodoli rhwng yr heddlu â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru fel Cymunedau yn Gyntaf.

This point coincides with my earlier reference to collaboration. In pure illustration of the Labour Welsh Government making community safety a priority, it has launched numerous funds and schemes that provide a collaborative approach to tackling the problems that we have in our communities. These include the Safer Communities fund, combating domestic violence, operation Tarian, tackling drug abuse and the substance misuse action fund. These are Labour Government initiatives that are purpose designed to deal not only with the effects, but also the causes of crime, and to promote community safety.

Mae’r pwynt hwn yn cyd-daro â’m cyfeiriad blaenorol at gydweithio. I ddangos yn glir bod Llywodraeth Lafur Cymru yn gwneud diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth, mae wedi lansio nifer o gronfeydd a chynlluniau sy’n darparu dull gweithredu cydweithredol i fynd i’r afael â’r problemau sydd gennym yn ein cymunedau. Mae’r rhain yn cynnwys y Gronfa Cymunedau Diogelach, mynd i’r afael â thrais domestig, ymgyrch Tarian, mynd i’r afael â chamddefnyddio cyffuriau a’r gronfa weithredu ar gamddefnyddio sylweddau. Mae’r rhain yn gynlluniau gan Lywodraeth Lafur sydd wedi cael eu dylunio’n benodol i ddelio â nid dim ond effeithiau troseddau ond yr hyn sy’n achosi troseddau hefyd, a hybu diogelwch cymunedol.

On that point, I am pleased to be able to refer to a fantastic example from my own constituency. Glanymôr and Tyisha residents have created a safer communities action group, demonstrating the strategic co-operation between Communities First areas and local police. It has run campaigns such as Don’t Let It Be You and Respect, which involve all members of the community working together, from the youth to the elderly. Has it worked? Well, as a result of this joint working, the Tyisha ward initially saw a 15% fall in recorded crime. In successive years, there was a 10% fall. That joint working has proved not to be a one-off initiative, but a way of working, a way of living, and a way of getting things done.

Ar y pwynt hwnnw, rwyf yn falch fy mod yn gallu cyfeirio at enghraifft wych o’m hetholaeth fy hun. Mae trigolion Glan-y-môr a Thyisha wedi creu grŵp gweithredu cymunedau diogelach, gan ddangos y cydweithrediad strategol rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a heddlu lleol. Mae wedi cynnal ymgyrchoedd fel *Don’t Let it Be You* a *Respect*, sy’n cynnwys pob aelod o’r gymuned yn gweithio gyda’i gilydd, o’r bobl ifanc i’r bobl hŷn. A yw hyn wedi gweithio? Wel, o ganlyniad i’r cydweithio hwn, i ddechrau roedd ward Tyisha wedi gweld gostyngiad o 15 y cant yn nifer y troseddau a gofnodwyd. Mewn blynyddoedd olynol, bu gostyngiad o 10 y cant. Nid un cynllun unwaith ac am byth fu’r cydweithio hwnnw ond ffordd o weithio, ffordd o fyw, a ffordd o wneud pethau.

Over the past week, there has been a lot of talk about infrastructure. This does not just means roads, railways and buildings, it also means how we organise ourselves and how we work together to reach a common goal. All the initiatives that I have described would not have been possible without the infrastructure having been put in place by a devolved all-Wales Government.

Dros yr wythnos diwethaf, bu llawer o sôn am seilwaith. Nid yw hyn dim ond yn golygu ffyrdd, rheilffyrdd ac adeiladau, mae hefyd yn golygu sut yr ydym yn trefnu ein hunain a sut yr ydym i gyd yn gweithio gyda’n gilydd i gyflawni nod cyffredin. Ni fyddai’r un o’r cynlluniau rwyf wedi’u disgrifio wedi bod yn bosibl oni bai fod Llywodraeth Cymru gyfan ddatganoledig wedi rhoi’r seilwaith yn ei le.

Of course, funding is important, but that funding is effective when the social arrangements have been put in place. This Welsh Labour Government has done both. The UK coalition Government at Westminster sadly does not recognise that connection and has done neither. As I have said, in Wales, we have a Government that does both. Let us be clear why that is the case: the infrastructure is in place. This is not a matter of buildings or constructs of steel, glass and wood; it is because this Welsh Government has made the approach of sharing of best practice, collaborative working, and the sharing of services its defining characteristics. That is how we do things in Wales, which is every bit as important as the miles of road and track that we lay down.

Wrth gwrs, mae cyllid yn bwysig, ond mae'r cyllid hwnnw'n effeithiol pan fydd y trefniadau cymdeithasol wedi cael ei rhoi ar waith. Mae'r Llywodraeth Lafur Cymru hon wedi gwneud y naill a'r llall. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth glymblaid y DU yn San Steffan yn cydnabod y cysylltiad hwnnw ac nid yw wedi gwneud y naill na'r llall. Fel yr wyf wedi'i ddweud, yng Nghymru, mae gennym Lywodraeth sy'n gwneud y naill a'r llall. Gadewch i ni fod yn glir pam mai dyma'r achos: mae'r seilwaith yn ei le. Nid oes wnelo hyn ag adeiladau dur, gwydr a phren; mae'n ymwneud â bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau mai'r nodweddion sy'n ei diffinio yw rhannu'r arfer orau, cydweithio a rhannu gwasanaethau. Dyna sut yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru, sydd yr un mor bwysig â'r milltiroedd o ffyrdd a thraciau rydym yn eu gosod.

I hope that I have managed to convey in this time the difference in attitudes between this Welsh Labour Government and the UK coalition. Worrying challenges lie ahead for the future of policing in Wales as a direct impact of the proposed cuts from Westminster and the reduction in front-line services, despite assurances otherwise. I thank the Minister in anticipation of his response and hope that he will raise the important issues that I have outlined in any future talks with the UK Government. Diolch yn fawr.

Gobeithio fy mod wedi llwyddo, yn y cyfnod hwn, i gyfleu'r gwahaniaethau rhwng agwedd Llywodraeth Lafur Cymru ac agwedd clymblaid y DU. Mae sialensiau dybryd o flaen dyfodol plismona yng Nghymru o ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau sy'n cael eu cynnig o San Steffan a'r gostyngiad mewn gwasanaethau rheng flaen, er gwaethaf sicrwydd i'r gwrthwyneb. Rwyf yn diolch i'r Gweinidog cyn ei ymateb ac rwyf yn gobeithio y bydd yn codi'r materion pwysig rwyf wedi'u hamlinellu heddiw mewn unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn y dyfodol. Diolch yn fawr.

**Joyce Watson:** Thank you, Keith, for tabling this topic for debate. The argument that you have put forward serves to contrast the Welsh Government's support for front-line community safety, as demonstrated by its funding of 74 police community support officers in Dyfed-Powys, for example, with the coalition Government's negligence. Let us be clear: the Government at Westminster is forcing our police to make tough choices. Dyfed-Powys alone has been compelled to cut costs by £13 million by 2015. The so-called 'low-hanging fruit' will never cover that. Therefore, it will be compelled to make difficult decisions, such as the proposal to shut front-desk services in Milford, Tenby, Fishguard, Lampeter, Welshpool, Ystradgynlais, and Ammanford—and that is

**Joyce Watson:** Diolch, Keith, am gyflwyno'r pwnc hwn ar gyfer y ddadl. Mae'r ddadl rydych wedi'i chyflwyno yn dangos y cyferbyniad rhwng cefnogaeth Llywodraeth Cymru at ddiogelwch cymunedol rheng flaen, fel y dangoswyd drwy gyllido 74 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn Nyfed-Powys, er enghraifft, ac esgeulustod Llywodraeth y glymblaid. Gadewch i ni fod yn glir: mae'r Llywodraeth yn San Steffan yn gorfodi ein heddlu i wneud dewisiadau anodd. Mae Dyfed-Powys yn unig wedi gorfod torri £13 miliwn ar ei gostau erbyn 2015. Ni fydd yr hyn a elwir yn 'ffrwythau hawdd eu medi' byth yn ddigon i wneud hynny. Felly, bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau anodd, fel y cynnig i gau gwasanaethau desg blaen yn Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod,

just for starters.

Abergwaun, Llanbedr Pont Steffan, y Trallwng, Ystradgynlais a Rhydaman—a dim ond y dechrau yw hynny.

I am aware that consultation has begun with unions and the staff who would be directly affected by those closures, but does the Minister agree that Dyfed-Powys also needs to listen to the public view on this? After all, this is all about how the public communicates and engages with police in their communities.

Rwyf yn ymwybodol bod ymgynghoriad wedi dechrau gyda'r undebau a'r staff y bydd y cau hwnnw'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, ond a yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen i Ddyfed-Powys hefyd wrando ar farn y cyhoedd ar hyn? Wedi'r cyfan, mae hyn i gyd yn ymwneud â sut y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'r heddlu yn eu cymunedau.

**Rebecca Evans:** I thank Keith Davies for this debate. We hear a lot about the effect of the cuts on police morale, so I want to take this opportunity to pay tribute to the work of all our front-line police officers and their support staff across Wales. I pay particular tribute to the work of Dyfed-Powys Police in serving the Mid and West Wales region. Its front-line neighbourhood officers, along with officers in its specialist units, such as the marine unit, roads policing, the dog section and schools liaison unit, have all delivered the lowest level of recorded crime in all of England and Wales: the lowest level of domestic burglary, of vehicle crime, of criminal damage, of violence against the person and the lowest number of robberies. For that reason, the UK Government has to listen carefully when the outgoing chief constable of Dyfed-Powys Police warns of what he calls a 'growing austerity crime wave' as a result of UK Government cuts. If ever there were a clear demonstration that these cuts are too fast and too deep, this is it.

**Rebecca Evans:** Rwyf yn diolch i Keith Davies am y ddadl hon. Rydym yn clywed llawer o sôn am effaith y toriadau ar forâl yr heddlu, felly mae arnaf eisiau manteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i waith ein holl swyddogion heddlu ar y rheng flaen a'u staff cymorth ledled Cymru. Talaf deyrnged benodol i waith Heddlu Dyfed-Powys am wasanaethu rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ei swyddogion cymdogaeth rheng flaen, ynghyd â'i swyddogion yn ei unedau arbenigol, fel yr uned forol, plismona'r ffyrdd, yr adran cŵn a'r uned cyswllt ag ysgolion, i gyd wedi cyflawni'r lefel isaf o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr i gyd: y lefel isaf o ddwyn o gartrefi, troseddau sy'n ymwneud â cherbydau, difrod troseddol, trais yn erbyn unigolion a'r nifer isaf o ladradau. Oherwydd hynny, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU wrando'n astud pan fydd y prif gwnstabl sy'n ffarwelio â Heddlu Dyfed-Powys yn rhybuddio am yr hyn y mae'n ei alw yn 'don gynyddol o droseddau yn ystod cyfnod llym' o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU. Os bu erioed brawf clir bod y toriadau hyn yn rhy gyflym ac yn rhy ddwfn, dyma hi.

6.15 p.m.

**Simon Thomas:** Diolch i Keith am ddod â'r drafodaeth heddiw gerbron. Hoffwn ategu'r ffaith eich bod wedi canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen. Mae hynny'n bwysig. Hoffwn hefyd ategu'r hyn a ddywedwyd gan Joyce Watson a Rebecca Evans ynghylch gwaith da Heddlu Dyfed Powys.

**Simon Thomas:** I thank Keith Davies for bringing this debate forward today. I want to endorse the fact that he concentrated on front-line services. That is important. I would also endorse the comments made by Joyce Watson and Rebecca Evans about the good work carried out by Dyfed Powys Police.

Rwyf yn rhannu'r pryder am effaith cau'r gwasanaethau desg yn y saith gorsaf a

I share the concern about the impact of closing desk services in the seven stations that

amlinellwyd gan Joyce Watson. Mae'n anodd hefyd i'r cyhoedd ddeall pam y bydd dros 130 o heddweision Dyfed Powys yn mynd i wasanaethu yn y Gemau Olympaidd. Hoffwn roi ar glawr na fydd comisiynwyr heddlu yn unrhyw fath o ateb i'r problemau y mae'r heddlu yng Nghymru yn eu hwynebu. Mae hynny'n rhyw fath o *sideshow* i sut yr ydym yn gorfod delio â hyn. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn dal i bwyso am fwy o ddatganoli yn system yr heddlu oherwydd, yn y pen draw, dyfodol cyfiawnder yng Nghymru yw heddlu i Gymru o dan y Llywodraeth bresennol.

Joyce Watson highlighted. Also, it is difficult for the public to understand why 130 police officers from Dyfed Powys will be serving at the Olympic Games. I would like to put on record that police commissioners are no sort of solution to the problems faced by the police in Wales. They are something of a sideshow to dealing with those problems. I hope that the Government will continue to press for more devolution within the policing system because, ultimately, the future of justice in Wales is a police force for Wales that comes under the current Government.

**Byron Davies:** Thank you for the opportunity to speak in this debate. I speak as a former police officer and a former police federation representative. I am afraid that cuts have to be made. It is a sign of the times that we are living in—the economic climate demands that. Even Alan Johnson himself admitted as much under the last Labour Government. It was 1978 when police pay was last reviewed under Lord Edmund-Davies. I well remember that—police pay was doubled. However, I wonder whether front-line policing should be attacked in the cuts. I ask myself and I ask you to consider whether we need four police forces in Wales and whether we need four police commands at an enormous cost.

**Byron Davies:** Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwyf yn siarad fel cyn swyddog heddlu a chyn gynrychiolydd o ffederasiwn yr heddlu. Mae arnaf ofn ei bod yn rhaid cael toriadau. Mae'n arwydd o'r oes rydym ynddi—mae'r hinsawdd economaidd yn mynnu hynny. Roedd hyd yn oed Alan Johnson ei hun wedi cyfaddef hynny o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Ym 1978 cafodd tâl yr heddlu ei adolygu ddiwethaf o dan yr Arglwydd Edmund-Davies. Cofiaf hynny'n dda—cafodd tâl heddlu ei ddyblu. Fodd bynnag, tybed a ddylid ymosod ar blismona ar y rheng flaen yn y toriadau. Rwyf yn gofyn i mi fy hun ac i chithau ystyried a oes arnom angen pedwar heddlu yng Nghymru ac a oes angen pedwar awdurdod arnom sy'n arbennig o ddrud.

**Peter Black:** I thank Keith for bringing this issue to the Chamber today. It is important that we acknowledge the dedication and commitment of front-line police officers who often have to work in difficult circumstances, particularly when they are confronted with rowdiness and anti-social behaviour in the streets.

**Peter Black:** Rwyf yn diolch i Keith am ddod â'r mater hwn i'r Siambr heddiw. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ymroddiad ac ymrwymiad swyddogion heddlu ar y rheng flaen sydd yn aml yn gorfod gweithio mewn amgylchiadau anodd, yn enwedig pan fyddant yn wynebu stŵr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y strydoedd.

It is also important to understand that the main difference between what the Welsh Government faces and what the UK Government faces is effectively the fact that the Welsh Government has a fixed grant to work from, while the UK Government inherited a huge deficit, which it is having to rebalance. You have acknowledged yourself that Labour would have made cuts in the police force, as have shadow Ministers in Parliament. Those cuts would have had to have been made anyway. Clearly, we have to

Mae'n bwysig hefyd deall mai'r prif wahaniaeth rhwng yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wynebu a'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wynebu yw'r ffaith bod gan Lywodraeth Cymru grant sefydlog i'w ddefnyddio, ond bod Llywodraeth y DU wedi etifeddu diffyg enfawr, y mae'n rhaid iddo ei ddatrys. Roeddech wedi cydnabod eich hun y byddai Llafur wedi gwneud toriadau i'r heddlu, fel y mae Gweinidogion yr wrthblaid yn y Senedd wedi'i wneud. Byddai'r toriadau hynny wedi gorfod

find a way of rebalancing the budget and the police have been hit as a result. Police chief constables need to ensure that those cuts are focused on back-office functions. A good example in my own police force is a reorganisation of the call centre, thereby managing to put a significant number of officers back on the front line as a result. However, it is not all bad. We must all acknowledge that crime is dropping throughout Wales, which helps the situation. However, I understand the points raised and I share some of the concerns.

digwydd beth bynnag. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o unioni'r gyllideb ac mae hyn wedi effeithio ar yr heddlu. Mae angen i brif gwnstabliaid yr heddlu sicrhau bod y toriadau hynny'n canolbwyntio ar swyddogaethau cefn swyddfa. Enghraifft dda yn fy heddlu fy hun yw ad-drefnu'r ganolfan alwadau. Mae hynny wedi arwain at roi llawer iawn o swyddogion yn ôl ar y rheng flaen. Fodd bynnag, nid yw'n ddrwg i gyd. Rhaid i ni gyd gydnabod bod troseddau yn disgyn ledled Cymru, sy'n helpu'r sefyllfa. Fodd bynnag, rwyf yn deall y pwyntiau sydd wedi cael eu codi ac rwyf yn rhannu rhai o'r pryderon.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** First, I place on record my thanks to Keith Davies for this debate and the opportunity to respond to it. The difficulties facing police forces are uppermost in our minds following the action taken by over 30,000 serving officers who marched on London recently. Those officers have tirelessly served our country and are being subjected to cuts on a scale that they have never seen before. We empathise with them on a personal level as their terms, conditions and pensions are being eroded and their contribution to society is being devalued. We also see the significant impact that funding reductions are having on the excellent level of service provided by the Welsh forces to Welsh constituents.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Yn gyntaf oll, hoffwn gofnodi fy niolch i Keith Davies am y ddadl hon ac am y cyfle i ymateb iddi. Mae'r anawsterau sy'n wynebu heddluoedd ar flaen ein meddwl yn dilyn y gweithredu diweddar pan welwyd dros 30,000 o swyddogion yn gorymdeithio yn Llundain. Mae'r swyddogion hynny wedi gwasanaethu ein gwlad yn ddiflino ac maent yn wynebu toriadau ar raddfa nad ydynt erioed wedi'i gweld o'r blaen. Rydym yn cydymdeimlo â nhw ar lefel bersonol wrth i'w telerau, eu hamodau a'u pensiynau gael eu herydu ac wrth i'w cyfraniad at gymdeithas gael ei ddibrisio. Rydym hefyd yn gweld effaith sylweddol y gostyngiadau mewn cyllid ar y lefel wych o wasanaeth a ddarperir gan heddluoedd Cymru i etholwyr Cymru.

As a result of the comprehensive spending review, the police service is reducing costs by around 20% over the next four years. The reduction for the Welsh forces is expected to be around £65 million. The equivalent of a loss of—as indicated by many today—around 1,300 police officers or 2,600 police staff posts.

O ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, mae'r gwasanaeth heddlu yn lleihau costau oddeutu 20 y cant dros y pedair blynedd nesaf. Disgwylir y bydd y gostyngiad i heddluoedd Cymru oddeutu £65 miliwn. Mae hynny'n gyfystyr â cholli—fel sydd wedi cael ei ddweud gan nifer heddiw—oddeutu 1,300 o swyddogion heddlu neu 2,600 o swyddi staff heddlu.

South Wales Police will face the greatest cuts; its force will reduce from 3,244 police officers in 2008 to 2,764 expected by 2014. That is a loss of around 579 officers. That is an enormous loss for one of the busiest forces in England and Wales, particularly given that it covers a capital city, which hosts major sporting events, and given its mix of urban, rural and deprived populations.

Heddlu De Cymru fydd yn wynebu'r toriadau mwyaf; bydd yn disgyn o 3,244 o swyddogion heddlu yn 2008 i 2,764 disgwyliedig yn 2014. Mae hynny'n golygu colli tua 579 o swyddogion. Mae hynny'n golled enfawr i un o'r heddluoedd prysuraf yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig wrth ystyried ei fod yn cynnwys prifddinas, sy'n cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr, ac

Therefore, how there can be change to front-line services beggars belief.

wrth ystyried ei gymysgedd o boblogaethau trefol, gwledig a difreintiedig. Felly, ni ellir credu sut y gellir newid gwasanaethau'r rheng flaen.

The police service must manage a larger reduction in funding in comparison with other public sector bodies in Wales, with support from the Welsh Government. The Welsh Government is working with the police, which is operating a non-devolved function in a devolved nation—which always has its challenges—in supporting Tarian, schools liaison officers, safety camera partnerships and so on. Significantly, the police community support officer funding is very much welcomed by the forces. These programmes reflect that, while policing is not devolved, the relationship with Welsh Government is extremely positive. This, unfortunately, cannot be said for the relationship currently with the Home Secretary, who was warned by serving police officers just two weeks ago that she is on the precipice of destroying the police service, which is admired throughout the world.

Rhaid i'r gwasanaeth heddlu reoli gostyngiad mwy mewn cyllid o'i gymharu â chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r heddlu, sy'n gweithredu swyddogaeth heb ei datganoli mewn gwlad ddatganoledig—sydd bob amser yn peri sialensiau—i gefnogi Tarian, swyddogion cyswllt ag ysgolion, partneriaethau camerâu diogelwch ac yn y blaen. Yn arwyddocaol, mae'r heddluoedd yn croesawu'r cyllid swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn fawr iawn. Mae'r rhaglenni hyn yn adlewyrchu bod y berthynas â Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol dros ben, er nad yw plismona wedi cael ei ddatganoli. Yn anffodus, ni ellir dweud yr un peth am y berthynas ar yr hyn o bryd â'r Ysgrifennydd Cartref, a rybuddiwyd gan swyddogion heddlu gweithredol gwta bythefnos yn ôl ei bod ar fin dinistrio'r gwasanaeth heddlu, sy'n cael ei edmygu ym mhedwar ban byd.

In these difficult times, the chief constables of Wales are fully committed to working with us and partners to maintain improvements in crime reduction, community safety and quality of life that we have brought about together. They recognise the steps that we are taking to support them in doing this—steps that are in direct contrast with the implementations of the Tory-Lib Dem Government in Westminster. Do the police or the public believe Theresa May when she tells them that she wants to tackle anti-social behaviour, because her actions are completely contradictory? Indeed, in her speech last year after the riots, she said:

Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae prif gwnstabliaid Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda ni a phartneriaid i gynnal y gwelliannau o ran lleihau troseddau, diogelwch cymunedol ac ansawdd bywyd yr ydym wedi'u rhoi ar waith gyda'n gilydd. Maent yn cydnabod y camau rydym yn eu cymryd i'w cefnogi i wneud hyn—camau sy'n hollol groes i weithrediadau Llywodraeth y Torïaid-Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. A yw'r heddlu neu'r cyhoedd yn credu Theresa May pan fydd yn dweud wrthynt fod arni eisiau mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd mae ei gweithredoedd yn gwbl groes? A dweud y gwir, yn ei araith y llynedd ar ôl y terfysgoedd, dywedodd:

'It's clear to me that as long as we tolerate the kind of anti-social behaviour that takes place every day up and down the country, we will continue to see high levels of crime, a lack of respect for private property and a contempt for community life.'

Mae'n amlwg i mi cyhyd â byddwn yn goddef y math o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd ar hyd a lled y wlad bob dydd, byddwn yn dal i weld lefelau troseddu uchel, diffyg parch at eiddo preifat a dirmyg at fywyd cymunedol.

Her response to that was to cut 1,300 police

Ei hymateb i hynny oedd torri 1,300 o

officers in Wales—the very people who are tackling this anti-social behaviour. Last week, she launched an initiative to tackle anti-social behaviour one day, while signing redundancy notices of thousands of officers the next day is political skulduggery. It is not clever or great; it is just plain stupid. It is not just me who thinks this; that was also alluded to by Rebecca Evans and Joyce Watson. Ian Arundale, the chief constable of Dyfed Powys Police, said:

swyddogion heddlu yng Nghymru—yr union bobl sy'n mynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn. Wythnos diwethaf lansiodd gynllun i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol un diwrnod, ond ar y diwrnod canlynol roedd yn llofnodi hysbysiadau dileu swyddi miloedd o swyddogion, mae hynny'n dwyll gwleidyddol. Nid yw'n ddeallus nac yn dda; mae'n hollol hurt. Nid dim ond fi sy'n meddwl hynny; cyfeiriodd Rebecca Evans a Joyce Watson at hynny hefyd. Dywedodd Ian Arundale, prif gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys:

'I think it's a cop-out to expect that the police can and will resolve those issues and that will be putting an unrealistic burden upon the police and will raise public expectations which can't be delivered.'

Rwyf yn meddwl ei bod yn annheg disgwyl y gall yr heddlu ac y bydd yr heddlu yn datrys y materion hynny a bydd hynny'n rhoi baich afrealistig ar yr heddlu ac yn codi disgwyliadau'r cyhoedd na fydd modd eu cyflawni.

Key to continuing to prioritise the safety of communities in our programme for government is the commitment for an additional 500 community support officers, who already have a visible presence on our streets, reassuring residents and dealing with anti-social behaviour. Jan Woodward is one of Wales's new CSOs, who has been appointed to patrol the streets of Abertillery and to work with local primary schools on crime prevention. I have met CSOs from right across Wales.

Wrth galon parhau i flaenoriaethu diogelwch cymunedau yn ein rhaglen lywodraethu yw'r ymrwymiad i 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol, sydd eisoes â phresenoldeb gweladwy ar ein strydoedd, yn tawelu meddyliau trigolion ac yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Jan Woodward yn un o swyddogion cymorth cymunedol newydd Cymru ac fe'i penodwyd i weithio ar strydoedd Abertyleri a gweithio gydag ysgolion cynradd lleol ar atal troseddau. Rwyf wedi cwrdd â swyddogion cymorth cymunedol o bob cwr o Gymru.

The issue that was raised by Members on the engagement and consultation in relation to the closure of police buildings is clearly an operational matter for police forces across Wales. However, I remind Members—who are aware of the situation—that buildings do not fight crime, in the same way that fire stations do not fight fires. However, it is about consultation and people understanding the issues. There is a need to restructure and redevelop operational arrangements in relation to where police are based in Wales. Keith raises the issue of collaboration and I know of instances where police forces are working beyond the public service envelope in working with local government by basing police officers in council offices and so on. There are recent examples of that in Newport.

Roedd Aelodau wedi sôn am ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â chau adeiladau'r heddlu ac mae hyn yn amlwg yn fater gweithredol i heddluoedd ar draws Cymru. Fodd bynnag, rwyf yn atgoffa Aelodau—sydd yn ymwybodol o'r sefyllfa—nad yw adeiladau yn brwydro yn erbyn troseddau, yn yr un ffordd nad yw gorsafoedd tân yn brwydro tanau. Fodd bynnag, mae'n ymwneud ag ymgynghori a phobl yn deall y materion. Mae angen ailstrwythuro ac ailddatblygu trefniadau gweithredol mewn perthynas â lleoliadau'r heddlu yng Nghymru. Soniodd Keith am gydweithio ac rwyf yn gwybod am achosion lle mae heddluoedd yn gweithio tu hwnt i wasanaethau cyhoeddus mewn ffordd draddodiadol wrth weithio â llywodraeth leol drwy leoli swyddogion heddlu mewn swyddfeydd cyngor ac yn y

blaen. Ceir enghreifftiau diweddar o hynny yng Nghasnewydd.

**Simon Thomas:** I understand the point that you make about buildings, but Ammanford police station, which was an example mentioned by me and Joyce Watson, is a massive private finance initiative for which the police authority will have to pay for many years to come. Surely, there is financial public interest in maintaining that kind of presence, possibly in a different way? They have to use it in some way.

**Simon Thomas:** Rwyf yn deall eich pwynt am adeiladau, ond mae gorsaf heddlu Rhydaman, a oedd yn enghraifft a grybwyllwyd gennyf fi a gan Joyce Watson, yn fenter cyllid preifat enfawr y bydd yn rhaid i'r awdurdod heddlu dalu amdani am nifer o flynyddoedd i ddod. Siawns bod budd cyhoeddus ariannol mewn cadw'r math hwnnw o bresenoldeb, o bosibl mewn ffordd wahanol? Rhaid iddynt ei defnyddio mewn rhyw ffordd.

**Carl Sargeant:** Of course, but I do not want to get engaged in the detail of police organisational structures. However, as I said, chief constables in Wales are receiving, not through their own doing, significant cuts to their budgets, which will have a direct impact on policing and the operation of structures within Wales, especially given the concerns expressed by Members in representing their constituents appropriately today.

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, ond nid oes arnaf eisiau mynd i fanylion ynghylch strwythurau trefniadaethol yr heddlu. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae prif gwnstabliaid yng Nghymru yn gweld toriadau sylweddol i'w cyllidebau, nid oherwydd eu gweithredoedd eu hunain, a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar blismona a gweithrediad strwythurau yng Nghymru, yn enwedig wrth ystyried y pryderon a fynegwyd gan Aelodau wrth gynrychioli eu hetholwyr yn briodol heddiw.

Community safety is a strong thread running through the whole of Government. We mentioned the CSOs earlier, and we are also developing legislation to improve the safety and wellbeing of people who have been affected by domestic abuse, with the aim of ending violence against women. Our Bill is a groundbreaking, rights-based approach to keeping women safe, and it will for the first time place a duty on the relevant public sector agencies to respond to and meet the needs of those affected. We could not do that on our own; we need the partnership of those agencies, in working with the police, the third sector and public organisations to deliver on that.

Mae diogelwch cymunedol yn llinyn arian cryf sy'n rhedeg drwy'r Llywodraeth i gyd. Roeddem wedi sôn am swyddogion cymorth cymunedol yn gynharach, ac rydym hefyd yn datblygu deddfwriaeth i wella diogelwch a lles pobl y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, gyda'r nod o roi diwedd ar drais yn erbyn menywod. Mae ein Bil yn torri tir newydd ac yn seiliedig ar hawliau er mwyn cadw menywod yn ddiogel ac, am y tro cyntaf, bydd yn rhoi dyletswydd ar yr asiantaethau sector cyhoeddus perthnasol i ymateb i anghenion y rheini yr effeithir arnynt a diwallu'r anghenion hynny. Ni allem wneud hynny ar ein pen ein hunain; mae angen partneriaeth yr asiantaethau hynny arnom, i weithio gyda'r heddlu, y trydydd sector a sefydliadau cyhoeddus i gyflawni hynny.

Our steering group for this work, which has helped me to develop the contents for the Bill, is drawn from a range of interested parties, most important of which is a service user, a former victim of domestic abuse, Bex Jones, who is keeping the focus on ensuring that the Bill does everything that it can to address the needs of victims.

Daw ein grŵp llywio ar gyfer y gwaith hwn, sydd wedi fy helpu i ddatblygu'r cynnwys ar gyfer y Bil, o amrywiaeth o bartïon sydd â diddordeb, un o'r pwysicaf yw defnyddiwr gwasanaeth, a arferai fod yn ddioddefwr cam-drin domestig, Bex Jones, sy'n cadw'r ffocws ar sicrhau bod y Bil yn gwneud popeth y gall ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr.

I am grateful to the Member for bringing up these issues today and for highlighting the challenges that Wales's police forces face in their work in collaboration with Government and the broader public sector and the voluntary sector in the years to come. I value the contribution made by the officers and staff of the forces in Wales, not only because of the difficult challenges they face in their day-to-day work, but because they have pending redundancies at the back of their minds while they risk their lives daily.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am godi'r materion hyn heddiw ac am dynnu sylw at y sialensiau sy'n wynebu heddluoedd Cymru yn eu gwaith ar y cyd â'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach a'r sector gwirfoddol mewn blynyddoedd i ddod. Rwyf yn gwerthfawrogi cyfraniad swyddogion a staff yr heddluoedd yng Nghymru, nid yn unig oherwydd y sialensiau anodd sy'n eu hwynebu yn eu gwaith bob dydd, ond oherwydd bod colli swyddi yng nghefn eu meddwl wrth iddynt roi eu bywyd yn fantol bob dydd.

As I have said, I am grateful to the Member for highlighting these issues and for the contributions made by many Members today.

Fel yr wyf wedi'i ddweud, rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dynnu sylw at y materion hyn ac am y cyfraniadau a wnaed gan nifer o Aelodau heddiw.

Byron made a very interesting point about the structure of the police forces. Certainly, this is not a new conversation; it has been mooted in the past. I would be very interested in learning more about the Member's views if he would care to write to me on the detail and with his thoughts on active patrols in terms of the policing organisation. We often settle on the comfy elements of doing what we have done for many years, but my door is always open with regard to looking at how we can improve services, and the issue of what the structures will look like in future is an interesting point raised by the Member. I would therefore be happy to accept any representations from the Member, should he wish to write to me.

Roedd gan Byron bwynt diddorol iawn am strwythur yr heddluoedd. Yn sicr, nid yw hon yn sgwrs newydd, mae wedi cael ei chodi yn y gorffennol. Hoffwn glywed mwy am safbwyntiau'r Aelod petai'n ysgrifennu ataf gyda'r manylion a'i syniadau ynghylch patrolau gweithredol o ran y sefydliad plismona. Yn aml byddwn yn bodloni ar elfennau cyfforddus gwneud yr hyn rydym wedi'i wneud ers blynyddoedd lawer, ond mae fy nrws bob amser ar agor ar gyfer edrych ar sut y gallwn wella gwasanaethau. Cododd yr Aelod bwynt diddorol ynghylch sut bethau fydd y strwythurau yn y dyfodol. Byddwn felly'n fodlon derbyn unrhyw sylwadau gan yr Aelod, petai'n dymuno ysgrifennu ataf.

My thanks again for this last debate of this session. I thank the Member for his contributions today and I wish you all well.

Rwyf yn diolch eto am y ddadl olaf hon o'r sesiwn hwn. Rwyf yn diolch i'r Aelod am ei gyfraniadau heddiw ac rwyf yn dymuno'n dda i chi gyd.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.27 p.m.*
*The meeting ended at 6.27 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)

Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)